

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

29/01/2013

Cynnwys Contents

[Datganiad gan y Llywydd](#)
[Statement by the Presiding Officer](#)

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Pwynt o Drefn](#)
[Point of Order](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\)](#)
[Statement: The Introduction of the Social Services and Well-being \(Wales\) Bill](#)

[Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen TB mewn Gwartheg](#)
[Statement: Update on the Bovine TB Programme](#)

[Datganiad: Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19](#)
[Statement: the Government's Response to the Review of Qualifications 14-19](#)

[Datganiad: Y Camau Nesaf yn y Gwaith o Ddiwygio'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin](#)
[Statement: Next Steps in the Reform of Common Agricultural Policy](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio—Darpariaethau i'w Gwneud yn Ofynnol i Gyflenwyr Nwyddau a Gwasanaethau Ddarparu Data Electronig i Gwsmeriaid](#)
[Supplementary Legislative Consent Motion—Enterprise and Regulatory Reform Bill—Provisions to Require Suppliers of Goods and Services to Provide Electronic Data to Customers](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio—Diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr](#)
[Supplementary Legislative Consent Motion - Enterprise and Regulatory Reform Bill - Abolition of the Agricultural Wages Board for England and Wales](#)

[Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus](#)
[Legislative Consent Motion - Public Service Pensions Bill](#)

[Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol \(Cymru a Lloegr\) \(Diwygio\) 2013](#)
[Environmental Permitting \(England and Wales\) \(Amendment\) Regulations 2013](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd
(Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer
(Rosemary Butler) in the Chair.

13:30 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

13:30 **Datganiad gan y Llywydd** **Statement by the Presiding Officer**
Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Before I call the first question, I am sure that Members will wish to join me in conveying our deepest sympathy to Gwenda Thomas on the sudden loss of her beloved husband, Moc. Our thoughts are with Gwenda and her family at this sad time.

Cyn i mi alw'r cwestiwn cyntaf, rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau eisiau ymuno â mi i gyfleu ein cydymdeimlad llwyrfaf â Gwenda Thomas ar ôl iddi golli ei hannwyl ŵr, Moc, yn sydyn. Mae ein meddyliau gyda Gwenda a'i theulu ar yr adeg drist hon.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Mynd i'r Afael â Bwlio yn Nyffryn Clwyd

Tackling Bullying in the Vale of Clwyd

- 13:31 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 1. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael â bwlio mewn ysgolion yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0872(FM)*
- 1. Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to tackle bullying in schools in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0872(FM)*
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We published comprehensive guidance on bullying behaviour in 2011. From April of this year, we will be introducing the Masters in educational practice, which will cover behaviour management, including bullying. In addition, the learning resources on behaviour management will be available through the new Learning Wales website, also from April.
- Cyhoeddwyd canllawiau cynhwysfawr ar ymddygiad bwlio gennym yn 2011. O fis Ebrill eleni, byddwn yn cyflwyno'r radd Meistr mewn ymarfer addysgol, a fydd yn cynnwys rheoli ymddygiad, gan gynnwys bwlio. Hefyd, bydd yr adnoddau dysgu ar reoli ymddygiad ar gael drwy wefan newydd Dysgu Cymru, hefyd o fis Ebrill ymlaen.
- 13:31 **Ann Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that answer, First Minister. I had the pleasure of inviting the Minister for Education and Skills to Prestatyn High School recently to see the I SPY, integrated services protecting the young, project that the school has initiated but also involves the wider community. This has resulted in a group of older pupils being mentors for those who feel that they are not safe. Safe havens have also been included in the town where a child can seek refuge if they are being bullied. Do you think that this is the sort of initiative that we should be looking at sharing across all schools, and do you think that Prestatyn High School deserves praise and recognition for the excellent work that it is achieving?
- Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Cefais y pleser o wahodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau i Ysgol Uwchradd Prestatyn yn ddiweddar i weld yr I SPY, gwasanaethau integredig i amddiffyn yr ifanc, sef prosiect y mae'r ysgol wedi ei sefydlu ond sydd hefyd yn cynnwys y gymuned ehangach. Mae hyn wedi arwain at grŵp o ddisgyblion hŷn yn bod yn fentoriaid i'r rhai sy'n teimlo nad ydynt yn ddiogel. Mae mannau diogel yn y dref wedi'u cynnwys hefyd, lle y gall plentyn gael lloches os yw'n cael ei fwlio. A ydych chi'n credu mai dyma'r math o fenter y dylem fod yn ystyried ei rhannu â phob ysgol, ac a ydych chi'n meddwl bod Ysgol Uwchradd Prestatyn yn haeddu canmoliaeth a chydabyddiaeth am y gwaith rhagorol y mae'n ei gyflawni?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes, absolutely. It is a very impressive scheme and it is encouraging to see the scheme being developed on a sustainable community basis in Prestatyn. I have asked my officials to keep in touch with the progress of I SPY, with a view to sharing it as an example of good practice with local authorities across Wales.
- Ydw, ar bob cyfrif. Mae'n gynllun trawiadol iawn ac mae'n galonogol gweld y cynllun yn cael ei ddatblygu ar sail cymuned gynaliadwy ym Mhrestatyn. Rwyf wedi gofyn i'm swyddogion gadw golwg ar gynnydd I SPY, gyda'r nod o'i rannu fel enghraifft o arfer da gydag awdurdodau lleol ledled Cymru.
- 13:32 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, do you share the concerns of parents in the Vale of Clwyd and elsewhere about the recent comments of Professor Ken Reid that teacher training remains notoriously poor at preparing teachers for bad behaviour, as well as Estyn's view that attendance is a problem in a third of secondary schools? What confidence do you have that your Government will be able to address bullying and absenteeism effectively when, in the view of Estyn, many schools are failing to tackle barely adequate teachers?
- Brif Weinidog, a ydych chi'n rhannu pryderon rhieni yn Nyffryn Clwyd ac mewn mannau eraill am sylwadau diweddar yr Athro Ken Reid bod hyfforddiant athrawon yn dal ag enw hynod o wael am baratoi athrawon ar gyfer ymddygiad drwg, yn ogystal â safbwynt Estyn bod presenoldeb yn broblem mewn un o bob tair ysgol uwchradd? Pa mor ffyddiog ydych chi y bydd eich Llywodraeth yn gallu mynd i'r afael â bwlio ac absenoldeb yn effeithiol pan, ym marn Estyn, fod llawer o ysgolion yn methu ag ymdrin ag athrawon sydd ond prin yn cyrraedd y safon ofynnol?

13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, we continue to ensure that the level of expertise among teachers increases, which is why, of course, we have made plans for a Masters qualification in teaching. In terms of issues such as attendance, if we look at attendance in secondary schools, which you mentioned, we will see that overall absence in secondary schools has been decreasing each year since 2006 from 9.8% to 7.8%, which we very much welcome. That certainly does not accord with what you have just said about truancy somehow being on the way up.
Yn gyntaf oll, rydym yn parhau i sicrhau bod y lefel o arbenigedd ymhlith athrawon yn cynyddu, a dyna pam, wrth gwrs, yr ydym wedi gwneud cynlluniau ar gyfer cymhwyster Meistr mewn addysgu. O ran materion fel presenoldeb, os edrychwn ar bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd, a grybwyllwyd gennych, byddwn yn gweld bod absenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd wedi bod yn gostwng bob blwyddyn ers 2006 o 9.8% i 7.8%, ac rydym yn croesawu hynny'n fawr. Yn sicr, nid yw hynny'n cyd-fynd â'r hyn yr ydych newydd ei ddweud bod triwantaeth yn cynyddu mewn rhyw fodd.

13:33 **Llyr Huws Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Byddwch yn ymwybodol, rwy'n siŵr, Brif Weinidog, bod newid yn y math o fwlio sy'n digwydd mewn ysgolion erbyn hyn, gyda llai o bwyslais ar fwlio corfforol, efallai, a mwy o fwlio drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol. Mae hynny'n arwain at fwy o absenoldebau, wrth gwrs, ac mae hynny hefyd yn ei dro yn effeithio ar gyrhaeddiad o safbwynt rhifedd a llythrennedd. A allwch chi ddweud wrthym beth yn benodol mae eich Llywodraeth chi yn ei wneud i daclo bwlio drwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol?
I am sure that you will be aware, First Minister, that there has been a change in the kind of bullying that happens in schools at present, with less emphasis on physical bullying and more emphasis on bullying through social media. That leads to more absences, of course, and in turn that impacts on achievement in terms of numeracy and literacy. Can you tell us specifically what your Government is doing to tackle bullying through social media?

13:34 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rydym wedi rhoi £300,000 i awdurdodau lleol yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf er mwyn rhoi hyfforddiant i athrawon ynglŷn â phob math o fwlio. Mae'n hollol wir i ddweud bod seiberfwlio, os gallaf ddefnyddio'r term hwnnw, yn broblem sy'n tyfu o flwyddyn i flwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae Mesur Addysg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod hyfforddiant ar gael i lywodraethwyr ynglŷn â hyn. Wrth gwrs, un o'r ffyrdd i helpu plant yw drwy ymgynghorwyr, ac o dan y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) bydd awdurdodau lleol yn gorfod sicrhau bod gwasanaeth ymgynghori ar gael i blant rhwng 11 ac 19 oed yn eu hardaloedd nhw. Drwy gael mynediad i'r gwasanaeth hwnnw bydd mwy o blant yn gallu cael help.
We have provided £300,000 to local authorities in the last academic year in order to give training to teachers on types of bullying. It is entirely right to say that cyber bullying, if I can use that term, is a problem that is getting worse year on year. In addition to that, the Education (Wales) Measure 2011 ensures that training is available for governors on this issue. Of course, one way of helping children is through the advisors, and under the School Standards and Organisation (Wales) Bill local authorities will be required to ensure that an advisory service is available for children aged between 11 and 19 in their areas. By providing access to that service, more children will be assisted.

Addysg yn Nwyrain De Cymru

Education in South Wales East

13:35 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch sut y mae ei bolisiau yn gwella addysg yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0870(FM)
2. Will the First Minister make a statement on how his policies are improving education in South Wales East. OAQ(4)0870(FM)

13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
They can be found in the programme for government.
Gellir eu gweld yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

- 13:35 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that short reply, First Minister. Improving education requires teachers to spend as much time as possible in the classroom. However, it is reported that more than 19,000 school days have been lost in the past three years due to teachers in Gwent being on sick leave with work-related stress. The National Association of Schoolmasters Union of Women Teachers has said that teachers are under too much pressure, often working over 50 hours a week. What is the Welsh Government doing to tackle the causes of stress among teachers in Gwent?
- Diolch i chi am yr ateb cryno yna, Brif Weinidog. Mae gofyn i athrawon dreulio cymaint o amser â phosibl yn yr ystafell ddsbarth er mwyn gwella addysg. Fodd bynnag, dywedir bod mwy na 19,000 o ddiwrnodau ysgol wedi eu colli yn y tair blynedd diwethaf gan fod athrawon yng Ngwent yn absennol oherwydd salwch a straen yn gysylltiedig â gwaith. Mae Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau wedi dweud bod athrawon dan ormod o bwysau, ac yn aml yn gweithio dros 50 awr yr wythnos. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael ag achosion o straen ymhlith athrawon yng Ngwent?
- 13:35 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- This is a matter, ultimately, for headteachers. However, I know that the Minister for Education and Skills, through the union partnership meetings, is able to listen to the concerns of those who represent teachers, and then take action. Regarding those who are suffering from stress, we would expect schools, and local authorities, to intervene as soon as possible, in order to help them.
- Mater i benaethiaid yw hwn yn y pen draw. Fodd bynnag, gwn fod y Gweinidog Addysg a Sgiliau, trwy gyfarfodydd partneriaeth yr undeb, yn gallu gwrandao ar bryderon y rhai sy'n cynrychioli athrawon, ac yna cymryd camau. O ran y rhai sy'n dioddef o straen, byddem yn disgwyl i ysgolion, ac awdurdodau lleol, i ymyrryd cyn gynted â phosibl, er mwyn eu helpu.
- 13:36 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I am sure that you would agree that education and careers advice is important in changing the lives of those leaving Usk and Prescoed prisons, to turn them away from a life of crime. Therefore, why has your Government decided that Careers Wales can no longer work face to face with ex-offenders over the age of 25?
- Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno bod cyngor ar addysg a gyrfaedd yn bwysig i newid bywydau'r rhai sy'n gadael carchardai Brynbuga a Phrescoed, i'w troi oddi wrth fywyd o drosedd. Pam mae eich Llywodraeth wedi penderfynu felly, na all Gyrfa Cymru weithio wyneb yn wyneb â chyn-droseddwr sydd dros 25 oed mwyach?
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- There will be many reasons for that. There will be reasons in terms of who is responsible—us or the UK Government. However, I will write to the Member with further details, to give her a precise answer to her question.
- Bydd llawer o resymau am hynny. Bydd rhesymau o ran pwy sy'n gyfrifol—ni neu Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda rhagor o fanylion, er mwyn rhoi ateb manwl i'w chwestiwn.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

- 13:36 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru*
- First Minister, today, Estyn has reported that we need to achieve better standards of literacy in over half of all primary and secondary schools. We have had a Labour Minister for education in post for 13 years; for three of those years, First Minister, you were in charge. The statistics tell me that we are letting many of our children down. Are you happy with your Government's performance in education?
- Brif Weinidog, mae Estyn wedi dweud heddiw bod angen i ni sicrhau gwell safonau llythrennedd mewn mwy na hanner yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Gweinidog Llafur wedi bod yn gyfrifol am addysg ers 13 mlynedd; chi, Brif Weinidog, oedd yn gyfrifol yn ystod tair o'r rheini. Mae'r ystadegau yn dweud wrthyf nad ydym yn gwneud digon i lawer o'n plant. A ydych chi'n hapus â pherfformiad eich Llywodraeth ym maes addysg?

- 13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I am surprised to learn that I was the Minister for education for three years. To my mind, it was six and a half weeks. That needs to be made clear. As a result of the entrance of her party to Government, I ended up in a different position. This question is topical. We have the literacy and numeracy framework, which has been launched in order to help deliver change for the better.
- Rwyf yn synnu i ddarganfod mai fi oedd y Gweinidog dros addysg am dair blynedd. Chwe wythnos a hanner oedd hi os rwyf yn cofio'n iawn. Mae angen gwneud hynny'n glir. Symudais i swydd wahanol o ganlyniad i'r ffaith i'w phlaid hi ymuno â'r Llywodraeth. Mae'r cwestiwn hwn yn amserol. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd gennym, a lanswyd er mwyn helpu i sicrhau newid er gwell.
- 13:37 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
There has been a Labour Minister for education since the beginning of devolution. We know that the Programme for International Student Assessment is an international standard. In the last test, Wales came thirty-eighth out of 67 countries, and came fortieth for mathematics, and thirtieth for science. Since then, we have had review after review, and we have seen little progress. The target for this year's PISA results is to be in the top 20 for literacy, but your Minister for Education and Skills has already said that that target will not be met. After admitting that you will fail to meet your targets, and following today's Estyn report, are you confident that this year's PISA results will show significant improvement to reach the standards that our parents and pupils expect?
- Mae Gweinidog Llafur wedi bod yn gyfrifol am addysg ers dechrau datganoli. Rydym yn gwybod bod y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr yn safon ryngwladol. Yn y prawf diweddaraf, roedd Cymru yn ddeunawfed ar hugain o 67 o wledydd, ac yn ddeugeinfed ar gyfer mathemateg, a degfed ar hugain ar gyfer gwyddoniaeth. Ers hynny, cynhaliwyd un adolygiad ar ôl y llall, a phrin yw'r cynnydd a welwyd gennym. Y targed ar gyfer canlyniadau PISA eleni yw i fod yn yr 20 uchaf ar gyfer llythrennedd, ond mae eich Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi dweud eisoes na fydd y targed hwnnw'n cael ei gyrraedd. Ar ôl cyfaddef y byddwch yn methu â chyrraedd eich targedau, ac yn dilyn adroddiad Estyn heddiw, a ydych chi'n hyderus y bydd canlyniadau PISA eleni yn dangos gwelliant sylweddol i gyrraedd y safonau y mae ein rhieni a'n disgyblion yn eu disgwyl?
- 13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Minister for Education and Skills has made the point forcefully that there is no target. However, we are confident that we are heading very much in the right direction in terms of providing a good education for the children of Wales. The literacy and numeracy framework is part of that. It is a radical programme, which is designed to help pupils when they need it.
- Mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi nodi'n bendant nad oes targed yn bodoli. Fodd bynnag, rydym yn hyderus ein bod yn sicr yn symud yn y cyfeiriad cywir o ran darparu addysg dda i blant Cymru. Mae'r fframwaith llythrennedd a rhifedd yn rhan o hynny. Mae'n rhaglen radical, sydd wedi'i chynllunio i helpu disgyblion pan fyddant ei hangen.
- 13:39 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Our young people work hard; our teachers work hard. However, they are not getting the results that they deserve. Since devolution, the Minister for education in Wales has been a Labour Minister. You have failed according to the targets that you have set, and you have failed according to the international comparison. First Minister, you must take responsibility and accountability for these failures. Will you give us a guarantee that the Minister for education will remain in post until the next set of PISA results, so that we can judge him on his success, or failure, in that role?
- Mae ein pobl ifanc yn gweithio'n galed; mae ein hathrawon yn gweithio'n galed. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael y canlyniadau y maent yn eu haeddu. Ers datganoli, Gweinidog Llafur fu'r Gweinidog addysg yng Nghymru. Rydych wedi methu ar sail y targedau a osodwyd gennych, ac rydych wedi methu ar sail y gymhariaeth ryngwladol. Brif Weinidog, mae'n rhaid i chi gymryd cyfrifoldeb a bod yn atebol am y methiannau hyn. A wnech chi ein sicrhau y bydd y Gweinidog addysg yn parhau yn ei swydd tan y gyfres nesaf o ganlyniadau PISA, fel y gallwn ei farnu ar ei llwyddiant, neu ei fethiant, yn y swydd honno?
- 13:39 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
'When is your reshuffle?' is the question that I heard there. That will be a matter for me to decide. I am sure that she will know in due course once those who are affected—
[Interruption.]. I promise her that I will not be making any offers to those in her party.
- Pryd ydych chi am ad-drefnu? Dyna'r cwestiwn a glywais yn y fan yna. Mater i mi ei benderfynu fydd hynny. Rwyf yn siŵr y caiff hi wybod maes o law ar ôl rhai yr effeithir arnynt—
[Torri ar draws.]. Rwyf yn addo iddi na fyddaf yn gwneud unrhyw gynigion i'r rhai sydd yn ei phlaid hi.

There is no doubt in my mind that we are heading in the right direction. We have fulfilled the pledge that we made to our students in terms of tuition fees, and we are moving ahead with improving the literacy and numeracy of our children in Wales; I declare an interest here, as I know she will, in terms of us having school-age children. We will also continue to ensure that we work closely with our teachers to ensure that we get the best possible outcomes for pupils.

Nid oes amheuaeth yn fy meddwl ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Rydym wedi cyflawni'r addewid a wnaed i'n myfyrwyr o ran ffioedd dysgu, ac rydym yn symud ymlaen o ran gwella llythrennedd a rhifedd ein plant yng Nghymru; hoffwn ddatgan buddiant yma, fel yr wyf yn gwybod y bydd hithau, gan fod gennym blant o oedran ysgol. Byddwn hefyd yn parhau i sicrhau ein bod yn gweithio'n agos gyda'n hathrawon i sicrhau ein bod yn cael y canlyniadau gorau posibl i ddisgyblion.

13:40

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, when I questioned you about Estyn's annual report this time last year, you told me that you expected to see improvement in the following year. In today's report, Estyn said that the proportion of schools awarded good or excellent judgments is even lower than it was last year. First Minister, where is the improvement that you promised last year?

Brif Weinidog, pan wnes i eich holi am adroddiad blynyddol Estyn yr adeg hon y llynedd, fe'm hysbyswyd gennych eich bod yn disgwyl gweld gwelliant yn y flwyddyn ganlynol. Dywedodd Estyn yn adroddiad heddiw fod cyfran yr ysgolion a dderbyniodd ddyfarniadau da neu ragorol yn is nag yr oedd y llynedd hyd yn oed. Brif Weinidog, ble mae'r gwelliant a addawyd gennych y llynedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I share her concerns about the number of local authorities that are not performing as well as they should. It is one of the reasons why the Minister has brought forward an in-depth review of the effectiveness of the current education delivery system in Wales. As far as the rest of the report is concerned, there are encouraging areas and areas that are identified as needing attention. It is important that the report is open and honest to ensure that those areas are attended to.

Rwyf yn rhannu ei phryderon am nifer yr awdurdodau lleol nad ydynt yn perfformio cystal ag y dylent. Dyma un o'r rhesymau pam mae'r Gweinidog wedi cyflwyno adolygiad manwl o effeithiolrwydd y system gyfredol o ddarparu addysg yng Nghymru. Cyn belled ag y mae gweddill yr adroddiad yn y cwestiwn, ceir meysydd calonogol meysydd y nodir bod angen rhoi sylw iddynt. Mae'n bwysig bod yr adroddiad yn agored ac yn onest er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i'r meysydd hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you promised this Chamber last year that there would be improvement, yet the number of schools getting a 'good' or 'excellent' judgment has gone down. Your Minister for education says that his priorities are literacy, numeracy and breaking the link between poverty and low levels of attainment, but today's report states that there are no national benchmarks or national targets for outcomes for disadvantaged pupils. If breaking that link between poverty and low levels of attainment is your Government's priority, why do you not measure how well you are doing?

Brif Weinidog, gwnaed addewid gennych i'r Siambr hon y llynedd y byddai gwelliant, ac eto mae nifer yr ysgolion sy'n derbyn dyfarniad 'da' neu 'ragorol' wedi gostwng. Mae eich Gweinidog addysg yn dweud mai llythrennedd, rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a lefelau isel o gyrhaeddiad yw ei flaenoriaethau, ond mae adroddiad heddiw yn datgan nad oes unrhyw feincnodau cenedlaethol na thargedau cenedlaethol ar gael ar gyfer canlyniadau i ddisgyblion difreintiedig. Os mai torri'r cysylltiad hwnnw rhwng tlodi a lefelau isel o gyrhaeddiad yw blaenoriaeth eich Llywodraeth, pam nad ydych yn mesur pa mor dda yr ydych yn llwyddo?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

She now seems to be talking down the pupil deprivation grant that she was instrumental in establishing in the first place. If you look at any figure in terms of school performance, you will see that school performance has increased over the last few years. For example, the number of pupils achieving the level 2 threshold has increased by seven points since 2006-07. The gap in performance between pupils receiving free school meals and those who do not is something that we intend for the pupil deprivation grant to address. It takes some time for the grant to have effect, but I am sure that she will join me in wishing to see that grant having the maximum possible effect in the future.

Mae'n ymddangos bellach ei bod yn beirniadu'r grant amddifadedd disgyblion yr oedd hi'n rhan allweddol o'i sefydlu yn y lle gyntaf. Os edrychwch ar unrhyw ffigur o ran perfformiad ysgolion, byddwch yn gweld bod perfformiad ysgolion wedi gwella dros y blynyddoedd diweddar. Er enghraifft, mae nifer y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 wedi cynyddu o saith pwynt ers 2006-07. Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n derbyn pryddau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn rhywbeth yr ydym yn bwriadu i'r grant amddifadedd disgyblion fynd i'r afael ag ef. Mae'n cymryd cryn amser i'r grant gael effaith, ond rwyf yn siŵr y bydd yn ymuno â mi o ran dymuno gweld y grant hwnnw yn cael yr effaith fwyaf sy'n bosibl yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, if it is a Government priority why do you not take steps to measure in order to see how you are doing? We can trade quotes from Estyn's report; for instance, it is stated that standards of writing are a concern across all sectors, attendance is not good enough in over a third of secondary schools and many schools do not do enough to monitor the progress of pupils from poorer backgrounds. Turning to the pupil deprivation grant, given the outcomes outlined in Estyn's report today, do you regret ignoring the Welsh Liberal Democrats' proposals to substantially increase funding for our poorest pupils in budget discussions for the next financial year?

Brif Weinidog, os yw'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth, pam na wnewch chi gymryd camau i fesur er mwyn gweld pa mor dda yr ydych yn perfformio? Gallwn gyfnewid dyfyniadau o adroddiad Estyn; nodir, er enghraifft, bod safonau ysgrifennu yn bryder ar draws pob sector, nid yw presenoldeb yn ddigon da mewn mwy nag un o bob tair o ysgolion uwchradd ac mae llawer o ysgolion nad ydynt yn gwneud digon i fonitro cynnydd disgyblion o gefndiroedd tlotach. Gan droi at y grant amddifadedd disgyblion, o ystyried y canlyniadau a amlinellir yn adroddiad Estyn heddiw, a ydych chi'n difaru anwybyddu cynigion Democratiaid Rhyddfrydol Cymru mewn trafodaethau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i gynyddu cyllid ar gyfer ein disgyblion tlotaf yn sylweddol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:43

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

She knows full well that a number of issues were discussed in the course of those budget discussions, and that we could only go on the issues that she raised. We were more than happy to accept her proposals for the pupil deprivation grant when they came about, but we know that the financial situation is such that there are many competing priorities. She asked what we are doing. Our national implementation plan for 3-16 education is taking us forward, as is the national literacy and numeracy framework. We are developing and training leaders for the future. However, it is right to say that Estyn flags up a number of concerns, one of which is that there is inconsistency in local authority performance regarding education delivery. That is something that will need to be addressed as part of the review.

Mae hi'n gwybod yn iawn y trafodwyd nifer o faterion yn ystod y trafodaethau hynny ar y gyllideb, ac y gallem ond ystyried y materion a godwyd ganddi. Roeddem yn fwy na bodlon i dderbyn ei chynigion ar gyfer y grant amddifadedd disgyblion pan y'u derbyniwyd, ond gwyddom fod y sefyllfa ariannol sydd ohoni yn golygu bod llawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu. Gofynnodd beth yr ydym yn ei wneud. Mae ein cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer addysg 3-16 oed yn ein symud ymlaen, ac felly hefyd y fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol. Rydym yn datblygu a hyfforddi arweinywyr ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n gywir i ddweud bod Estyn yn nodi nifer o bryderon, ac un ohonynt yw y ceir anghysondeb o ran perfformiad awdurdodau lleol wrth ddarparu addysg. Mae hynny'n rhywbeth y bydd angen mynd i'r afael ag ef fel rhan o'r adolygiad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

First Minister, you kindly issued a statement before Plenary about your trip to Ireland. You recently undertook a trip to Turkey as well. How many Welsh businesses did you take on those trips?

Brif Weinidog, roeddech yn ddigon caredig i gyhoeddi datganiad i'r Cyfarfod Llawn am eich taith i Iwerddon. Aethoch ar daith i Dwrci'n ddiweddar hefyd. Faint o fusnesau o Gymru ddaeth gyda chi ar y teithiau hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They were not trade missions. The next trade mission is to San Francisco, where, at the last count, 15 businesses will accompany me.

Nid teithiau masnach oedden nhw. Bydd y daith fasnach nesaf i San Francisco, pryd y bydd, o'r cyfrif diwethaf, 15 o fusnesau yn dod gyda mi.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:44

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have to correct you because they were marketed as trade trips; I have a written answer upstairs that highlights them as being trade trips. Your statement also talks about exploring the opportunities of trade trips and business and commerce. The best way to do that is to take Welsh businesses with you. For example, Ireland is a very important customer of ours—both import and export—but has no dedicated budget at all for the marketing of Wales as an attractive place for inward investment. Today, for example, we rang Dublin Airport and found that you could take advertising space there that would promote Wales for £6,000 a year. We have no budget at all to promote Wales as an attractive place for inward investment, yet you as First Minister go out to the Republic on a ministerial trip and offer nothing in substance. When are you going to start engaging with Welsh businesses so that Wales can be promoted actively as an attractive place for inward investment?

Mae'n rhaid i mi eich cywiro gan y cawsant eu marchnata fel teithiau masnach; mae gen i ateb ysgrifenedig i fyny'r grisiau sy'n eu nodi fel teithiau masnach. Mae eich datganiad hefyd yn sôn am archwilio cyfleoedd teithiau masnach a busnes a masnach. Y ffordd orau o wneud hynny yw mynd â busnesau Cymru gyda chi. Er enghraifft, mae Iwerddon yn gwsmer pwysig iawn i ni—o ran mewnfurio ac allforio—ond nid oes cyllideb neilltuedig ar ei chyfer o gwbl er mwyn marchnata Cymru fel lle deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi. Heddiw, er enghraifft, ffonwyd Maes Awyr Dilyn gennym gan ganfod y gallech gymryd gofod hysbysebu yno a fyddai'n hyrwyddo Cymru am £6,000 y flwyddyn. Nid oes gennym unrhyw gyllideb o gwbl i hyrwyddo Cymru fel lle deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi, ac eto rydych chi fel Prif Weinidog yn mynd allan i'r Weriniaeth ar daith weinidogol ac yn cynnig dim o werth. Pryd ydych chi'n mynd i ddechrau ymgysylltu â busnesau Cymru fel y gellir hyrwyddo Cymru fel lle deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi?

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Funnily enough, I chaired the council for economic renewal yesterday, which is as engaging as you can get, and I can promise the leader of the opposition that Welsh businesses fully support the trade missions. One of the things that they wanted to see re-established quickly was a regular programme of trade missions and that is what they have had. In terms of Ireland, I can inform him that we will be placing someone full time in Dublin as a representative of the Welsh Government. They will be working alongside, and embedded with, UK Trade and Investment. There are a number of opportunities that will emerge in Ireland as the Republic comes out of the difficult economic situation that it has seen itself having to deal with. With San Francisco, there is a full trade mission. There is a difference between a visit and a trade mission. The trade mission will be to San Francisco. I will lead that, as I led trade missions to India and to China.

Yn rhyfedd ddigon, cadeiriais y cyngor adnewyddu'r economi ddoe, sy'n golygu cymaint o ymgysylltu ag sy'n bosibl, a gallaf addo i arweinydd yr wrthblaid bod busnesau Cymru yn cefnogi'r teithiau masnach yn llwyr. Un o'r pethau yr oeddent yn awyddus i'w weld yn cael ei ail-sefydlu yn gyflym oedd rhaglen reolaidd o deithiau masnach a dyna'r hyn y maen nhw wedi ei gael. O ran Iwerddon, gallaf ei hysbysu y byddwn yn rhoi rhywun yn llawn amser yn Nulyn fel cynrychiolydd Llywodraeth Cymru. Bydd yn gweithio ochr yn ochr â Masnach a Buddsoddi y DU, a bydd wedi'i ymsefydlu a hwnnw. Ceir nifer o gyfleoedd a fydd yn dod i'r amlwg yn Iwerddon wrth i'r Weriniaeth ddianc y sefyllfa economaidd anodd y mae wedi gweld ei hun yn gorfod ymdrin â hi. Ceir taith fasnach lawn i San Francisco. Mae gwahaniaeth rhwng ymweliad a thaith fasnach. I San Francisco fydd y daith fasnach. Fi fydd yn arwain honno, fel yr arweiniais deithiau masnach i India ac i Tsieina.

13:46

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, on this side of the Chamber, we have no objection to trade missions. In fact, in our manifesto, we highlighted how the Welsh Government, if it was a Conservative Welsh Government, would engage in promoting Wales positively. However, your statement does refer to your visit being about trade. I find it ironic that you have chosen not to take any Welsh companies with you when you have gone to Turkey or to the Republic of Ireland to promote Wales as a destination for trade. If you look at the recent figures, which I have highlighted to you before, you will see that exports to North America, for example, are down 9%. Exports to Asia and Oceania are down by 6%. Those are two areas where you have undertaken trade missions in the fourth Assembly. When are you going to start working with Welsh business and industry so that the resource of Government and the resource of industry can be put to best effect so that Wales can be seen in a positive light for inward investment? At the moment, the impression that many are getting is that this is a vanity project, with the First Minister going around to promote his own ego. It is about time that these figures were arrested and turned around so that Wales becomes an attractive place for inward investment, in order to avoid the year-on-year decline that we are seeing.

Brif Weinidog, nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i deithiau masnach ar yr ochr hon i'r Siambr. Yn wir, amlygwyd yn ein manifestio sut y byddai Llywodraeth Cymru, pe byddai'n Llywodraeth Cymru Geidwadol, yn hyrwyddo Cymru mewn modd cadarnhaol. Fodd bynnag, mae eich datganiad yn cyfeirio at y ffaith mai masnach oedd diben eich ymweliad. Rwyf yn ei chael yn eironig eich bod wedi dewis peidio â mynd ag unrhyw gwmnïau o Gymru gyda chi pan aethoch i Dwrci neu i Weriniaeth Iwerddon i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan ar gyfer masnach. Os edrychwch ar y ffigurau diweddar, a amlygwyd gennyf i chi o'r blaen, byddwch yn gweld bod allforion i Ogledd America, er enghraifft, wedi gostwng 9%. Mae allforion i Asia ac Ynysoedd y De wedi gostwng 6%. Mae'r rheini'n ddwy ardal yr ydych wedi ymweld â hwy ar deithiau masnach yn ystod y pedwerydd Cynulliad. Pa bryd ydych chi'n mynd i ddechrau gweithio gyda busnes a diwydiant Cymru fel y gellir defnyddio adnoddau'r Llywodraeth ac adnoddau diwydiant i sicrhau'r effaith orau fel y gall Cymru gael ei hystyried fel lle cadarnhaol ar gyfer mewnfuddsoddi? Ar hyn o bryd, yr argraff y mae llawer yn ei chael yw mai prosiect ymffrost yw hwn, wrth i'r Prif Weinidog fynd o gwmpas yn hyrwyddo ei ego ei hun. Mae'n hen bryd rhoi terfyn ar y ffigurau hyn a'u gweddnewid fel bod Cymru'n dod yn lle deniadol ar gyfer mewnfuddsoddi, er mwyn osgoi'r dirywiad yr ydym yn ei weld o flwyddyn i flwyddyn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I fear that the leader of the opposition has not been straight with the Chamber. If he looks at the actual export figures, and not at what his advisers give him, he will see that exports to India have almost doubled in the year to which we have figures. He will see that exports to the United States have increased in that time, although he is right to point out that exports to China have decreased. The reality of it is that, whereas I spend my time promoting Wales around the world, he would sit on his backside if he were in my position and go nowhere at all. The reality is that I have seen his press releases; they go on about jet-setting around the world, but he knows nothing about this at all. The reality is that he has done nothing and would do nothing to sell Wales around the world. What has his Prime Minister done for Wales? He goes on trade missions. What has he brought back for Wales? Nothing; absolutely nothing at all. I refer him to the investment that was brought back from Tata in India. There will be others in the pipeline following the visit to Turkey and to India. The difference is that we take selling Wales and getting investment seriously, whereas his party would sell Welsh businesses down the river.

Mae arnaf ofn nad yw arweinydd yr wrthblaid wedi bod yn onest gyda'r Siambr. Pe bai'n edrych ar y ffigurau allforio gwirioneddol, ac nid ar yr hyn y mae ei gynghorwyr yn ei roi iddo, byddai'n gweld bod allforion i India bron wedi dyblu yn ystod y flwyddyn y mae gennym ffigurau ar ei chyfer. Bydd yn gweld bod allforion i'r Unol Daleithiau wedi cynyddu yn ystod y cyfnod hwnnw, er ei fod yn gywir i nodi bod allforion i Tsieina wedi gostwng. Gwirionedd hynny yw, tra fy mod i'n treulio fy amser yn hyrwyddo Cymru ledled y byd, y byddai ef, pe bai yn fy sefyllfa i, yn eistedd ar ei ben ôl heb fynd i unman o gwbl. Y gwirionedd yw fy mod wedi gweld ei ddatganiadau i'r wasg; maen nhw'n sôn am hedfan i bedwar ban byd, ond nid yw'n gwybod dim am hyn o gwbl. Y gwirionedd yw nad yw ef wedi gwneud dim ac na fyddai'n gwneud dim i werthu Cymru ledled y byd. Beth mae ei Brif Weinidog ef wedi ei wneud i Gymru? Mae yntau'n mynd ar deithiau masnach. Beth mae ef wedi ei ddod yn ôl i Gymru? Dim byd; dim byd o gwbl. Fe'i cyfeiriaf at fuddsoddiad Tata a ddaeth yn sgil yr ymweliad ag India. Bydd eraill yn digwydd yn dilyn yr ymweliadau â Thwrci ac India. Y gwahaniaeth yw ein bod ni'n cymryd gwerthu Cymru a chael gafael ar fuddsoddiad o ddirif, tra y byddai ei blaid ef yn bradychu busnesau Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:48

Byron Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You can take him with you next time.

Cewch fynd ag ef gyda chi y tro nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Prosiectau Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

Renewable Energy Generation Projects

- 13:48 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
3. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hybu gwerth am arian mewn prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled Cymru. OAQ(4)0873(FM)
3. What is the Welsh Government doing to promote value for money in renewable energy generation projects across Wales. OAQ(4)0873(FM)
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I am still chuckling at the comment made by Byron Davies, suggesting that I should take his leader with me next time and, presumably, not bring him back. I have never heard such brutal and honest criticism about a party leader expressed in the Chamber before.
Rwyf yn dal i chwerthin ar y sylw a wnaed gan Byron Davies, yn awgrymu y dylwn i fynd â'i arweinydd gyda mi y tro nesaf ac, rwy'n tybio, peidio â dod ag ef yn ôl. Nid wyf erioed wedi clywed beirniadaeth mor greulon ac onest am arweinydd plaid yn cael ei fynegi yn y Siambr o'r blaen.
In response to the Member's question, as set out in 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', our expectation is value for Wales from the energy sector in the form of investment benefits for our economy. This is important. We understand the need to make sure that when we look at renewable energy, all projects are considered, both large and small.
Gan ymateb i gwestiwn yr Aelod, fel y nodir yn 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isef', rydym yn disgwyl gwerth o'r sector ynni i Gymru ar ffurf buddion buddsoddi i'n heconomi. Mae hyn yn bwysig. Rydym yn deall yr angen i wneud yn siŵr yr ystyrir pob prosiect, mawr a bach, pan fyddwn yn ystyried ynni adnewyddadwy.
- 13:49 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
During the recent snow, my office did a survey of houses in streets where there are a lot of houses in multiple occupation. That is because it is obvious that the houses with no snow on the roofs are the ones with the worst roof insulation. What can the Government do to ensure increased landlord take-up of private available renewable energy schemes? I was disappointed that Nest has done fewer than 300 actual installations. What is the Government's view of the latest Green Deal from the UK Government, where there is considerable concern being expressed about the amount of interest to be charged by the installation companies? What can we do to improve on this for private tenants?
Yn ystod yr eira diweddar, cynhaliodd fy swyddfa arolwg o dai mewn strydoedd lle ceir llawer o dai amffeddiannaeth. Mae hynny oherwydd ei bod yn amlwg mai'r tai lle nad oes eira ar y toeau yw'r rhai sydd â'r inswleiddiad to salaf. Beth all y Llywodraeth ei wneud i sicrhau bod mwy o landlordiaid yn manteisio ar gynlluniau ynni adnewyddadwy sydd ar gael yn breifat? Roeddwn yn siomedig bod Nest wedi cyflawni llai na 300 o osodiadau. Beth yw barn y Llywodraeth ar y Fargen Werdd ddiweddaraf gan Lywodraeth y DU, lle mae pryder sylweddol yn cael ei fynegi am faint o log fydd yn cael ei godi gan y cwmnïau gosodiadau? Beth allwn ni ei wneud i wella hyn i denantiaid preifat?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The plans to introduce a mandatory registration and licensing scheme for all landlords and letting and management agents in the private rented sector, will result in far more detailed information on where landlords are and on the properties that they own. That information will enable initiatives, such as the Green Deal, to be targeted as specific parts of the private rented sector, including houses in multiple occupation.
Bydd y cynlluniau i gyflwyno cynllun cofrestru a thrwyddedu gorfodol i bob landlord ac asiant gosod a rheoli yn y sector rhentu preifat, yn arwain at wybodaeth lawer fwy manwl am leoliad landlordiaid ac am y cartrefi y maen nhw'n berchen arnynt. Bydd y wybodaeth honno'n galluogi mentrau, fel y Fargen Werdd, i gael eu targedu fel rhannau penodol o'r sector rhentu preifat, gan gynnwys tai amffeddiannaeth.
- 13:50 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, nearly a year ago in 'Energy Wales: A Low Carbon Transition', you clearly stated that the Government will look to focus its resources on energy projects that will bring the best and most potential to Wales. You will be aware that of all renewable energy technologies, it is hydro-electricity energy generation that provides the best energy return to the consumer for energy invested. Yet, Wales is only generating around 13% of renewable energy from this sector. With developers experiencing recurring problems with the Environment Agency regarding licensing, do you think that Wales could and should be doing better?
Brif Weinidog, bron i flwyddyn yn ôl yn 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isef', nodwyd yn eglur gennyhch mai nod y Llywodraeth fydd canolbwyntio ei adnoddau ar brosiectau ynni a fydd yn dod â'r potensial mwyaf a gorau posibl i Gymru. Byddwch yn ymwybodol mai cynhyrchiad ynni trydan dŵr, o'r holl dechnolegau ynni adnewyddadwy, sy'n darparu'r enillion ynni gorau i'r defnyddiwr ar gyfer ynni a fuddsoddiwyd. Ac eto, dim ond 13% o ynni adnewyddadwy y mae Cymru'n ei gynhyrchu o'r sector hwn. Wrth i ddatblygwyr gael problemau dro ar ôl tro gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ynghylch trwyddedu, a ydych chi'n credu y dylai, ac y gallai, Cymru wneud yn well?

13:51

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We seek to encourage all forms of renewable energy. There is a limit as to how much there should be in any particular area of Wales but, ultimately, this is governed by the subsidy system through the renewable obligation certificates. In that sense, we are tied in to England. We would like to see ourselves in the same situation as Scotland, where we have control of those certificates and are better able to target our resources, particularly in wave and tidal power, where we have a significant advantage over Scotland in terms of geography, but a disadvantage in terms of subsidy. That is something that we want to see resolved.

Rydym ni'n ceisio annog pob math o ynni adnewyddadwy. Mae cyfyngiad o ran faint a ddylai fod mewn unrhyw ardal benodol o Gymru ond, yn y pen draw, rheolir hyn gan y system gymhorthdal drwy'r tystysgrifau rhwymedigaeth ynni adnewyddadwy. Yn yr ystyr hwnnw, rydym yn gaeth i Loegr. Hoffem weld ein hunain yn yr un sefyllfa â'r Alban, lle y byddai gennym reolaeth ar y tystysgrifau hynny ac y byddem yn gallu targedu ein hadnoddau'n well, yn enwedig o ran ynni'r tonnau a'r llanw, lle mae gennym fantais sylweddol dros yr Alban o ran daearyddiaeth, ond anfantais o ran cymhorthdal. Mae hynny'n rhywbeth yr ydym am ei weld yn cael ei ddatrys.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:52

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, cyn bo hir, bydd yn rhaid i nifer o awdurdodau lleol yng Nghymru benderfynu ar eu cynlluniau ynni o wastraff, sef llosgi gwastraff i gynhyrchu ynni. Mae hyn yn cael ei gyfrif, yn rhyfedd iawn, fel ynni adnewyddadwy yn ôl y rheolau. Wrth i'r awdurdodau benderfynu ar hyn, a gredwch chi fod y newid technolegol sydd wedi digwydd ers dechrau'r broses hon yn 2008 yn golygu bod llosgi gwastraff yn dal i gynnig gwerth am arian yn y sector gyhoeddus yng Nghymru?

First Minister, before too long, a number of local authorities in Wales will have to make decisions on their energy-from-waste plans, which means the use of incineration to produce energy. That, strangely enough, is counted as renewable energy according to the rules. As authorities make these decisions, do you think that the change in technologies that has happened since the start of this process in 2008 means that the incineration of waste still provides value for money within the public sector in Wales?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:52

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Mae gwahaniaeth rhwng llosgi sbwriel a llosgi sbwriel er mwyn creu ynni; nid yw'r ddau'r un peth. Bydd yn rhaid i beth ohono gael ei losgi'r naill ffordd neu'r llall. Hoffwn weld sefyllfa lle mae sbwriel yn cael ei ddefnyddio i greu ynni. Bydd yr Aelod yn ymwybodol bod hierarchaeth ynghylch y ffordd yr hoffem weld sbwriel a gwastraff yn cael eu trin. Ar waelod yr hierarchaeth honno mae claddu, ac mae ailgylchu ar ben yr hierarchaeth. Felly, mae technoleg wedi newid; mae'n wir fod cyfleoedd o safbwynt llosgi er mwyn creu ynni. Buaswn yn erfyn ar awdurdodau lleol i ystyried y dechnoleg yn fanwl cyn penderfynu ar eu safbwyntiau.

There is a difference between the incineration of waste and incinerating waste to create energy; they are not the same thing. Some of the waste will have to be dealt with by one form of incineration or another. I would like to see a situation where waste is used to create energy. The Member will be aware that there is a hierarchy as regards the way in which we wish to see rubbish and waste being dealt with. At the bottom of that hierarchy is landfill, and recycling is at the top. Therefore, technology has changed; it is true that there are opportunities in terms of incineration to generate energy. I would urge local authorities to consider the technology carefully before deciding on their stance on this.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Ardaloedd Menter

Enterprise Zones

13:53

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

4. *A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Ardaloedd Menter yng Nghymru. OAQ(4)0877(FM)*

4. *Will the First Minister provide an update on the progress of Enterprise Zones in Wales. OAQ(4)0877(FM)*

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:53

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science made a statement on this last week.

Gallaf. Gwnaeth y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ddatganiad ar hyn yr wythnos diwethaf. Fe'ch cyfeiriaf at y datganiad llafar yr wythnos diwethaf ar ardaloedd menter.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:53 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister. The Minister's statement last week did set out how the policy is shaping up on the ground, and I welcome the progress thus far.
- Diolch i chi, Brif Weinidog. Nodwyd yn natganiad y Gweinidog yr wythnos diwethaf sut y mae'r polisi'n datblygu ar lawr gwlad, ac rwy'n croesawu'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn.
- My question is about how the zones are boosting small and medium-sized businesses, particularly those that qualify for the business rate part of the scheme. The first round of applications is due to close on 11 February. What is the Government doing to get word out about the business rate scheme to those SMEs?
- Mae fy nghwestiwn yn ymwneud â sut y mae'r parthau yn rhoi hwb i fusnesau bach a chanolig eu maint, yn enwedig y rhai sy'n gymwys ar gyfer rhan ardrethi busnes y cynllun. Bydd y rownd gyntaf o geisiadau yn cau ar 11 Chwefror. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i hysbysebu'r cynllun ardrethi busnes i'r BBaChau hynny?
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is writing to all Members with details of how the scheme is being publicised; this includes active promotion through a range of channels, including social media, local press and direct mail to businesses in the zones.
- Mae'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ysgrifennu at yr holl Aelodau i rannu manylion am sut y mae'r cynllun yn cael ei hysbysebu; mae hyn yn cynnwys hyrwyddo ymarferol trwy amrywiaeth o sianelau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, y wasg leol a phost uniongyrchol i fusnesau yn y parthau.
- 13:54 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Following the Minister's statement last week regarding progress being made on enterprise zones, I am sure that you are aware that she mentioned the possibility of discussions beginning regarding resurrecting the idea of a virtual enterprise zone in the south-east Wales area covering Torfaen, Monmouthshire and possibly Newport. Can you tell us whether you back these proposals personally and what point those discussions have reached?
- Yn dilyn datganiad y Gweinidog ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran parthau menter yr wythnos diwethaf, rwyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol iddi grybwyll y posibilrwydd o gychwyn trafodaethau ar atgyfodi'r syniad o barth menter rhithwir yn ardal de-ddwyrain Cymru, yn cynnwys Tor-faen, Sir Fynwy, a Chasnewydd o bosibl. A allwch chi ddweud wrthym a ydych chi'n cefnogi'r cynigion hyn yn bersonol a pha bwynt y mae'r trafodaethau hynny wedi ei gyrraedd?
- 13:55 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- Yes, of course. There is great merit in a virtual enterprise zone. They need not all be physical in that sense, and they tie in well with Superfast Cymru and our plans to improve broadband speeds across the whole of Wales. I know that the Minister is considering this in great detail.
- Gallaf, wrth gwrs. Mae llawer o werth mewn parth menter rhithwir. Nid oes angen i bob un ohonynt fod yn ffisegol yn yr ystyr hwnnw, ac maen nhw'n cyd-fynd yn dda gyda Chyflymu Cymru a'n cynlluniau i wella cyflymder band eang ledled Cymru gyfan. Gwn fod y Gweinidog yn ystyried hyn yn fanwl iawn.
- 13:55 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, sut fyddwch yn sicrhau na fydd y parthau menter hyn yn denu cwmnïau sydd eisoes wedi eu sefydlu mewn rhannau eraill o Gymru nad oes ganddynt y manteision sydd gan y parthau menter? Dyma un o'r beirniadaethau mawr o'r syniad o barthau menter. Felly, pa sicrwydd a wnewch chi ei roi na fydd hyn yn digwydd yn y dyfodol, gan nad ydyw, mewn gwirionedd, o unrhyw les i'r economi?
- First Minister, how will you ensure that these enterprise zones will not attract companies that are already established in other parts of Wales but which do not have the advantages offered in the enterprise zones? This is one of the great criticisms of the idea of enterprise zones. Therefore, what guarantee will you give that this will not happen in future, because, in all honesty, it will not be of any benefit to the economy?

13:55	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yr hyn rydym yn ei wneud yw sicrhau bod gan bob parth menter thema. Er enghraifft, ym Mro Morgannwg, y thema yw sicrhau swyddi ym maes 'aerospace' ac awyrennau. Drwy wneud hynny, rydym wedi ceisio sicrhau bod y parthau menter yn datblygu diwydiannau sydd yn yr ardaloedd hynny yn barod a thynnu mwy o gwmnïau i mewn i Gymru ac nid o wahanol rannau o Gymru. Rwy'n derbyn y pwynt, ond nid oes tystiolaeth, hyd yn hyn, y bydd hyn yn arwain at fusnesau yn symud o'r naill ran o Gymru i'r llall.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>What we are doing is ensuring that every enterprise zone is themed. For example, in the Vale of Glamorgan, the theme is securing jobs in the fields of aerospace and aeroplanes. To do that, we have tried to ensure that the enterprise zones develop industries that already exist in those areas so that they will attract more companies into Wales rather than shifting them around Wales. I accept the point, but there is no evidence to date that this will lead to businesses relocating from one part of Wales to another.</p>
<p>Teithiau a Gymerir ar Fysiau neu ar Drenau ledled Cymru</p>	<p>Journeys Taken by Bus or Train across Wales</p>	
13:56	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y teithiau a gymerir ar fysiau neu ar drenau ledled Cymru. OAQ(4)0880(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p><i>5. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's plans to increase the number of journeys taken by bus and train across Wales. OAQ(4)0880(FM)</i></p>
13:56	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We know that more journeys are being undertaken by bus and, certainly, more are being undertaken by rail. Between 4% and 5% of journeys are undertaken by bus and about 3% by rail. To improve the situation, we have the review of bus funding, additional train services, better rolling stock and investment in stations.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Rydym yn gwybod bod mwy o deithiau yn cael eu gwneud ar fysiau ac, yn sicr, mae mwy yn cael eu gwneud ar y rheilffordd. Cyflawnir rhwng 4% a 5% o deithiau ar fws a thua 3% ar y rheilffordd. Mae'r adolygiad o gyllid bysiau, gwasanaethau trên ychwanegol, gwell cerbydau a buddsoddiad mewn gorsafoedd ar y gweill gennym er mwyn gwella'r sefyllfa.</p>
13:57	<p>Eluned Parrott Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, First Minister. You will be aware that improving access to stations is a great way to boost numbers, particularly in rural areas. You will also know that, last week, the Department for Transport announced a fund of £20 million to develop new small stations, from which shovel-ready projects like Carno station might be well placed to benefit. However, you have also identified places like Hirwaun and St Mellons in my region as places from which you would like to see passenger services operate. What steps can you now take to make sure that they are shovel ready for the next round of funding that might be available?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Byddwch yn ymwybodol bod gwella mynediad i orsafoedd yn ffordd wych o roi hwb i niferoedd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Byddwch hefyd yn gwybod bod yr Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi cronfa o £20 miliwn yr wythnos diwethaf i ddatblygu gorsafoedd bach newydd, a allai fod o fudd mawr i brosiectau sy'n barod i'w cychwyn, fel gorsaf Carno. Fodd bynnag, rydych hefyd wedi nodi lleoedd fel Hirwaun a Llaneirwg yn fy rhanbarth i fel lleoedd yr hoffech weld gwasanaethau i deithwyr yn gweithredu ohonynt. Pa gamau allwch chi eu cymryd nawr i wneud yn siŵr eu bod yn barod i'w cychwyn erbyn y rownd nesaf o gyllid a allai fod ar gael?</p>
13:57	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We have a number of stations that have been looked at. She mentioned a number of stations where there are plans for the future and which are waiting for funding. Any new money to improve stations will be very welcome, and we will seek details as to how the funding that she referred to will be distributed.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Mae gennym nifer o orsafoedd sydd wedi bod dan ystyriaeth. Nodwyd nifer o orsafoedd ganddi lle y ceir cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac sy'n aros am gyllid. Byddai unrhyw arian newydd i wella gorsafoedd yn cael ei groesawu'n fawr, a byddwn yn gofyn am fanylion y modd y bydd y cyllid y cyfeiriodd hi ato yn cael ei ddosbarthu.</p>

- 13:57 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Mae astudiaeth ddichonoldeb o reolaeth gymunedol o reilffordd Calon Cymru, sy'n teithio drwy Lanelli, ar fin digwydd. Y bwriad a'r gobaith yw cynyddu'r niferoedd sy'n teithio ar y trên a gwella lincs gyda llwybrau bysys. A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar unrhyw drafodaethau gyda chynrychiolwyr rheilffordd Calon Cymru am archwilio modelau perchnogaeth ddielw pan ddaw'r amser i adnewyddu'r fasnachfaint yn 2018?
- The Heart of Wales line that travels through Llanelli is about to carry out a feasibility study on community management of the line. The hope and intention is to increase the number of passengers using the train and improve the links with bus routes. Will the First Minister give an update on any discussions with representatives of the Heart of Wales line in terms of looking into not-for-profit models when the time comes to renew the franchise in 2018?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Dechreuodd y Gweinidog alw am dystiolaeth ar y mater hwn ym mis Hydref y llynedd. Roedd cynrychiolydd o'r rheilffordd yno. Rydym wedi bod yn cefnogi gwaith y fforwm i ffeindio ffyrdd i wella'r rheilffordd, ac mae trafodaeth ar hyn o bryd rhwng y diwydiant a'r fforwm, sef fforwm rheilffordd Calon Cymru, er mwyn sicrhau bod pawb yn deall beth yw'r camau nesaf ynglŷn â chreu astudiaeth 'feasibility' o reolaeth gymunedol o'r rheilffordd.
- The Minister initiated a call for evidence on this matter in October last year. A representative of the railway was present. We have been supporting the work of the forum to seek ways of improving the railway, and there are discussions taking place at the moment between the industry and the forum, namely the Heart of Wales line forum, in order to ensure that everyone understands what the next steps are in terms of undertaking a feasibility study of community management of the railway.
- 13:59 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- One of the schemes that has been operating successfully for a number of years in Wales is the concessionary bus travel scheme, which costs the Welsh Government £70 million per year or thereabouts. However, one of the concerns raised by some bus operators is that the scheme is operated inconsistently by some bus operators, who may be using it for their own financial advantage. What measures is the Government taking in Wales to ensure that the scheme is operated consistently and that the taxpayer is getting value for money from the resources that are being invested?
- Un o'r cynlluniau sydd wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd yng Nghymru yw'r cynllun teithio'n rhatach ar fysiau, sy'n costio oddeutu £70 miliwn y flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, un o'r pryderon a godwyd gan rai gweithredwyr bysiau yw bod y cynllun yn cael ei weithredu'n anghyson gan rai gweithredwyr bysiau, a allai fod yn ei ddefnyddio i'w mantais ariannol eu hunain. Pa fesurau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd yng Nghymru i sicrhau y gweithredir y cynllun yn gyson a bod y trethdalwr yn cael gwerth am arian o'r adnoddau sy'n cael eu buddsoddi?
- 13:59 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The Member makes serious allegations; in effect, they are allegations of fraud. If he has evidence of that, I would be more than happy to investigate. However, there is a fraud team in place to investigate such allegations, and any evidence that he can supply—anonymous or not—will be most welcome.
- Mae'r Aelod yn gwneud honiadau difrifol; maen nhw'n honiadau o dwyll mewn gwirionedd. Os oes ganddo dystiolaeth o hynny, byddwn yn fwy na pharod i ymchwilio. Fodd bynnag, mae tîm twyll wedi'i sefydlu i ymchwilio i honiadau o'r fath, a byddai unrhyw dystiolaeth y gall ei dangos—yn ddiennw ai peidio—yn cael ei chroesawu'n fawr.
- 14:00 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod damwain wedi digwydd ar y rheilffordd yn sir Benfro ddoe, lle'r oedd trên wedi taro yn erbyn car. Digwyddodd y ddamwain hon ar groesfan lle nad oedd rhwystrau ar gael. Codais y mater hwn gyda'r Gweinidog trafnidiaeth beth amser yn ôl a dywedodd y byddai'n edrych mewn i'r mater o groesfannau yng Nghymru lle nad oes rhwystrau ar gael. Beth yw bwriad eich Llywodraeth o ran sicrhau bod rhwystrau ar yr holl groesfannau yng Nghymru er mwyn osgoi'r math hwn o ddamwain?
- First Minister, you will be aware that there was an accident yesterday on the railway in Pembrokeshire where a train collided with a car. This accident happened at a crossing where there were no barriers. I raised this issue with the Minister for transport some time ago and he said that he would look into the issue of crossings in Wales where there are no barriers. What is the intention of your Government in terms of ensuring that there are barriers on all crossings in Wales in order to avoid this kind of accident?

14:00	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid yw hwn yn fater sy'n syrthio o dan ddyletswyddau Llywodraeth Cymru. Ond, ynglŷn â beth ddylai'r sefyllfa fod, byddwn i'n gobeithio gweld pob croesfan yn cael rhyw fath o rwystr er mwyn sicrhau nad yw ceir yn croesi tra bod y goleuadau ymlaen a'r sŵn i'w glywed. Mae damweiniau wedi digwydd ar sawl rheilffordd yng Nghymru dros y blynyddoedd, a hoffwn weld pob croesfan yn cael ei thrin yn yr un modd.</p>	<p>This is not within the Welsh Government's responsibilities. However, in terms of what the situation should be, I would hope to see every crossing having some sort of barrier in order to ensure that cars do not cross while the lights are red and the alarms are sounding. There have been accidents on a number of lines in Wales over the years, and I would like to see all crossings being dealt with in the same way.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig</p>		<p>Automated External Defibrillators</p>	
14:01	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography <i>6. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfarpar Diffibrilio Allanol Awtomatig ym mhob injan dân. OAQ(4)0875(FM)</i></p>	<p><i>6. What plans does the Welsh Government have to equip all fire engines with Automated External Defibrillators. OAQ(4)0875(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Some authorities have already done this, but it is a matter for them as autonomous bodies to determine how they provide services.</p>	<p>Mae rhai awdurdodau wedi gwneud hyn eisoes, ond mae'n fater iddyn nhw fel cyrff annibynnol i benderfynu sut y maent yn darparu gwasanaethau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Suzy Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you for that answer, First Minister. As you probably know, co-responder fire engines already carry these pieces of equipment. Do you agree that it is slightly odd to ask members of the public to use these defibrillators when they are available in public places, without any training, and yet fire officers often do not have the opportunity to use defibrillators because they do not have them?</p>	<p>Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Fel y mae'n debyg eich bod yn gwybod, mae injans tân cyd-ymateb yn cario'r darnau hyn o offer eisoes. A ydych chi'n cytuno ei bod braidd yn rhyfedd i ofyn i aelodau'r cyhoedd ddefnyddio'r diffibrilwyr hyn, pan eu bod ar gael mewn mannau cyhoeddus, heb unrhyw hyfforddiant, ac eto'n aml nid yw swyddogion tân yn cael y cyfle i ddefnyddio diffibrilwyr gan nad oes rhai ganddynt?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well, a number of them do, of course. We know that the South Wales Fire and Rescue Authority fitted defibrillators to fire engines over five years ago. That is complemented by other specialist vehicles. Mid and West Wales Fire and Rescue Service firefighters have been trained to use defibrillators, although they are not fitted on the fire engines at the moment. On 18 January, a pilot scheme was launched between the Welsh Ambulance Services NHS Trust and the South Wales Fire and Rescue Authority, which aims to improve the response of community responders. In doing that, it is a template that can be used for other fire authorities as well. North Wales, for example, is also looking at finalising its emergency arrangements. We anticipate that defibrillators will be available there as well on all appliances in due course.</p>	<p>Wel, mae gan nifer ohonynt rai, wrth gwrs. Rydym yn gwybod bod Awdurdod Tân ac Achub De Cymru wedi gosod diffibrilwyr ar injans tân dros bum mlynedd yn ôl. Mae hyn wedi'i ategu gan gerbydau arbenigol eraill. Mae diffoddwyr tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cael eu hyfforddi i ddefnyddio diffibrilwyr, er nad ydynt wedi'u gosod ar yr injans tân ar hyn o bryd. Lanswyd cynllun arbrolfol rhwng Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru ar 18 Ionawr, sydd â'r nod o wella ymateb ymatebwyr cymunedol. Trwy wneud hynny, mae'n dempled y gellir ei ddefnyddio ar gyfer awdurdodau tân eraill hefyd. Er enghraifft, mae awdurdod Gogledd Cymru, yn ystyried cwblhau ei drefniadau brys hefyd. Rydym yn rhagweld y bydd diffibrilwyr hefyd ar gael ar yr holl offer yno maes o law.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Blaenoriaethau Economaidd ar gyfer Gorllewin De Cymru</p>		<p>Economic Priorities for South Wales West</p>	

- 14:02 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
7. Beth yw blaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gorllewin De Cymru. OAQ(4)0882(FM)
 7. What are the Welsh Government's economic priorities for South Wales West. OAQ(4)0882(FM)
- 14:02 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 They are in the programme for government. Maen nhw yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.
- 14:02 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you for that answer, First Minister. In the Swansea bay region, EU funding has been used to drive infrastructure projects that are focused on providing greater opportunities for business investment. These include the £50 million-plus project off Harbour Way, opening up the docklands in Port Talbot, and the European Investment Bank's £60 million for Swansea's second campus, both of which are in my constituency. What actions has the Welsh Government taken to encourage future EU investment to stimulate economic growth and to counter the damage to confidence that has arisen from last week's speech by the Prime Minister on our future in Europe?
 Diolch i chi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn rhanbarth bae Abertawe, defnyddiwyd cyllid yr UE i sbarduno prosiectau seilwaith sy'n canolbwyntio ar ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer buddsoddi busnes. Mae'r rhain yn cynnwys y prosiect sydd werth £50 miliwn a mwy oddi ar Ffordd yr Harbwr, agor y dociau ym Mhort Talbot, a £60 miliwn Banc Buddsoddi Ewrop ar gyfer ail gampws Abertawe, ac mae'r ddau o'r rhain yn fy etholaeth i. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cymryd i annog buddsoddiad gan yr UE yn y dyfodol i ysgogi twf economaidd ac i wrthwneud y niwed i hyder sydd wedi codi o araith y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf ar ein dyfodol yn Ewrop?
- 14:03 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Well, we now have five years of uncertainty. I heard what the Prime Minister had to say. I agreed with him that there needs to be reform of EU institutions. I heard him say that the British people need to have their say, but I do not understand why that should happen in the course of five years. It will create enormous uncertainty. It was certainly a major topic of discussion in Ireland last week, when I was talking to the British Irish Chamber of Commerce and to businesses there. In my discussions with the U.S. Ambassador last week, he said to me that this would be a major issue when we go to San Francisco in a fortnight's time. People will ask the question, 'Why would we invest in Wales and the UK if we do not know whether it will be in the EU?' Being part of the EU is what is most important to them. The UK is too small to provide a market for many multinationals. They see the EU as their major market. We will now see five years of complete uncertainty, and that cannot be good for Wales or for Britain.
 Wel, mae gennym bum mlynedd o ansicrwydd erbyn hyn. Clywais yr hyn yr oedd gan y Prif Weinidog i'w ddweud. Roeddwn yn cytuno ag ef bod angen diwygio sefydliadau'r UE. Clywais ef yn dweud fod angen i bobl Prydain gael dweud eu dweud, ond nid wyf yn deall pam y dylai hynny ddirigwydd dros bum mlynedd. Bydd yn creu ansicrwydd enfawr. Roedd yn sicr yn brif bwnc trafod yn Iwerddon yr wythnos diwethaf, pan roeddwn i'n siarad â Siambwr Fasnach Prydain Iwerddon ac â busnesau yno. Yn fy nhrafodaethau gyda Llysgennad yr Unol Daleithiau yr wythnos diwethaf, dywedodd wrthyf y byddai hwn yn fater pwysig pan fyddwn yn mynd i San Francisco ymhen pythefnos. Bydd pobl yn gofyn y cwestiwn, Pam y byddem ni'n buddsoddi yng Nghymru a'r DU os nad ydym yn gwybod a fydd yn yr UE ai peidio? Bod yn rhan o'r UE yw'r hyn sydd bwysicaf iddyn nhw. Mae'r DU yn rhy fychan i ddarparu marchnad ar gyfer llawer o gwmnïau rhyngwladol. Maen nhw'n ystyried yr UE fel eu prif farchnad. Byddwn yn gweld pum mlynedd o ansicrwydd llwyr bellach, ac ni all hynny fod yn dda i Gymru nac i Brydain.
- 14:04 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, recognising the importance of Tata to the South Wales West economy, you have spoken in this Chamber of the investment that you have helped to secure, in particular the £800 million over a five-year-period that you announced following your meeting in Mumbai. Since those most welcome statements, there have been sad and unfortunate redundancies in the company. Can you assure this Chamber that your Government is doing all that it can to prevent any further redundancies? Could you also update us on what solid action the task force that was set up following the redundancies has taken to help those affected?
 Brif Weinidog, gan gydnabod pwysigrwydd Tata i economi de-orllewin Cymru, rydych wedi siarad yn y Siambwr hon am y buddsoddiad yr ydych wedi helpu i'w sicrhau, ac yn enwedig yr £800 miliwn dros gyfnod o bum mlynedd a gyhoeddwyd gennych yn dilyn eich cyfarfod yn Mumbai. Ers y datganiadau hynny a groesawyd yn fawr, bu achosion trist ac anffodus o ddileu swyddi yn y cwmni. A allwch chi sicrhau'r Siambwr hon bod eich Llywodraeth yn gwneud popeth yn ei gallu i atal unrhyw achosion pellach o ddileu swyddi? A allwch chi ein diweddarau hefyd ar ba gamau cadarn y mae'r tasglu a sefydlwyd yn dilyn yr achosion o ddileu swyddi wedi'u cymryd i helpu'r rhai yr effeithiwyd arnynt?

14:04

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Tata is more than happy with the relationship that it has with us. It is right to say that the steel industry is still going through difficulties. That is there for all to see, but the investment promised by Tata will enable Port Talbot to seek to overcome those difficulties. You can see the results of the investment with the new blast furnace that is being built. Without that investment, there is no doubt that the future of Port Talbot would be bleak indeed. We are fortunate that Tata is the owner, and that it sees the need to invest in order to provide Port Talbot with a very bright future. However, anything that suggests that the UK will not be part of the EU will not help in terms of attracting investment into the steel industry or any other in Wales.

Mae Tata yn fwy na bodlon â'r berthynas sydd ganddo gyda ni. Mae'n gywir i ddweud bod y diwydiant dur yn dal i ddiodeff anawsterau. Mae hynny yn amlwg i bawb, ond bydd y buddsoddiad a addawyd gan Tata yn galluogi Port Talbot i geisio goresgyn yr anawsterau hynny. Gallwch weld canlyniadau'r buddsoddiad drwy'r ffwrnais chwyth newydd sy'n cael ei hadeiladu. Heb y buddsoddiad hwnnw, nid oes unrhyw amheuaeth y byddai dyfodol Port Talbot wir yn llwm. Rydym yn ffodus mai Tata yw'r perchennog, a'i fod yn gweld yr angen i fuddsoddi er mwyn rhoi dyfodol disglair iawn i Port Talbot. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw beth sy'n awgrymu na fydd y DU yn rhan o'r UE yn helpu o ran denu buddsoddiad i'r diwydiant dur nac unrhyw ddiwydiant arall yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:05

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Jyst i ehangu ar y cwestiwn hwnnw o ran gwaith yn Tata Steel, a'r 90 diwrnod o ymgynghoriad ar y golled arfaethedig o 500 o swyddi yn y ffatri ym Mhort Talbot, a allwch amlinellu'r gwaith sydd wedi cael ei wneud gan Weinidogion a swyddogion yng nghyd-destun helpu Tata Steel i ddod o hyd i waith i unrhyw un o'r gweithwyr sy'n mynd i gael eu heffeithio, neu waith yn yr ardal gyfagos, fel na fydd yn rhaid i bobl symud o ardal Port Talbot?

Just to expand on that question of employment in Tata Steel, and the 90-day consultation on the proposed loss of 500 jobs at the factory in Port Talbot, could you outline the work that has been done by Ministers and officials in the context of assisting Tata Steel to find employment for the workforce that is to be affected, or to find employment nearby, so that people will not have to leave the Port Talbot area?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Rydym wedi bod yn siarad â'r undebau a'r cwmni. Yr hyn sydd ddim yn glir ar hyn o bryd yw a fydd y rhan fwyaf o bobl a fydd yn cael eu heffeithio—efallai pob un ohonynt—yn gadael yn wirfoddol. Mae hynny'n rhywbeth sy'n cael ei ystyried ar hyn o bryd. Wrth gwrs, bydd pethau'n dod yn glir ar ôl i'r broses offen.

We have been speaking to the unions and also to the company. What is unclear at present is whether the majority of people, or perhaps all affected, might be taking voluntary redundancy. This is something that is being considered at present. Of course, things will become clearer once the process is complete.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cyfraniad Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol

The Contribution of Co-operatives and Mutuals

14:06

Vaughan Gething [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyfraniad cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol at economi Cymru. OAQ(4)0871(FM)

8. Will the First Minister make a statement on the contribution of Co-operatives and Mutuals to the Welsh economy. OAQ(4)0871(FM)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:06

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

They play an important part in the mixed economy of Wales. We have set up the Wales co-operative and mutuals commission to make recommendations on growing and developing the sector in Wales.

Maen nhw'n chwarae rhan bwysig yn economi gymysg Cymru. Rydym wedi sefydlu comisiwn cydweithredol a chydfuddiannol Cymru i wneud argymhellion ar dyfu a datblygu'r sector yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:06 **Vaughan Gething** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you for that response, First Minister. I welcome the work and the setting up of the co-operative and mutuals commission in Wales. Yesterday, we were fortunate to have Ted Howard come to talk to the cross-party group on co-operatives and mutuals, particularly about his experience with the Evergreen Cooperatives in Cleveland and Ohio, and the three businesses that they have set up and, in particular, their impact on regeneration. Will the First Minister specifically consider the regeneration prospects and possibilities of co-operatives and mutuals in carrying that work forward in Wales?
- Diolch am yr ymateb yna, Brif Weinidog. Rwyf yn croesawu'r gwaith a sefydlu'r comisiwn cydweithredol a chydfuddiannol yng Nghymru. Buom yn ffodus ddoe i gael Ted Howard yn dod i siarad â'r grŵp trawsbleidiol ar fentrau cydweithredol a chydfuddiannol, ac am ei brofiad gyda mentrau cydweithredol Evergreen yn Cleveland ac Ohio yn benodol, a'r tri busnes y maen nhw wedi eu sefydlu, ac yn enwedig eu heffaith ar adfywio. A wnaiff y Prif Weinidog ystyried rhagolygon a phosibiliadau adfywio mentrau cydweithredol a chydfuddiannol yn benodol, wrth ddatblygu'r gwaith hwnnw yng Nghymru?
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- Following the meeting yesterday, there was a meeting with the chair of the co-operative and mutuals commission, Professor Andrew Davies, along with officials from the Department for Business, Enterprise, Technology and Science. The commission will be making a full report to the Minister in September. I am sure that the role of co-operatives, as a tool for regeneration, will be considered as part of that work.
- Yn dilyn y cyfarfod ddoe, bu cyfarfod gyda chadeirydd y comisiwn cydweithredol a chydfuddiannol, yr Athro Andrew Davies, ynghyd â swyddogion o'r Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Bydd y comisiwn yn cyflwyno adroddiad llawn i'r Gweinidog ym mis Medi. Rwyf yn siŵr y bydd swyddogaeth mentrau cydweithredol, fel dull o adfywio, yn cael ei hystyried yn rhan o'r gwaith hwnnw.
- 14:07 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod ysgolion cydweithredol mewn sefyllfa arbennig o dda i ddatblygu cysylltiadau uniongyrchol, cryf gyda busnesau lleol sy'n gallu helpu drwy ychwanegu gwybodaeth at y cwricwlwm, datblygu entrepreneuriaeth, a chymhwyso'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr busnes?
- First Minister, do you agree that co-operative schools are in a particularly good position to develop direct, strong links with local businesses that can inform the curriculum, develop entrepreneurship, and develop the next generation of business leaders?
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)
- Rwyf am sicrhau bod safon gyda ni yng Nghymru sy'n mynd ar draws Cymru a mae'n bwysig dros ben bod ysgolion yn aros tu fewn i'r sector cyhoeddus a ddim yn symud mas ohono.
- I want to ensure that we have high standards in Wales across the board. It is very important that schools remain within the public sector and do not leave it.
- 14:08 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, small local businesses, social enterprises, co-operatives, and mutuals all have one thing in common, which is insufficient access to funds to start, to grow, and to prosper. An example is the Remploy factory in Porth that, despite having plenty of orders, including a new contract in recent weeks for its e-recycling services, appears to be condemned to closure. Will you consider creating a new finance stream akin to the Welsh public bank idea that Plaid Cymru has put forward, and has been calling for for some time now, which would not only boost our flagging economy, but would also enable Welsh businesses, social enterprises and co-operatives to not only survive but thrive?
- Brif Weinidog, mae gan fusnesau lleol bach, mentrau cymdeithasol, mentrau cydweithredol a mentrau cydfuddiannol i gyd un peth yn gyffredin, sef diffyg mynediad at gyllid i gychwyn, i dyfu, ac i ffynnu. Un enghraifft yw ffatri Remploy ym Mhorth. Er bod ganddi ddigonedd o archebion, gan gynnwys contract newydd yn yr wythnosau diwethaf ar gyfer ei gwasanaethau e-aigylchu, y mae'n ymddangos ei bod wedi'i chondemnio i gau. A wnewch chi ystyried sefydlu ffrwd gyllid newydd yn debyg i syniad banc cyhoeddus Cymru y mae Plaid Cymru wedi ei gyflwyno, ac wedi bod yn galw amdano ers cryn amser bellach, a fyddai'n rhoi hwb i'n heconomi ddiffygiol yn ogystal â galluogi busnesau, mentrau cymdeithasol a mentrau cydweithredol Cymru nid yn unig i oresi, ond hefyd i ffynnu?

14:08	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I seem to have stepped into the middle of a dispute between Plaid Cymru and the Tories on this in relation to public finances. As you will be aware, a commission has been set up under the steerage of Professor Dylan Jones-Evans to look at precisely these issues. We are pleased to have him on board, and I know that he is fully endorsed by the leader of the opposition, as he, himself, said in the papers last week.</p>	<p>Mae'n ymddangos fy mod wedi camu i ganol dadl rhwng Plaid Cymru a'r Toriaid ar y mater hwn o ran cyllid cyhoeddus. Fel y byddwch yn ymwybodol, sefydlwyd comisiwn dan arweiniad yr Athro Dylan Jones-Evans i ystyried yr union faterion hyn. Rydym yn falch o'i gyfraniad, ac rwyf yn gwybod ei fod wedi'i gymeradwyo'n llawn gan arweinydd yr wrthblaid, fel y dywedodd ef ei hun yn y papurau newydd yr wythnos diwethaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Diwygio Tai yn 2013		Housing Reform in 2013	
14:09	<p>Kenneth Skates Bywgraffiad Biography <i>9. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio tai yn 2013. OAQ(4)0878(FM)</i></p>	<p><i>9. Will the First Minister outline the Welsh Government's plans for housing reform in 2013. OAQ(4)0878(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The Minister for Housing, Regeneration and Heritage will introduce a housing (Wales) Bill this autumn. The Bill will address issues such as homelessness and the accreditation of private sector landlords and letting agents. A White Paper will also be published this spring.</p>	<p>Bydd y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn cyflwyno Bil Tai (Cymru) yr hydref hwn. Bydd y Bil yn mynd i'r afael â materion fel digartrefedd ac achredu landlordiaid ac asiantau gosod sector preifat. Bydd Papur Gwyn yn cael ei gyhoeddi yn ystod y gwanwyn hwn hefyd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Kenneth Skates Bywgraffiad Biography</p> <p>As you are aware, no doubt, there are some 22,000 private homes across Wales that have been vacant for at least six months. In the housing White Paper, one of the solutions being considered to this problem is giving local authorities discretionary power to levy a higher rate of council tax on properties that have been vacant for more than a year. Do you agree that these are exactly the sorts of innovative solutions to a problem of wasted resources that will enable houses to be brought back into use?</p>	<p>Fel y gwyddoch, yn ddiau, ceir tua 22,000 o gartrefi sector preifat ledled Cymru sydd wedi bod yn wag am o leiaf chwe mis. Yn y Papur Gwyn ar dai, un o'r atebion sy'n cael eu hystyried ar gyfer y broblem hon yw rhoi pwerau disgresiwn i awdurdodau lleol i godi cyfradd uwch o dreth gyngor ar eiddo sydd wedi bod yn wag am fwy na blwyddyn. A ydych chi'n cytuno mai'r rhain yw'r union fathau o atebion arloesol i broblem gwastraffu adnoddau a fydd yn galluogi tai i ddechrau cael eu defnyddio eto?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. We know that empty properties not only impact on the supply of housing and waste resources, but can attract anti-social behaviour and blight communities. The proposals that we have in terms of council tax are part of a series of measures to address the problem of empty properties. We also recognise the need to incentivise owners, which is why we launched the Houses into Homes scheme, which provides interest-free loans to owners to bring their properties back into use, either for sale or for rent.</p>	<p>Ydw. Rydym yn gwybod bod eiddo gwag yn effeithio ar gyflenwad tai ac adnoddau gwastraff, a hefyd yn gallu denu ymddygiad gwrthgymdeithasol a difetha cymunedau. Mae'r cynigion sydd gennym ar gyfer y dreth gyngor yn rhan o gyfres o fesurau i fynd i'r afael â'r broblem o eiddo gwag. Rydym hefyd yn cydnabod yr angen i gynnig cymhelliad i berchnogion, a dyna pam y lanswyd y cynllun Troi Tai'n Gartrefi gennym, sy'n darparu benthyciadau di-log i berchnogion i ail-ddechrau defnyddio eu heiddo, trwy ei roi ar werth neu ei osod.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:10 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The European Commission has said that we should be implementing a comprehensive housing reform programme to increase supply and to alleviate the problem of affordability. How do you respond to the statement by the National Landlords Association, following publication of the housing White Paper, that if the Welsh Government does not work with it to do something quickly, there will be even more homelessness, and to the statements published this morning by panellists at the Insider Wales construction industry breakfast that efforts to help the construction industry to recover are at risk of being undermined by tougher regulation and a lack of joined-up government in Wales, and that one of the frustrations is that there is not one single person who is responsible for housing delivery?
- Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi dweud y dylem fod yn gweithredu rhaglen diwygio tai gynhwysfawr i gynyddu'r cyflenwad ac i liniaru'r broblem fforddiadwyedd. Sut ydych chi'n ymateb i'r datganiad gan Gymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid, yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyn ar dai, os nad yw Llywodraeth Cymru yn gweithio â hi i wneud rhywbeth yn gyflym, y bydd hyd yn oed mwy o ddigartrefedd, ac i'r datganiadau a gyhoeddwyd y bore yma gan banelwyr ym mrecwast diwydiant adeiladu Insider Wales bod ymdrechion i helpu i adfer y diwydiant adeiladu mewn perygl o gael eu tanseilio gan reoliadau llymach a diffyg llywodraeth gydgysylltiedig yng Nghymru, ac mai un o'r rhwystrdigaethau yw nad oes un person unigol yn gyfrifol am ddarparu tai?
- 14:11 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Well, there is, of course, a Minister for housing. I have heard the arguments put forward by some in the construction industry with regard to building regulations, but in terms of housing, we have a target for reducing homelessness. In 2011-12, some 2,489 additional affordable housing units were delivered across Wales. That represents a third of the target of 7,500 additional affordable homes to be delivered during the current Government term. We do believe, however, that it is important that landlords are registered, in order to make sure that the quality of private rented accommodation available to people is as high as it can be.
- Wel, mae gennym, wrth gwrs, Weinidog tai. Rwyf wedi clywed y dadleuon a gyflwynwyd gan rai yn y diwydiant adeiladu o ran rheoliadau adeiladu ond, o ran tai, mae gennym darged ar gyfer lleihau digartrefedd. Yn 2011-12, darparwyd tua 2,489 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol ledled Cymru. Mae hynny'n un rhan o dair o'r targed o 7,500 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol i'w darparu yn ystod tymor cyfredol y Llywodraeth. Rydym yn credu, fodd bynnag, ei bod yn bwysig bod landlordiaid yn cael eu cofrestru, er mwyn gwneud yn siŵr bod ansawdd y llety rhent preifat sydd ar gael i bobl mor uchel ag y gall fod.
- 14:11 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, fe wnaethoch gyfeirio yn gynharach yn eich atebion at y system drwyddedu newydd. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud yng Nghymru i sicrhau bod landlordiaid a thenantiaid yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau dan y system bresennol, a beth a fyddai'n newid gyda'r system newydd o drwyddedu a chofrestru?
- First Minister, you referred in earlier answers to the new licensing system. What is the Government doing in Wales to ensure that landlords and tenants are aware of their rights and responsibilities within the current system and what will change with the new licensing and registration system?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Wrth gwrs, nid yw'r Bil wedi cael ei gyhoeddi eto. Fel y dywedais, bydd y Papur Gwyn ar gael yn y gwanwyn a bydd y Bil ei hun yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad yn yr hydref. Felly, bydd gan Aelodau y cyfle i edrych ar y system yr ydym am ei dodi ar waith i helpu tenantiaid.
- Of course, the Bill has not yet been published. As I said, the White Paper will be available in the spring and the Bill itself will be introduced to the Assembly in the autumn. Members will then have an opportunity to look at the system that we wish to introduce in order to assist tenants.
- 14:12 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I have been given a copy of a research report from Aberystwyth students' union showing how poor housing and unscrupulous landlords can blight the lives of students and how that can really affect their work. The Welsh Government's plans, which you have outlined, offer a real glimmer of hope and an opportunity to transform the sector, to make it fairer and less open to exploitation. How will you ensure that the good practice for student lettings, which is also revealed in the report, becomes the norm?
- Brif Weinidog, rwyf wedi derbyn copi o adroddiad ymchwil gan undeb myfyrwyr Aberystwyth sy'n dangos sut y gall tai gwael a landlordiaid diegwyddor ddifetha bywydau myfyrwyr a sut y gall hynny gael effaith wirioneddol ar eu gwaith. Mae cynlluniau Llywodraeth Cymru, a amlinellwyd gennych chi, yn cynnig llygedyn o obaith go iawn a chyfle i weddnewid y sector, i'w wneud yn decach ac yn llai agored i bobl allu cymryd mantais. Sut gwnewch chi sicrhau bod arfer da ar gyfer gosod i fyfyrwyr, a ddatgelir yn yr adroddiad hefyd, yn dod yn arfer bob dydd?

14:13

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I remember that this was an issue when I was at Aberystwyth in the 1980s, living in accommodation with no heating and very little hot water. I have to say that we had a very good landlord, given that he is still alive. He was somebody who we were very happy with.

The important point is, of course, that we want to make sure—[Interruption.] We thought it was luxury then. [Laughter.] Times have changed, I accept, and the sorts of standards that people expect now are, rightly, different from those that existed then, as others will know from experience.

The proposals in the housing Bill will help the situation. The new legislation, through mandatory registration and the licensing of all landlords, we believe, will improve conditions and practices. It will modernise the private rented sector in Wales, and licensing will bring with it a requirement for a code of practice as well. So, the Bill itself should provide a great deal more assistance to those who are suffering from poor housing and those who are still suffering the activities of scrupulous landlords.

Rhaglen Lywodraethu

14:14

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

10. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Lywodraethu. OAQ(4)0869(FM)

14:14

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is going well. [Laughter.]

14:14

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

They get a lot shorter, First Minister. In the programme for government, the Government outlines its desire to improve health outcomes. On cancer treatment times, in particular the 62-day treatment time, 95% is the target for referrals. Sadly, in South Wales Central, since April last year, my constituents have had only 87% to 88% success against the target. That target has never been met since you have been First Minister. When can my constituents expect that target to be met and to see an improvement in the referral times? As we all know, that is a critical target for people who have had a diagnosis of cancer.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Rwyf yn cofio bod hyn yn broblem pan yr oeddwn i yn Aberystwyth yn y 1980au, sef byw mewn llety heb wres ac ychydig iawn o ddŵr poeth. Rhaid i mi ddweud bod gennym ni landlord da iawn, o gofio ei fod yn dal yn fyw. Roedd yn rhywun yr oeddem ni'n hapus iawn ag ef.

Y pwynt pwysig, wrth gwrs, yw ein bod am wneud yn siŵr —[Torri ar draws.] Roeddem ni'n meddwl ei fod yn foethus bryd hynny. [Chwerthin.] Rwyf yn derbyn bod yr oes wedi newid, ac mae'r mathau o safonau y mae pobl yn eu disgwyl erbyn hyn, ac mae'n iawn iddynt ddisgwyl hynny, yn wahanol i'r rhai a oedd yn bodoli bryd hynny, fel y bydd eraill yn gwybod o brofiad.

Bydd y cynigion yn y Bil tai yn helpu'r sefyllfa. Yn ein barn ni, bydd y ddeddfwriaeth newydd, trwy gofrestru gorfodol a thrwyddedu pob landlord, yn gwella amodau ac arferion. Bydd yn moderneiddio'r sector rhentu preifat yng Nghymru, a bydd trwyddedu yn arwain at ofyniad am god ymarfer hefyd. Felly, dylai'r Bil ei hun ddarparu llawer iawn mwy o gymorth i'r rhai sy'n dioddef oherwydd tai gwael a'r rhai sy'n dal i ddioddef oherwydd gweithredoedd landlordiaid diegwyddor.

Programme for Government

10. Will the First Minister provide an update on the progress of the Programme for Government. OAQ(4)0869(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mae'n mynd yn dda. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Maen nhw'n fwyfwy cryno, Brif Weinidog. Yn y rhaglen ar gyfer llywodraethu, mae'r Llywodraeth yn amlinellu ei dymuniad i wella canlyniadau iechyd. O ran amseroedd triniaeth ar gyfer canser, a'r cyfnod triniaeth o 62 diwrnod yn benodol, 95% yw'r targed ar gyfer atgyfeiriadau. Yn anffodus, yng Nghanol De Cymru, ers mis Ebrill y llynedd, dim ond 87% i 88% fu'r llwyddiant yn erbyn y targed i'm hetholwyr. Nid yw'r targed hwnnw erioed wedi ei gyflawni ers i chi fod yn Brif Weinidog. Pryd all fy etholwyr i ddisgwyl i'r targed hwnnw gael ei wireddu a phryd y gallant weld gwelliant i'r amserau atgyfeirio? Fel y mae pob un ohonom ni'n ei wybod, mae hwn yn darged hollbwysig i bobl sydd wedi derbyn diagnosis o ganser.

- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Via the cancer delivery plan, we want to ensure that people get appropriate treatment for cancer as quickly as possible. He is right to point out that there have been difficulties in meeting the targets, but that does not mean that the targets should be discarded. We continue to work to ensure, in terms of cancer, that people get attention as quickly as possible. Via the cancer delivery plan, as I have mentioned, the Minister is working hard to ensure that.
Rydym am sicrhau, drwy'r cynllun gweithredu ar ganser, bod pobl yn derbyn triniaeth briodol ar gyfer canser cyn gynted â phosibl. Mae'n gywir i nodi y bu anawsterau o ran cyflawni'r targedau, ond nid yw hynny'n golygu y dylid cael gwared ar y targedau. Rydym yn parhau i weithio i sicrhau, o ran canser, bod pobl yn derbyn sylw cyn gynted â phosibl. Drwy'r cynllun gweithredu ar ganser, fel yr wyf wedi ei grybwyll, mae'r Gweinidog yn gweithio'n galed i sicrhau hynny.
- 14:15 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I am very pleased that the Welsh Government has a control of dogs Bill as part of its programme for government, championed by the Minister for environment and enthusiastically supported by animal welfare groups. Has the Government had an opportunity to check whether the proposals that are coming forth from the Home Office will in any way conflict with what we are planning to do in Wales?
Rwyf yn falch iawn bod gan Lywodraeth Cymru Fil rheoli cŵn sy'n rhan o'i rhaglen ar gyfer llywodraethu, a hyrwyddir gan Weinidog yr Amgylchedd ac a gefnogir yn frwd gan grwpiau lles anifeiliaid. A yw'r Llywodraeth wedi cael cyfle i wirio a fydd y cynigion sy'n cael eu cyflwyno gan y Swyddfa Gartref yn gwrthdaro mewn unrhyw ffordd â'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud yng Nghymru?
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We are in discussions with the Home Office and the Department for Environment, Food and Rural Affairs regarding our Bill proposals. On the face of it, the draft Bill relates to out-of-control dogs in Wales, but we are considering the precise detail at the moment. Our Bill emphasises the need for responsible ownership, with early intervention, and it recognises the importance of dog welfare, which is an important consideration when it comes to ensuring that people are able to control their dogs.
Rydym mewn trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref ac Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ynghylch cynigion ein Bil. Mae'n ymddangos ar yr wyneb bod y Bil drafft yn ymwneud â chŵn sydd allan o reolaeth yng Nghymru, ond rydym wrthi'n ystyried yr union fanylion ar hyn o bryd. Mae ein Bil yn pwysleisio'r angen am berchnogaeth gyfrifol, ynghyd ag ymyrraeth gynnar, ac mae'n cydnabod pwysigrwydd lles cŵn, sy'n ystyriaeth bwysig wrth sicrhau bod pobl yn gallu rheoli eu cŵn.
- 14:16 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, yn sgîl canlyniadau'r cyfrifiad a gyhoeddwyd ryw chwech wythnos yn ôl, a chanlyniadau'r cyfrifiad ar lefel y wardiau a gaiff eu cyhoeddi yfory, rwy'n meddwl, pa gamau newydd y mae'ch Llywodraeth yn bwriadu eu cymryd i hyrwyddo mwy o ddefnydd a dysgu o'r Gymraeg yn ychwanegol at yr hyn a oedd yn eich rhaglen lywodraethu?
Following the results of the census published about six weeks ago, and the results of the census at ward level, which will be published tomorrow, I believe, what new steps does your Government intend to take to promote greater use and learning of the Welsh language in addition to what was in your programme for government?
- 14:16 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Byddwn yn ystyried y ffigurau a gaiff eu cyhoeddi yfory. Rhaid inni ystyried beth yw'r effaith yn rhai rhannau o Gymru. Nid wyf yn gwybod beth yw'r ystadegau, ond rwy'n gwybod o brofiad fod yr effaith yn waeth ar rai rhannau o Gymru nac ar rai eraill, ac nid yw hynny'n dibynnu ar le y maent yng Nghymru. Wrth ystyried y ffigurau yfory, bydd hyn yn ein helpu i sicrhau ein bod yn gallu symud ymlaen gyda'r prosiectau sydd gennym yn eu lle ar hyn o bryd, ac efallai creu mwy o brosiectau er mwyn sicrhau bod dyfodol yr iaith yn sicr.
We will be considering the figures that will be published tomorrow. We will have to consider what the impact is in certain parts of Wales. I do not know what the statistics are, but we know from experience that certain areas are affected more badly than others, and that does not depend on where they are in Wales. In considering tomorrow's figures, this will assist us in ensuring that we are able to progress the projects that we have in place already and perhaps create new projects in order to ensure a secure future for the language.

Maes Awyr Caerdydd

Cardiff Airport

- 14:17 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
11. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fynediad i Faes Awyr Caerdydd o Orllewin De Cymru. OAQ(4)0874(FM)
11. Will the First Minister make a statement on access to Cardiff Airport from South Wales West. OAQ(4)0874(FM)
- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 Yes. The airport will benefit from our commitment to increase train services on the Vale of Glamorgan line to a half-hourly service, following the completion of the Cardiff area signalling renewal programme.
 Gwnaf. Bydd y maes awyr yn elwa ar ein hymrwymiad i gynyddu gwasanaethau trên ar reilffordd Bro Morgannwg i wasanaeth bob hanner awr, ar ôl cwblhau rhaglen adnewyddu signalau ardal Caerdydd.
- 14:17 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
 Thank you for that answer, First Minister. I live In Swansea, and soon my fellow Swansea citizens and I will be able to get a bus directly from our bus station to the check-in lounge at Bristol Airport. As part of your investment in Cardiff Airport, will we soon be able to do the same to Cardiff Airport?
 Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Rwyf i'n byw yn Abertawe, a chyn bo hir byddaf i a'm cyd-ddinasyddion yn Abertawe yn gallu dal bws yn uniongyrchol o'n gorsaf fysiau i'r llofa mewngofnodi ym Maes Awyr Bryste. Yn rhan o'ch buddsoddiad ym Maes Awyr Caerdydd, a fyddwn ni'n gallu teithio yn yr un modd i Faes Awyr Caerdydd cyn bo hir?
- 14:17 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 It is possible to travel by train, of course, changing at Bridgend, and to get to the airport in Rhooose relatively easily. I have done it several times and it works very well for the people of Bridgend and, I believe, for people further west in South Wales West. The first objective is to secure the future of the airport. The last thing that we would want to do is spend money on a road or rail link to find that the airport is closed by the time that the link gets there. Therefore, it makes perfect sense to secure the future of the airport first. Then, in the medium term, we will look to improve the rail connection and, ultimately, in time, the road connection also.
 Mae'n bosibl teithio ar y trên, wrth gwrs, gan newid ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac i gyrraedd y maes awyr yn y Rhôs yn gymharol hawdd. Rwyf wedi gwneud hynny sawl gwaith, ac mae'n gweithio'n dda iawn i bobl Pen-y-bont ar Ogwr ac, mi gredaf, i bobl ymhellach i'r gorllewin yn ne-orllewin Cymru. Y nod cyntaf yw sicrhau dyfodol y maes awyr. Y peth olaf y byddem am ei wneud fyddai gwario arian ar gyswllt ffordd neu reilffordd ac wedyn darganfod bod y maes awyr wedi cau erbyn adeg y cwblhau'r cyswllt. Felly, mae'n gwneud synnwyr perffaith i sicrhau dyfodol y maes awyr yn gyntaf. Yna, yn y tymor canolig, byddwn yn ystyried gwella'r cysylltiad rheilffordd ac, yn y pen draw, mewn amser, y cysylltiad ffordd hefyd.
- 14:18 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
 As someone who is hoping to see a large increase in the number of people travelling to Europe for sporting reasons—[Laughter.]—can I first ask the First Minister whether there has been a deterioration in the method of getting to the airport since it was successfully run by the three Glamorgan county councils? Secondly, is it not still the easiest airport for people in south-west Wales to get to?
 Fel rhywun sy'n gobeithio gweld cynnydd mawr i nifer y bobl sy'n teithio i Ewrop am resymau'n ymwneud â chwaraeon—[Chwerthin.]—a gaf i ofyn yn gyntaf i'r Prif Weinidog a fu dirywiad yn y dull o gyrraedd y maes awyr ers pan oedd yn cael ei redeg yn llwyddiannus gan dri chyingor sir Morgannwg? Yn ail, onid hwn yw'r maes awyr hawddaf i bobl yn ne-orllewin Cymru ei gyrraedd o hyd?

14:19

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There are two points there. I do not think that the bus service will have any effect, given that people will fly from Cardiff if they can get the right flight at the right price. A service to Bristol will not affect that, as it is much further away. In the discussions that we have had with airlines, the connections to the airport never feature—it does not feature in their thinking. So, they do not see it as an enormous problem, although we hope that, in time, as the airport develops and footfall increases, we will be able to improve the passenger links in terms of the trains and, ultimately, the road links. However, there are other things that need to be dealt with first to make the building itself more attractive to travellers.

First Minister, on the issue of the bus service to Bristol Airport, it will obviously have a knock-on effect on Cardiff Airport, as it will be another level of competition, which is unwelcome at this key time for the airport. Will you not accept that, by letting Greyhound and Bristol Airport steal the lead again in increasing accessibility, your Government has literally missed the bus?

Ceir dau bwynt yma. Nid wyf yn credu y bydd y gwasanaeth bysiau yn cael unrhyw effaith, o gofio y bydd pobl yn hedfan o Gaerdydd os gallant gael y daith iawn am y pris iawn. Ni fydd gwasanaeth i Fryste yn effeithio ar hynny, gan ei fod yn llawer pellach i ffwrdd. Yn y trafodaethau yr ydym wedi'u cael gyda chwmnïau awyrennau, nid yw'r cysylltiadau i'r maes awyr byth yn cael eu crybwyll—nid ydynt yn meddwl amdanynt. Felly, nid ydynt yn ei hystyried yn broblem enfawr, ond rydym yn gobeithio, ymhen amser, wrth i'r maes awyr ddatblygu a nifer yr ymwelwyr yn cynyddu, y byddwn yn gallu gwella'r cysylltiadau i deithwyr o ran y trenau ac, yn y pen draw, y ffyrdd. Fodd bynnag, mae pethau eraill y mae angen ymdrin â hwy yn gyntaf i wneud yr adeilad ei hun yn fwy deniadol i deithwyr.

Brif Weinidog, o ran mater y gwasanaeth bysiau i Faes Awyr Bryste, bydd yn amlwg yn cael sgil-ffaith ar Faes Awyr Caerdydd, gan y bydd yn lefel arall o gystadleuaeth, nad ydym yn dymuno ei weld ar yr adeg allweddol hon i'r maes awyr. A wnewch chi dderbyn bod eich Llywodraeth, trwy adael i Greyhound a Maes Awyr Bryste achub y blaen unwaith eto o ran cynyddu hygyrchedd, yn llythrennol wedi colli'r bws?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have to say that the Member opposite has described Cardiff Airport as a 'catastrophic liability'. What a way to sell the airport. I can tell him that he was the subject of much amused comment with the staff when I was there on Thursday. I do not think that there is a vote left for that party in the airport.

The reality of the situation is that we are moving ahead with the ownership of the airport. It is all right for Manchester, apparently, and Stansted has just been, by the Welsh Conservatives' definition, nationalised, because it has been bought by a company run entirely by local authorities. However, that is all right because it is in England. Is it not the reality that, as far as Members of the party opposite are concerned, they are there to cheerlead for airports in England and would sell a Welsh airport down the river?

Rhaid i mi ddweud bod yr Aelod gyferbyn wedi disgrifio Maes Awyr Caerdydd fel rhwymedigaeth drychinebus. A'i dyna'r ffordd i werthu'r maes awyr. Gallaf ddweud wrtho ei fod yn destun sylwadau doniol iawn ymhlith aelodau'r staff pan yr oeddwn i yno ddydd Iau. Nid wyf yn credu bod yr un bleidlais ar ôl i'r blaid honno yn y maes awyr.

Gwirionedd y sefyllfa yw ein bod yn symud ymlaen gyda pherchnogaeth y maes awyr. Mae'n iawn i Fanceinion, mae'n debyg, ac mae Stansted, yn ôl diffiniad Ceidwadwyr Cymru, newydd gael ei wladoli, gan iddo gael ei brynu gan gwmni sy'n cael ei redeg yn gyfan gwbl gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, mae hynny'n iawn oherwydd ei fod yn Lloegr. Onid y gwirionedd, o safbwynt Aelodau'r blaid gyferbyn, yw eu bod yno i leisio eu cefnogaeth i feysydd awyr yn Lloegr ac y byddent yn bradychu maes awyr yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:20

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cydnabod ei bod yn bwysig i sefydlu'r hyn sy'n digwydd gyda'r maes awyr, ond a yw Llywodraeth Cymru wedi ymchwilio i ddichonoldeb o'r cysyniad o drenau Llundain i Abertawe yn rhedeg yn syth i Faes Awyr Caerdydd? Rwy'n gwybod bod llawer o ymgyrchwyr yn y sector gwyrdd yn meddwl bod hynny'n syniad da, ar ôl i mi wneud ymchwil ar Drydar yn ddiweddar. Pa anawsterau sydd i hynny, neu a yw hyn yn rhywbeth a fedrwrch fel Llywodraeth yn ei ystyried fel cysyniad newydd unigryw?

I acknowledge that it is important to stabilise what is happening with the airport, but has the Welsh Government looked at the feasibility of trains between London and Swansea running directly to the international airport? I know that a number of campaigners in the green sector think that this is a good idea, having done some research on Twitter recently. What difficulties does that pose, or is this something that you as a Government could look into as a new and unique idea?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:21	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'n bosibl, wrth ystyried y gyffordd i'r dwyrain o Ben-y-bont, i wneud hynny. Wrth gwrs, y peth cyntaf i'w wneud yw sicrhau bod y gwasanaeth o Ben-y-bont ac o Gaerdydd yn mynd pob hanner awr yn lle pob awr. Wedyn, byddai cyfle i ddatblygu ac i ehangu'r gwasanaethau o'r maes awyr i Abertawe ac, mewn amser, i Lundain.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>It is possible, given the junction to the east of Bridgend, to do that. The first thing to do, of course, is to ensure that the service from Bridgend and Cardiff goes every half hour instead of every hour. There will then be an opportunity to develop and enhance the services from the airport to Swansea and, in time, to London.</p>
<p>Rhaglen Ymestyn yn Ehangach Reaching Wider Programme</p>		
14:21	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography <i>12. Sut y mae myfyrwyr o Ogledd Cymru sy'n byw mewn ardaloedd a arferai fod yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gallu cael cyllid o dan y rhaglen Ymestyn yn Ehangach. OAQ(4)0881(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p><i>12. How are students from North Wales who live in areas that were previously designated as Communities First areas able to access funding under the Reaching Wider programme. OAQ(4)0881(FM)</i></p>
14:21	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I brifysgolion mae Ymestyn yn Ehangach yn darparu cyllid, nid i ddysgwyr, er mwyn cynnig cyfleoedd dysgu mewn ardaloedd lle ceir amryfal anfanteision cymdeithasol-economaidd, ac nad oes llawer yn cymryd rhan mewn addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn ystyried ar hyn o bryd sut i barhau i sicrhau bod y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf ac Ymestyn yn Ehangach newydd yn gydnaws â'i gilydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Reaching Wider provides funding to universities, not learners, to offer learning opportunities in areas of multiple socioeconomic disadvantage, and where participation in higher education is low. The Welsh Government and the Higher Education Funding Council for Wales are considering the continued alignment of the new Communities First and Reaching Wider programmes.</p>
14:22	<p>Aled Roberts Bywgraffiad Biography <i>Brif Weinidog, mae nifer o ardaloedd gwledig sydd ar hyn o bryd o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf na fydd o fewn ardaloedd tebyg o dan y 'criteria' newydd wedi ailstrwythuro Cymunedau yn Gyntaf. Felly, mae problem yn codi lle na fydd myfyrwyr fel y rhai mewn ardaloedd yn Ynys Môn a Gwynedd, o dan y 'criteria' fel ag y maent ar hyn o bryd, yn gallu cael mynediad at y gronfa hon yn y dyfodol. A wneuch sicrhau bod hynny'n cael ei ystyried wrth i chi drafod hyn ymhellach gyda'r Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru?</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>First Minister, there a number of rural areas that are currently within Communities First areas that will not be within similar areas under the new criteria following the restructuring of Communities First. Therefore, a problem arises whereby students such as those in areas of Gwynedd and Anglesey, under the criteria as they stand, will not be able to access this fund in future. Will you ensure that that is taken into account as you discuss this further with the Higher Education Funding Council for Wales?</p>
14:23	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Fel y dywedais, arian i ysgolion yw hwn, nid arian i ddysgwyr. Felly mae hwn yn rhywbeth y gallem ei ystyried yn y dyfodol, ond rydym yn gwybod bod ysgolion eisiau sicrhau eu bod yn dal yn denu myfyrwyr o'r ardaloedd hyn i mewn i brifysgolion yn y dyfodol ac rydym yn gwybod bod y ganran o fyfyrwyr o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi tyfu ers 2008.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>As I said, this is funding for schools, not for learners. Therefore, this is something that we could consider in the future, but we know that schools want to ensure that they continue to attract learners from these areas into universities in future, and we know that the percentage of students from Communities First areas has increased since 2008.</p>
14:23	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography <i>First Minister, in response to the Wales Audit Office report of 2010 that highlighted the successes of the social inclusion and learning programme in Conwy, can you assure me that local authorities will retain their remit to provide expertise and support to operations at a local and community level as opposed to a top-down, bureaucratic management style from the Welsh Government?</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Brif Weinidog, gan ymateb i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru o 2010 a amlygodd lwyddiannau'r rhaglen cynhwysiant cymdeithasol a dysgu yng Nghonwy, a allwch chi fy sicrhau y bydd awdurdodau lleol yn cadw eu cylch gwaith i ddarparu arbenigedd a chefnogaeth i weithrediadau ar lefel leol a chymunedol yn hytrach nag arddull rheoli biwrocraidd, o'r brig i lawr gan Lywodraeth Cymru?</p>

14:24 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
There is no evidence at all of that. I am not quite sure what she is talking about—it would not be the first time. Local authorities remain the most important partners in terms of delivery, both now and in the future.

Nid oes unrhyw dystiolaeth o gwbl o hynny. Nid wyf yn hollol siŵr am beth y mae hi'n sôn—nid hwn fyddai'r tro cyntaf. Awdurdodau lleol yw'r partneriaid pwysicaf o hyd, o ran cyflenwi, nawr ac yn y dyfodol.

14:24 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae'r rhaglen Cychwyn Cadarn yn dibynnu i raddau helaeth ar y ffigurau sy'n sail i greu ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae hynny yn gallu cloi allan ardaloedd sydd ag amddifadedd uchel neu lle mae'r sefyllfa wedi dirywio yn y blynyddoedd diwethaf. Yn anffodus, nid oes llawer o hyblygrwydd i lywodraeth leol addasu ei chynlluniau ar gyfer hynny. A wnech sicrhau bod eich swyddogion yn galluogi llywodraeth leol i addasu'r cynlluniau ar gyfer Cychwyn Cadarn i ymateb i'r galw ar y ddaear fel mae'r sefyllfa yn datblygu?

The Sure Start programme depends to a large extent on the figures used as the basis to create Communities First areas. That can exclude areas with high deprivation or where the situation has deteriorated in the past few years. Unfortunately, there is not much flexibility for local authorities to adapt their schemes to address that. Will you ensure that your officials enable local authorities to adapt their plans for Sure Start to respond to the situation on the ground as it develops?

14:24 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Rydym eisiau sicrhau fel y dywedais yn gynharach, ein bod yn gweithio gydag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau'r hyn sydd yn orau i fyfyrwyr ac i gymunedau sy'n dod o dan Cymunedau yn Gyntaf.

As I said earlier, we want to ensure that we work with local authorities to ensure the best for students and for communities that come under Communities First.

Cynllunio Gofodol Morol

Marine Spatial Planning

14:25 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
13. A wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau a yw cynllunio gofodol morol yn parhau yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. OAQ(4)0883(FM)

13. Can the First Minister confirm whether marine spatial planning remains a priority for the Welsh Government. OAQ(4)0883(FM)

14:25 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Ydy, mae hi. Rydym yn deall ei bod yn bwysig bod gyda ni foroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Mae'r rhain yn flaenoriaethau pwysig dros ben i ni fel Llywodraeth.

Yes, it does. We understand that it is important that we have clean, healthy, safe, productive and biologically diverse seas. These are exceptionally important priorities for us as a Government.

14:25 **Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Diolch yn fawr i'r Prif Weinidog am ei ateb. Bydd yn gwybod bod y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi cynhyrchu adroddiad sydd wedi ei alw ychydig yn feirniadol o ddiffygion polisi Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gyfeiriad y môr. A yw'r Prif Weinidog yn fodlon ystyried newid blaenoriaethau cyllidol, ac o safbwynt polisi, i sicrhau y byddwn yn cynllunio'r gofod morol yng Nghymru gyda'r un dwyster ag yr ydym wedi cynllunio'r tir dros y blynyddoedd?

I thank the First Minister for that response. He will know that the Environment and Sustainability Committee has produced a report that has been described as being somewhat critical of the deficiencies of Welsh Government policies in working in the marine sphere. Would the First Minister be willing to consider a change of budgetary priorities and policy priorities to ensure that we plan the marine space in Wales with the same intensity as we have planned on land over the years?

14:26 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Y broblem, wrth gwrs, yw nid yw'r pwerau gennym ar hyn o bryd ar y môr o'u cymharu â'r hyn sydd gyda ni ar y tir, ac ychydig iawn sydd gennym ar y tir o ran ynni. Rydym wedi comisiynu asesiad 'impact' ar gynllunio gofodol morol yng Nghymru. Bydd hwnnw'n rhan o drafodaethau'r Cabinet o ran datblygu'r ffordd ymlaen i sicrhau bod moroedd Cymru yn cael eu hystyried. Mae hynny'n bwysig dros ben, nid yn unig i bobl Cymru, ond i'r rhai sy'n ymweld â Chymru.

The problem, of course, is that we do not have the powers at present over the marine compared to the land, and we have very few powers on the land in terms of energy. We have commissioned an impact assessment of marine spatial planning in Wales. This will be part of the Cabinet discussions on developing the way forward to ensure that the seas of Wales are considered. That is crucial, not only for the people of Wales, but also for those who visit Wales.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:26 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the construction of energy generators, and the transmission element of that, particularly off Anglesey with round 3 and 4 of the proposed offshore windfarms development, will be a key element of effective marine spatial planning. Given that undersea cables will be the only option that will protect communities in north Wales and Snowdonia national park from a new network of intrusive pylons, will you confirm what recent meetings you have held with National Grid to argue the case for a subsea north Wales connection, as, at the last time of asking, you had met with National Grid just three times for a total of two hours since 2009?

Brif Weinidog, bydd y gwaith o adeiladu generaduron ynni, ac elfen drosglwyddo hynny, yn enwedig oddi ar Ynys Môn gyda rowndiau 3 a 4 y datblygiad arfaethedig o ffermydd gwynt ar y môr, yn elfen allweddol o gynllunio gofod morol effeithiol. O gofio mai ceblau tanfor fydd yr unig ddewis a fydd yn diogelu cymunedau yng ngogledd Cymru a pharc cenedlaethol Eryri rhag rhwydwaith newydd o beilonau ymwithiol, a wnewch chi gadarnhau pa gyfarfodydd diweddar a gynhaliwyd gennych â National Grid i ddadlau'r achos dros gysylltiad tanfor yng ngogledd Cymru gan mai dim ond tair gwaith am gyfanswm o ddwy awr yr oeddech chi wedi cyfarfod â National Grid ers 2009 y tro diwethaf y gofynnwyd i chi?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

14:27 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The Member has to understand that there have been hours and hours of meetings between officials and National Grid. Meetings and conversations take place on a regular basis. Does she expect that I meet it every day? I cannot quite understand what her point is. The reality is that we have made representations that her party has failed to make. We have said that we want to see undergrounding in mid Wales as much as possible. Her party has been silent. In fact, her party does not want that. We know that in terms of what her party in London wants to do, which is to ignore TAN 8 and the limitations in TAN 8 and allow windfarms to go absolutely anywhere and to have cabling absolutely anywhere.

Mae'n rhaid i'r Aelod ddeall y bu oriau ac oriau o gyfarfodydd rhwng swyddogion a National Grid. Cynhelir cyfarfodydd a sgysiau yn rheolaidd. A yw hi'n disgwyl i mi gyfarfod ag ef bob dydd? Ni allaf ddeall yn hollol beth yw ei phwynt. Y gwirionedd yw ein bod wedi cyflwyno sylwadau nad yw ei phlaid hi wedi eu cyflwyno. Rydym wedi dweud ein bod eisiau gweld cymaint o danddaearu yng nghanolbarth Cymru â phosibl. Mae ei phlaid hi wedi cadw'n ddistaw. Mewn gwirionedd, nid yw ei phlaid hi eisiau hynny. Rydym yn gwybod hynny o ran yr hyn y mae ei phlaid yn Llundain yn dymuno ei wneud, sef anwybyddu TAN 8 a'r cyfyngiadau yn TAN 8 a chaniatáu i ffermydd gwynt gael eu rhoi mewn unrhyw le ac i geblau gael eu gosod mewn unrhyw le.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

The reality is that we want to see renewable energy development, and we have been exploring options with National Grid in order to minimise the impact of that. However, she must take responsibility here. We have argued many times as a Government, supported by parties in this Chamber, that we in Wales should have control over energy development in terms of the supply of energy and its generation. Her party has refused time and again to provide that for the people of Wales. She cannot try—and some of her colleagues will try this as well—to lay the blame at the door of the Welsh Government when we have no powers in this area. We are willing to take those powers and that responsibility, but the reality is that the party opposite, once again, takes its orders from London. That is something that we will never do on this side of the Chamber.

Y gwirionedd yw ein bod eisiau gweld datblygiad ynni adnewyddadwy, ac rydym wedi bod yn archwilio opsiynau gyda National Grid er mwyn sicrhau bod effaith hynny cyn lleied â phosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddi gymryd cyfrifoldeb yma. Rydym wedi dadlau sawl gwaith fel Llywodraeth, gyda chefnogaeth gan bleidiau yn y Siambur hon, y dylem ni yng Nghymru gael rheolaeth dros ddatblygiad ynni o ran cyflenwi ynni a'i gynhyrchu. Mae ei phlaid hi wedi gwrthod darparu hynny i bobl Cymru dro ar ôl tro. Ni all hi—a bydd rhai o'i chydweithwyr yn ceisio gwneud hyn hefyd—ro'i'r bai ar Lywodraeth Cymru pan nad oes gennym unrhyw bwerau yn y maes hwn. Rydym yn barod i gymryd y pwerau hynny a'r cyfrifoldeb hwnnw, ond y gwir amdani yw bod y blaid gyferbyn, unwaith eto, yn derbyn ei gorchmynion o Lundain. Mae hynny'n rhywbeth na fyddwn ni fyth yn ei wneud ar yr ochr hon i'r Siambur.

Yr Ail Ryfel Byd

The Second World War

- 14:29 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
14. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y gydnabyddiaeth a roddir i'r unigolion hynny a fu'n gwasanaethu Cymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd. OAQ(4)0876(FM)
14. Will the First Minister make a statement on the recognition afforded to those individuals who served Wales during the Second World War. OAQ(4)0876(FM)
- 14:29 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We recognise, of course, the great sacrifices that the armed forces, past and present, have made on our behalf. That is reflected in our continued support for commemorative events and Armed Forces Day celebrations.
Rydym yn cydnabod, wrth gwrs, yr aberthau enfawr y mae'r lluoedd arfog wedi eu gwneud ar ein rhan, yn y gorffennol ac yn y presennol. Adlewyrchir hynny gan ein cefnogaeth barhaus i ddigwyddiadau coffaol a dathliadau Diwrnod y Lluoedd Arfog.
- 14:29 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I thank the First Minister very much for his answer. As you know, First Minister, during the second world war, the British Government devised a scheme whereby a ballot took place to put a proportion of conscripted men into the collieries, rather than into the armed forces. It is in that context that the Bevin Boys were often not given the respect that they duly deserved, because they were falsely perceived to have been avoiding the draft. As these men were often not involved in military action, their memory is sometimes neglected in terms of both memorials and the entitlements and concessions that are available to others. In that context, First Minister, what action are you prepared to consider to accord to the Bevin boys, particularly those who survive to this day, the recognition that they properly deserve?
Diolchaf i'r Prif Weinidog yn fawr iawn am ei ateb. Fel y gwyddoch, Brif Weinidog, yn ystod yr ail ryfel byd, lluniodd Llywodraeth Prydain gynllun lle y cynhaliwyd pleidlais i roi cyfran o'r dynion a alwyd i wasanaethu yn y pyllau glo, yn hytrach nag yn y lluoedd arfog. Yn y cyd-destun hwnnw ni roddwyd y parch dyledus i Fechgyn Bevin yn aml, gan y tybiwyd yn anghywir eu bod yn osgoi'r mynd i ryfel. Gan nad oedd y dynion hyn yn aml yn cymryd rhan mewn gweithrediadau milwrol, caiff eu coffau ei esgeuluso weithiau o ran cofebau a'r hawliau a'r consesiynau sydd ar gael i eraill. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, pa gamau ydych chi'n barod i'w hystyried i roi'r gydnabyddiaeth y maen nhw wirioneddol yn ei haeddu i fechgyn Bevin, yn enwedig y rhai sy'n dal yn fyw heddiw?
- 14:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
The Member is quite right to raise this issue and I will take it up on his behalf. It is right to say that the war could not have been won without the work that was done on the home front. Thirty-seven thousand people worked in the Bridgend arsenal, the majority of them women, and some of them were killed working there because of the inherently dangerous nature of the work. That has been recognised in a book written by my former history teacher about the munitions factory. I will write to the Member. It is important to recognise the contributions of all those who provided the means by which the war could be fought and ultimately won.
Mae'r Aelod yn hollol iawn i godi'r mater hwn a byddaf yn mynd i'r afael ag ef ar ei ran. Mae'n iawn i ddweud na fyddai wedi bod yn bosibl ennill y rhyfel heb y gwaith a wnaethpwyd ar y ffyrnt cartref. Roedd tri deg saith mil o bobl yn gweithio yn arfdy Pen-y-bont ar Ogwr, y mwyafrif ohonynt yn fenywod, a lladdwyd rhai ohonynt wrth weithio yno oherwydd natur beryglus y gwaith. Cydnabuwyd hynny mewn llyfr a ysgrifennwyd gan fy nghyn-athro hanes am y ffatri arfau rhyfel. Byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod. Mae'n bwysig cydnabod cyfraniadau pawb a ddarparodd y modd ar gyfer ymladd y rhyfel a'i ennill yn y pen draw.
- 14:31 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)
I call on Antoinette Sandbach; are you ready to ask question 15? We are actually out of time, but I have called you. I see that you are not ready.
Rwyf yn galw ar Antoinette Sandbach; a ydych chi'n barod i ofyn cwestiwn 15? Mae ein hamser ar ben mewn gwirionedd, ond rwyf wedi eich galw. Gwelaf nad ydych yn barod.
Ni ofynnwyd cwestiwn 15, OAQ(4)0879(FM).
Question 15, OAQ(4)0879(FM), not asked.

14:31	<p>Pwynt o Drefn</p> <p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>In response to me, the First Minister highlighted to the Chamber that he believed that I was not being straight with the Chamber in relation to the figures that I quoted to him on trade. The figures that I used, First Minister, were the last reporting figures from Her Majesty's Revenue and Customs for the third quarter. The next reporting figures are out in March. Obviously, being accurate and factually correct is vital when one is questioning or offering evidence to this Chamber, and I would be grateful if you could give a ruling that the First Minister was out of order in saying that I was not being straight with the Chamber in that instance.</p>	<p>Point of Order</p> <p>Mewn ymateb i mi, amlygodd y Prif Weinidog i'r Siambr ei fod o'r farn nad oeddwn i'n bod yn onest â'r Siambr o ran y ffigurau a ddyfynnwyd iddo ar fasnach. Y ffigurau a ddefnyddiais, Brif Weinidog, oedd y ffigurau adrodd diwethaf gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y trydydd chwarter. Cyhoeddir y ffigurau adrodd nesaf ym mis Mawrth. Yn amlwg, mae bod yn fanwl gywir ac yn ffeithiol gywir yn hanfodol wrth holi neu gynnig tystiolaeth i'r Siambr hon, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi dyfarniad bod y Prif Weinidog ar fai pan ddywedodd nad oeddwn i'n bod yn onest â'r Siambr yn yr achos hwnnw.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I did not hear the remark myself, but—</p>	<p>Ni chlywais y sylw fy hun, ond—</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>The record does show it.</p>	<p>Mae'r cofnod yn ei ddangos.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Excuse me; I said that I did not hear the remark myself, but I will give the First Minister the opportunity to respond if he wishes.</p>	<p>Esgusodwch fi; dywedais na chlywais i'r sylw fy hun, ond rhoddaf gyfle i'r Prif Weinidog ymateb os yw'n dymuno.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The figures that the leader of the opposition has are not the figures that I have, and there it is.</p>	<p>Nid yw'r ffigurau sydd gan arweinydd yr wrthblaid yr un fath â'r ffigurau sydd gennyf i, a dyna ni.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>In that case, I will check the Record to see what was said, and if warranted, I will return to the Chamber with a ruling.</p>	<p>Edrychaf ar y Cofnod i weld beth a ddywedwyd felly ac, os yw'n briodol, byddaf yn dychwelyd i'r Siambr gyda dyfarniad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:32	<p>Datganiad a Chyhoeddiad Busnes</p> <p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House</i></p> <p>Llywydd, I have one change to report to this week's business. The Minister for Health and Social Services will deliver this afternoon's legislative statement on the introduction of the Social Services and Well-being (Wales) Bill. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among agenda papers available to Members electronically.</p>	<p>Business Statement and Announcement</p> <p>Lywydd, mae gennyf un newid i'w adrodd i fusnes yr wythnos hon. Bydd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyflwyno datganiad deddfwriaethol y prynhawn yma ar gyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Dangosir y busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf yn y datganiad a'r cyhoeddiad busnes, sydd ar gael ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i Aelodau yn electronig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:32

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call for a single statement from the Welsh Government relating to the letter from the Welsh Health Specialised Services Committee, which was publicised by the BBC last Thursday, stating that it has written to health trusts in England telling them to delay some operations, including heart surgery, until the end of March, and only to undertake scheduled procedures if there is a risk that patients have to wait longer than 26 weeks; the equivalent target in England is 18 weeks. It also stated that it is implementing new controls in order to stay within available resources. In other words, cross-border health services are compromised so that NHS deficits in the cuts agenda in the Welsh NHS can be met, when the NHS in Wales is facing the largest cuts in Wales. This is a serious letter; it was publicised following last week's Plenaries and this Assembly needs to know a lot more about what is behind it.

Galwaf am un datganiad gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r llythyr gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru, y rhoddwyd cyhoedduswydd iddo gan y BBC ddydd lau diwethaf, gan nodi ei fod wedi ysgrifennu at ymddiriedolaethau iechyd yn Lloegr yn dweud wrthyn nhw i oedi rhai llawdriniaethau, gan gynnwys llawdriniaeth y galon, tan ddiwedd mis Mawrth, a dim ond ymgymryd â llawdriniaethau a drefnwyd os oes risg bod raid i gleifion aros mwy na 26 wythnos; y targed cyfatebol yn Lloegr yw 18 wythnos. Mae hefyd yn datgan ei fod yn gweithredu rheolaethau newydd er mwyn aros o fewn adnoddau sydd ar gael. Mewn geiriau eraill, mae gwasanaethau iechyd traws-ffiniol yn cael eu peryglu er mwyn bodloni diffygion ariannol y GIG yn yr agenda doriadau yn y GIG yng Nghymru, pan mae'r GIG yng Nghymru yn wynebu'r toriadau mwyaf yng Nghymru. Dyma lythyr difrifol; rhoddwyd cyhoedduswydd iddo yn dilyn cyfarfodydd llawn yr wythnos ddiwethaf ac mae angen i'r Cynulliad hwn wybod llawer mwy am yr hyn sydd y tu ôl iddo.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I can assure Mark Isherwood that Welsh Government expectations are unchanged and all patients are to be seen within our waiting time target and in order of clinical importance. The Minister requires all health boards and the WHSSC to work on that basis.

Gallaf sicrhau Mark Isherwood nad yw disgwyliadau Llywodraeth Cymru wedi newid ac mae'r holl gleifion i gael eu gweld o fewn ein targed amser aros ac yn nhrefn pwysigrwydd clinigol. Mae'r Gweinidog yn mynnu bod bob bwrdd iechyd a'r WHSSC i weithio ar y sail honno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:34

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the House, following the Presiding Officer's very welcome article in the 'Western Mail' on the weekend, could we have a debate on sustaining and improving the gender balance within this National Assembly? The Presiding Officer rightly points out that despite early successes, the number of women elected to the Assembly is in steady decline. If we are to tackle this decline, then it needs to be seen as everyone's problem, not just a problem for women. It is important to remember that democracies are all the poorer if they do not reflect the electorate that they serve and that equal representation is good for women and men. I know that there are differences in approaches across the political parties, and I know that the Presiding Officer has written to party leaders. However, with the numbers in decline, I believe that we now need to move from warm words to action.

Arweinydd y Tŷ, yn dilyn erthygl i'w chroesawu'n fawr y Llywydd yn y 'Western Mail' ar y penwythnos, a allem gael dadl ar gynnal a gwella cydbwysedd rhyw o fewn y Cynulliad Cenedlaethol? Mae'r Llywydd yn iawn yn nodi, er gwaetha'r llwyddiannau cynnar, bod nifer y merched a etholir i'r Cynulliad yn gostwng yn gyson. Os ydym i fynd i'r afael â'r dirywiad hwn, yna mae angen iddo gael ei ystyried fel problem pawb, nid dim ond problem i fenywod. Mae'n bwysig cofio bod democratiaethau yn dlotach os nad ydynt yn adlewyrchu'r etholwyr y maent yn eu gwasanaethu a bod cynrychiolaeth gyfartal yn dda ar gyfer menywod a dynion. Rwy'n gwybod bod gwahaniaethau yn y dulliau ar draws y pleidiau gwleidyddol, a gwn fod y Llywydd wedi ysgrifennu at arweinwyr y pleidiau. Fodd bynnag, gyda'r niferoedd yn dirywio, rwy'n credu bod angen inni yn awr symud o eiriau caredig i weithredu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:35

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Christine Chapman for that question. I believe that we should debate this issue in the Chamber. I also very much welcome the Presiding Officer's statements at the weekend, and I hope that that sentiment is shared across the Chamber. If you recall, I also agreed to make an oral statement for International Women's Day about the representation of women, as well as other under-represented groups, in our public bodies. I believe that this will provide an opportunity to consider those further issues, which are of importance in terms of democratic representation in the Assembly. I believe that we are all proud of our achievements in the Assembly. Indeed, many of us featured in the photograph when 50% of Assembly Members were women; it even reached higher than that. We must not let that slip, as the Presiding Officer, and, I am sure, all Assembly Members, would agree.

Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn hwnnw. Credaf y dylem gael dadl ar y mater hwn yn y Siambr. Rwyf hefyd yn croesawu'n fawr ddatganiadau'r Llywydd ar y penwythnos, a gobeithiaf fod y teimlad hwnnw'n cael ei rannu ar draws y Siambr. Os cofiwch, cytunais hefyd i wneud datganiad llafar ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol y Menywod am gynrychiolaeth menywod, yn ogystal â grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol, yn ein cyrff cyhoeddus. Credaf y bydd hyn yn rhoi cyfle i ystyried y materion hynny ymhellach, sydd o bwysigrwydd o ran cynrychiolaeth ddemocrataidd yn y Cynulliad. Credaf ein bod i gyd yn falch o'n llwyddiannau yn y Cynulliad. Yn wir, mae llawer ohonom i'w gweld yn y llun pan oedd 50% o Aelodau'r Cynulliad yn fenywod; fe aeth hyd yn oed yn uwch na hynny. Rhaid i ni beidio gadael i hynny lithro, fel y mae'r Llywydd, ac, rwy'n sicr, holl Aelodau'r Cynulliad, yn cytuno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 14:36 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- Ar hyn o bryd, mae cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal ledled Cymru i drafod dyfodol yr iaith Gymraeg, yn sgîl canlyniadau siomedig y cyfrifiad. Mae Plaid Cymru wedi cyflwyno dadl ar y Gymraeg yn ein hamser ni yn y Cynulliad, ac mae gan Leanne Wood ddadl fer am y Gymraeg yfory. Pryd y gallwn ddisgwyl i'r Llywodraeth gyflwyno dadl ar y Gymraeg yn y Cynulliad, er mwyn inni gael clywed syniadau polisi newydd y Llywodraeth i gwrdd â gofynion y Gymraeg am y ddegawd nesaf?
- At present, there are public meetings happening the length and breadth of Wales discussing the future of the Welsh language, given the disappointing results of the census. Plaid Cymru has tabled a debate in our time in this Assembly, and Leanne Wood has a short debate on the Welsh language tomorrow. When can we expect the Government to bring forward a debate on the Welsh language in the Assembly, so that we can hear new policy ideas from Government to meet the needs of the Welsh language over the next decade?
- 14:36 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- The Minister for Education and Skills responded fully to your debate last week, and will also be responding to the short debate, which has been promoted by your leader, Leanne Wood. This is an opportunity, in terms of public consultation, to feed this through, and I know that the Minister will be looking at those responses carefully. I am sure that the debate will enliven the opportunities that we have as a Welsh Government to recognise these issues.
- Ymatebodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn llawn i'ch dadl yr wythnos diwethaf, a bydd hefyd yn ymateb i'r ddadl fer, sydd wedi cael ei hyrwyddo gan eich arweinydd, Leanne Wood. Mae hwn yn gyfle, o ran ymgynghori cyhoeddus, i gyflwyno hyn, a gwn y bydd y Gweinidog yn edrych ar yr ymatebion hynny yn ofalus. Rwy'n siŵr y bydd y ddadl yn bywiogi'r cyfleoedd sydd gennym fel Llywodraeth Cymru i gydnabod y materion hyn.
- 14:37 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- A great deal is said about legacies following big sporting events. The Welsh Government was instrumental in bringing the Ryder Cup to Wales, as well as in making it a success. However, following the closure of the Summerhill Golf Course in Hay-on-Wye, a substantial number of junior and young players will now not have an academy-size course on which to play golf. What steps can your Government take to ensure that the legacy of the Ryder Cup is available to all young people, regardless of where they live in Wales?
- Mae llawer iawn yn cael ei ddweud am waddol yn dilyn digwyddiadau chwaraeon mawr. Roedd Llywodraeth Cymru yn allweddol wrth ddod â Chwpan Ryder i Gymru, yn ogystal â'i gwneud yn llwyddiant. Fodd bynnag, yn dilyn cau Cwrs Golff Summerhill yn y Gelli Gandryll, bydd nifer sylweddol o chwaraewyr iau ac ifanc yn awr heb gwrs maint academi i chwarae golff arno. Pa gamau all eich Llywodraeth eu cymryd i sicrhau bod gwaddol Cwpan Ryder ar gael i holl bobl ifanc, waeth ble maent yn byw yng Nghymru?
- 14:37 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
- We would very much regret the closure of the Summerhill Golf Course in Hay-on-Wye, and particularly the opportunities for young people. As you say, we must bear in mind the statements that were clearly made about the legacy of the Ryder Cup, the opportunities for young people in sport, and the progression of golf as a key sport in Wales. I will raise this issue with the Minister with responsibility for sport, to see whether we can respond further in terms of those opportunities and that legacy.
- Byddem yn gresynu'n fawr at gau Cwrs Golff Summerhill yn y Gelli Gandryll, ac yn arbennig y cyfleoedd i bobl ifanc. Fel y dywedwch, mae'n rhaid i ni gadw mewn cof y datganiadau a wnaethpwyd yn glir am waddol Cwpan Ryder, y cyfleoedd i bobl ifanc mewn chwaraeon, a chyhyrdd golff fel camp allweddol yng Nghymru. Byddaf yn codi'r mater hwn gyda'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb dros chwaraeon, i weld a allwn ni ymateb ymhellach o ran y cyfleoedd hynny a'r gwaddol hwnnw.

14:38

Paul Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would be grateful if you could request an urgent statement from the Minister for Health and Social Services on health reconfiguration. It has been brought to my attention that the local health boards are already establishing implementation boards to push forward with proposals, even though the reorganisation process itself has not yet come to an end. I understand that Hywel Dda Local Health Board, for example, has already established an implementation board to implement its proposals, even though the local community health council has not yet deliberated its plans. As you know, if the CHC opposes the proposals, then the matter will be referred to the Minister for health for a final decision. Surely, the local health board should not establish an implementation board until this process has been brought to a conclusion. Establishing an implementation board at this stage is premature. I would therefore ask you to request an urgent statement from the Minister for health, intervening in this matter, to ensure that plans are not implemented until the full process has been completed.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ofyn am ddatganiad brys gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ad-drefnu iechyd. Mae wedi cael ei ddwyn i fy sylw bod y byrddau iechyd lleol eisoes yn sefydlu byrddau gweithredu i fwrw ymlaen gyda'r cynigion, er nad yw'r broses ad-drefnu ei hun wedi dod i ben eto. Deallaf fod Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda, er enghraifft, eisoes wedi sefydlu bwrdd gweithredu i weithredu ei gynigion, er nad yw'r cyngor cymuned iechyd lleol eto wedi trafod ei gynlluniau. Fel y gwyddoch, os bydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn gwrthwynebu'r cynigion, yna bydd y mater yn cael ei gyfeirio at y Gweinidog Iechyd ar gyfer penderfyniad terfynol. Siawns na ddylai'r bwrdd iechyd lleol sefydlu bwrdd gweithredu nes bydd y broses wedi cael ei therfynu. Mae sefydlu bwrdd gweithredu ar hyn o bryd yn gynamserol. Byddwn, felly, yn gofyn i chi ofyn am ddatganiad brys gan y Gweinidog Iechyd, yn ymyrryd yn y mater hwn, er mwyn sicrhau nad yw cynlluniau yn cael eu gweithredu nes bod y broses lawn wedi cael ei chwblhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:39

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Paul Davies for his helpful recognition in terms of the process and the guidance for NHS service change. Now that the plans have been published—Hywel Dda Local Health Board and Betsi Cadwaladr University Local Health Board have published their final plans—the local community health council, as you say, has six weeks to decide whether to make a referral to the Minister for Health and Social Services. There is very clear national guidance. That is what now guides us, and certainly guides the Minister in terms of weighting that guidance, and it must also guide Hywel Dda Local Health Board.

Diolch i Paul Davies am ei gydnabyddiaeth ddefnyddiol o ran y broses a'r arweiniad ar gyfer newid gwasanaeth y GIG. Nawr bod y cynlluniau wedi cael eu cyhoeddi—mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cyhoeddi eu cynlluniau terfynol—mae gan y cyngor iechyd cymuned lleol, fel y dywedwch, chwe wythnos i benderfynu p'un ai gwneud atgyfeiriad i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Ceir canllawiau cenedlaethol clir iawn. Dyna beth sy'n ein harwain bellach, ac yn sicr beth sy'n arwain y Gweinidog o ran pwysoli'r cyfarwyddyd hwnnw, a rhaid iddo hefyd arwain Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Last week, I was very honoured to host an event here to mark Holocaust Memorial Day, and I met people who came over on the Kindertransport. It was a deeply moving and emotional occasion, and I know that events were held all over Wales to mark the day. Would it be possible, this time next year, to have a debate or a statement about Holocaust Memorial Day, with particular attention being paid to the other groups who suffered, such as the lesbian, gay, bisexual and transgender community, disabled people and Gypsies, and also, perhaps, to link that with the tremendous contribution that these different groups have made to Wales as it is today?

Yr wythnos diwethaf, roedd yn anrhydedd i mi i gynnal digwyddiad yma i nodi Diwrnod Cofio'r Holocost, a chw'rddais â phobl a ddaeth drosodd ar y Kindertransport. Roedd yn achlysur hynod deimladwy ac emosïynol, ac rwy'n gwybod bod digwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru i ddathlu'r diwrnod. A fyddai'n bosibl, yr adeg hon y flwyddyn nesaf, i gael dadl neu ddatganiad am y Diwrnod Cofio'r Holocost, gan roi sylw arbennig i'r grwpiau eraill a ddioddefodd, megis y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol, pobl anabl a Sipsiwn, a hefyd, efallai, i gysylltu hynny â'r cyfraniad aruthrol y mae'r gwahanol grwpiau hyn wedi ei gwneud i Gymru fel y mae heddiw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:40

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for that question. This is something that we could and should think about. I do not think that we have ever had a debate or a statement on Holocaust Memorial Day. Many of us have attended events over the past few days, and I was very pleased to attend an event in my own constituency, in Barry. This year's theme of building bridges was very interesting and important. This was a Gypsy Roma Traveller community exhibition, looking at the history and at the effect of the Nazi genocide of Europe's Gypsy population as well as looking at the Gypsy and Traveller population today. Therefore, I am sure that this is something that we would look at very carefully and closely in terms of a debate or a statement next year.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiwn hwnnw. Mae hyn yn rhywbeth y gallm ac y dylem feddwl amdano. Nid wyf yn credu ein bod erioed wedi cael dadl neu ddatganiad ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost. Mae nifer ohonom wedi mynychu digwyddiadau yn ystod y dyddiau diwethaf, ac roeddwn yn falch iawn i fynychu digwyddiad yn fy etholaeth fy hun, yn y Barri. Roedd thema eleni o adeiladu pontydd yn ddiddorol iawn ac yn bwysig. Arddangosfa cymuned Teithwyr Sipsiwn Roma oedd hon, yn edrych ar hanes ac effaith hil-laddiad y Natsiaid ar boblogaeth Sipsiwn Ewrop yn ogystal ag edrych ar boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr heddiw. Felly, rwy'n siŵr bod hyn yn rhywbeth y byddem yn edrych arno'n ofalus ac yn agos iawn o ran dadl neu ddatganiad y flwyddyn nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:41

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, yn dilyn cyhoeddi'r fframwaith ar lythrennedd a rhifeg ddoe, mae o leiaf un o'r undebau addysg wedi bygwth gweithredu yn ddiwydiannol. A wnewch chi sicrhau bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn gwneud datganiad yn y Siambr ynghylch y trafodaethau sydd wedi cymryd lle eisoes gyda'r undebau llafur a hefyd ynghylch sut yn union y bydd y fframwaith newydd yn cael ei weithredu o ystyried gwrthwynebiad rhai o'r undebau?

Minister, following the announcement of the literacy and numeracy framework yesterday, at least one of the education unions has threatened industrial action. Will you ensure that the Minister for Education and Skills makes a statement in the Chamber on the discussions that have already taken place with the trade unions and exactly how the new framework is to be implemented given opposition from some of the unions?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:42

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Minister for Education and Skills has a question session this week, which will provide an opportunity to question him. There has been considerable consultation since the national literacy and numeracy framework was announced, and that consultation included consultation with the unions. However, there is an important opportunity to question the Minister in his oral questions and to recognise today the important messages contained in Estyn's annual report in relation to the importance of literacy and numeracy.

Mae gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau sesiwn holi'r wythnos hon, a fydd yn rhoi cyfle i'w holi. Bu ymgynghori sylweddol ers cyhoeddi'r fframwaith cenedlaethol llythrennedd a rhifedd, ac roedd yr ymgynghoriad hwnnw'n cynnwys ymgynghoriad gyda'r undebau. Fodd bynnag, mae cyfle pwysig i holi'r Gweinidog yn ei gwestiynau llafur ac i gydnabod heddiw y negeseuon pwysig a gynhwysir yn adroddiad blynyddol Estyn mewn perthynas â phwysigrwydd llythrennedd a rhifedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I echo the calls for a statement on the recent decision made by the Welsh Health Specialised Services Committee regarding the treatment of Welsh patients at English hospitals. It is completely incomprehensible why the Welsh Health Specialised Services Committee would issue an instruction for those people who already have their operation scheduled at hospitals to have those delayed on the basis of insufficient resources being available to the Welsh NHS. It calls into question the resource allocation that has been made available to the NHS—not just in the current financial year, but future financial years as well. I request strongly that the Minister for Health and Social Services makes a statement on that particular issue.

Adleisiaf y galwadau am ddatganiad ar y penderfyniad diweddar a wnaed gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru ynghylch trin cleifion o Gymru mewn ysbytai Lloegr. Mae'n gwbl annealladwy pam y byddai Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru yn cyhoeddi cyfarwyddyd ar gyfer y bobl y mae eu llawdriniaeth eisoes wedi'i threfnu mewn ysbytai i gael oedi'r rheiny ar sail adnoddau annigonol ar gael i'r GIG yng Nghymru. Mae'n bwrw amheuaeth ar y dyraniad adnoddau sydd ar gael i'r GIG—nid yn unig yn y flwyddyn ariannol bresennol, ond blynyddoedd ariannol y dyfodol yn ogystal. Gofynnaf yn gryf bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad ar y mater penodol hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I also request an urgent statement from the Minister for health in response to today's calls by the British Medical Association, the Royal College of Nursing and the Royal College of Midwives to reverse the decision that has been taken in north Wales in respect of the transfer of level 3 neonatal services from that region into the north-west of England. You will be aware that there have been many calls now for ministerial intervention into this particular issue. I appreciate the challenge that that may present the Minister as a result of the process that has been agreed with health boards, but the pressure is mounting from clinicians in particular—not just politicians—regarding the evidence base for the decision that was taken. I request an urgent response to that particular call, which was made today.

Gofynnaf hefyd am ddatganiad brys gan y Gweinidog iechyd yn ymateb i alwadau heddiw gan y Gymdeithas Feddygol Brydeinig, Coleg Brenhinol y Nyrsys a Choleg Brenhinol y Bydwagedd i wrthdroi'r penderfyniad sydd wedi'i wneud yng ngogledd Cymru mewn perthynas â throsglwyddo gwasanaethau newyddenedigol lefel 3 o'r rhanbarth i ogledd-orllewin Lloegr. Byddwch yn ymwybodol y bu llawer o alwadau bellach am ymyriad gan y Gweinidog ar y mater arbennig hwn. Sylweddolaf yr her y gallai hynny ei rhoi i'r Gweinidog o ganlyniad i'r broses sydd wedi ei chytuno gyda byrddau iechyd, ond mae'r pwysau'n cynyddu gan glinigwyr yn benodol—nid dim ond gwleidyddion—ynghylch sylfaen dystiolaeth ar gyfer y penderfyniad a gymerwyd. Rwy'n gofyn am ymateb brys i'r alwad benodol honno, a wnaed heddiw.

14:44

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will repeat, because it is important for the record, the response that I gave to Mark Isherwood earlier and say that the Welsh Government's expectations are unchanged. All patients are to be seen within our waiting time target and in order of clinical importance. That is what the Minister requires of health boards and the WHSSC: to work on this basis.

Byddaf yn ailadrodd, oherwydd mae'n bwysig ar gyfer y cofnod, yr ymateb a roddais i Mark Isherwood yn gynharach a dywedaf fod disgwyliadau Llywodraeth Cymru wedi newid. Mae'r holl gleifion i gael eu gweld o fewn ein targed amser aros ac yn nhrefn pwysigrwydd clinigol. Dyna beth y mae'r Gweinidog yn ei fynnu gan fyrddau iechyd a'r WHSSC: i weithio ar y sail hon.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I repeat that we expect community health councils to come to a view on the plans that have been published within six weeks. On neonatal services, the health board has taken advice from professional groups, including royal colleges and, importantly, patient representatives such as Bliss, on the best way to give premature and sick babies the best chance of long-term survival and wellbeing.

Rwy'n ailadrodd ein bod yn disgwyl i gynghorau iechyd cymuned ddod i farn ar y cynlluniau sydd wedi eu cyhoeddi o fewn chwe wythnos. Ar wasanaethau newyddenedigol, mae'r bwrdd iechyd wedi cael cyngor gan grwpiau proffesiynol, gan gynnwys colegau brenhinol ac, yn bwysig, cynrychiolwyr cleifion, megis Bliss, ar y ffordd orau i roi'r cyfle gorau o oroesi a lles hirdymor babanod cynamserol a sâl.

14:45

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Online gambling is now a £2 billion industry in Britain that appeals to ever-wider groups of people. Following the recent publication of new evidence revealing that up to 1 million people are at risk of becoming problem gamblers in Britain, I would welcome a statement from the Welsh Government on the support and treatment available for people who are addicted to gambling or are at risk of becoming addicted to gambling in Wales. In addition to this, I would be interested to learn how you are working alongside the UK Government, the industry and the voluntary sector on the preventative agenda.

Mae gamblo ar-lein yn awr yn ddiwydiant gwerth £2 biliwn ym Mhrydain sy'n apelio at grwpiau o bobl sy'n ehangu'n gyson. Yn dilyn cyhoeddi tystiolaeth newydd yn ddiweddar sy'n dangos bod hyd at 1 miliwn o bobl mewn perygl o ddod yn gamblwyr problemus ym Mhrydain, byddwn yn croesawu datganiad gan Lywodraeth Cymru ar y cymorth a'r driniaeth sydd ar gael i bobl sy'n gaeth i gamblo neu sydd mewn perygl o ddod yn gaeth i gamblo yng Nghymru. Yn ogystal â hyn, byddai gennyf ddiddordeb i ddysgu sut yr ydych yn gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth y DU, y diwydiant a'r sector gwirfoddol ar yr agenda ataliol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:46

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Rebecca Evans for that question. This is an area where I am sure Assembly Members would wish to be more informed and engaged in understanding the help that is available to their constituents. I am sure that you will be aware of the gambling support group website, GamCare, and of Gamblers Anonymous UK, which provide information and advice, as does Citizens Advice. The provision of support and advice from general practitioners is also crucial, and the Responsible Gambling Trust has awarded funding to the Royal College of General Practitioners to raise awareness and to develop a training programme for GPs. This is an issue that we can look at, but the National Assembly for Wales does not have devolved legislative powers in relation to gambling.

Diolch i Rebecca Evans am y cwestiwn hwnnw. Mae hwn yn faes lle'r wyf yn siŵr y byddai Aelodau'r Cynulliad yn dymuno bod yn fwy gwybodys a chymryd rhan mewn deall y cymorth sydd ar gael i'w hetholwyr. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymwybodol o'r wefan grŵp cymorth gamblo, GamCare, ac o Gamblers Anonymous UK, sy'n darparu gwybodaeth a chyngor, fel y mae Cyngor Ar Bopeth yn ei wneud. Mae'r ddarpariaeth o gefnogaeth a chyngor gan ymarferwyr cyffredinol hefyd yn hollbwysig, ac mae'r Ymddiriedolaeth Hapchwarae Cyfrifol wedi dyfarnu cyllid i Goleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol i godi ymwybyddiaeth ac i ddatblygu rhaglen hyfforddi ar gyfer meddygon teulu. Mae hwn yn fater y gallwn edrych arno, ond nid oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru bwerau deddfwriaethol datganoledig mewn perthynas â hapchwarae.

14:46

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Leader of the House, I request a statement from the Minister for health in respect of cancer treatment times and targets. I have had two contradictory answers from the First Minister; today, he highlighted that the Minister was working tirelessly so that the target can be met, and I have no doubt that that work is going on, but, in questions some weeks ago, he said that the target would be met by the end of March. I would be most grateful for a statement that enables us to understand how the Government is working with the health boards to address this shortfall in the target, which has not been met since the First Minister has been in post.

Arweinydd y Tŷ, gofynnaf am ddatganiad gan y Gweinidog iechyd mewn perthynas ag amseroedd triniaeth canser a thargedau. Rwyf wedi cael dau ateb croes i'w gilydd gan y Prif Weinidog; heddiw, amlygodd fod y Gweinidog yn gweithio'n ddiflino er mwyn bodloni'r targed, ac nid oes gennyf amheuaeth bod y gwaith yn mynd ymlaen, ond, mewn cwestiynau rai wythnosau yn ôl, dywedodd y byddai'r targed yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd mis Mawrth. Byddwn yn ddiolchgar iawn am ddatganiad sy'n ein galluogi i ddeall sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda'r byrddau iechyd i fynd i'r afael â'r diffyg yn y targed, nad yw wedi cael ei fodloni ers y mae'r Prif Weinidog yn y swydd.

Secondly, could you give an indication of when the planning Bill is likely to come before the Assembly for its initial consideration, and within what time frame is the Government working in introducing that Bill?

Yn ail, a allech chi roi syniad o ba bryd y mae'r Bil cynllunio yn debygol o ddod gerbron y Cynulliad ar gyfer ei ystyriaeth gychwynnol, ac o fewn pa amserlen y mae'r Llywodraeth yn gweithio wrth gyflwyno'r Bil hwnnw?

14:47

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Andrew R.T. Davies for those questions. For the record, I wish to make it very clear, on behalf of the Minister for Health and Social Services, that we are working very closely with health boards to improve performance, concentrating on those patients who have been waiting for more than 62 days. The Minister for health has expressed to health board chairs her wish to see improvements from the end of this financial year. So, I confirm that it is the end of March in terms of the delivery of targets.

Diolch i Andrew R.T. Davies am y cwestiynau hynny. Er mwyn i bawb gael gwybod, rwyf am ei gwneud yn glir iawn, ar ran y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ein bod yn gweithio'n agos iawn gyda'r byrddau iechyd i wella perfformiad, gan ganolbwyntio ar y cleifion hynny sydd wedi bod yn aros am fwy na 62 diwrnod. Mae'r Gweinidog iechyd wedi mynegi i gadeiryddion byrddau iechyd ei dymuniad i weld gwelliannau o ddiwedd y flwyddyn ariannol hon. Felly, rwy'n cadarnhau ei bod yn ddiwedd mis Mawrth o ran cyflawni targedau.

On the introduction of planning legislation, this is a key part of our legislative programme. I will bring a timetable to the Assembly in due course.

O ran cyflwyno deddfwriaeth gynllunio, mae hyn yn rhan allweddol o'n rhaglen ddeddfwriaethol. Byddaf yn dod ag amserlen i'r Cynulliad maes o law.

14:48	<p>Nick Ramsay Bywgraffiad Biography</p> <p>Could we have a statement from the Minister regarding the roll-out of superfast broadband in Wales, an issue that a number of Members have raised over the last few weeks? The current scheme involves a partnership worth some £40 million between the Welsh Government and BT, but seven local authorities are not getting any of the coverage. People in my area are very concerned about this, Leader of the House, so I would be grateful for an update so that we can hear how the Welsh Government intends to plug what will be, in the short term at least, a very big notspot in broadband provision in Wales.</p>	<p>A allem gael datganiad gan y Gweinidog ynghylch y broses o gyflwyno band eang cyflym iawn yng Nghymru, mater y mae nifer o Aelodau wedi ei godi dros yr wythnosau diwethaf? Mae'r cynllun presennol yn cynnwys partneriaeth gwerth tua £40 miliwn rhwng Llywodraeth Cymru a BT, ond mae saith awdurdod lleol nad ydynt yn cael dim o'r gwasanaeth. Mae pobl yn fy ardal i yn poeni'n fawr am hyn, Arweinydd y Tŷ, felly byddwn yn ddiolchgar am y wybodaeth ddiweddaraf fel y gallwn glywed sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu llenwi'r hyn a fydd, yn y tymor byr o leiaf, yn fan gwan mawr iawn yn y ddarpariaeth band eang yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Jane Hutt Bywgraffiad Biography</p> <p>The Minister will be answering questions next week, and she can provide an update as she did during her last oral Assembly questions. What is clear is that we are moving forward as a result of approval granted by the UK Government on 11 January.</p>	<p>Bydd y Gweinidog yn ateb cwestiynau yr wythnos nesaf, a gall hi ddarparu diweddariad fel y gwnaeth yn ystod ei chwestiynau llafar y Cynulliad diwethaf. Beth sy'n amlwg yw ein bod yn symud ymlaen o ganlyniad i gymeradwyaeth a roddwyd gan Lywodraeth y DU ar 11 Ionawr.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, Minister.</p>	<p>Diolch, Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:49	<p>Datganiad: Cyflwyno'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)</p> <p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services</i></p> <p>Yesterday, the Deputy Minister for Children and Social Services laid the Social Services and Well-being (Wales) Bill, together with the explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. This was an immensely proud occasion for the Government and is the culmination of more than two years' work to translate what we believe is our shared vision into action. It was fitting that the Bill was launched at an integrated children's service—a collaboration between local government and our health partners, funded through our Flying Start programme. This is an excellent example of the type of early intervention service that we want to see developed across the age spectrum. Today, I am introducing the Bill formally for Assembly Members' consideration on behalf of the Deputy Minister.</p> <p>This Bill gives effect to the policy in 'Sustainable Social Services for Wales'. It has at its heart two key policy objectives. The first is to improve the wellbeing of people who need care and support, as well as carers who need support, and the second objective is to reform social services law to create, for the first time, a legal framework for social services in Wales that has been made in Wales. This is a significant Bill, covering a wide policy area, and too wide for me to cover in the time that I have available. However, I want to draw Members' attention to aspects of the Bill that we believe illustrate its scope, ambition and impact.</p>	<p>Statement: The Introduction of the Social Services and Well-being (Wales) Bill</p> <p>Ddoe, gosododd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ynghyd â'r memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd hwn yn achlysur o falchder mawr i'r Llywodraeth, ac mae'n benllanw gwaith mwy na dwy flynedd o droi'r hyn a gredwn yw ein gweledigaeth ar y cyd i weithredu. Roedd yn briodol y cafodd y Bil ei lansio mewn gwasanaeth integredig i blant—cydweithredu rhwng llywodraeth leol a'n partneriaid iechyd, a ariennir drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg. Mae hyn yn enghraifft wych o'r math o wasanaeth ymyrraeth gynnar yr ydym am ei weld yn datblygu ar draws y sbectrwm oedran. Heddiw, rwy'n cyflwyno'r Bil yn ffurfiol i'w ystyried gan Aelodau'r Cynulliad ar ran y Dirprwy Weinidog.</p> <p>Mae'r Bil hwn yn rhoi effaith i'r polisi yn 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy ar gyfer Cymru'. Mae dau amcan polisi allweddol yn ganolog iddo. Y cyntaf yw gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, yn ogystal â gofalwyr sydd angen cymorth, a'r ail amcan yw diwygio cyfraith gwasanaethau cymdeithasol i greu, am y tro cyntaf, fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru sydd wedi cael ei wneud yng Nghymru. Mae hwn yn Fil pwysig, yn cwmpasu maes polisi eang, ac yn rhy eang i mi ymdrin ag o yn yr amser sydd ar gael imi. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'r Aelodau at agweddau ar y Bil yr ydym yn credu sy'n dangos ei gwmpas, ei uchelgais a'i effaith.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

The Bill will enshrine and further our rights agenda. People's rights, whether younger or older people, are embedded throughout. There is a clear focus on the outcomes that the person wants to achieve, rather than a menu of services. Other examples include giving more voice to children and young people in decisions affecting them, the rights of carers to an assessment of need, equity with service users and the recognition of the rights of young carers. The Bill will introduce a new system that sees people as people. It sees us all as part of our families and communities, not as isolated individuals. It establishes the principle of a model that integrates and aligns arrangements so that there is a common set of processes as far as possible for people, not systems based artificially on age.

The Bill will require a shift to prevention and early intervention. It introduces a duty on local authorities, facilitated by local health boards, to provide information, advice and assistance to help people understand what is available locally, how they access help and, where necessary, to be assisted to access or secure care and support. It will afford enhanced duties on local authorities and local health boards to prevent and reduce the need for care and support for people in their area. We do not expect local authorities to provide all of these services themselves, but to play a leading role in identifying, supporting and, where appropriate, securing a range of such services. Communities are a rich source of resource and more needs to be done to capitalise on this. The voluntary and independent sectors all have key contributions to make. Social enterprises, co-operatives and co-production are key to achieving sustainability. This Bill places them at the heart of our agenda.

The Bill will strengthen safeguarding. We are legislating to ensure that adults at risk are better protected in law. We are modernising our arrangements, streamlining them, making them more effective and responding to the calls, including those from the Welsh safeguarding children forum, for strong leadership through the creation of a new national board and new regional footprints for local boards.

The Bill that we have introduced is within competence. It has been slightly modified to take account of the fact that we have not yet secured all of the necessary consents from two Whitehall departments. We will continue to pursue this and will seek to reintroduce the small number of deleted provisions at Stage 2. However, we have to express our disappointment that the UK Government did not prioritise the strengthening of safeguarding.

Bydd y Bil yn cynnwys a hyrwyddo ein hagenda hawliau. Mae hawliau pobl, boed nhw'n bobl iau neu hŷn, yn cael eu hymgorffori drwy'r agenda. Mae ffocws clir ar y canlyniadau y mae'r person yn dymuno eu cyflawni, yn hytrach na dewislen o wasanaethau. Mae enghreifftiau eraill yn cynnwys rhoi mwy o lais i blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, hawliau gofawyr i gael asesiad o angen, ecwiti gyda defnyddwyr gwasanaeth a chydabod hawliau gofawyr ifanc. Bydd y Bil yn cyflwyno system newydd sy'n ystyried pobl fel pobl. Mae'n ein gweld ni i gyd fel rhan o'n teuluoedd a'n cymunedau, nid fel integreiddio ac yn alinio trefniadau fel bod set gyffredin o brosesau cyn belled ag y bo modd i bobl, nid systemau sy'n seiliedig yn artiffisial ar oedran.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol cael newid i atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'n cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol, a hwyluswyd gan fyrdau iechyd lleol, i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i helpu pobl i ddeall beth sydd ar gael yn lleol, sut y maent yn cael cymorth a, lle bo angen, i'w cynorthwyo i gael mynediad neu sicrhau gofal a chymorth. Bydd yn rhoi dyletswyddau ychwanegol ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol i atal a lleihau'r angen am ofal a chefnogaeth i bobl yn eu hardal. Nid ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu'r holl wasanaethau hyn eu hunain, ond i chwarae rhan flaenllaw mewn nodi, cefnogi a, lle bo'n briodol, sicrhau ystod o wasanaethau o'r fath. Mae cymunedau'n ffynhonnell gyfoethog o adnoddau ac mae angen gwneud llawer mwy i fanteisio ar hyn. Mae gan y sectorau gwirfoddol ac annibynnol i gyd gyfraniadau allweddol i'w gwneud. Mae mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol a chyd-gynhyrchu yn allweddol i sicrhau cynaliadwyedd. Mae'r Bil hwn yn eu gosod wrth galon ein hagenda.

Bydd y Bil yn cryfhau diogelu. Rydym yn deddfu i sicrhau bod oedolion sydd mewn perygl yn cael eu diogelu'n well gan y gyfraith. Rydym yn moderneiddio ein trefniadau, yn eu symleiddio, gan eu gwneud yn fwy effeithiol ac yn ymateb i'r galwadau, gan gynnwys rhai gan Fforwm Diogelu Plant Cymru, am arweiniad cryf drwy greu bwrdd cenedlaethol newydd ac olion traed rhanbarthol newydd ar gyfer byrddau lleol.

Mae'r Bil yr ydym wedi'i gyflwyno o fewn cymhwysedd. Mae wedi cael ei addasu ychydig i ystyried y ffaith nad ydym wedi sicrhau eto pob un o'r cydsyniadau angenrheidiol gan ddwy o adrannau Whitehall. Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd hyn a byddwn yn ceisio ailgyflwyno'r nifer fach o ddarpariaethau a ddilëwyd yng Nghyfnod 2. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fynegi ein siom nad yw Llywodraeth y DU yn rhoi blaenoriaeth i gryfhau diogelu.

Members will note that the Bill does not contain any consequential amendments or repeals at this stage. This is of necessity, in part, because the UK Government is legislating in the same area of law with its care and support Bill and children and families Bill. We know already that we will need to propose a number of Government amendments for Stage 2 consideration. These are, by and large, technical and we can give commitment to Members that it is our intention to make the draft amendments available well before Stage 2 deadlines. The Deputy Minister is expecting to be in a position to make further information on the nature and areas of the proposed amendments within the coming weeks.

The Bill is enabling in nature and Members will see that there remains much work to be done to build the detail of the system through subordinate legislation. We want this work to be undertaken collaboratively and with real engagement from those who have experience of, or work in, this field. The Deputy Minister's cross-party partnership forum, together with the citizen panels that she has established, will be key to driving the work programme.

This Bill is built on consensus. The Deputy Minister wanted to put on record her gratitude to elected Members—in the Chamber and at a local level—for the contribution that they have made in articulating our vision, identifying the issues and finding ways forward. We have consulted widely and built our proposals on a solid foundation of evidence, including from the Independent Commission on Social Services in Wales. We have also had the benefit of technical input, for example through the Law Commission's review of adult social care law.

We welcome the news that the Bill has been referred to the Health and Social Care Committee and that the Children and Young People's Committee is also considering how best it can input into that process. We welcome the advisory group that is third sector-led and the decision of the Health and Social Care Committee to appoint external experts.

We want this Bill to be the best it can possibly be to ensure that it meets the needs of a generation and truly achieves the improved outcomes that we all seek. The Deputy Minister and I know that you share our view that this Bill is needed and timely. We look forward to the Assembly's consideration of the Bill over the coming months. Diolch.

Bydd yr Aelodau'n sylwi nad yw'r Bil yn cynnwys unrhyw ddiwygiadau canlyniadol neu ddiddymiadau ar hyn o bryd. Mae hyn o reidrwydd, yn rhannol, oherwydd bod Llywodraeth y DU yn deddfu yn yr un maes o'r gyfraith gyda'i Bil gofal a chefnogaeth a Bil plant a theuluoedd. Rydym yn gwybod eisoes y bydd angen i ni gynnig nifer o welliannau Llywodraeth ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 2. Mae'r rhain, ar y cyfan, yn dechnegol a gallwn roi ymrwymiad i Aelodau mai ein bwriad yw sicrhau bod y newidiadau drafft ar gael ymhell cyn dyddiad cau Cyfnod 2. Mae'r Dirprwy Weinidog yn disgwyl bod mewn sefyllfa i roi rhagor o wybodaeth am natur a meysydd y diwygiadau arfaethedig o fewn yr wythnosau nesaf.

Mae'r Bil yn galluogi yn ei natur a bydd yr Aelodau'n gweld llawer o waith ar ôl i'w wneud i adeiladu manylion y system drwy is-ddeddfwriaeth. Rydym am i'r gwaith gael ei wneud ar y cyd a chydag ymrwymiad go iawn gan y rhai sydd â phrofiad o'r maes hwn, neu sy'n gweithio ynddo. Bydd fforwm partneriaeth trawsbleidiol y Dirprwy Weinidog, ynghyd â'r paneli dinasyddion y mae hi wedi'u sefydlu, yn allweddol i sbarduno'r rhaglen waith.

Mae'r Bil hwn yn cael ei adeiladu ar gonsensus. Roedd y Dirprwy Weinidog yn awyddus i ddiolch ar goedd i'r Aelodau etholedig—yn y Siambr ac ar lefel leol—am y cyfraniad y maent wedi'i wneud wrth gyfleu ein gweledigaeth, nodi'r materion a dod o hyd i ffordd ymlaen. Rydym wedi ymgynghori'n eang ac wedi adeiladu ein cynigion ar sylfaen gadarn o dystiolaeth, gan gynnwys y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Rydym hefyd wedi cael y fantais o fewnbnw technegol, er enghraifft trwy adolygiad Comisiwn y Gyfraith o gyfraith gofal cymdeithasol i oedolion.

Rydym yn croesawu'r newyddion bod y Bil wedi cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a bod y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc hefyd yn ystyried sut orau y gall gyfrannu at y broses honno. Rydym yn croesawu'r grŵp cynghori sydd yn cael ei arwain gan y trydydd sector a phenderfyniad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i benodi arbenigwyr allanol.

Rydym am i'r Bil hwn fod y gorau y gall fod er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni anghenion cenhedlaeth ac yn wir yn cyflawni'r canlyniadau gwell yr ydym i gyd yn chwilio amdanynt. Mae'r Dirprwy Weinidog a finau'n gwybod eich bod yn rhannu ein barn bod angen y Bil hwn ac mae'n amserol. Rydym yn edrych ymlaen at ystyriaeth y Cynulliad o'r Bil dros y misoedd nesaf. Diolch.

14:56 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

I have a long list of speakers, therefore, may I remind Members that this is an opportunity to question the Minister and not for long speeches? The first speaker is William Graham.

Mae gennyf restr hir o siaradwyr, felly, hoffwn atgoffa'r Aelodau bod hwn yn gyfle i holi'r Gweinidog ac nid ar gyfer areithiau hir? Y siaradwr cyntaf yw William Graham.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

14:56 **William Graham** [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Presiding Officer. I thank the Minister for her statement today, for the written statement yesterday and for the way in which she has answered this afternoon; I am most grateful.

Diolch ichi, Lywydd. Diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw, am y datganiad ysgrifenedig ddoe ac am y ffordd y mae wedi ateb y prynhawn yma; rwy'n hynod ddiolchgar.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The Welsh Conservatives offer their broad support for this Bill. We were a little concerned by the Deputy Minister's previous statement that it was cost neutral. We will wait and see how this is rolled out over the next few years in order to see whether that is, in fact, true.

The Minister will know that social services can often respond magnificently when there is a crisis, but they appear all too often unable to prevent that crisis from happening. We agree that this Bill is both needed and timely and we trust that it will transform the way in which social services are delivered, primarily through promoting people's independence and giving them a stronger voice. On that, we ask the Minister to consider again the process of independent advocacy and whether that can be strengthened during the passage of the Bill.

We note that there is a single right to assessment for adults and this will now therefore be a single duty for local authorities to undertake a carer's assessment. The Minister will also be well aware of the urgent need for the correct assessment, particularly for child carers. We await further information, on the duty of local authorities to conduct that eligibility assessment. We would welcome that when you come to publish the details of the assessment. The care and support plans will be portable, but I ask the Minister why those for carers are not portable? The duty on local authorities to meet the care and support needs of looked-after children is again widely welcomed and further details will, no doubt, be available.

The new statutory framework to protect adults at risk, including an authorised officer of a local authority to apply to a court for adult protection, is probably necessary, but again we would welcome scrutiny in committee and debate in this house on how that will be implemented. We welcome the creation of the safeguarding children board and the new safeguarding adults board, but ask whether any contribution will be suggested from police and the probation service.

The right of carers to an assessment of need is clearly welcomed and we ask the Minister to be mindful of that. The new concept of the mature child is very important, particularly where there is a transition in care at particular ages.

We offer our support and would welcome the Minister's answers.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cynnig eu cefnogaeth eang i'r Bil. Pryderwyd ni ychydig gan ddatganiad blaenorol y Dirprwy Weinidog nad oedd yn niwtral o ran cost. Byddwn yn aros i weld sut y mae hyn yn cael ei gyflwyno dros y blynyddoedd nesaf er mwyn gweld a yw hynny, mewn gwirionedd, yn wir.

Bydd y Gweinidog yn gwybod y gall y gwasanaethau cymdeithasol yn aml ymateb yn wych pan fydd argyfwng, ond maent yn ymddangos yn rhy aml yn analluog i atal yr argyfwng hynny rhag digwydd. Rydym yn cytuno bod angen y Bil a'i fod yn amserol a hyderwn y bydd yn trawsnewid y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu darparu, yn bennaf drwy hyrwyddo annibyniaeth pobl a rhoi llais cryfach iddynt. Ar hynny, byddwn yn gofyn i'r Gweinidog ystyried eto'r broses o eiriolaeth annibynnol ac a oes modd ei chryfhau yn ystod taith y Bil.

Rydym yn nodi bod hawl sengl i asesu ar gyfer oedolion, a bydd hyn yn awr, felly, yn un ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad gofalwr. Bydd y Gweinidog hefyd yn ymwybodol iawn o'r angen brys ar gyfer yr asesiad cywir, yn enwedig ar gyfer gofaluwr plant. Rydym yn aros am ragor o wybodaeth, ar y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal yr asesiad cymhwyster. Byddem yn croesawu hynny pan fyddwch yn cyhoeddi manylion yr asesiad. Bydd y cynlluniau gofal a chymorth yn gludadwy, ond gofynnaf i'r Gweinidog pam nad yw'r rhai ar gyfer gofaluwr yn gludadwy? Mae'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plant unwaith eto yn cael croeso eang a bydd manylion pellach, yn ddiaw, ar gael.

Mae'r fframwaith statudol newydd i amddiffyn oedolion sydd mewn perygl, gan gynnwys swyddog awdurdodedig awdurdod lleol i wneud cais i'r llys am amddiffyn oedolion, yn ôl pob tebyg yn angenrheidiol, ond unwaith eto byddem yn croesawu craffu yn y pwyllgor a dadl yn y tŷ hwn ar sut y bydd hynny'n cael ei weithredu. Rydym yn croesawu creu'r bwrdd diogelu plant a'r bwrdd diogelu newydd i oedolion, ond gofynnwn a fydd unrhyw gyfraniad yn cael ei awgrymu gan yr heddlu a'r gwasanaeth prawf.

Mae hawl i ofaluwr gael asesiad o angen yn cael ei groesawu yn glir ac rydym yn gofyn i'r Gweinidog fod yn ymwybodol o hynny. Mae'r cysyniad newydd o'r plentyn aeddfed yn bwysig iawn, yn enwedig lle mae pontio mewn gofal ar oeddrannau penodol.

Rydym yn cynnig ein cefnogaeth a byddem yn croesawu atebion y Gweinidog.

14:59

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

I thank William Graham for the broad support given to the Bill. In relation to the cost-neutral aspect, this Bill is about enabling social services to do different things, not just do the same things differently. It is important that we target early intervention. He mentioned that social services are very good in a crisis, but we want to avoid the crisis interventions and intervene earlier and take more preventative action. This would not just be better for the service user, but it would be more cost-effective.

Diolch i William Graham am y gefnogaeth eang a roddwyd i'r Bil. Mewn perthynas â'r agwedd niwtral o ran cost, mae'r Bil hwn yn ymwneud â galluogi gwasanaethau cymdeithasol i wneud pethau gwahanol, nid dim ond gwneud yr un pethau mewn ffordd wahanol. Mae'n bwysig ein bod yn targedu ymyrraeth gynnar. Soniodd fod gwasanaethau cymdeithasol yn dda iawn mewn argyfwng, ond rydym yn awyddus i osgoi'r ymyriadau mewn argyfwng ac ymyrryd yn gynharach a chymryd mwy o gamau ataliol. Byddai hyn nid yn unig yn well ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth, ond byddai'n fwy cost-effeithiol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You mentioned the carers assessments. It is very important that carers have these assessments and that we recognise the care and support that they need. Obviously, they do an important job and it is important that we support them. They are not portable, because they have to be where the service user is located. So, their assessment plans will be portable, but not in the case of the carers.

On the issue that you raised about safeguarding, we accept that we have got the safeguarding of children right, but we need to extend that to adults also. It is important that we recognise that.

Soniasoch am yr asesiadau gofalwyr. Mae'n bwysig iawn bod gan ofalwyr yr asesiadau hyn a'n bod yn cydnabod y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Yn amlwg, maent yn gwneud gwaith pwysig ac mae'n bwysig ein bod yn eu cefnogi. Nid ydynt yn gludadwy, oherwydd bod rhaid iddynt fod yn lle mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei leoli. Felly, bydd eu cynlluniau asesu yn symudol, ond nid yn achos y gofalwyr.

O ran y mater a godasoch ynglŷn â diogelu, rydym yn derbyn ein bod wedi cael diogelu plant yn iawn, ond mae angen ymestyn hynny i oedolion hefyd. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod hynny.

15:00

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I strongly welcome and support this Bill and the hard work done by the Minister and the Deputy Minister. I wonder whether the Minister is aware of Cardiff Council's proposal to launch an arm's-length company to provide adult social care in the city called Cardiff Cares, which aims to improve standards and to get out of the competitive scene that exists in domiciliary social care. Does she think that that is the way forward and that it fits in with the Bill and the proposals in Part 2 of the Bill?

She has already said how important it is to have adult protection, and the Bill takes a good step forward on that. Is there any proposal to provide independent advocacy in the Bill?

Rwy'n croesawu ac yn cefnogi'r Bil hwn yn fawr a'r gwaith caled a wnaed gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog. Tybed a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o gynnis Cyngor Caerdydd i lansio cwmni hyd braich er mwyn darparu gofal cymdeithasol i oedolion yn y ddinas o'r enw Cares Cardiff, sy'n anelu at wella safon a dod o'r sefyllfa gystadleuol sy'n bodoli ym maes gofal cymdeithasol cartref. A yw'n credu mai dyna'r ffordd ymlaen a'i fod yn cyd-fynd â'r Bil a'r cynigion yn Rhan 2 y Bil?

Mae hi eisoes wedi dweud pa mor bwysig yw cael amddiffyn oedolion, ac mae'r Bil yn cymryd cam da ymlaen ar hynny. A oes unrhyw gynnis i ddarparu eiriolaeth annibynnol yn y Bil?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:01

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Julie Morgan for those questions. I am not aware of the Cardiff organisation. I am sure that the Deputy Minister is, but we are very much in favour of social enterprises and co-operatives and of people taking control of those services. I am sure that that is something that can be looked at within the Bill.

In relation to advocacy, we are looking at a range of issues, and there will be consultation on regulation. As we go through the scrutiny process, that is something that we can look at.

Diolch i Julie Morgan am y cwestiynau hynny. Nid wyf yn ymwybodol o'r sefydliad yng Nghaerdydd. Rwy'n siŵr bod y Dirprwy Weinidog, ond yr ydym yn fawr iawn o blaid mentrau cymdeithasol a chwmnïau cydweithredol a phobl yn cymryd rheolaeth dros y gwasanaethau hynny. Rwy'n siŵr bod hynny'n rhywbeth y gellir edrych arno o fewn y Bil.

Mewn perthynas ag eiriolaeth, rydym yn edrych ar ystod o faterion, a bydd ymgynghori ar reoleiddio. Wrth i ni fynd drwy'r broses graffu, mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:01

Lindsay Whittle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is very little in this Bill that will not gain cross-party support, but there are some aspects that need emphasising and, indeed, questioning. The rights of informal carers to have their needs assessed is a policy that is long overdue. There are 350,000 or more family carers in Wales, and they save health and social services many millions of pounds every year. The Welsh Government, however, needs to ensure that local authorities are carrying out their duties to assess. We need to be clear about how and where carers can complain if their needs are not being assessed and acted upon. This point is important, Minister. Assessing should not be a tick-box exercise. Will this be followed up with any action, please?

Ychydig iawn sydd yn y Bil hwn na fydd yn cael cefnogaeth drawsbleidiol, ond mae rhai agweddau y mae angen eu pwysleisio ac, yn wir, eu cwestiynu. Mae hawliau gofalwyr anffurfiol i gael asesiad o'u hanghenion yn bolisi y mae'n hen bryd ei gael. Mae 350,000 neu fwy o ofalwyr teuluol yng Nghymru, ac maent yn arbed miliynau o bunnoedd i'r gwasanaethau iechyd a chymdeithasol bob blwyddyn. Mae angen i Lywodraeth Cymru, fodd bynnag, sicrhau bod awdurdodau lleol yn cyflawni eu dyletswyddau i asesu. Mae angen i ni fod yn glir ynghylch sut a ble y gall gofalwyr gwyno os nad yw eu hanghenion yn cael eu hasesu ac os na weithredir arnynt. Mae'r pwynt hwn yn bwysig, Weinidog. Ni ddylai asesu fod yn ymarferiad ticio blychau. A fydd hyn yn cael ei ddilyn gan unrhyw gamau gweithredu, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We also need to look carefully at the provisions in the Bill that allow local authorities to impose payments for services to individuals and/or their carers. This could lead to local authorities avoiding the need to deliver appropriate support and also to wide variations between local authorities in Wales in how they carry out their financial assessments and in what percentage of cases. I cannot emphasise enough, Minister, how important it is to ensure that Welsh local government is fully on board. A lot of duties will be imposed on it with this Bill, and it will need sufficient resources. Can we be reassured that that will be the case?

The Deputy Minister has rightly carried out an excellent period of consultation. It has been useful and productive, but we need to know exactly how the views of the service users, the carers and other stakeholders have influenced the development of the Bill. Without that information, statements about how useful the consultation has been will remain vague.

I was going to mention advocacy, but Julie Morgan has already done that, so I will cross that off my list.

We need to be careful about the promotion of the policy of direct payments. This could easily lead to cuts in key statutory services and could also provide opportunities for the financial abuse of particularly vulnerable individuals. I am very concerned that that should be highlighted.

We support the call for much more integrated working across health and social services and the third sector, Minister. How and when will this policy be enforced, please? The Bill will also have to further clarify what carrots or sticks will be applied in order to bring this closer collaboration to effect.

Therefore, in brief, on this side, we welcome the Social Services and Well-being (Wales) Bill, but only time will tell whether it has achieved the necessary outcomes to empower service users and their carers, to improve preventative services, to make sure that budgets are deployed more effectively and efficiently, and, above all, to develop social care in Wales that will stand as a model for others to follow.

15:04

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Lindsay Whittle for his support for the Bill also, and I think that he is right that the Deputy Ministers worked hard for two years to build that cross-party consensus that we can see in the Bill.

You mention carers and their assessments. As you say, there are 350,000 people who are carers in Wales, and it is vital that we support them. That is a part of the Bill that has been very widely welcomed.

Mae angen i ni hefyd edrych yn ofalus ar y darpariaethau yn y Bil sydd yn galluogi awdurdodau lleol i osod taliadau ar gyfer gwasanaethau i unigolion a/neu eu gofalwyr. Gallai hyn arwain at awdurdodau lleol yn osgoi'r angen i ddarparu cymorth priodol a hefyd at amrywiadau eang rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru o ran sut y maent yn cyflawni eu hasesiadau ariannol ac ym mha ganran o achosion. Ni allaf bwysleisio digon, Weinidog, pa mor bwysig yw hi i sicrhau bod llywodraeth leol Cymru yn llwyr gefnogol. Bydd llawer o ddyletswyddau'n cael eu gosod arni gyda'r Bil hwn, a bydd angen digon o adnoddau arni. A allwn ni gael sicrwydd y bydd hynny'n digwydd?

Mae'r Dirprwy Weinidog yn briodol wedi cynnal cyfnod rhagorol o ymgynghori. Mae wedi bod yn ddefnyddiol a chynhyrchiol, ond mae angen inni wybod yn union sut y mae barn y defnyddwyr gwasanaeth, y gofalwyr a rhanddeiliaid eraill wedi dylanwadu ar ddatblygiad y Bil. Heb y wybodaeth, honno bydd datganiadau ynghylch pa mor ddefnyddiol y mae'r ymgynghori wedi bod yn aros yn amwys.

Roeddwn yn mynd i sôn am eiriolaeth, ond mae Julie Morgan eisoes wedi gwneud hynny, felly byddaf yn croesi hynny oddi ar fy rhestr.

Mae angen i ni fod yn ofalus ynglŷn â hyrwyddo polisi o daliadau uniongyrchol. Gallai hyn yn hawdd arwain at doriadau mewn gwasanaethau statudol allweddol a gallai hefyd ddarparu cyfleoedd ar gyfer cam-drin unigolion arbennig o agored i niwed yn ariannol. Rwy'n bryderus iawn y dylid tynnu sylw at hynny.

Rydym yn cefnogi'r alwad am weithio llawer mwy integredig ar draws iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r trydydd sector, Weinidog. Sut a phryd fydd y polisi hwn yn cael ei orfodi, os gwelwch yn dda? Bydd raid i'r Bil hefyd egluro ymhellach pa addewid o wobr neu gosb fydd yn cael ei defnyddio er mwyn cael cydweithio hwn yn agosach i rym.

Felly, yn gryno, ar yr ochr hon, rydym yn croesawu'r Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ond dim ond amser a ddengys a yw wedi cyflawni'r canlyniadau angenrheidiol i rymuso defnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr, i wella gwasanaethau ataliol, i wneud yn siwr bod cyllidebau yn cael eu defnyddio yn fwy effeithiol ac yn effeithlon, ac, yn anad dim, i ddatblygu gofal cymdeithasol yng Nghymru a fydd yn sefyll fel model i eraill ei ddilyn.

Diolch i Lindsay Whittle am ei gefnogaeth i'r Bil hefyd, ac rwy'n meddwl ei fod yn iawn fod y Dirprwy Weinidogion wedi gweithio'n galed am ddwy flynedd i adeiladu'r consensws trawsbleidiol y gallwn ei weld yn y Bil.

Rydych yn sôn am ofalwyr a'u hasesiadau. Fel y dywedwch, mae 350,000 o bobl sy'n ofalwyr yng Nghymru, ac mae'n hanfodol ein bod yn eu cefnogi. Mae hynny'n rhan o'r Bil sydd wedi cael ei groesawu yn eang iawn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You also mentioned direct payments. It is a fact that direct payments are not for everybody. Some people do not want to have direct payments. However, for those who want direct payments, it is very important that local authorities support them. The integration of social services and health services is vital. There are wide-ranging powers and duties in this Bill, whereby we can instruct parties to ensure that collaboration takes place much more effectively than has happened previously, and certainly to include the third sector too.

Soniasoch hefyd am daliadau uniongyrchol. Mae'n ffaiht nad yw taliadau uniongyrchol ar gyfer pawb. Nid yw rhai pobl eisiau cael taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, ar gyfer y rhai sy'n dymuno cael taliadau uniongyrchol, mae'n bwysig iawn bod awdurdodau lleol yn eu cynorthwyo. Mae integreiddio gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yn hanfodol. Mae pwerau a dyletswyddau cynhwysfawr yn y Bil, lle y gallwn gyfarwyddo parti er mwyn sicrhau bod cydweithio yn digwydd yn llawer mwy effeithiol nag sydd wedi digwydd o'r blaen, ac yn sicr i gynnwys y trydydd sector hefyd.

15:05

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I begin by saying what a horrible and tragic coincidence it is that, at a time when the Deputy Minister should have been here enjoying the fruits of her hard work and labours over the last two years, she is prevented from doing so by such a tragic loss. We all know how devoted Gwenda and Moc were to each other, and I know that it will be a particularly difficult time for her.

The Welsh Liberal Democrats welcome and support the principles outlined in the Bill before us. It would be a pretty strange Government that did not want to enhance and promote wellbeing outcomes for people in receipt of social services. We welcome the emphasis on building individuals' independence, and the ability to give service users and their families a greater range of control and choice in the services that are provided to them. We also welcome the principle of clarity and consistency, which is outlined in the statement that you have given this afternoon. However, we have a number of questions.

In respect of the large legislative timetable to which the Government has committed, the Assembly should only legislate when it is necessary to legislate. The explanatory memorandum says that much of what is what is contained within the 'Sustainable Social Services' paper could be achieved in existing legislation. Could you outline which aspects of the policy outcomes and goals to which the Government is committed cannot be delivered with existing legislation, and could you outline which sections of this Bill are necessary to allow those policy objectives to be achieved?

Central to the Bill is the development of a national system of assessing eligibility and a national eligibility framework. That is, wherever you are in Wales, you will be assessed in the same way, and, if you meet certain criteria, you will be in receipt of services. That seems to be the principle underpinning the Bill. However, on page 22 of the explanatory memorandum, paragraph 105 states that:

'Local authorities will continue as they do now to have wide discretionary powers to provide services to people irrespective of whether they are assessed as having eligible needs.'

Weinidog, rwy'n dechrau drwy ddweud cyd-ddigwyddiad mor ofnadwy a thrasig ydyw, ar adeg pan ddylai'r Dirprwy Weinidog fod yma yn mwynhau ffrwyth ei gwaith a'i llafur caled dros y ddwy flynedd ddiwethaf, ei bod yn cael ei hatal rhag gwneud hynny gan y fath colled drasig. Rydym i gyd yn gwybod pa mor ffyddlon oedd Gwenda a Moc i'w gilydd, a gwn y bydd yn adeg arbennig o anodd iddi.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn croesawu ac yn cefnogi'r egwyddorion a amlinellir yn y Bil ger ein bron. Byddai'n Llywodraeth eithaf rhyfedd nad oedd yn awyddus i wella a hyrwyddo canlyniadau lles ar gyfer pobl sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol. Rydym yn croesawu'r pwyslais ar adeiladu annibyniaeth unigolion, a'r gallu i roi i ddefnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd ystod ehangach o reolaeth a dewis yn y gwasanaethau a ddarperir iddynt. Rydym hefyd yn croesawu'r egwyddor o eglurder a chysondeb, a amlinellir yn y datganiad yr ydych wedi'i roi'r prynhawn yma. Fodd bynnag, mae gennym nifer o gwestiynau.

O ran yr amserlen ddeddfwriaethol fawr y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddi, dylai'r Cynulliad ddeddfu dim ond pan fydd yn angenrheidiol i ddeddfu. Mae'r memorandwm esboniadol yn dweud y gellid cyflawni llawer o beth yw beth sydd wedi'i gynnwys o fewn papur y 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy' yn y ddeddfwriaeth bresennol. A allech chi amlinellu pa agweddau ar ganlyniadau ac amcanion y polisi y mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo iddynt na ellir eu cyflawni gyda deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes, ac a allech chi amlinellu pa adrannau o'r Bil hwn sy'n angenrheidiol i ganiatáu cyflawni'r amcanion polisi hynny?

Yn ganolog i'r Bil mae'r gwaith o ddatblygu system genedlaethol o asesu cymhwysedd, a fframwaith cymhwyster cenedlaethol. Hynny yw, ble bynnag yr ydych yng Nghymru, byddwch yn cael eich asesu yn yr un ffordd, ac, os ydych yn bodloni meini prawf penodol, byddwch yn derbyn gwasanaethau. Mae'n ymddangos mai honno yw'r egwyddor sy'n sail i'r Bil. Fodd bynnag, ar dudalen 22 o'r memorandwm esboniadol, mae paragraff 105 yn datgan:

Bydd awdurdodau lleol yn parhau fel y maent yn ei wneud yn awr i gael pwerau disgresiwn eang i ddarparu gwasanaethau i bobl ni waeth a ydynt yn cael eu hasesu fel rhai sydd ag anghenion cymwys.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

If that is the Government's own assessment of the legislation, could you explain how it ties in with the very strong emphasis on the principle that, wherever you are in Wales, there will be a uniform service? With regard to the eligibility criteria, of course it is impossible to tell, from the way in which the legislation is currently drafted, who will be eligible for a social service, because that is not on the face of the Bill. The Government is, in effect, asking Assembly Members to vote for a piece of legislation when we are not clear as to whom the legislation will affect, and what the effect of the legislation will be on individual constituents. That is a pretty big ask for my Members to vote on a piece of legislation when we are not clear what the effects will be on any one individual. I hope that the Government will reflect on that as the legislation goes through its various stages in the Assembly. The Welsh Liberal Democrats do not want to be obstructive, but I do not think that it is too much to ask the Government to tell us what the effects of this legislation will be on individuals and where the eligibility criteria will be set.

The same goes for the effects on individual local authorities. The financial information in the explanatory memorandum is sparse. I think that I am being kind when I describe it as 'sparse'; it is practically non-existent. Given that the whole premise of the White Paper was that there is currently not enough money in the system, it seems that the whole premise of this legislation and the new duties that are being placed on local authorities by this legislation will cost them nothing extra. That simply cannot be the case. Again, I would urge the Government and ask the Minister to provide a greater explanation on the statement that she made to the media this morning, I believe, that this Bill would be cost-neutral. These are new duties being placed on people, and new expectations of them, and yet there is no clarity here on how that will be funded. With that, Presiding Officer, I finish.

Os mai dyna yw asesiad y Llywodraeth ei hun o'r ddeddfwriaeth, a allech chi egluro sut y mae'n gyson â phwylais cryf iawn ar yr egwyddor, ble bynnag yr ydych yng Nghymru, y bydd gwasanaeth unffurf? O ran y meini prawf cymhwyster, wrth gwrs, mae'n amhosibl dweud, o'r ffordd y caiff y ddeddfwriaeth ei drafftio ar hyn o bryd, pwyl fydd yn gymwys i gael gwasanaeth cymdeithasol, oherwydd nad yw ar wyneb y Bil. Mae'r Llywodraeth, mewn gwirionedd, yn gofyn i Aelodau'r Cynulliad bleidleisio dros ddarn o ddeddfwriaeth pan nad ydym yn glir ar bwy fydd y ddeddfwriaeth yn effeithio, a beth fydd effaith y ddeddfwriaeth ar etholwyr unigol. Mae hynny'n her fawr iawn i Lywodraeth Cymru. Mae'n sicr yn her fawr i fy Aelodau i bleidleisio ar ddarn o ddeddfwriaeth pan nad ydym yn glir beth fydd yr effeithiau ar unrhyw un unigolyn. Rwy'n gobeithio y bydd y Llywodraeth yn ystyried hynny wrth i'r ddeddfwriaeth fynd drwy ei chamau amrywiol yn y Cynulliad. Nid yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am fod yn rhwystrol, ond nid wyf yn credu ei bod yn ormod i ofyn i'r Llywodraeth i ddweud wrthym beth fydd effeithiau'r ddeddfwriaeth hon ar unigolion a lle bydd y meini prawf cymhwyster yn cael ei gosod.

Mae'r un peth yn wir am yr effeithiau ar awdurdodau lleol unigol. Mae'r wybodaeth ariannol yn y memorandwm esboniadol yn brin. Rwy'n credu fy mod yn garedig yn ei ddisgrifio fel 'tenau'; a phrin ei bod yn bodoli. O ystyried mai holl gynsail y Papur Gwyn oedd nad oes digon o arian yn y system ar hyn o bryd, mae'n debyg na fydd cynsail y ddeddfwriaeth hon a'r dyletswyddau newydd sy'n cael eu rhoi ar awdurdodau lleol gan y ddeddfwriaeth hon yn costio dim ychwanegol. Ni all hynny fod yn wir. Unwaith eto, byddwn yn annog y Llywodraeth, ac yn gofyn i'r Gweinidog ddarparu esboniad gwell ar y datganiad a wnaeth yn y cyfryngau y bore yma, rwy'n credu, y byddai'r Bil hwn yn niwtral o ran cost. Mae'r rhain yn ddyletswyddau newydd sy'n cael eu rhoi ar bobl, a disgwyliadau newydd ohonynt, ac eto nid oes eglurder yma ar sut y bydd hynny'n cael ei ariannu. Gyda hynny, Lywydd, rwy'n gorffen.

15:11

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

Thank you, Kirsty Williams. I am sure that the Deputy Minister will be comforted by your words. As I have said, she has worked very hard over the past two years. I know that she was very pleased that this Bill was being introduced in the Assembly today. It is important that the focus of this Bill is on the wellbeing of individuals, and about giving individuals a strong voice and real control of the services that they will receive. I think that you are right, that there is clarity and consistency within the Bill on this issue. It is a large piece of legislation—it is a large Bill—but it is felt that it is a coherent framework, and that all sections are needed in order to achieve the outcomes that we want to see.

At present, there is an inequality in services across Wales. It is something that is not acceptable and we believe that this Bill will address that, and we will see much more equitable services. The discretionary power is over and above what we have at the present time.

Diolch i chi, Kirsty Williams. Rwy'n siŵr y bydd y Dirprwy Weinidog yn cael ei chysuro gan eich geiriau. Fel yr wyf wedi dweud, mae hi wedi gweithio'n galed iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Gwn ei bod yn falch iawn bod y Bil hwn yn cael ei gyflwyno yn y Cynulliad heddiw. Mae'n bwysig bod ffocws y Bil hwn ar les unigolion, ac ynghylch rhoi llais cryf i unigolion a rheolaeth wirioneddol dros y gwasanaethau y byddant yn eu derbyn. Rwy'n meddwl eich bod yn iawn, bod eglurder a chysondeb o fewn y Bil ar y mater hwn. Mae'n ddarn mawr o ddeddfwriaeth—mae'n Fil mawr—ond teimlir ei fod yn fframwaith cydlynol, a bod angen yr holl adrannau er mwyn cyflawni'r canlyniadau yr ydym am eu gweld.

Ar hyn o bryd, mae anghydraddoldeb mewn gwasanaethau ar draws Cymru. Mae'n rhywbeth nad yw'n dderbyniol a chredwn y bydd y Bil hwn yn mynd i'r afael â hynny, a byddwn yn gweld gwasanaethau llawer mwy cyfiawn. Mae'r pŵer dewisol y tu hwnt i'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You asked for the Government to reflect on some of the issues that you raised. We can look at those as we go through scrutiny. The Deputy Minister, certainly, will be keen to look at those. There is further work that needs to be done around it. We need to make sure that it has futureproofing. We have said that this is a Bill for a generation. The regulations will be widely consulted upon. There will be a lot of consultation with stakeholders, as well as the scrutiny going through the Assembly.

In relation to my comments this morning about this being cost-neutral, which I mentioned in an answer to William Graham, it is about doing things differently rather than just doing the same things in a different way. The foundations for the changes have been made through the protection of social services budgets, and we will reduce regulation and bureaucracy with this. There is a huge complex web of social services legislation in Wales at the present time, and this Bill will bring the majority of that legislation together.

15:13

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also pay tribute to the work of the Deputy Minister in bringing this Bill before the Assembly. She has done an incredible job of that and we wish her well at this very difficult time.

I welcome this Bill, Minister. It has been a long time coming and I know that there have been some challenges as it has been developed along the way. As William Graham has already indicated, we want to broadly welcome it. However, I do have a few questions. First, perhaps I could say how pleased I am to see that there will be national eligibility criteria. I agree with Kirsty Williams that it is important that no-one will be worse off as a result of those criteria. Clearly, that is something that we all ought to welcome, given the challenges that we sometimes see in our own constituencies when people have been eligible for services and then have seen them withdrawn on occasion because the situation in a neighbouring local authority is different.

Independent advocacy has already been raised, but there is a great example in north Wales, of which I know you will be aware, Minister, where Age Concern is providing independent advocacy services to older people with the support of the Big Lottery Fund, with over 1,000 people having received that support and being beneficiaries. It is examples like that that lead me to conclude that independent advocacy will need to be a feature of this Bill, and not just access to local-authority-based advocacy services, whose independence people sometimes question, given that there are financial considerations for those local authorities. Minister, I know that you have indicated that we can look at that during the course of scrutiny, but do you recognise the terrific value of the existing advocacy services already available in Wales?

Roeddech yn gofyn i'r Llywodraeth adlewyrchu ar rai o'r materion a godwyd gennych. Gallwn edrych ar y rheini wrth inni fynd drwy'r gwaith craffu. Bydd y Dirprwy Weinidog, yn sicr, yn awyddus i edrych ar y rheini. Mae gwaith pellach y mae angen ei wneud o'i amgylch. Mae angen i ni wneud yn siŵr ei fod wedi'i ddiogelu at y dyfodol. Rydym wedi dweud bod hwn yn Fil am genhedlaeth. Ymgynghorir yn eang ar y rheoliadau. Bydd llawer o ymgynghori â rhanddeiliaid, yn ogystal â'r gwaith craffu drwy'r Cynulliad.

Mewn perthynas â fy sylwadau'r bore yma ynghylch bod hwn yn niwtral o ran cost, a grybwyllais wrth ateb William Graham, mae'n ymwneud â gwneud pethau'n wahanol yn hytrach na dim ond gwneud yr un pethau mewn ffordd wahanol. Mae'r sylfeini ar gyfer y newidiadau wedi eu gwneud drwy ddiogelu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol, a byddwn yn lleihau rheoleiddio a biwrocratiaeth â hyn. Mae gwe gymhleth enfawr o ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd, a bydd y Bil hwn yn dod â'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth honno at ei gilydd.

Rwyf hefyd yn talu teyrnged i waith y Dirprwy Weinidog mewn dod â'r Bil gerbron y Cynulliad. Mae hi wedi gwneud gwaith anhygoel ar hynny, ac rydym yn dymuno'n dda iddi yn y cyfnod hynod anodd hwn.

Croesawaf y Bil hwn, Weinidog. Mae wedi bod yn hir yn dod, ac rwy'n gwybod y bu rhywfaint o heriau wrth iddo gael ei ddatblygu ar hyd y ffordd. Fel y mae William Graham wedi nodi eisoes, rydym yn dymuno ei groesawu'n fras. Fodd bynnag, mae gennyf ychydig o gwestiynau. Yn gyntaf, efallai y gallwn ddweud pa mor falch yr wyf o weld y bydd meini prawf cymhwyster cenedlaethol. Rwy'n cytuno â Kirsty Williams ei bod yn bwysig na fydd unrhyw un yn waeth eu byd o ganlyniad i'r meini prawf hynny. Yn amlwg, mae hynny'n rhywbeth y dylem i gyd ei groesawu, o ystyried yr heriau yr ydym weithiau'n eu gweld yn ein hetholaethau ein hunain pan fydd pobl wedi bod yn gymwys ar gyfer gwasanaethau ac yna wedi eu gweld yn cael eu tynnu'n ôl ar adegau oherwydd bod y sefyllfa mewn awdurdod lleol cyfagos yn wahanol.

Mae mater eiriolaeth annibynnol wedi cael ei godi eisoes, ond mae enghraifft wych yng ngogledd Cymru, yr wyf yn gwybod y byddwch yn ymwybodol ohoni, Weinidog, lle mae Age Concern yn darparu gwasanaethau eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn gyda chymorth y Gronfa Loteri Fawr, gyda dros 1,000 o bobl wedi derbyn y gefnogaeth a bod yn fuddiolwyr. Enghreifftiau fel hyn sy'n fy arwain i ddod i'r casgliad y bydd angen i eiriolaeth annibynnol fod yn nodwedd o'r Bil hwn, ac nid dim ond mynediad i wasanaethau eiriolaeth awdurdod lleol, y mae pobl weithiau'n amau ei annibyniaeth, oherwydd bod ystyriaethau ariannol ar gyfer yr awdurdodau lleol hynny. Weinidog, rwy'n gwybod eich bod wedi nodi y gallwn edrych arnynt yn ystod y gwaith craffu, ond a ydych yn cydnabod gwerth gwyh y gwasanaethau eiriolaeth sydd eisoes ar gael yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Secondly, in respect of self-funders, one of the issues that the Health and Social Services Committee picked up in its residential services inquiry was the need for the greater availability of information and advice to those individuals who do not currently have a right to access it from a local authority when they are self-funding their residential care. I know that it is an issue that you are aware of, Minister, and the Deputy Minister has spoken about it in the past, but could you confirm that there are provisions in the Bill that would help to overcome that particular issue?

Thirdly, I know that you will welcome the fact that the Rule Out Abuse campaign organised by Age Cymru has had such traction in Wales. One of their asks was for age to be included within the definition of an adult at risk as something that could potentially put an adult at risk. Can you tell us whether age features in the definition within the Bill? As I understand it, it currently does not, but I do think that it is something worth noting.

Finally, given that we have a Bill before us that is now starting its progress through the Assembly, you will be aware that, on these benches and, indeed, on a cross-party basis through the Public Accounts Committee, there have been calls to make the financial arrangements for local health boards more flexible at year end. What opportunity might this Bill present to legislate for that? There is an opportunity on the table here that perhaps no other Bill in the current Assembly might afford.

15:17

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Darren Millar for those questions and for his comments about the Deputy Minister.

I am aware of Age Cymru. It is important that people, whatever their age, have a strong voice, and that is why we intend to put advocacy for the most at risk on the same footing as it is for children and young people with care and support needs. I mentioned that in an earlier answer.

The Bill will require local authorities to make arrangements to provide assistance to persons who wish to make representations. However, as we have learned in respect of children's advocacy, it is about more than just the law. It is about how professionals practice and how services are commissioned in the first place, and it is about how we listen to people. A key element of this, however, is the business case for advocacy for older people that we have commissioned.

You mentioned self-funders in residential care homes. The information and advice will be available to everyone, regardless of the funding route. You also asked about a specific age. It is all ages. So, we are not defining age in any way.

Yn ail, o ran hunan-arianwyr, un o'r materion y mae'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ei nodi yn ei ymchwiliad gwasanaethau preswyl oedd yr angen ar gyfer sicrhau bod mwy o wybodaeth a chyngor ar gael i'r unigolion hynny nad oes hawl ganddynt ar hyn o bryd i gael mynediad atynt gan awdurdod lleol pan maent yn hunan-ariannu eu gofal preswyl. Gwn ei fod yn fater yr ydych yn ymwybodol ohono, Weinidog, ac mae'r Dirprwy Weinidog wedi siarad amdano yn y gorffennol, ond a allech chi gadarnhau bod darpariaethau yn y Bil a fyddai'n helpu i oresgyn y mater penodol hwnnw?

Yn drydydd, rwy'n gwybod y byddwch yn croesawu'r ffaith bod yr ymgyrch Dileu Camdriniaeth a drefnwyd gan Age Cymru wedi cael tyniant o'r fath yng Nghymru. Un o'u heriau oedd i oedran gael ei gynnwys o fewn y diffiniad o oedolyn mewn perygl fel rhywbeth a allai roi oedolyn mewn perygl. Allwch chi ddweud wrthym a yw oedran yn nodwedd yn y diffiniad yn y Bil? Yn ôl a ddeallaf, nid yw ar hyn o bryd, ond rwy'n meddwl ei fod yn rhywbeth gwerth ei nodi.

Yn olaf, o gofio bod gennym Fil ger ein bron sydd yn dechrau ar ei daith drwy'r Cynulliad, byddwch yn ymwybodol, ar y meinciau hyn ac, yn wir, ar sail drawsbleidiol drwy'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, y bu galwadau i wneud y trefniadau ariannol ar gyfer byrddau iechyd lleol yn fwy hyblyg ar ddiwedd y flwyddyn. Pa gyfle fydd y Bil hwn yn ei roi i ddeddfu ar gyfer hynny? Mae cyfle ar y bwrdd yma efallai na allai unrhyw Fil arall yn y Cynulliad ei roi ar hyn o bryd.

Diolch i Darren Millar am y cwestiynau hynny ac am ei sylwadau am y Dirprwy Weinidog.

Rwy'n ymwybodol o Age Cymru. Mae'n bwysig bod pobl, beth bynnag eu hoedran, yn cael llais cryf, a dyna pam yr ydym yn bwriadu rhoi eiriolaeth ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn perygl ar yr un telerau ag y mae ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth. Sonias am hynny mewn ateb cynharach.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i ddarparu cymorth i bobl sy'n dymuno gwneud sylwadau. Fodd bynnag, fel yr ydym wedi dysgu mewn perthynas ag eiriolaeth plant, mae'n ymwneud â mwy na dim ond y gyfraith. Mae'n ymwneud â sut mae gweithwyr proffesiynol yn ymarfer a sut mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu yn y lle cyntaf, ac mae'n ymwneud â sut yr ydym yn gwrandao ar bobl. Elfen allweddol o hyn, fodd bynnag, yw'r achos busnes ar gyfer eiriolaeth i bobl hŷn yr ydym wedi'i gomisiynu.

Soniasoch am hunan-arianwyr mewn cartrefi gofal preswyl. Bydd y wybodaeth a'r cyngor ar gael i bawb, waeth beth fo'r llwybr ariannu. Holasoch hefyd ynglŷn â'r oedran penodol. Mae'n cynnwys bob oedran. Felly, nid ydym yn diffinio oedran mewn unrhyw ffordd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You mentioned the financial arrangements. This was something that I think you raised with me in my general scrutiny session in the Health and Social Care Committee last year. As you know, it is something that we are looking at with regard to whether we can make the financial regime for health boards more flexible. It is something that we can look at within the context of the Bill, perhaps.

Soniasoch am y trefniadau ariannol. Roedd hyn yn rhywbeth yr wyf yn credu eich bod wedi'i godi gyda mi yn fy sesiwn graffu gyffredinol yn y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y llynedd. Fel y gwyddoch, mae'n rhywbeth yr ydym yn edrych arno o ran a oes modd i ni wneud y drefn ariannol ar gyfer byrddau iechyd yn fwy hyblyg. Mae'n rhywbeth y gallwn edrych arno yng nghyd-destun y Bil, efallai.

15:18 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I very much welcome the statement on the Bill, which I hope will deliver a step change in delivering a new system that, as you say in your statement, sees people as people. The Bill is broad, but I want to focus on one aspect of it, and that is the aim to set up a national adoption service. We had a very good debate recently on this issue when we considered the Children and Young People Committee inquiry report on adoption.

Weinidog, rwy'n croesawu'n fawr y datganiad ar y Bil, yr wyf yn gobeithio y bydd yn cyflwyno newid sylweddol wrth gyflwyno system newydd sydd, fel y dywedwch yn eich datganiad, yn gweld pobl fel pobl. Mae'r Bil yn eang, ond rwyf am ganolbwyntio ar un agwedd arno, sef y nod i sefydlu gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Cawsom ddadl dda iawn yn ddiweddar ar y mater hwn pan oeddem yn ystyried adroddiad ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar fabwysiadu.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am aware of the work being done by the Welsh Local Government Association and the Association of Directors of Social Services Cymru on the development of an operational model for a national adoption service. Bearing in mind the very powerful evidence that our committee took from those people directly affected by the unacceptable practices that sometimes occur in the adoption process, what will you do to ensure that local authorities listen to and engage in a meaningful way with adopter parents, adopted children and the voluntary sector in developing a model?

Rwy'n ymwybodol o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar y broses o ddatblygu model gweithredol ar gyfer gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol. Gan gadw mewn cof y dystiolaeth bwerau iawn a gafodd ein pwyllgor gan y bobl hynny yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan yr arferion annerbyniol sydd weithiau'n digwydd yn y broses fabwysiadu, beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gwrando ac yn ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon gyda rhieni mabwysiadu, plant a fabwysiadwyd a'r sector gwirfoddol wrth ddatblygu model?

15:19 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Christine Chapman for that question. Our position is that Wales needs a national adoption service, led by a national head and answerable to a national board that represents local government and the voluntary and independent sectors, that then provides reports to the Minister. The service would be developed by local government and its partners, in line with the principles set out in the Bill. It is very important that, if it is believed that adoption is in the best interests of the child, that goes ahead. A lot of support needs to be given to people coming forward to become adopters and in the interests of the children.

Diolch i Christine Chapman am y cwestiwn hwnnw. Ein safbwynt ni yw bod angen gwasanaeth mabwysiadu cenedlaethol ar Gymru, a arweinir gan bennaeth cenedlaethol ac sy'n atebol i fwrdd cenedlaethol sy'n cynrychioli llywodraeth leol a'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol, sydd wedyn yn darparu adroddiadau i'r Gweinidog. Byddai'r gwasanaeth yn cael ei ddatblygu gan lywodraeth leol a'i phartneriaid, yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Bil. Mae'n bwysig iawn, os credir bod mabwysiadu er lles pennaf y plentyn, bod hwnnw'n mynd yn ei flaen. Mae angen rhoi llawer o gymorth i bobl ddod ymlaen i ddod yn fabwysiadwyr ac er budd y plant.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I can assure Members that the voluntary and independent sectors has been, and will be, fully engaged in the development of the detailed proposals. Our expectation is that it will play a significant role in the new services, as it currently does, for example, in relation to the training of prospective adopters.

Gallaf sicrhau'r Aelodau bod y sectorau gwirfoddol ac annibynnol wedi bod, ac y byddant yn ymgysylltu'n llawn yn y gwaith o ddatblygu'r cynigion manwl. Ein disgwyliadau yw y bydd yn chwarae rhan sylweddol yn y gwasanaethau newydd, fel y mae ar hyn o bryd, er enghraifft, mewn perthynas â hyfforddi darpar fabwysiadwyr.

Minister, I acknowledge the detailed briefings that the Deputy Minister and her officials have given to us as representatives from different parties. Along with Christine Chapman, I also acknowledge the meeting that was held last week, following the concerns that we raised as members of the Children and Young People's Committee regarding adoption. I acknowledge that the Bill states as one of its main principles the need for equity as far as service users are concerned. However, from the point of view of children's services, not only is there the issue of different thresholds being applied for adult services, but there is the issue of different thresholds being applied for children's services compared to adult services. That means that adults who have been used to receiving services from social services departments as children find that adult departments apply different criteria.

When we are asked to vote for this Bill, it is important that we understand the timeline as far as the regulations are concerned. In the briefings that we have had from the Deputy Minister, she has made it clear that decisions will need to be taken with regard to where the threshold is set as part of regulations. Whether it is appropriate for us to support the Bill, not knowing where the threshold will be set, is something that I would ask you to apply your mind to this afternoon. I understand that 12 out of the 22 local authorities currently set at a higher rate than the others. If that means that 10 go up to that higher rate, there will be implications in deciding whether to support the Bill, in that services will be removed from service users within those 10 authorities. It would be difficult, if the threshold is to be reduced in 12 authorities, to accept that the Bill will be cost neutral, as you suggest.

There are difficult choices that we need to make as an Assembly, but we need to have that robust information before us before we decide whether to support the Bill or not. It is necessary, as far as children's services are concerned, to know whether there would be an expectation that the threshold will change. Last week, the Deputy Minister made it clear in her response to the Children and Young People Committee's report on adoption that, if the model that is put forward by local government is not acceptable, she will use her powers under the Bill. Will you reassure us that the Bill will be in place in time to ensure that those steps can be taken?

Finally, I know that you are aware of people in north-east Wales who are very concerned about the situation in respect of the independent living fund. In December, the UK Government announced that it is going ahead with the proposals that were put forward by the previous UK Government to close the fund, and that, in relation to the fund, the sum of £35 million will be devolved to Wales. Again, there are questions that need to be asked with regard to whether provision for those service users who are currently in receipt of an enhanced service under the independent living fund will be ring-fenced, or whether they will be subject to the thresholds that will be introduced under this Bill.

Weinidog, rwy'n cydnabod y sesiynau briffio manwl y mae'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion wedi eu rhoi i ni fel cynrychiolwyr gwahanol bleidiau. Ynghyd â Christine Chapman, rwyf hefyd yn cydnabod y cyfarfod a gynhaliwyd yr wythnos diwethaf, yn dilyn y pryderon a godwyd gennym fel aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ynghylch mabwysiadu. Rwy'n cydnabod bod y Bil yn datgan fel un o'i brif egwyddorion yr angen am degwch cyn belled ag y mae defnyddwyr gwasanaeth yn y cwestiwn. Fodd bynnag, o safbwynt gwasanaethau plant, nid yn unig bod y mater o drothwyon gwahanol yn cael eu cymhwysu ar gyfer gwasanaethau i oedolion, ond ceir y mater o drothwyon gwahanol yn cael eu cymhwysu ar gyfer gwasanaethau plant o'i gymharu â gwasanaethau oedolion. Mae hynny'n golygu bod oedolion sydd wedi arfer derbyn gwasanaethau gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol fel plant yn canfod fod adrannau oedolion yn defnyddio meini prawf gwahanol.

Pan ofynnir inni bleidleisio dros y Bil hwn, mae'n bwysig ein bod yn deall y llinell amser cyn belled ag y mae'r rheoliadau yn y cwestiwn. Yn y cyfarfodydd briffio a gawsom gan y Dirprwy Weinidog, mae hi wedi ei gwneud yn glir y bydd angen i benderfyniadau gael eu cymryd o ran lle mae'r trothwy wedi cael ei osod fel rhan o reoliadau. Mae p'un a yw'n briodol i ni gefnogi'r Bil, heb wybod lle fydd y trothwy yn cael ei osod, yn rhywbeth y byddwn yn gofyn i chi ei ystyried y prynhawn yma. Deallaf fod 12 allan o'r 22 awdurdod lleol ar hyn o bryd yn gosod ar gyfradd uwch na'r lleill. Os yw hynny'n golygu y bydd 10 yn mynd i fyny at y gyfradd uwch, bydd goblygiadau wrth benderfynu a ddyldid cefnogi'r Bil, gan y bydd gwasanaethau yn cael eu tynnu oddi wrth ddefnyddwyr gwasanaeth yn y 10 awdurdod hynny. Byddai'n anodd, os yw'r trothwy yn cael ei ostwng mewn 12 awdurdod, i dderbyn y bydd y Bil yn niwtral o ran cost, fel yr awgrymwch.

Mae dewisiadau anodd y mae angen i ni eu gwneud fel Cynulliad, ond mae angen inni gael y wybodaeth gadarn cyn i ni benderfynu p'un ai i gefnogi'r Bil ai peidio. Mae'n angenrheidiol, cyn belled ag y mae gwasanaethau plant yn y cwestiwn, i wybod a fyddai disgwyl y bydd y trothwy yn newid. Yr wythnos diwethaf, gwnaeth y Dirprwy Weinidog yn glir yn ei hymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar fabwysiadu, os nad yw'r model sy'n cael ei gyflwyno gan lywodraeth leol yn dderbyniol, bydd yn defnyddio ei phwerau o dan y Bil. Wnewch chi ein sicrhau y bydd y Bil ar waith mewn pryd i sicrhau y gellir cymryd y camau?

Yn olaf, rwy'n gwybod eich bod yn ymwybodol o bobl yng ngogledd-ddwyrain Cymru sy'n poeni'n fawr am y sefyllfa mewn perthynas â'r gronfa byw'n annibynnol. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn bwrw ymlaen â'r cynigion a gyflwynwyd gan Lywodraeth flaenorol y DU i gau'r gronfa, ac, mewn perthynas â'r gronfa, bydd y swm o £35 miliwn yn cael ei ddatganoli i Gymru. Unwaith eto, mae cwestiynau y mae angen eu gofyn o ran a fydd darpariaeth ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth hynny sydd ar hyn o bryd yn derbyn gwasanaeth gwell o dan y gronfa byw'n annibynnol yn cael ei neilltuo, neu a fyddant yn ddarostyngedig i'r trothwyon a fydd yn cael eu cyflwyno o dan y Bil hwn.

15:24

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Aled Roberts for those questions. I will start at the end with the ILF. It is a matter of concern and I know that the Deputy Minister has had several conversations with Ministers in Whitehall and I am sure that she would be able to update you in due course. We have given a commitment to provide further information during the scrutiny stage, and I quite appreciate that you will need that confirmation and information prior to supporting the Bill. You asked about the transition of services, and that is an area where we accept that there has been a fall, and that is really why we are having this all-age Bill.

Diolch i Aled Roberts am y cwestiynau hynny. Rwyf am ddechrau ar y diwedd gyda'r ILF. Mae'n fater o bryder a gwn fod y Dirprwy Weinidog wedi cael sawl sgwrs gyda Gweinidogion yn Whitehall ac rwy'n siŵr y bydd hi'n gallu eich diweddarau maes o law. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu rhagor o wybodaeth yn ystod y cyfnod craffu, ac rwy'n llwyr werthfawrogi y bydd angen y cadarnhad hwnnw a'r wybodaeth honno cyn cefnogi'r Bil. Gofynasoch am bontio gwasanaethau, ac mae hynny'n faes lle'r ydym yn derbyn y bu dirywiad, a dyna pam ein bod mewn gwirionedd yn cael y Bil bob oed hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:25

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will just raise one issue. Again, my thoughts are with the Deputy Minister at this time. Her door has very much been open to me with regard to my proposed Community Care (Direct Payments) (Wales) Bill, in looking at where there might be common ground between what you and she are seeking to do and what I am seeking to do in this respect. My proposed Bill recognises the need to offer carers and service users choice, control and independence, recognising that, while a large number of people would want to benefit from this, clearly many others would not. In her discussions with me, she has said that we can and should do much more to encourage direct payments in her Bill, and her Bill will go a long way towards addressing this. However, the Bill itself says with regard to direct payments to meet the needs of an adult, child or carer, that regulations 'may' require or allow a local authority to make payments. In terms of further provision, it says that regulations 'may' make provision about the manner in which the amounts of direct payments should be determined, and the conditions that a local authority may or must attach, or the support that a local authority must provide or arrange for the persons to whom it makes direct payments. How will the Bill as drafted or intended encourage or do more to encourage direct payments?

Rwyf am godi un mater yn unig. Unwaith eto, mae fy meddyliau gyda'r Dirprwy Weinidog ar yr amser hwn. Mae ei drws wedi bod yn agored iawn i mi o ran fy Mil Gofal yn y Gymuned (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) arfaethedig, wrth edrych ar ble y gallai fod tir cyffredin rhwng yr hyn yr ydych ac y mae hi yn ceisio ei wneud a'r hyn yr wyf i'n ceisio'i wneud yn hyn o beth. Mae fy Mil arfaethedig yn cydnabod yr angen i gynnig dewis, rheolaeth ac annibyniaeth i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth, gan gydnabod, er y byddai nifer fawr o bobl am elwa o hyn, ei bod yn amlwg bod llawer o bobl eraill nad ydynt am elwa. Yn ei thrafodaethau gyda mi, mae hi wedi dweud y gallwn ac y dylem wneud llawer mwy i annog taliadau uniongyrchol yn ei Bil, a bydd ei Bil yn mynd yn bell tuag at fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae'r Bil ei hun yn dweud mewn perthynas â thaliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolion, plant neu ofalwyr, y 'gallai' rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau. O ran darpariaeth bellach, mae'n dweud y 'gallai' rheoliadau wneud darpariaeth ynghylch y modd y dylai symiau'r taliadau uniongyrchol gael eu penderfynu, a'r amodau y gall neu y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hymglymu, neu'r gefnogaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei ddarparu neu ei drefnu ar gyfer yr unigolion y mae'n gwneud taliadau uniongyrchol iddynt. Sut fydd y Bil fel y'i drafftwyd neu y'i bwriedir yn annog neu'n gwneud mwy i annog taliadau uniongyrchol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:26

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware of your Bill and your discussions with the Deputy Minister. As I said in response to Lindsay Whittle, not everyone wants direct payments, and the Bill outlines the framework within which local authorities may be allowed or required to make payments to a person, including carers, towards the cost of meeting needs for care and support, or support in the case of carers.

Rwy'n ymwybodol o'ch Bil a'ch trafodaethau gyda'r Dirprwy Weinidog. Fel y dywedais mewn ymateb i Lindsay Whittle, nid yw pawb eisiau taliadau uniongyrchol, ac mae'r Bil yn amlinellu'r fframwaith lle gellir caniatáu neu lle mae'n ofynnol i awdurdodau lleol wneud taliadau i berson, gan gynnwys gofalwyr, tuag at y gost o ddiwallu anghenion ar gyfer gofal a chefnogaeth, neu gefnogaeth yn achos gofalwyr.

Again, I mentioned earlier that what is within this Bill is a duty for local authorities to provide support to people who want direct payments, and that is something that we can strengthen as we take the Bill through the Assembly.

Unwaith eto, soniais yn gynharach mai'r hyn sydd o fewn y Bil hwn yw dyletswydd i awdurdodau lleol i ddarparu cefnogaeth i bobl sydd am daliadau uniongyrchol, ac mae hynny'n rhywbeth y gallwn gryfhau wrth i ni fynd â'r Bil drwy'r Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I take this opportunity to give the Bill a warm welcome. I hope that it will transform the way that we are able to deliver social care for the better. I pay tribute to you, Minister, and to the Deputy Minister, for the work that you have done to bring about this very significant and exciting piece of work, and commend the partnership approach that you have adopted, meeting and consulting very widely. I welcome the confirmation in your statement today that this inclusive approach to working will continue going forward.

I will leave the detailed scrutiny for the committee stages, but I have some broad questions. First, you will be aware that the consultation on the framework for independent living recently concluded, and that is another exciting and positive piece of work. How do you envisage this Bill working alongside pieces of work such as the framework for independent living? You said in your statement that the Bill will enshrine and further our rights agenda, so how will the Welsh Government engage people with those rights and ensure that people are aware of them, irrespective of age? Do you intend to work with the education or the voluntary sectors in this regard to raise awareness?

The Bill talks a lot about wellbeing, which is very much a broad term that can mean different things to different people. I would welcome some clear direction from the Government as to what you understand the term to mean.

Finally, all eyes are on Wales today as we take this Bill forward. 'The Guardian' says of Wales today that:

'All indicators show that the country's approach to the integration of health and social care services is working.'

and that

'those seeking the recipe for success are looking with growing interest across the Severn bridges to Wales.'

The paper asks,

'Has Wales found the winning formula for healthcare?'

and I certainly hope that we have.

Hoffwn gymryd y cyfle i roi croeso cynnes i'r Bil. Gobeithiaf y bydd yn trawsnewid y ffordd yr ydym yn gallu darparu gofal cymdeithasol er gwell. Hoffwn dalu teyrnged i chi, Weinidog, ac i'r Dirprwy Weinidog, am y gwaith yr ydych wedi ei wneud i sicrhau'r darn arwyddocaol a chyffrous o waith, ac rwy'n cymeradwyo'r dull partneriaeth yr ydych wedi ei fabwysiadu, gan gyfarfod ac ymgynghori yn eang iawn. Rwy'n croesawu'r cadarnhad yn eich datganiad heddiw y bydd y dull cynhwysol o weithio yn parhau wrth symud ymlaen.

Byddaf yn gadael y gwaith craffu manwl ar gyfer y camau pwyllgor, ond mae gennyf rai cwestiynau bras. Yn gyntaf, byddwch yn ymwybodol bod yr ymgynghoriad ar y fframwaith ar gyfer byw'n annibynnol wedi dod i ben yn ddiweddar, ac mae hwnnw'n ddarn arall cyffrous a chadarnhaol o waith. Sut ydych chi'n rhagweld y bydd y Bil yn gweithio ochr yn ochr â darnau o waith fel y fframwaith ar gyfer byw'n annibynnol? Dywedasoeh yn eich datganiad y bydd y Bil yn diogelu ac yn hyrwyddo ein hawliau agenda, felly sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu pobl â'r hawliau hynny a sicrhau bod pobl yn ymwybodol ohonynt, waeth beth fo'u hoedran? A ydych chi'n bwriadu gweithio gyda'r sector addysg neu'r sector gwirfoddol yn hyn o beth i godi ymwybyddiaeth?

Mae'r Bil yn sôn llawer am les, ac mae hynny'n sicr yn derm eang sy'n gallu golygu pethau gwahanol i bobl wahanol. Byddwn yn croesawu rhywfaint o arweiniad clir gan y Llywodraeth ynghylch yr hyn yr ydych yn feddwl y mae'r term yn ei olygu.

Yn olaf, mae pob llygaid ar Gymru heddiw wrth i ni fynd â'r Bil hwn yn ei flaen. Meddai 'The Guardian' heddiw am Gymru:

Mae pob dangosydd yn dangos bod ymagwedd y wlad i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio.

a bod

y rhai sy'n ceisio'r rysâit ar gyfer llwyddiant yn edrych gyda diddordeb cynyddol ar draws pontydd Hafren i Gymru.

Mae'r papur yn gofyn,

A yw Cymru wedi o hyd i'r fformiwla fuddugol ar gyfer gofal iechyd?,

ac rwy'n sicr yn gobeithio ein bod.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for those questions. In relation to ILF, I know that the Deputy Minister is having detailed discussions with the business Minister, and she will explain how it will work alongside this framework. The thing about wellbeing is making sure that individuals have access to the right services, and it is part of the reason why we can have these portable services for the first time—if you move within Wales, those services will move for you. While we accept that not every local authority will provide the same services, so long as those services are meeting the needs of the person, that will promote wellbeing.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.30 p.m.

Diolch i Rebecca Evans am y cwestiynau hynny. Mewn perthynas ag ILF, gwn fod y Dirprwy Weinidog yn cynnal trafodaethau manwl gyda'r Gweinidog busnes, a bydd yn esbonio sut y bydd yn gweithio ochr yn ochr â'r fframwaith hwn. Y peth am les yw gwneud yn siŵr bod gan unigolion fynediad at y gwasanaethau iawn, ac mae'n rhan o'r rheswm pam y gallwn gael y gwasanaethau cludadwy hyn am y tro cyntaf—os byddwch yn symud yng Nghymru, bydd y gwasanaethau yn symud ar eich cyfer chi. Er ein bod yn derbyn na fydd pob awdurdod lleol yn darparu'r un gwasanaethau, ar yr amod bod y gwasanaethau hynny yn diwallu anghenion y person, bydd hynny'n hybu lles.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.30 p.m.

Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Rhaglen TB mewn Gwartheg

Minister for Environment and Sustainable Development

I would like to update Members on the bovine TB eradication programme and on progress made since the launch of the strategic framework last March. I am pleased that the UK plan for 2013 has been accepted by the European Commission and I welcome its endorsement of the Welsh Government's approach. The plan contains the comprehensive package of measures outlined in the strategic framework and includes activities already under way, as well as those planned for 2013. In response to recommendations by the European Commission's Food and Veterinary Office audit in 2011, I intend to introduce a number of changes to our cattle surveillance and control measures. The first of these is the suspension of the licensing of approved quarantine units in Wales from 31 January 2013. We will work closely with operators to begin closing down the two existing units, with a view to completing the process by the end of this year.

Additionally, movements of cattle from TB restricted herds, other than to slaughter, will need to be made within 30 days of a clear TB test. This change will be introduced from 1 April 2013, giving the industry time to adapt.

Following consideration of veterinary risk assessments and a targeted consultation on pre-movement testing, I have decided to amend some existing exemptions. These are: cattle at markets that do not have a valid pre-movement test will only be allowed an exempt movement back to the holding from which they travelled; and amending the exemption for movements between holdings and commons to ensure that cattle can only make exempt movements between their own holding and any commons where the keeper hold grazing rights.

Statement: Update on the Bovine TB Programme

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy / The

Hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y rhaglen i ddileu TB mewn gwartheg ac ar y cynnydd a wnaed ers lansio'r fframwaith strategol fis Mawrth diwethaf. Rwy'n falch bod cynllun y DU ar gyfer 2013 wedi ei dderbyn gan y Comisiwn Ewropeaidd a chroesawaf ei gymeradwyaeth o ddull Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn cynnwys y pecyn cynhwysfawr o fesurau a amlinellir yn y fframwaith strategol ac mae'n cynnwys gweithgareddau sydd eisoes ar y gweill, yn ogystal â'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer 2013. Mewn ymateb i argymhellion gan archwiliad Swyddfa Bwyd a Milfeddygaeth y Comisiwn Ewropeaidd yn 2011, rwy'n bwriadu cyflwyno nifer o newidiadau i'n mesurau chadw golwg a rheoli gwartheg. Y cyntaf o'r rhain yw atal trwyddedu unedau cwarantîn a gymeradwywyd yng Nghymru o 31 Ionawr 2013. Byddwn yn gweithio'n agos gyda gweithredwyr i ddechrau cau'r ddwy uned bresennol, gyda'r bwriad o gwblhau'r broses erbyn diwedd y flwyddyn hon.

Yn ogystal, bydd rhaid gwneud symudiadau gwartheg o fuchesi cyfyngedig TB, ac eithrio i ladd-dy, o fewn 30 diwrnod i brawf TB clir. Bydd y newid hwn yn cael ei gyflwyno o 1 Ebrill 2013, gan roi amser i'r diwydiant addasu.

Yn dilyn ystyriaeth o asesiadau risg milfeddygol ac ymgynghoriad wedi'i dargedu ar brofion cyn symud, rwyf wedi penderfynu diwygio rhai eithriadau sy'n bodoli eisoes. Y rhain yw: bydd gwartheg mewn marchnadoedd nad oes ganddynt brawf dilys cyn symud ddim ond yn cael symudiad wedi'i eithrio yn ôl i'r daliad o ble'r oeddent wedi teithio, a diwygio'r eithriad ar gyfer symudiadau rhwng daliadau a thiroedd comin i sicrhau bod gwartheg ond yn gallu gwneud symudiadau wedi'u heithrio rhwng eu daliad eu hunain ac unrhyw diroedd comin lle mae'r ceidwad yn dal hawliau pori.

The revised wording of these exemptions will come into force on 1 April 2013, again allowing the industry sufficient time to prepare. The full list of exemptions will be published on the Welsh Government website before the end of February. We are also exploring, with partners, ways to limit the distance that cattle can travel within the same sole occupancy authority without pre-movement testing.

Last March, I announced that Wales would begin vaccinating badgers to help reduce the risk of TB transmission to cattle. I can now confirm that the total number of badgers trapped and vaccinated during the 2012 season in the intensive action area was 1,424. This is a significant achievement. It demonstrates that, despite one of the wettest summers on record, badger vaccination is a viable concept in Wales. I am grateful to the landowners and staff involved in this work. We intend to build on this success and look at improving on it during this year's field work, which is due to start in May. A full report on the first year is now available on the Welsh Government website.

I am very pleased with our progress so far in the IAA, but recognise that it represents only one part of Wales. We have met the three regional TB eradication delivery boards and representatives of animal welfare and conservation organisations to take views on expanding the use of badger vaccination. Government-led and cost-sharing options are being explored, including the possibility of a grant to attract new partners and funding.

In parallel with badger vaccination in the IAA, we have reviewed the range of existing cattle control measures in operation within the area. I want the outcome of this review to be discussed with the IAA industry advisory group and to be published on the Welsh Government website by the end of February.

During the year ending in October 2012, there were over 1,100 new herd incidents in Wales, and over 9,000 cattle were slaughtered. In the same period, the Welsh Government paid out almost £17 million in compensation. The 2011 epidemiological report and results from testing in 2012 confirm that the disease picture across Wales is not uniform. While work to apply necessary control measures throughout the country—for example, annual testing and pre-movement testing—will continue, we intend to supplement this with a more localised approach.

In taking this work forward, we rely on the farming community for its continued support in carrying out TB testing, and we are conscious that this comes with some risk. It was with great sadness that I learned of the tragic incident last week where a farmer was killed during a TB test on his farm. On behalf of the Welsh Government, I offer my sincere condolences to his family.

Bydd y geiriad diwygiedig o'r eithriadau hyn yn dod i rym ar 1 Ebrill 2013, sydd eto yn caniatáu amser digonol i'r diwydiant baratoi. Bydd y rhestr lawn o eithriadau yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru cyn diwedd mis Chwefror. Rydym hefyd yn archwilio, gyda phartneriaid, ffyrdd o gyfyngu ar y pellter y gall gwartheg deithio o fewn yr awdurdod meddiannaeth unigol heb brofion cyn symud.

Fis Mawrth diwethaf, cyhoeddais y byddai Cymru yn dechrau brechu moch daear er mwyn helpu i leihau'r risg o drosglwyddo TB i wartheg. Gallaf gadarnhau bellach mai cyfanswm y moch daear sydd wedi'u dal a'u brechu yn ystod tymor 2012 yn yr ardal triniaeth ddwys yw 1,424. Mae hyn yn gyflawniad sylweddol. Mae'n dangos, er gwaethaf un o'r hafau gwlypaf a gofnodwyd, bod brechu moch daear yn gysyniad hyfyw yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar i'r tîrffeddiawyr a'r staff sy'n ymwneud â'r gwaith hwn. Rydym yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn ac edrych ar wella arno yn ystod gwaith maes eleni, sydd i fod i ddechrau ym mis Mai. Mae adroddiad llawn ar y flwyddyn gyntaf bellach ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Rwy'n falch iawn gyda'n cynnydd hyd yn hyn yn yr ardal triniaeth ddwys, ond yn cydnabod ei fod yn cynrychioli dim ond un rhan o Gymru. Rydym wedi cwrdd â'r tri bwrdd Rhanbarthol Dileu TB a chynrychiolwyr lles anifeiliaid a sefydliadau cadwraeth i gymryd barn ar ehangu'r defnydd o frechu moch daear. Mae dewisiadau dan arweiniad Llywodraeth a rhannu costau yn cael eu harchwilio, gan gynnwys y posibilrwydd o grant i ddenu partneriaid a chyllid newydd.

Ochr yn ochr â'r brechu moch daear yn yr ardal triniaeth ddwys, rydym wedi adolygu'r amrywiaeth o fesurau rheoli gwartheg presennol sy'n gweithredu yn yr ardal. Rwyf am i ganlyniad yr adolygiad hwn gael ei drafod gyda grwp cynghori diwydiant yr IAA ac i gael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Chwefror.

Yn ystod y flwyddyn yn diweddu ym mis Hydref 2012, roedd dros 1,100 o achosion newydd mewn buchesi yng Nghymru, a chafodd dros 9,000 o wartheg eu difa. Yn yr un cyfnod, talodd Llywodraeth Cymru bron i £17 miliwn mewn iawndal. Mae adroddiad epidemiolegol 2011 a chanlyniadau profion yn 2012 yn cadarnhau nad yw'r darlun clefyd ar draws Cymru yn unfurf. Er bod gwaith i weithredu mesurau rheoli angenrheidiol ar draws y wlad—er enghraifft, profion blynyddol a phroffion cyn symud—yn parhau, rydym yn bwriadu ategu hyn gyda dull mwy lleol.

Wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn, rydym yn dibynnu ar y gymuned ffermio am ei chefnogaeth barhaus wrth gynnal profion TB, ac rydym yn ymwybodol fod hyn yn dod â rhywfaint o risg. Roedd yn dristwch mawr imi glywed am y digwyddiad trasig yr wythnos diwethaf pan gafodd ffermwr ei ladd yn ystod prawf TB ar ei fferm. Ar ran Llywodraeth Cymru, rwy'n cynnig fy nghydymdeimlad diffuant â'i deulu.

In working to develop local responses to local disease conditions, and aiming to focus on specific clusters, we will work with Animal Health and Veterinary Laboratories Agency vets and the regional eradication delivery boards. This new way of working will be introduced in pilot areas during April 2013, and will be supported by a dedicated TB epidemiologist for Wales.

I want to encourage private vets to become more engaged with breakdowns in their clients' herds through an integrated TB breakdown management project. Discussions with the British Veterinary Association and the British Cattle Veterinary Association have started to explore how we best progress this initiative. This is a fresh approach to the issue of new and long-standing breakdowns, and goes much further than we originally proposed under the strategic framework. The three regional TB eradication and delivery boards have been finalising their own initiatives, including a pilot project that enables farmers to share details of their breakdowns voluntarily with their neighbours. This will begin on 1 April 2013 in south and west Wales regional board areas. I am grateful to all board members for this, as well as for their continued and valuable work over the last year.

As well as the comprehensive range of measures that are already in place to tackle bovine TB, we must be prepared to incorporate new technological developments as they become available. With that in mind, in December, I asked my chief veterinary officer, Christianne Glossop, to organise a pioneering two-day cattle vaccination workshop to consider how this might contribute. It was attended by some of the world's leading experts in vaccination and disease eradication programmes. The report of this important event will be published in March, but among the key observations that emerged was a need to gain field experience with cattle BCG vaccine here in the UK. Following the workshop, Commissioner Borg provided an outline timetable, and identified some of the technical and legislative issues that must be overcome before any field trials can take place. I met with Commission representatives during the workshop, and I will plan a follow-up meeting with them to discuss the issues and means of initiating trials as soon as possible.

I have asked my officials to work with the Department for Environment, Food and Rural Affairs, and the other administrations, to commission modelling and to identify options for applying TB vaccination in cattle. We will also be engaging with our industry, through the animal health and welfare strategy steering group, to ensure that all of the implications are considered.

I am conscious of the need to maintain strong international relationships on this agenda and, as a result, my chief veterinary officer will visit Ethiopia in February. With strong links being developed under our Wales for Africa programme, she will visit areas where cattle vaccination is already being trialled. This will be an excellent chance to discuss shared concerns about disease transmission. It will also be an opportunity to cement our scientific and cultural links.

Wrth weithio i ddatblygu ymatebion lleol i amodau clefyd lleol, ac wrth anelu i ganolbwyntio ar glystyrau penodol, byddwn yn gweithio gyda milfeddygon yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol a'r byrddau rhanbarthol dileu TB. Bydd y ffordd newydd o weithio yn cael ei chyflwyno mewn ardaloedd peilot yn ystod mis Ebrill 2013, a bydd yn cael ei chefnogi gan epidemiolegydd TB ddyndedig ar gyfer Cymru.

Rwyf am annog milfeddygon preifat i gymryd mwy o ran gydag achosion mewn buchesi eu cleientiaid trwy brosiect rheoli achosion TB integredig. Mae trafodaethau gyda Chymdeithas Milfeddygon Prydain a Chymdeithas Milfeddygon Gwartheg Prydain wedi dechrau archwilio'r ffordd orau i ni fwrw ymlaen â'r cynllun. Mae hon yn ymagwedd newydd i'r mater o achosion newydd a hirsefydlog, ac mae'n mynd ymhellach o lawer na'r hyn a gynigiwyd yn wreiddiol gennym o dan y fframwaith strategol. Mae'r tri bwrdd rhanbarthol dileu a chyflwyno TB wedi bod yn cwblhau eu mentrau eu hunain, gan gynnwys prosiect peilot sy'n galluogi ffermwyr i rannu manylion eu hachosion yn wirfoddol gyda'u cymdogion. Bydd hyn yn dechrau ar 1 Ebrill 2013 yn ardaloedd byrddau rhanbarthol de a gorllewin Cymru. Rwy'n ddiolchgar i holl aelodau'r bwrdd am hyn, yn ogystal ag am eu gwaith parhaus a gwerthfawr dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ogystal â'r ystod gynhwysfawr o fesurau sydd eisoes ar waith i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg, mae'n rhaid i ni fod yn barod i gynnwys datblygiadau technolegol newydd wrth iddynt ddod ar gael. Gan gofio hynny, ym mis Rhagfyr, gofynnais i fy mhrif swyddog milfeddygol, Christianne Glossop, i drefnu gweithdy brechu gwartheg arloesol deuddydd i ystyried sut y gallai hyn gyfrannu. Fe'i mynychwyd gan rai o arbenigwyr mwyaf blaenllaw'r byd mewn rhaglenni brechu a dileu clefydau. Bydd adroddiad y digwyddiad pwysig hwn yn cael ei gyhoeddi ym mis Mawrth, ond ymhlith y sylwadau allweddol a ddaeth i'r amlwg oedd angen i ennill profiad maes gyda brechlyn BCG gwartheg yma yn y DU. Yn dilyn y gweithdy, darparodd y Comisiynydd Borg amserlen amlinellol, a nododd rai o'r materion technegol a deddfwriaethol y mae'n rhaid eu goresgyn cyn y gall unrhyw dreialon maes ddigwydd. Cwrddais â chynrychiolwyr y Comisiwn yn ystod y gweithdy, a byddaf yn trefnu cyfarfod dilynol â hwy i drafod y materion a dulliau o gychwyn treialon cyn gynted ag y bo modd.

Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion weithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a'r gweinyddiaethau eraill, i gomisiynu modelu ac i nodi opsiynau ar gyfer defnyddio brechu TB mewn gwartheg. Byddwn hefyd yn cysylltu â'n diwydiant, trwy'r grŵp llywio strategaeth iechyd a lles anifeiliaid, er mwyn sicrhau bod yr holl oblygiadau'n cael eu hystyried.

Rwy'n ymwybodol o'r angen i gynnal cysylltiadau rhyngwladol cryf ar yr agenda hon ac, o ganlyniad, bydd fy mhrif swyddog milfeddygol yn ymweld ag Ethiopia ym mis Chwefror. Gyda chysylltiadau cryf yn cael eu datblygu o dan ein rhaglen Cymru o Blaid Affrica, bydd hi'n ymweld ag ardaloedd lle mae brechu gwartheg eisoes yn cael ei dreialu. Bydd hwn yn gyfle gwych i drafod pryderon a rennir ynghylch trosglwyddo clefyd. Bydd hefyd yn gyfle i gadarnhau ein cysylltiadau gwyddonol a diwylliannol.

We know that bovine TB is a devastating disease that has a big impact in rural communities. The policies that we have implemented and those that will be introduced shortly will help to reduce the damage it causes. The additional tools and measures that I have outlined will allow us to better address TB in livestock and wildlife and maintain an effective eradication programme for the benefit of farmers, rural communities and the economy in general.

Rydym yn gwybod bod TB mewn gwartheg yn glefyd difrodus sy'n cael effaith fawr mewn cymunedau gwledig. Bydd y polisiau yr ydym wedi'u rhoi ar waith a'r rhai a fydd yn cael eu cyflwyno cyn bo hir yn helpu i leihau'r difrod a achosir. Bydd yr offer a'r mesurau ychwanegol yr wyf wedi'u hamlinellu yn ein galluogi i roi mwy o sylw i TB mewn da byw a bywyd gwyllt a chynnal rhaglen ddileu effeithiol er lles ffermwyr, cymunedau gwledig a'r economi yn gyffredinol.

15:41

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your statement, and for publishing this report. The toll that bovine TB continues to take on the farming industry is considerable, and it is alarming that there has been an increase of 558% in bovine TB in Wales since 1998. Over 75,000 cattle have been culled in the past 10 years. Farming families have endured years of stress, and it is not just the dangers of handling cattle that have become apparent in the case that you so sadly cited today in the Assembly, where the farmer lost his life, but the untold stress that families face when their life's work is destroyed. Generations of work in breeding and bloodlines has been lost forever when whole herds are culled.

Your statement, Minister, shows that the figures in 2012 are worse than the figures in 2010 and 2011. There remains a real concern in the rural and farming community that your Government's decision to reject badger culling in favour of trial vaccination means that it is less likely that they will see a TB-free Wales in their lifetime. I suspect that a large number of farmers who hear this statement and understand the additional paperwork, testing and movement restrictions that you are going to put on them will suffer even more stress. It will cost them more, and the quid pro quo for them agreeing to those restrictions was a cull. You have reneged on that, and you continue to pile on the cost and bureaucracy.

I would like to ask you a number of questions. The first is on a legal point. Wales is bound by two EC directives that specifically require that TB eradication plans are accelerated, rather than decelerated. Given the figures of growing incidences of breakdown in your report, can you satisfy us by saying whether you are likely to be able to avoid infraction proceedings, particularly given that the recent EU taskforce for monitoring animal disease eradication states that the Welsh Government's approach will lose impetus due to the replacement of a cull with vaccination?

Secondly, on the issue of movement restrictions, can you confirm what changes you plan to introduce to allow greater discretions to officials in cases where animal welfare would otherwise be compromised by the movement restrictions imposed? What work are you undertaking with the Deputy Minister to ensure that any changes to movement restrictions are in line with the working smarter recommendations, and in particular the idea of sensible rules governing quarantine and isolation units?

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad, ac am gyhoeddi'r adroddiad hwn. Mae'r niwed mawr a gaiff TB mewn gwartheg ar y diwydiant ffermio yn sylweddol, ac mae'n frwydychus y bu cynnydd o 558% mewn TB mewn gwartheg yng Nghymru ers 1998. Mae dros 75,000 o wartheg wedi cael eu difa yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Mae teuluoedd sy'n ffermio wedi dioddef blynyddoedd o straen, ac nid dim ond y peryglon o drin gwartheg sydd wedi dod i'r amlwg yn yr achos trist yr ydych wedi ei grybwyll heddi yn y Cynulliad, lle collodd ffermwr ei fywyd, ond y straen aruthrol y mae teuluoedd yn ei hwynebu pan fydd gwaith oes yn cael ei ddinistrio. Mae cenedlaethau o waith mewn bridio a llinachau wedi cael ei golli am byth pan fydd buchasi cyfan yn cael eu difa.

Mae eich datganiad, Weinidog, yn dangos bod y ffigurau yn 2012 yn waeth na'r ffigurau yn 2010 a 2011. Erys pryder gwirioneddol yn y gymuned wledig a ffermio fod penderfyniad eich Llywodraeth i wrthod difa moch daear o blaid treial brechu yn golygu ei bod yn llai tebygol y byddant yn gweld Cymru heb TB yn ystod eu hoes. Rwy'n amau y bydd nifer fawr o ffermwyr sy'n clywed y datganiad hwn ac yn deall y gwaith papur, y profi a'r cyfyngiadau ar symud ychwanegol yr ydych yn mynd i roi arnynt yn dioddef mwy o straen hyd yn oed. Bydd yn costio mwy iddynt, a'r gymwynas yn gyfnewid am gytuno i'r cyfyngiadau hynny oedd difa. Rydych chi wedi torri'ch gair ar hynny, ac rydych yn parhau i gynyddu'r gost a'r ficrocratiaeth.

Hoffwn ofyn nifer o gwestiynau i chi. Mae'r cyntaf ar bwynt cyfreithiol. Mae Cymru yn rhwym i ddwy gyfarwydddeb y Gymuned Ewropeaidd sy'n benodol yn ei gwneud yn ofynnol bod cynlluniau dileu TB yn cael eu cyflwyno, yn hytrach na'u harafu. O ystyried y nifer cynyddol o achosion yn eich adroddiad, a allwch chi ein bodloni drwy ddweud a ydych yn debygol o allu osgoi achosion tor-ddyletswydd, yn enwedig o ystyried bod tasglu diweddar yr UE ar gyfer monitro dileu clefydau anifeiliaid yn datgan y bydd dull gweithredu Llywodraeth Cymru yn colli ysgogiad oherwydd disodli difa gyda brechu?

Yn ail, ar y mater cyfyngiadau ar symud anifeiliaid, a allwch chi gadarnhau pa newidiadau yr ydych yn bwriadu eu cyflwyno i ganiatáu mwy o ddisgresiwn i swyddogion mewn achosion lle byddai lles anifeiliaid fel arall yn cael ei beryglu gan y cyfyngiadau symud a roddwyd? Pa waith ydych chi'n ymgymryd ag o gyda'r Dirprwy Weinidog i sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r cyfyngiadau ar symud anifeiliaid yn unol â'r argymhellion ymarferol callach, ac yn arbennig y syniad o reolau synhwyrol yn llywodraethu unedau cwarantîn ac ynysu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, in terms of costs, your report indicates that the project has cost £943,000 so far to have 1,424 badgers vaccinated, which is a cost of £662 per badger. Do you accept that figure? Can you confirm whether that, as a result of the additional restrictions that you are imposing on farmers, you will be prepared to contribute in some way towards the additional costs that they will face if they need to carry out an increased number of TB tests?

Yn olaf, o ran costau, mae eich adroddiad yn dangos bod y prosiect wedi costio £943,000 hyd yn hyn i frechu 1,424 o foch daear, sy'n gost o £662 am bob mochyn daear. A ydych yn derbyn y ffigur hwnnw? A allwch chi gadarnhau, o ganlyniad i'r cyfyngiadau ychwanegol yr ydych yn eu gosod ar ffermwyr, y byddwch yn barod i gyfrannu mewn rhyw ffordd tuag at y costau ychwanegol y byddant yn eu hwynebu os oes angen iddynt gynnal nifer cynyddol o brofion TB?

15:45

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Antoinette Sandbach for her contribution and questions. We have always said, with regard to the effort to combat bovine TB, that it is never appropriate or sensible to take one year's statistics in isolation. We know that there was a peak around 2008; the incidences then fell, and in 2012 we saw an increase. However, we always look at the picture over a period of more than one year and we will be carefully analysing trends regarding these recent statistics. In fact, we are doing so at the moment.

Diolch i Antoinette Sandbach am ei chyfraniad a'i chwestiynau. Rydym wedi dweud bob amser, o ran yr ymdrech i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg, nad yw byth yn briodol nac yn synhwyrol i ystyried ystadegau un flwyddyn ar wahân. Rydym yn gwybod bod uchafbwynt tua 2008; yna syrthiodd yr achosion, ac yn 2012 gwelwom gynnydd. Fodd bynnag, rydym bob amser yn edrych ar y darlun dros gyfnod o fwy na blwyddyn a byddwn yn dadansoddi tueddiadau yn ofalus ynglŷn â'r ystadegau diweddar hyn. Yn wir, rydym yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

Of course, the impact and the consequences that the Member describes are very serious for the industry and, indeed, for Wales as a whole, and I think that we all understand that. The question, of course, is how we most effectively address and combat the disease, and the Member and I obviously have different views as far as that is concerned. However, when it comes to the intensive action area, for example, and the badger vaccination programme, the Member should, of course, recognise that there was a manifesto commitment from the Labour Party to hold a science review with regard to policy. That science review was held and the programme was put in place following that. Therefore, there is a process in place that withstands scrutiny.

Wrth gwrs, mae'r effaith a'r canlyniadau y mae'r Aelod yn eu disgrifio yn ddifrifol iawn ar gyfer y diwydiant ac, yn wir, ar gyfer Cymru gyfan, a chredaf ein bod i gyd yn deall hynny. Y cwestiwn, wrth gwrs, yw sut yr ydym fwyaf effeithiol yn mynd i'r afael ac yn brwydro'r clefyd, ac mae gan yr Aelod a minnau wrth gwrs safbwyntiau gwahanol o ran hynny o beth. Fodd bynnag, pan ddaw i'r ardal triniaeth ddwys, er enghraifft, a'r rhaglen frechu moch daear, dylai'r Aelod, wrth gwrs, gydnabod bod ymrwymiad maniffesto gan y Blaid Lafur i gynnal adolygiad gwyddonol o ran polisi. Cynhaliwyd yr adolygiad gwyddonol hwnnw a chafodd y rhaglen ei rhoi ar waith yn dilyn hynny. Felly, mae proses ar waith sy'n gwrthsefyll craffu.

As far as the European Commission is concerned, we have a UK comprehensive strategy, and Wales is a significant part of that. We know that the plan for 2013 has been accepted. We will and do have a constant dialogue with the industry around restrictions on movement. Of course, 'Working Smarter' is relevant to this, and I am in discussions with the Deputy Minister as far as that is concerned.

Cyn belled ag y mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn y cwestiwn, mae gennym strategaeth y DU gynhwysfawr, ac mae Cymru'n rhan sylweddol o hynny. Gwyddom fod y cynllun ar gyfer 2013 wedi cael ei dderbyn. Byddwn, ac rydym yn cynnal deialog gyson gyda'r diwydiant o amgylch cyfyngiadau ar symud. Wrth gwrs, mae 'Hwyluso'r Drefn' yn berthnasol i hyn, ac rwyf mewn trafodaethau gyda'r Dirprwy Weinidog o ran hynny.

I can confirm that the figures that the Member mentioned on vaccination costs are accurate. There are considerable costs in taking forward the vaccination programme. We accept that. There would have been a comparable cost involved in a programme of badger culling, of course. In terms of the cost to the industry and Welsh Government assistance, the Welsh Government is contributing a considerable amount of money in compensation for reactors slaughtered as a result of this disease.

Gallaf gadarnhau bod y ffigurau a grybwyllodd yr Aelod ar gostau brechu yn gywir. Mae costau sylweddol wrth furw ymlaen â'r rhaglen frechu. Rydym yn derbyn hynny. Byddai cost gymharol wedi bod mewn rhaglen difa moch daear, wrth gwrs. O ran y gost i'r diwydiant a chymorth Llywodraeth Cymru, mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu swm sylweddol o arian fel iawndal am wartheg adweithiol a laddwyd o ganlyniad i'r clefyd hwn.

Yn gyntaf, ar ran y blaid sy'n eistedd ar yr ochr hon i'r Siambwr, hoffwn ymuno yn y cydymdeimlad â'r amaethwr a'i deulu a ddiodefodd yn ddiweddar oherwydd profi ar gyfer y diciâu. Hoffwn hefyd ddweud, fel Cadeirydd y pwyllgor sy'n gyfrifol am y maes hwn—yn rhannol beth bynnag—fy mod yn derbyn nad oes ewyllys na mwyafrif gwleidyddol yn y Cynulliad hwn i ddilyn y polisi a weithredwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru'n Un. Fodd bynnag, carwn hefyd ddweud, fel un a oedd yn eistedd lle mae'r Dirprwy Lywydd yn eistedd yn ystod pob dadl ar y pwnc hwn yn y Cynulliad blaenorol, fy mod yn dal yn bersonol o'r farn bod ymyrraeth â mamaliaid heintus, hyd yn oed drwy ladd a dileu, yn ddull o weithredu na allwn ei anwybyddu yn llwyr fel rhan o'r mesurau angenrheidiol oherwydd dwyster yr afiechyd hwn. Wedi'r cyfan, nid oes neb am weld mamaliaid heintus ac afiach yn crwydro'r wlad o'u safbwynt nhw eu hunain, yn ogystal ag o safbwynt gwyddoniaeth ynglŷn â'r cyswllt rhwng y clwyf hwn mewn mamaliaid a'r clwyf mewn gwartheg.

Hoffwn ofyn dau beth penodol i'r Gweinidog. Yn gyntaf, i ba raddau y mae'n teimlo bod ganddo gydweithrediad yr undebau amaethyddol, y milfeddygon preifat ac, wrth gwrs, y milfeddygon sy'n ei wasanaethu ef, ynghyd â'r boblogaeth yng nghefn gwlad, i'r polisi y mae bellach yn ei ddilyn? Rwy'n derbyn ei fod wedi cael cydnabyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd, ond onid yw'n derbyn hefyd fod colyn yn sylwadau yr Undeb Ewropeaidd yn y maes hwn—fel y cyfeiriodd fy nghyfaill ar yr ochr arall i'r Siambwr, os caf gytuno â hi am unwaith o leiaf ar y mater hwn, er ein bod yn gyfeillion agos o uchelderau dyffryn Conwy, ac yn y blaen, rhag ofn i neb gamddeall ein bod wedi cwmpo mas—a bod beirniadaeth bosibl o Lywodraeth Cymru yn gweithredu rhaglen os nad yw'n gallu dangos ei bod yn effeithiol?

Yn olaf, rwyf yn bryderus am y baich cynyddol o ran symud anifeiliaid oherwydd y newidiadau a'r cryfhau cyson sydd ar y rheoliadau. Onid ydym yn gosod rheoliadau ar symud gwartheg yn lle rhaglen o ymyrraeth effeithiol mewn dulliau eraill yn y maes hwn?

First, on behalf of the party sitting in this part of the Chamber, I would like to join in the expressions of sympathy that have been extended to the farmer and his family who lost his life recently due to TB testing. I would also like to say, as the Chair of the committee that is responsible for this area of policy—partially anyway—that I accept that there is neither the political will nor the political majority in this Assembly to follow the policy previously adopted by the One Wales Government. However, I would also like to say, as one who sat where the Deputy Presiding Officer now sits during all the debates on this issue in the previous Assembly, that I am still personally of the opinion that intervention with diseased mammals, even by culling, is a *modus operandi* that we cannot ignore out of hand as part of the measures that are necessary because of the virulence of this disease. After all, nobody wants to see diseased mammals wandering around our countryside, for their own benefit, as well as for the benefit of the science in relation to the linkages between this disease in mammals and the disease in the cattle population.

There are two specific things that I want to ask of the Minister. First, to what extent does he feel that he has the co-operation of the agriculture unions, the private vets and, of course, the vets who work for his department, and the rural population, for the policy that he is now adopting? I accept that it has been recognised by the European Union, but does he not also accept that there is a sting in the European Union's comments in this regard—as referred to by my colleague on the other side of the Chamber, if I may agree with her for once at least on this issue, although we are close friends from the heights of the Conwy valley, and so on, so that no-one thinks that we have fallen out—and that there may be criticism of the Welsh Government for implementing the programme if it cannot demonstrate that it is effective?

Finally, I am concerned about the increasing burden in terms of animal movements as a result of the strengthening of, and changes made to, regulations. Are we not introducing regulations on the movement of cattle rather than a programme of effective intervention in other ways of working in this area?

Diolch yn fawr, Dafydd Elis-Thomas, for his contribution and questions. There are differences of opinion, as I said earlier, in this Chamber and outside of this Chamber. That extends to the agricultural industry, the farming unions, to vets working in private practice, and, by extension, to the rural population and the population of Wales generally. I have no doubt that there are various views as to the best way of tackling bovine TB. We have had debates in this Chamber and the Welsh Government has set out its policy for the years to come. The European Commission has accepted our strategic framework and programme, and we believe that it is the best way forward. However, I understand that there are other views.

Diolch yn fawr, Dafydd Elis-Thomas, am ei gyfraniad a'i gwestiynau. Mae gwahaniaethau barn, fel y dywedais yn gynharach, yn y Siambwr hon a thu allan i'r Siambwr hon. Mae hynny'n ymestyn at y diwydiant amaethyddol, yr undebau ffermio, at filfeddygon sy'n gweithio mewn practis preifat, a, thrwy estyniad, at y boblogaeth wledig a phoblogaeth Cymru yn gyffredinol. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth bod safbwyntiau amrywiol ynghylch y ffordd orau o fynd i'r afael â TB mewn gwartheg. Rydym wedi cael dadleuon yn y Siambwr hon ac mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei pholisi ar gyfer y blynyddoedd i ddod. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi derbyn ein fframwaith a'n rhaglen strategol, ac rydym yn credu mai dyma'r ffordd orau ymlaen. Fodd bynnag, deallaf fod safbwyntiau eraill.

We seek to work very closely with farmers in Wales, particularly cattle farmers, the unions and private vets. As I said in my initial statement, we very much hope that we can make better use of private vets in working with farmers to address the particular circumstances of the breakdowns that they have. We hope to have a more intelligent, targeted approach, and the dedicated epidemiologist that we will fund as a Welsh Government and place with the Animal Health and Veterinary Laboratory Agency will very much support that.

Some of the new restrictions in terms of cattle movements are a result of the audit by the European Commission, which I mentioned in my initial statement.

Many people recognise that cattle vaccination is eventually likely to make the major significant contribution to driving down the incidence of this disease. That is why we held the workshop that was attended by international experts, the European Commission, DEFRA and others, and it is encouraging that we now at least have a tentative timeline, albeit over a 10-year period. Nonetheless, it provides a focus for efforts to take forward cattle vaccination, and notwithstanding the numerous ifs and buts and caveats are involved, I still think that it is important to have that focus. DEFRA and the other devolved administrations are also keen to work with the European Commission, the industry and all key stakeholders to take that work forward.

Rydym yn ceisio gweithio'n agos iawn gyda ffermwyr yng Nghymru, yn enwedig ffermwyr gwartheg, yr undebau a milfeddygon preifat. Fel y dywedais yn fy natganiad cychwynnol, rydym yn mawr obeithio y gallwn wneud gwell defnydd o filfeddygon preifat yn gweithio gyda ffermwyr i fynd i'r afael ag amgylchiadau penodol yr achosion sydd ganddynt. Rydym yn gobeithio cael dull mwy deallus, wedi'i dargedu, a bydd yr epidemiolegydd penodol y byddwn yn ei ariannu fel Llywodraeth Cymru ac yn ei leoli gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol yn cefnogi hynny yn fawr iawn.

Mae rhai o'r cyfyngiadau newydd o ran symudiadau gwartheg yn ganlyniad i'r archwiliad gan y Comisiwn Ewropeaidd, a grybwyllais yn fy natganiad cychwynnol.

Mae llawer o bobl yn cydnabod bod brechu gwartheg yn y pen draw yn debygol o wneud cyfraniad sylweddol o bwys i leihau nifer yr achosion o'r clefyd hwn. Dyna pam y cynhaliwyd y gweithdy a fynychwyd gan arbenigwyr rhyngwladol, y Comisiwn Ewropeaidd, DEFRA ac eraill, ac mae'n galonogol ein bod yn awr o leiaf yn cael llinell amser petrus, er dros gyfnod o 10 mlynedd. Serch hynny, mae'n darparu ffocws ar gyfer ymdrechion i fynd ymlaen â brechu gwartheg, ac er gwaethaf yr amheuan a'r cafeatau, rwy'n dal i feddwl ei bod yn bwysig i gael y ffocws hwnnw. Mae DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill hefyd yn awyddus i weithio gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, y diwydiant a'r holl randdeiliaid allweddol i ddatblygu'r gwaith hwnnw.

15:54

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwyf yn diolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw.

While bovine TB has become one of the most divisive issues that we face in Welsh politics, we can all at least agree on the need to address this devastating disease as a matter of urgency. That extends well beyond the IAA, as the Minister has readily agreed. On behalf of the Welsh Liberal Democrats group, I wish to join colleagues from around the Chamber in expressing our condolences to the family of the late David Stephens of Llandyfaelog, near Kidwelly in my region, on his tragic passing last week.

I thank the Minister for today's statement.

Er bod TB mewn gwartheg wedi dod yn un o'r materion mwyaf cynhennus sy'n ein hwynebu yng ngwleidyddiaeth Cymru, gallwn i gyd o leiaf gytuno ar yr angen i fynd i'r afael â'r clefyd dinistriol fel mater o frys. Mae hynny'n ymestyn ymhell y tu hwnt i'r IAA, fel y mae'r Gweinidog wedi cytuno yn barod. Ar ran grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, hoffwn ymuno â chydweithwyr o bob rhan o'r Siambr i fynegi ein cydymdeimlad â theulu'r diweddar David Stephens o Landyfaelog, ger Cydweli yn fy rhanbarth, ar ei farwolaeth drasig yr wythnos diwethaf.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Of course, this does not only affect the physical health of farmers involved in the testing regime. As has been referred to already, we have to consider the immense emotional and mental stress that this brings with it. Both the rural stress network and the Samaritans continue to report on the level of referrals that they get around this. Just last week, I was contacted by a distraught farmer in the Brecon Beacons area, well away from the intensive action zone, who was forced to see 21 of his own herd being taken away, having tested positively for TB. As his fellow farmers will understand, 21 cows is a substantial loss to any herd, but it was made all the worse by the fact that this involved the destruction of two complete breeding families, as he put it, which will have knock-on effects for generations. This is something that remains unaccounted for in the direct compensation package that exists. Events like these continue to remind us that, for all the arguing that takes place here and at the other end of the M4, our actions and, sometimes, our inactions, have a real cost for our communities and for the farming industry across Wales. However, rather than rehashing the debates that have previously taken place—although I would associate myself with the remarks made by Lord Dafydd Elis-Thomas that we should not exclude moving towards a partial cull, should that suggest itself in particular circumstances—it is important that we move together to ensure that there is an effective and legally acceptable solution delivered in this area.

I will move on to some questions that relate to today's statement. First, Minister, much comment has been made about the cost of vaccination, which is not surprising given the cost of up to £660 per vaccinated badger. Given this exorbitant cost, what, in your view, would be the minimum number of badgers that would need to be vaccinated in order for the scheme to be acceptable and a valid approach?

Secondly, in terms of the announcements that you have made today—I am sure that they will be greeted with some scepticism across the farming community in terms of the movement restrictions—will you please ensure that they are applied in a way that is consistent with the principles of the 'Working Smarter' recommendations that have been accepted in the Chamber?

Thirdly, in relation to the practicalities of badger vaccination, what improvements are you prepared to envisage around the tagging of vaccinated badgers? At present, the marking mechanism that is in place is not sufficient to ensure that we do not have double and triple vaccination of badgers. That is a really important point.

Finally, will you please reassure the Chamber that local veterinary practices will remain at the core of the testing regime? We have heard about the tragic consequences of the dangerous practice of testing, and vital to this is having a stable situation and vets and practitioners who know the farms that they are visiting, which minimises the risk they face.

Wrth gwrs, nid yw hyn yn effeithio ar iechyd corfforol ffermwyr sy'n cymryd rhan yn y drefn brofi yn unig. Fel y cyfeiriwyd ato eisoes, mae'n rhaid i ni ystyried y straen emosiynol a meddyliol enfawr a ddaw yn ei sgil. Mae'r rhwydwaith straen yng nghefn gwlad a'r Samariaid yn parhau i adrodd ar lefel yr atgyfeiriadau y maent yn eu cael ynghylch hyn. Dim ond yr wythnos diwethaf, cysylltodd ffermwr mewn trallod â mi yn ardal Bannau Brycheiniog, ymhell oddi wrth y parth triniaeth ddwys, a gafodd ei orfodi i weld 21 o'i fuches ei hun yn cael eu cymryd i ffwrdd, ar ôl profi'n positif i TB. Fel y bydd ei gyd-ffermwyr yn deall, mae 21 o wartheg yn golled sylweddol i unrhyw fuches, ond cafodd ei gwneud yn waeth gan y ffaith bod hyn yn cynnwys dinistrio dau deulu bridio cyflawn, yn ei eiriau ef, a fydd yn cael sgil-ffeithiau am genedlaethau. Mae hyn yn rhywbeth sy'n dal heb ei gyfrif yn y pecyn iawndal uniongyrchol sy'n bodoli. Mae digwyddiadau fel y rhain yn parhau i'n hatgoffa, er gwaetha'r holl ddadlau sy'n digwydd yma ac ym mhen arall yr M4, bod ein gweithredoedd ac, weithiau, ein diffyg gweithredu, yn cael cost wirioneddol ar gyfer ein cymunedau ac ar gyfer y diwydiant ffermio ledled Cymru. Fodd bynnag, yn hytrach nag ail gynnal dadleuon a gafwyd yn flaenorol—er yr hoffwn gysylltu fy hun â'r sylwadau a wnaethpwyd gan yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas na ddylem ddiystyru symud tuag rhaglen ddifa rannol, pe digwydd i hynny awgrymu ei hun mewn amgylchiadau penodol—mae'n bwysig ein bod yn symud gyda'n gilydd i sicrhau bod ateb effeithiol a chyfreithiol dderbyniol yn cael ei ddarparu yn y maes hwn.

Symudaf ymlaen at rai cwestiynau sy'n ymwneud â datganiad heddiw. Yn gyntaf, Weinidog, mae llawer o sylwadau wedi cael eu gwneud am gost brechu, nad yw'n syndod o ystyried y gost o hyd at £660 am bob mochyn daear a frechir. O ystyried y gost afresymol hon, beth, yn eich barn chi, fyddai'r nifer lleiaf o foch daear y byddai angen eu brechu er mwyn i'r cynllun fod yn dderbyniol ac yn ddull dilys?

Yn ail, o ran y cyhoeddiadau yr ydych wedi'u gwneud heddiw—rwy'n sicr y byddant yn cael eu derbyn gyda rhywfaint o amheuaeth ar draws y gymuned ffermio o ran y cyfyngiadau ar symud gwartheg—wnewch chi, os gwelwch yn dda sicrhau eu bod yn cael eu cymhwysio mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion argymhellion 'Hwyluso'r Drefn' sydd wedi cael eu derbyn yn y Siambr?

Yn drydydd, mewn perthynas â materion ymarferol o frechu moch daear, pa welliannau ydych chi'n barod i'w rhagweld o amgylch tagio moch daear a frechwyd? Ar hyn o bryd, nid yw'r mecanwaith marcio sydd ar waith yn ddigonol i sicrhau nad oes gennym frechu dwbl a thriphlyg ar foch daear. Mae hynny'n bwynt pwysig iawn.

Yn olaf, a wnewch chi sicrhau'r Siambr y bydd practisiau milfeddygol lleol yn parhau wrth graidd y drefn brofi? Rydym wedi clywed am ganlyniadau trasig yr arfer peryglus o brofi, ac mae cael sefyllfa sefydlog a milfeddygon ac ymarferwyr sy'n adnabod y ffermydd y maent yn ymweld â nhw, sy'n lleihau'r risg a wynebant yn hanfodol i hyn.

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank William Powell for his remarks and questions. As I have accepted, it is a very important issue. It is divisive and, understandably, it is a very heated debate, because of the impact that this disease produces. It has been around for quite some time, so people want to see progress, and there is, rightly, a wide-ranging debate as to how we best achieve that. Of course, I understand that.

In terms of the stress and the impact, William Powell and other Members have rightly outlined some of the issues involved. It is beyond dispute that that impact is great. In terms of the cost of vaccinating badgers, which we discussed earlier, the number vaccinated in the IAA was in excess of 1,400 during that first year of vaccination. Obviously, we want to vaccinate as many badgers as possible for the cost involved. There are questions in terms of rolling out this programme, because of the funding issues. So, we are looking at new ways of addressing those issues, working with organisations that have a key interest and locus in these matters. We are looking at how we might use volunteers more as we go forward and having a grant that we hope would involve a cost-sharing aspect. So, we are looking at how we might bring down the cost of vaccination as we seek to roll out the programme.

As I said earlier, we work in the context of working smarter. The marking aspect of the vaccination programme is seen to be sufficient and working well. However, obviously, I would be interested in any particular experience that the Member might have that we could look at if that points to the contrary.

Finally, I agree that in terms of carrying out the TB testing, of course it is very important that the best standards of health and safety are applied. We know that the Health and Safety Executive has publications that assist in that regard, and that the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency is similarly on-hand with advice. Yes, private veterinarians have strong relations with our cattle farmers in Wales; that is important to us. We seek to build on that and I am sure that they will continue to advise those farmers effectively.

Diolch i William Powell am ei sylwadau a'i gwestiynau. Fel yw wedi derbyn, mae'n fater pwysig iawn. Mae'n ymrannol ac, yn ddealladwy, mae'n ddadl boeth iawn, oherwydd yr effaith y mae'r clefyd hwn yn ei gynhyrchu. Mae wedi bod o gwmpas ers peth amser, felly mae pobl am weld cynnydd, ac, yn briodol, mae dadl eang ynghylch y ffordd orau i ni gyflawni hynny. Wrth gwrs, rwy'n deall hynny.

O ran y straen a'r effaith, mae William Powell ac Aelodau eraill wedi amlinellu yn iawn rai o'r materion dan sylw. Mae y tu hwnt i ddadl bod yr effaith yn fawr. O ran y gost o frechu moch daear, a drafodwyd gennym yn gynharach, roedd y nifer a frechwyd yn yr IAA yn fwy na 1,400 yn ystod y flwyddyn gyntaf o frechu. Yn amlwg, rydym am frechu cymaint o foch daear â phosibl am y gost. Mae cwestiynau o ran cyflwyno'r rhaglen hon, oherwydd y materion ariannu. Felly, rydym yn edrych ar ffyrdd newydd o fynd i'r afael â'r materion hynny, gan weithio gyda sefydliadau sydd â budd allweddol a locws yn y materion hyn. Rydym yn edrych ar sut y gallem ddefnyddio mwy o wirfoddolwyr wrth inni symud ymlaen a chael grant yr ydym yn gobeithio y bydd yn cynnwys agwedd rannu costau. Felly, rydym yn edrych ar sut y gallwn leihau'r gost o frechu wrth i ni geisio cyflwyno'r rhaglen.

Fel y dywedais yn gynharach, rydym yn gweithio yng nghyd-destun gweithio callach. Ystyrir bod agwedd marcio'r rhaglen frechu yn ddigonol ac yn gweithio'n dda. Fodd bynnag, yn amlwg, byddai gennyf ddi-ddordeb mewn unrhyw brofiad penodol sydd gan yr Aelod efallai y gallem edrych arno os yw'n awgrymu'r gwrthwyneb.

Yn olaf, rwy'n cytuno o ran cynnal y profion TB, wrth gwrs, ei bod yn bwysig iawn bod y safonau gorau o ran iechyd a diogelwch yn cael eu cymhwysu. Rydym yn gwybod bod gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch gyhoeddiadau sy'n cynorthwyo yn hynny o beth, a bod yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol wrth law i roi cyngor yn yr un modd. Oes, mae gan filfeddygon preifat gysylltiadau cryf gyda'n ffermwyr gwartheg yng Nghymru; mae hynny'n bwysig i ni. Rydym yn ceisio adeiladu ar hynny, ac rwy'n siŵr y byddant yn parhau i gynghori'r ffermwyr hynny yn effeithiol.

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for your statement today. It is of no news to this Chamber that I voted against the proposed badger cull when it was brought before the Chamber by the former Plaid Cymru Minister for Rural Affairs. I did that arguing, as you have, Minister, that the weight of evidence indicated that a cull would have been counterproductive and would have increased TB in cattle. My concern was that whatever action that we took should have been within a scientific test area, and that it needed to be treated as such, with systematic implementation and monitoring of all the TB eradication measures over time to learn what works and what does not. My view was, and still is, that it is far better to vaccinate wildlife under scientific conditions than to slaughter it and hope that it works.

Diolch i chi, Weinidog, am eich datganiad heddiw. Nid yw'n newyddion i'r Siambr hon imi bleidleisio yn erbyn y cynllun difa moch daear arfaethedig pan gafodd ei ddwyn gerbron y Siambr gan gyn Weinidog Materion Gwledig Plaid Cymru. Gwnes i hynny gan ddadlau, fel y gwnaethoch chi, Weinidog, bod pwysau tystiolaeth yn awgrymu y byddai difa wedi bod yn wrthgynhyrchiol ac y byddai wedi cynyddu TB mewn gwartheg. Fy mhryder oedd y dylai pa bynnag gamau a gymerwyd gennym wedi bod o fewn ardal brawf wyddonol, a bod angen ei thrin fel y cyfryw, gyda gweithredu systematig a monitro'r holl fesurau dileu TB dros gyfnod o amser i ddysgu beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio. Fy marn i oedd, ac yn dal i fod, yw ei bod yn llawer gwell brechu bywyd gwyllt o dan amodau gwyddonol na lladd a gobeithio ei fod yn gweithio.

To that end, I welcome today's update and I encourage the Minister to continue to implement and monitor the vaccination programme over the remaining four years of that scheme. The Minister is talking about introducing new variables, for example, one of them being more stringent cattle control measures. I ask the Minister whether he will monitor those new measures as well, or there is a real risk of obscuring and skewing the results that are in place.

I also look forward to the outcome of the discussions on the possible development of a cattle vaccine that the Minister has mentioned. I ask the Minister if he will report back the findings of those round-table discussions to the Assembly in the near future and whether he will give us a briefing on the salient points of that discussion.

Of course, a cattle vaccine presents political complications as well as pharmacological ones, and I ask whether the Minister has had any wider discussions with his EU colleagues about a possible cattle vaccination. I also ask the Minister if he agrees that it is a small example of why we, as Wales in Britain, have to be around the top table of the European Union, to ensure that we can move forward on those bits of legislation that will have clear implications if we are not around that table.

I'r perwyl hwnnw, rwy'n croesawu diweddariad heddiw ac anogaf y Gweinidog i barhau i weithredu a monitro'r rhaglen frechu yn ystod y pedair blynedd sy'n weddill o'r cynllun hwnnw. Mae'r Gweinidog yn sôn am gyflwyno newidynnau newydd, er enghraifft, un ohonynt yw mesurau rheoli gwartheg mwy llym. Gofynnaf i'r Gweinidog a fydd yn monitro'r mesurau newydd hynny hefyd, neu mae perygl gwirioneddol o guddio a gogwyddo'r canlyniadau sydd ar waith.

Rwyf hefyd yn edrych ymlaen at ganlyniad y trafodaethau ar y posibilrwydd o ddatblygu brechlyn gwartheg y mae'r Gweinidog wedi crybwyll. Gofynnaf i'r Gweinidog a fydd yn adrodd yn ôl ynghylch canfyddiadau'r trafodaethau hynny o gwmpas y bwrdd i'r Cynulliad yn y dyfodol agos ac a fydd yn ein briffio ar bwyntiau amlycaf y drafodaeth honno.

Wrth gwrs, mae brechlyn gwartheg yn cyflwyno cymhlethdodau gwleidyddol yn ogystal â rhai fferyllol, ac rwy'n gofyn a yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau ehangach gyda'i gydweithwyr UE ynglŷn â brechiad gwartheg posibl. Gofynnaf hefyd i'r Gweinidog os yw ef yn cytuno ei bod yn enghraifft fach o pam bod rhaid i ni, fel Cymru ym Mhrydain, fod o amgylch prif fwrdd yr Undeb Ewropeaidd, er mwyn sicrhau y gallwn symud ymlaen ar y darnau o ddeddfwriaeth a fydd yn cael goblygiadau clir os nad ydym o amgylch y bwrdd hwnnw.

16:04

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Joyce Watson for her contribution and questions, and her support for the badger vaccination programme, as part of the comprehensive strategy. We will keep the comprehensive strategy under very close review and monitoring and that extends to all aspects of it. As part of that, we will examine badgers that are found dead, as we have in the past, to help us to get a picture of the disease in the intensive action area. We will also closely monitor the new measures as part of that general exercise, including the additional cattle control measures.

May I also agree with the Member on the importance that she attaches to cattle vaccines, because I know that that is a widely shared view, as I said earlier, about how we will eventually significantly drive down the incidence of this disease and tackle its impact? In terms of the cattle vaccine workshop, a report will be available in due course, which I am sure that Members will find interesting. I will keep Members informed of developments as I meet again with the European Commission to discuss these matters, for example.

Finally, may I also agree with the Member in terms of disease not recognising national borders? It is very important that we are joined up across the European Union and further afield with our efforts.

Diolch i Joyce Watson am ei chyfraniad a'i chwestiynau, ac am ei chefnogaeth i'r rhaglen frechu moch daear, fel rhan o'r strategaeth gynhwysfawr. Byddwn yn adolygu a monitro'r strategaeth gynhwysfawr yn agos iawn, ac mae hynny'n ymestyn i bob agwedd arni. Fel rhan o hynny, byddwn yn archwilio moch daear a geir yn farw, fel y gwnaethom yn y gorffennol, er mwyn ein helpu i gael darlun o'r clefyd yn yr ardal triniaeth ddwys. Byddwn hefyd yn monitro'n agos y mesurau newydd fel rhan o'r ymarferiad cyffredinol hwnnw, gan gynnwys y mesurau rheoli gwartheg ychwanegol.

Gaf i hefyd gytuno gyda'r Aelod ar y pwysigrwydd y mae'n ei roi ar frechlynnau gwartheg, oherwydd gwn fod hynny'n farn a rennir yn eang, fel y dywedais yn gynharach, ynglŷn â sut y byddwn yn y pen draw yn lleihau nifer yr achosion o'r clefyd hwn yn sylweddol a mynd i'r afael â'i effaith? O ran y gweithdy brechlyn gwartheg, bydd adroddiad ar gael maes o law, yr wyf yn sicr y bydd Aelodau'n ei chael yn ddiddorol. Byddaf yn hysbysu'r Aelodau am ddatblygiadau gan fy mod yn cyfarfod eto gyda'r Comisiwn Ewropeaidd i drafod y materion hyn, er enghraifft.

Yn olaf, gaf i hefyd gytuno â'r Aelod nad yw'r clefyd yn cydnabod ffiniau cenedlaethol? Mae'n bwysig iawn ein bod yn gydgyssylltiedig ar draws yr Undeb Ewropeaidd a thu hwnt gyda'n hymdrechion.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:06 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, I have been reading the vaccination report with some interest and, although I may not agree with your policy, it is clear that the vaccination exercise has been undertaken professionally by your officials. Others have already questioned you on the impact of TB on the farming community, which continues to be devastating. Therefore, I would like to ask you about two paragraphs in the vaccination report that were intriguing. It is noted in that report that, during the trapping, six foxes, one crow, one piglet and 43 grey squirrels were caught in those traps. The piglet was released, and I am pleased about that, but can you explain why the six foxes and one crow were released while the 43 squirrels were killed?

Weinidog, rwyf wedi bod yn darllen yr adroddiad brechu gyda pheth diddordeb ac, er efallai na fyddaf yn cytuno â'ch polisi, mae'n amlwg fod yr ymarfer brechu wedi cael ei wneud yn broffesiynol gan eich swyddogion. Mae eraill wedi'ch holi chi eisoes ar effaith TB ar y gymuned ffermio, sy'n parhau i fod yn ddiriedolaeth. Felly, hoffwn ofyn i chi am ddau baragraff yn yr adroddiad brechu a oedd yn ddiddorol. Nodir yn yr adroddiad hwnnw, yn ystod y maglu, bod chwe llwynog, un frân, un mochyn bach a 43 wiwer lwyd wedi cael eu dal yn y trapiau. Cafodd y mochyn bach ei ryddhau, ac rwy'n falch am hynny, ond a allwch egluro pam y cafodd y chwe llwynog a'r un frân eu rhyddhau tra bod y 43 wiwer wedi cael eu lladd?

16:07 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First, may I thank Elin Jones for her recognition of the professionalism with which the badger vaccination programme was carried out throughout the year? I think that that is absolutely the case, and that is strong testament to the Welsh Government's employees and to the co-operation of the landowners, without which that could not have taken place. I understand the Member's concern for grey squirrels. There is legislation in place that regards grey squirrels as a pest and prevents the keeping of grey squirrels in the UK. That legislation is still in place and determines how grey squirrels are dealt with when trapped. Therefore, there are legislative drivers for those differences.

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i Elin Jones am ei chydnabyddiaeth o broffesiynoldeb cynnal y rhaglen frechu moch daear drwy gydol y flwyddyn? Rwy'n meddwl bod hynny'n hollol wir, ac mae hynny'n dystiolaeth gref i weithwyr Llywodraeth Cymru ac i gydweithrediad y tîrfeddianwyr, heb hyn ni allai fod wedi digwydd. Rwy'n deall pryder yr Aelod dros wiwerod llwyd. Mae deddfwriaeth ar waith sy'n ystyried gwiwerod llwyd fel pla ac yn atal cadw gwiwerod llwyd yn y DU. Mae'r ddeddfwriaeth honno yn dal i fodoli ac yn penderfynu sut y bydd gwiwerod llwyd yn cael eu trin pan fyddant wedi eu dal. Felly, mae ysgogwyr deddfwriaethol ar gyfer y gwahaniaethau hynny.

16:08 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I still have four Members who wish to be called and, given the importance of this subject, I will extend the session, but you have one minute only to put your question.

Mae pedwar Aelod o hyd yn dymuno cael eu galw ac, o ystyried pwysigrwydd y pwnc hwn, byddaf yn ymestyn y sesiwn, ond mae gennych un funud yn unig i roi eich cwestiwn.

16:08 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

You have spoken many times about how important it is that the Government and stakeholders work in partnership to tackle bovine TB, but you will be aware of the recent research report by Paul Cross et al, which showed that more than 10% of Welsh farmers questioned admitted to illegally killing badgers. This is extremely disappointing. What assessments are you making of the effect of illegal badger killing on your efforts to eradicate bovine TB and whether such actions are making the situation worse, given that the research report said that illegal killing in such numbers would be likely to have an impact on disease spread?

Rydych chi wedi siarad lawer gwaith am ba mor bwysig yw hi fod y Llywodraeth a rhanddeiliaid yn gweithio mewn partneriaeth i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg, ond byddwch yn ymwybodol o'r adroddiad ymchwil diweddar gan Paul Cross ac eraill, a oedd yn dangos bod mwy na 10% o ffermwyr Cymru a holwyd yn cyfaddef iddynt ladd moch daear yn anghyfreithlon. Mae hyn yn hynod o siomedig. Pa asesiadau ydych chi'n eu gwneud ar effaith lladd moch daear yn anghyfreithlon ar eich ymdrechion i ddileu TB mewn gwartheg ac a yw camau gweithredu o'r fath yn gwneud y sefyllfa'n waeth, o gofio bod yr adroddiad ymchwil yn dweud y byddai lladd anghyfreithlon mewn niferoedd o'r fath yn debygol o gael effaith ar ledaenu'r clefyd?

I was pleased to read in your year one report that you were able to work well with most landowners; however, some have refused you access to their land to trap and vaccinate. Will you work further with those landowners and, if they still refuse, what other options are available to you?

Roeddwn yn falch o ddarllen yn eich adroddiad blwyddyn un eich bod yn gallu gweithio'n dda gyda'r rhan fwyaf o dirfeddianwyr, fodd bynnag, mae rhai wedi gwrthod mynediad i chi i'w tir i ddal a brechu. A fyddwch yn gweithio ymhellach gyda'r tîrfeddianwyr hynny ac, os ydynt yn dal i wrthod, pa opsiynau eraill sydd ar gael i chi?

On another note, I have been made aware of people going to Pembrokeshire from other parts of Wales, asking farmers if they want their badgers dealt with; so, essentially, we are talking about badger baiting. I have passed the information that I had on to the police, but will you join me in calling on people to report any illegal or suspicious activity that they see?

Ar nodyn arall, gwnaed fi'n ymwybodol o bobl yn mynd i Sir Benfro o rannau eraill o Gymru, yn gofyn i ffermwyr os ydynt am iddynt ymdrin â'u moch daear, felly, yn y bôn, rydym yn sôn am faetio moch daear. Rwyf wedi trosglwyddo'r wybodaeth oedd gen i i'r heddlu, ond a fyddwch yn ymuno â mi i alw ar bobl i roi gwybod am unrhyw weithgarwch anghyfreithlon neu amheus y maent yn ei weld?

16:09 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Rebecca Evans for her contribution and questions. It is very much a partnership effort to tackle this disease; that is absolutely clear. Only a small percentage of landowners have not voluntarily taken part in the badger vaccination programme within the intensive action area. We will continue to seek to involve those private landowners in the programme, and that is a continuing effort on behalf of my officials.

Of course, any illegality is to be deplored absolutely and the Welsh Government expects people in Wales to abide by the law of the land. I understand the background, in terms of the survey, as far as these questions are concerned. Officials are looking at that survey at the moment. We want to examine the findings closely, and we have yet to complete that exercise. However, in general, we can say—and I have checked this regularly with officials—that we do not have evidence from the police or other sources that illegal activity is taking place in Wales. We are interested in any evidence that Rebecca Evans, any other Member or any other person might have. If any of that evidence comes to us, we will analyse it very carefully and respond to it, not least because—as Rebecca Evans rightly states—any such activity would make the disease worse and be absolutely counterproductive in terms of efforts to combat it.

Diolch i Rebecca Evans am ei chyfraniad a'i chwestiynau. Mae'n sicr yn ymdrech bartneriaeth i fynd i'r afael â'r defyd; mae hynny'n hollol glir. Dim ond canran fechan o dirfeddianwyr sydd heb gymryd rhan yn wirfoddol yn y rhaglen frechu moch daear yn yr ardal driniaeth ddwys. Byddwn yn parhau i geisio cynnwys y tiffeddianwyr preifat hynny yn y rhaglen, ac mae honno'n ymdrech barhaus ar ran fy swyddogion.

Wrth gwrs, mae unrhyw anghyfreithlondeb yn rheswm dros resynu yn llwyr ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bobl yng Nghymru i gadw at gyfraith y wlad. Rwy'n deall y cefndir, o ran yr arolwg, cyn belled ag y mae'r cwestiynau hyn yn y cwestiwn. Mae swyddogion yn edrych ar yr arolwg hwnnw ar hyn o bryd. Rydym yn awyddus i edrych ar y canfyddiadau yn agos, ac nid ydym eto wedi cwblhau'r ymarfer hwnnw. Fodd bynnag, yn gyffredinol, gallwn ddweud—ac rwyf wedi gwirio hyn yn rheolaidd gyda swyddogion—nad oes gennym dystiolaeth gan yr heddlu neu ffynonellau eraill bod gweithgaredd anghyfreithlon yn digwydd yng Nghymru. Mae gennym ddiddordeb mewn unrhyw dystiolaeth a allai fod gan Rebecca Evans, unrhyw Aelod arall neu unrhyw berson eraill. Os bydd rhywfaint o'r dystiolaeth honno yn dod i ni, byddwn yn ei dadansoddi'n ofalus iawn ac yn ymateb iddo, yn rhannol oherwydd—fel y mae Rebecca Evans yn iawn yn datgan—byddai unrhyw weithgaredd o'r fath yn gwneud y defyd yn waeth a bod yn hollol wrthgynhyrchiol o ran ymdrechion i frwydro yn ei erbyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:11 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement, Minister. I am a Member who does not agree with your approach to this issue. There is a degree of acceptance that a vaccination programme for badgers would only be effective if it were developed alongside a cattle vaccination programme. I have heard what you have said with regard to your chief veterinary officer visiting Ethiopia. Your statement mentioned legislative issues that must be overcome with regard to cattle vaccinations. Could you expand on that? What is the Government doing at a European level to move the debate forward regarding the licensing of cattle vaccinations?

Diolch i chi am eich datganiad, Weinidog. Rwyf i'n Aelod nad yw'n cytuno â'ch ymagwedd at y mater hwn. Mae rhywfaint o dderbyn y byddai rhaglen frechu ar gyfer moch daear ond yn effeithiol os yw'n cael ei datblygu ochr yn ochr â rhaglen frechu gwartheg. Rwyf wedi clywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud o ran eich prif swyddog milfeddygol yn ymweld ag Ethiopia. Roedd eich datganiad yn crybwyll materion deddfwriaethol y mae'n rhaid eu goresgyn o ran brechiadau gwartheg. A allech chi ymhelaethu ar hynny? Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud ar lefel Ewropeaidd i symud y drafodaeth ymlaen ynglŷn â thrwyddedu brechiadau gwartheg?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:12 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Russell George for those questions. The badger vaccination programme within the intensive action area is one part of our comprehensive strategy. At the moment, it relates only to the intensive action area. However, there is a comprehensive strategy that has been put together and that applies across Wales. Cattle vaccination is not currently part of that. As I said earlier, it is some time away, in terms of the various hurdles that exist being effectively tackled. Among those issues is the very obvious issue that it is illegal under European Commission law to vaccinate cattle at the moment, and there are also restrictions on trade. Therefore, there are some very obvious hurdles that have to be overcome. However, that is why we held the workshop, and I am very pleased that, following that, the Commission has written an outline letter on the timetable and the issues that need to be resolved, because that gives us focus in terms of moving matters on.

Diolch i Russell George am y cwestiynau hynny. Mae'r rhaglen frechu moch daear yn yr ardal triniaeth ddwys yn un rhan o'n strategaeth gynhwysfawr. Ar hyn o bryd, mae'n ymwneud yn unig â'r ardal triniaeth ddwys. Fodd bynnag, mae strategaeth gynhwysfawr sydd wedi cael ei rhoi at ei gilydd ac mae hynny'n wir ar draws Cymru. Nid yw brechu gwartheg ar hyn o bryd yn rhan o hynny. Fel y dywedais yn gynharach, mae beth amser i ffrwrdd, o ran y rhwystrau amrywiol sy'n bodoli yn cael eu trin yn effeithiol. Ymhlith y materion hynny y mae'r mater amlwg iawn ei bod yn anghyfreithlon o dan gyfraith y Comisiwn Ewropeaidd i frechu gwartheg ar hyn o bryd, ac mae cyfyngiadau hefyd ar fasnach. Felly, mae rhai rhwystrau amlwg iawn y mae'n rhaid eu goresgyn. Fodd bynnag, dyna pam y cynhaliwyd y gweithdy, ac rwy'n falch iawn, yn dilyn hynny, bod y Comisiwn wedi ysgrifennu llythyr amlinellol ar yr amserlen a'r materion y mae angen eu datrys, oherwydd bod hynny'n rhoi ffocws i ni o ran datblygu materion.

16:13 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, you say in your statement that you are exploring with partners ways to limit the distance that cattle travel within the same sole-occupancy authority without pre-movement testing. That would be of great concern to farmers in my constituency. Could you please tell this Chamber what you expect the distance limit to be, and what science lies behind that particular distance limit?

Weinidog, rydych yn dweud yn eich datganiad eich bod yn archwilio gyda phartneriaid i ffrwrdd i gyfyngu ar y pellter y mae gwartheg yn teithio o fewn yr un awdurdod unig-ddeiliadaeth heb brofion cyn symud. Byddai hynny'n peri pryder mawr i ffermwyr yn fy etholaeth. Allech chi os gwelwch yn dda ddweud wrth y Siambr beth yr ydych yn disgwyl i'r terfyn pellter fod, a pha wyddoniaeth sydd y tu ôl i'r terfyn pellter penodol hwnnw?

16:13 **John Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I thank Kirsty Williams for that question. Obviously, this is a matter that will be of great interest to cattle farmers in Wales. I fully recognise that. In fact, it comes from the audit by the European Commission. As Members recognised earlier, the European Commission is obviously a very important player in terms of approving the UK strategy and the Welsh element of that. Indeed, it is an important funder when it comes to our efforts. Ten miles is the distance that has been stated with regard to those considerations. We will work very closely with the industry and all stakeholders in understanding how we can best take these changes forward.

Diolch i Kirsty Williams am y cwestiwn hwnnw. Yn amlwg, mae hwn yn fater a fydd o ddiddordeb mawr i ffermwyr gwartheg yng Nghymru. Rwy'n cydnabod hynny'n llwyr. Yn wir, mae'n dod o archwiliad gan y Comisiwn Ewropeaidd. Fel yr oedd yr Aelodau yn cydnabod yn gynharach, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn amlwg yn chwaraewr pwysig iawn o ran cymeradwyo strategaeth y DU ac elfen Gymreig hynny. Yn wir, mae'n gyllidwr pwysig pan ddaw at ein hymdrechion. Deg milltir yw'r pellter sydd wedi cael ei nodi o ran yr ystyriaethau hynny. Byddwn yn gweithio'n agos iawn gyda'r diwydiant a'r holl randdeiliaid wrth ddeall sut y gallwn weithredu'r newidiadau hyn yn y ffordd orau.

16:14 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, in today's statement you have made it absolutely clear that you intend to supplement tests with a more localised approach, which seems to mean more restrictions on movement and restrictions on farming business. What impact assessments have you carried out of the effectiveness of this more localised approach? How confident are you that these measures will be effective, given the additional pressure that this will put on farmers, their families and their businesses?

Weinidog, yn natganiad heddiw rydych wedi dweud yn gwbl glir eich bod yn bwriadu ategu profion gydag ymagwedd fwy lleol, sy'n ymddangos i olygu mwy o gyfyngiadau ar symud a chyfyngiadau ar fusnes ffermio. Pa asesiadau effaith ydych chi wedi'u cynnal o effeithiolrwydd y dull hwn o weithredu yn fwy lleol? Pa mor hyderus ydych chi y bydd y mesurau hyn yn effeithiol, o ystyried y pwysau ychwanegol y bydd hyn yn ei roi ar ffermwyr, eu teuluoedd a'u busnesau?

I also note that, in one of your action points in the strategic framework document that you published last year, you stated that you would:

Nodaf hefyd, yn un o'ch pwyntiau gweithredu yn y ddogfen fframwaith strategol a gyhoeddwyd gennych y llynedd, y dywedasoch eich bod yn:

'Continue to monitor levels of TB in other species and introduce new legislation where necessary to ensure appropriate powers to manage the TB breakdowns in those species.'

Is that still the case, Minister; and could you outline what sort of new legislation you would consider implementing?

Parhau i fonitro lefelau TB mewn rhywogaethau eraill a chyflwyno deddfwriaeth newydd lle bo angen i sicrhau bod pwerau priodol i reoli'r achosion o TB yn y rhywogaethau hynny.

A yw hynny'n dal yn wir, Weinidog, a allech chi amlinellu pa fath o ddeddfwriaeth newydd y byddech yn ystyried ei gweithredu?

16:15

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Paul Davies for those questions. The more localised approach is not necessarily a matter of introducing further cattle measures. We are very much talking about a more targeted and intelligent approach, understanding that the picture of the disease is not uniform across Wales and that we need to understand the different, more localised situations. That is why we will have a dedicated epidemiologist placed with the Animal Health and Veterinary Laboratories Agency, funded by the Welsh Government, and also a greater role for private vets in working with farmers who are particularly affected by long-running and complex breakdowns. That is the approach that we want to introduce in terms of having a more localised focus.

In terms of the impacts, we will work closely with cattle farmers and the TB eradication boards in working up the best way forward. As far as other species are concerned, happily, none of the testing that took place found incidence in those other species. However, we will continue to monitor that picture carefully.

Diolch i Paul Davies am y cwestiynau hynny. Nid yw'r dull mwy lleol o reidrydd yn fater o gyflwyno mesurau gwartheg pellach. Rydym yn sôn i raddau helaeth am ddull mwy penodol a deallus, gan ddeall nad yw darlun y defyd yn unfurf ar draws Cymru a bod angen i ni ddeall y gwahanol sefyllfaoedd mwy lleol. Dyna pam y byddwn yn cael epidemiologydd penodol wedi'i leoli gyda'r Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a hefyd mwy o rôl i filfeddygon preifat yn gweithio gyda ffermwyr sy'n cael eu heffeithio yn arbennig gan achosion TB hir a chymhleth. Dyna'r dull yr ydym am ei gyflwyno o ran cael ffocws mwy lleol.

O ran yr effeithiau, byddwn yn gweithio'n agos gyda ffermwyr gwartheg a byrddau dileu TB mewn gweithio ar y ffordd orau ymlaen. Cyn belled ag y mae rhywogaethau eraill yn y cwestiwn, yn ffodus, ni wnaeth dim o'r profion a gynhaliwyd gan fod achosion yn y rhywogaethau eraill. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i fonitro'r darlun hwnnw'n ofalus.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:17

Datganiad: Ymateb y Llywodraeth i'r Adolygiad o Gymwysterau 14-19

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Sgiliau / The Deputy Minister for Skills

The review of qualifications reported on 28 November 2012, making 42 recommendations to the Welsh Government. I am grateful to Huw Evans and his team for their thorough and well-considered report, which makes a valuable contribution to determining the strategic direction for qualifications in Wales. I am pleased that the review's findings are based firmly on evidence and that its recommendations were developed in an inclusive way through discussion with stakeholders. The report has been positively received.

Statement: the Government's Response to the Review of Qualifications 14-19

Adroddodd yr adolygiad o gymwysterau ar 28 Tachwedd 2012, gan wneud 42 o argymhellion i Lywodraeth Cymru. Rwy'n ddiolchgar i Huw Evans a'i dim am eu hadroddiad trylwyr ac ystyriol, sy'n gwneud cyfraniad gwerthfawr i benderfynu ar y cyfeiriad strategol ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Rwy'n falch bod canfyddiadau'r adolygiad yn cael eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth a bod ei argymhellion yn cael eu datblygu mewn ffordd gynhwysol drwy drafodaeth gyda rhanddeiliaid. Mae'r adroddiad wedi cael derbyniad cadarnhaol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am pleased to announce today that the Welsh Government broadly accepts all of the review's recommendations. The recommendations form a coherent package, which provides a strong and sustainable basis for developing a world-class qualifications system for Wales. The review proposed a programme of change over four or five years. We will develop a detailed implementation plan by late spring. However, to provide stakeholders with early clarity, I can today indicate our broad direction and objectives. I can assure schools and colleges that it is not our intention to make significant changes, as a result of the review, to qualification courses starting in September of this year. Lead-in times are important for successful change. There are also areas within the recommendations on which we will undertake more work and consultation before reaching final decisions.

In broadly accepting the recommendations we are setting a clear strategic direction and vision for qualifications in Wales. Our guiding principle is doing what is best for learners in Wales and for the Welsh economy. This will sometimes mean diverging from England and the rest of the UK, but many qualifications will continue to be shared. We will ensure that there are clear pathways for progression through the medium of Welsh.

We will develop a high-quality, robust, distinctive national qualifications system that can compete and compare with the best in the world. Qualifications in Wales must be understood and respected worldwide to ensure portability and to enable our learners to study and work wherever is best for them. To that end, we will launch a major, long-term, UK-wide communication strategy in late 2013 to raise the profile of qualifications in Wales, especially with universities and employers in England. We will provide clarity for learners who cross the Welsh border from their home to their place of learning in either direction about what the changes mean for them.

At the heart of the system will be a revised, more rigorous, Welsh baccalaureate. The Welsh baccalaureate is a true baccalaureate, combining subject-specific qualifications with broader skills, knowledge and understanding. The review identified some serious concerns over the rigour of the current model, and we will act to address these—for instance, by introducing grading and more stretching requirements, and removing unnecessary repetition of learning and assessment. However, we accept the review's finding that the Welsh baccalaureate has proved successful to date and is widely valued and respected. We consider that a revised model will provide a framework for delivering a broad general education at 14 to 16 and coherent programmes of learning at 16 to 19. We will further develop the detailed model put forward by the review and consider whether there is a case for incorporating specific subjects such as science. The aim is to introduce the revised Welsh baccalaureate for teaching from September 2015. We announced last year that the current advanced level Welsh baccalaureate will be graded for learners starting this September.

Rwy'n falch o gyhoeddi heddiw bod Llywodraeth Cymru yn fras yn derbyn holl argymhellion yr adolygiad. Roedd yr argymhellion yn ffurfio pecyn cydlynus, sy'n rhoi sail gadarn a chynaliadwy ar gyfer datblygu system gymwysterau o safon fyd-eang ar gyfer Cymru. Mae'r adolygiad yn cynnig rhaglen o newid dros gyfnod o bedair neu bum mlynedd. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu manwl erbyn diwedd y gwanwyn. Fodd bynnag, er mwyn darparu rhanddeiliaid gydag eglurder cynnar, gallaf heddiw ddangos ein cyfeiriad a'n hamcanion cyffredinol. Gallaf sicrhau ysgolion a cholegau nad yw'n ffriad gennym i wneud newidiadau sylweddol, o ganlyniad i'r adolygiad, i gyrsiau cymhwyster sy'n dechrau ym mis Medi eleni. Mae amseroedd arwain yn bwysig ar gyfer newid llwyddiannus. Mae ardaloedd hefyd o fewn yr argymhellion y byddwn yn gwneud mwy o waith ac ymgynghori arnynt cyn gwneud penderfyniadau terfynol.

Wrth dderbyn yr argymhellion yn fras, rydym yn gosod cyfeiriad a gweledigaeth strategol glir ar gyfer cymwysterau yng Nghymru. Ein hegwyddor arweiniol yw gwneud yr hyn sydd orau ar gyfer dysgwyr yng Nghymru ac i economi Cymru. Bydd hyn weithiau'n golygu gwro oddi wrth Loegr a gweddill y DU, ond bydd llawer o gymwysterau yn parhau i gael eu rhannu. Byddwn yn sicrhau bod llwybrau clir ar gyfer dilyniant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn datblygu system gymwysterau cenedlaethol o ansawdd uchel, cadarn, unigryw sy'n gallu cystadlu a chymharu gyda'r gorau yn y byd. Rhaid i gymwysterau yng Nghymru gael eu deall a'u parchu ledled y byd i sicrhau hygludedd a galluogi ein dysgwyr i astudio a gweithio lle bynnag sydd orau iddyn nhw. I'r perwyl hwnnw, byddwn yn lansio strategaeth gyfathrebu fawr, hirdymor, ar draws y DU ar ddiwedd 2013 er mwyn codi profil cymwysterau yng Nghymru, yn enwedig gyda phrifysgolion a chyflogwyr yn Lloegr. Byddwn yn darparu eglurdeb ar gyfer dysgwyr sy'n croesi ffin Cymru o'u cartref i'w man dysgu yn y naill gyfeiriad am yr hyn y mae'r newidiadau yn ei olygu iddynt.

Wrth galon y system bydd bagloriaeth Cymru ddiwygiedig, fwy trwyadl. Mae bagloriaeth Cymru yn wir fagloriaeth, sy'n cyfuno cymwysterau penodol i bwnc gyda sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ehangach. Nododd yr adolygiad rai pryderon difrifol ynghylch trylwyrdd y model presennol, a byddwn yn gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain—er enghraifft, trwy gyflwyno graddio a gofynion mwy ymestynnol, a chael gwared ar ailadrodd diangen ar ddysgu ac asesu. Fodd bynnag, rydym yn derbyn canfyddiad yr adolygiad bod bagloriaeth Cymru wedi bod yn llwyddiannus hyd yn hyn ac y caiff ei gwerthfawrogi a'i pharchu'n eang. Rydym yn ystyried y bydd model diwygiedig yn darparu fframwaith ar gyfer darparu addysg gyffredinol eang yn 14 i 16 oed a rhaglenni cydlynol o ddysgu yn 16 i 19 oed. Byddwn yn datblygu ymhellach y model manwl a gyflwynwyd gan yr adolygiad ac yn ystyried a oes achos dros gynnwys pynciau penodol megis gwyddoniaeth. Y nod yw cyflwyno bagloriaeth ddiwygiedig Cymru ar gyfer dysgu o fis Medi 2015. Cyhoeddwyd gennym y llynedd y bydd bagloriaeth lefel uwch presennol Cymru yn cael ei graddio ar gyfer dysgwyr sy'n dechrau'r mis Medi hwn.

We will retain GCSEs and A-levels. Unlike Mr Gove, we and our stakeholders have confidence in these well-established and recognised qualifications, which command respect among employers and universities around the world. Our communications strategy will promote the reputation of the brands, and seek to combat any negative messages from elsewhere. We will strengthen and amend these qualifications where necessary to meet the needs of our learners and to ensure rigour. We will consider the implications for Wales of Michael Gove's recent unilateral announcement on A-levels and AS-levels, which was not shared with us in advance, as we would have hoped under our concordat with the Department for Education. On the face of it, the proposal for England has little appeal and certainly does not reflect the findings of our review, but we need to reflect carefully on our options before making a decision. A further announcement on A-levels and AS-levels will follow shortly.

We will develop new GCSEs in English language and Welsh first language, and two new maths GCSEs, covering numeracy and mathematical techniques. These new GCSEs, for teaching from September 2015, will reflect and support the improvements expected from the literacy and numeracy framework. People expect GCSEs to assess literacy and numeracy, and these new GCSEs will do so. Having two maths GCSEs will reflect the importance of the subject for progression and employment. We will expect most learners to take both maths GCSEs. Essential Skills Wales qualifications will no longer be used at 14 to 16 from 2015.

We will place a proper value on vocational qualifications, with vocational and general pathways leading to the same Welsh baccalaureate qualification. Good vocational education is a cornerstone of our economy and vital for our learners. We will introduce a new, stronger gatekeeping process to ensure that we only approve for public funding qualifications that have quality, rigour, relevance and value. This will reduce the number of qualifications available, simplifying the picture for learners, parents and employers.

Some equivalence ratings between vocational qualifications and GCSEs lack credibility, distorting the range of options provided by schools and chosen by learners. We will introduce a maximum equivalence of two GCSEs, where justified, for reporting from 2016, using this and other levers to encourage a broad and balanced curriculum at 14 to 16. We have already announced that we will strengthen regulation and establish Qualifications Wales. We have asked officials to commission a due diligence review and to develop detailed proposals and a business case to ensure the viability and value for money of the new body. The resource implications for the Welsh Government of implementing recommendation 5 will be examined as part of this work.

Byddwn yn cadw TGAU a Safon Uwch. Yn wahanol i Mr Gove, mae gennym ni a'n rhanddeiliaid hyder yn y cymwysterau hyn sydd wedi'u sefydlu'n dda a'u cydnabod, a oedd yn ennyn parch ymhlith cyflogwyr a phrifysgolion ledled y byd. Bydd ein strategaeth gyfathrebu yn hyrwyddo enw da'r brandiau, a cheisio mynd i'r afael ag unrhyw negeseuon negyddol o rywle arall. Byddwn yn cryfhau a diwygio'r cymwysterau hyn lle bo angen i ddiwallu anghenion ein dysgwyr ac i sicrhau trylwyredd. Byddwn yn ystyried goblygiadau cyhoeddiad unochrog diweddar Michael Gove ar Safon Uwch a Safon UG i Gymru, na rannwyd gyda ni ymlaen llaw, fel y byddem wedi gobeithio dan ein concordat gyda'r Adran Addysg. Ar yr wyneb, nid yw'r cynnig ar gyfer Lloegr yn apelio'n fawr ac yn sicr nid yw'n adlewyrchu canfyddiadau ein hadolygiad, ond mae angen edrych yn ofalus ar ein dewisiadau cyn gwneud penderfyniad. Bydd cyhoeddiad pellach ar Safon Uwch a Safon UG yn dilyn yn fuan.

Byddwn yn datblygu TGAU newydd mewn Saesneg iaith a Chymraeg iaith gyntaf, a dwy TGAU mathemateg newydd, sy'n cwmpasu rhifedd a thechnegau mathemategol. Bydd TGAU newydd, ar gyfer addysgu o fis Medi 2015, yn adlewyrchu ac yn cefnogi'r gwelliannau a ddisgwyllir gan y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae pobl yn disgwyl i TGAU asesu llythrennedd a rhifedd, a bydd y TGAU newydd yn gwneud hynny. Bydd cael dwy TGAU mathemateg yn adlewyrchu pwysigrwydd y pwnc ar gyfer dilyniant a chyflogaeth. Byddwn yn disgwyl i'r rhan fwyaf o ddysgwyr gymryd y ddwy TGAU mathemateg. Ni fydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru bellach yn cael eu defnyddio yn 14 i 16 oed o 2015.

Byddwn yn rhoi gwerth priodol ar gymwysterau galwedigaethol, gyda llwybrau galwedigaethol a chyffredinol yn arwain at yr un cymhwyster bagloriaeth Cymru. Mae safon dda o addysg alwedigaethol yn un o gonglfeini ein heconomi ac yn hanfodol ar gyfer ein dysgwyr. Byddwn yn cyflwyno proses borthgadw newydd, gryfach i sicrhau mai dim ond cymeradwyo cymwysterau sydd o ansawdd, trylwyredd, perthnasedd a gwerth yr ydym ar gyfer arian cyhoeddus. Bydd hyn yn lleihau nifer y cymwysterau sydd ar gael, gan symleiddio'r darlun ar gyfer dysgwyr, rhieni a chyflogwyr.

Mae diffyg hygredd ynghylch rhai graddau cyfwerthedd rhwng cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau TGAU, sy'n ystumio'r ystod o opsiynau a ddarperir gan ysgolion a ddewiswyd gan ddysgwyr. Byddwn yn cyflwyno uchafswm cyfwerthedd o ddwy TGAU, lle gellir cyfiawnhau hynny, ar gyfer adrodd o 2016, gan ddefnyddio'r dulliau hyn ac eraill i annog cwricwlwm eang a chytbwys yn 14 i 16 oed. Rydym eisoes wedi cyhoeddi y byddwn yn cryfhau rheoleiddio a sefydlu Cymwysterau Cymru. Rydym wedi gofyn i swyddogion gomisiynu adolygiad diwydrwydd dyladwy ac i ddatblygu cynigion manwl ac achos busnes i sicrhau hyfywedd a gwerth am arian y corff newydd. Bydd y goblygiadau o ran adnoddau ar gyfer Llywodraeth Cymru o weithredu argymhelliad 5 yn cael ei archwilio fel rhan o'r gwaith hwn.

Learners, parents and learning providers need easily accessible, high-quality, evidence-based information about the relevance and value of qualifications, particularly in terms of outcomes and progression. We will improve the evidence base, using the unique learner number system to improve our understanding of destinations. We will develop revised essential skills and wider key skills qualifications for use post-16, addressing concerns raised about content and assessment. These will be trialled during 2014. In the meantime we will work with awarding organisations to address issues with the current suite of skills qualifications.

We will work with stakeholders in policy development and implementation, maintaining the collaborative approach of the review. The success of this programme of change will depend fundamentally on teachers and lecturers delivering qualifications to a high standard. We will work with awarding bodies to provide support, resources and continuing professional development for the delivery of new qualifications. Implementing the review represents a significant programme of work. We must ensure that changes in qualifications work in synergy with changes resulting from our reviews of delivery, funding and the curriculum. Diverging from three-country arrangements and introducing change will require significant resources, the details of which will be developed by late spring. We must be prepared to make an investment, in terms of resource, commitment and belief, in getting qualifications right. This will return substantial long-term benefits for our economy and young people.

Mae dysgwyr, rhieni a darparwyr dysgu angen gwybodaeth hygyrch, o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth am berthnasedd a gwerth cymwysterau, yn enwedig o ran canlyniadau a dilyniant. Byddwn yn gwella'r sylfaen dystiolaeth, gan ddefnyddio'r system rhif dysgwr unigryw i wella ein dealltwriaeth o gyrchfannau. Byddwn yn datblygu sgiliau hanfodol diwygiedig a chymwysterau medrau allweddol ehangach ar gyfer defnydd ôl-16, gan fynd i'r afael â phryderon a godwyd am y cynnwys ac asesu. Bydd y rhain yn cael eu treialu yn ystod 2014. Yn y cyfamser, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau dyfarnu i fynd i'r afael â materion gyda'r gyfres gyfredol o gymwysterau sgiliau.

Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth ddatblygu a gweithredu polisi, gan gynnal ymagwedd gydweithredol yr adolygiad. Bydd llwyddiant y rhaglen hon o newid yn dibynnu yn y bôn ar athrawon a darlithwyr yn cyflawni cymwysterau i safon uchel. Byddwn yn gweithio gyda chyrrff dyfarnu i roi cymorth, adnoddau a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer cyflwyno cymwysterau newydd. Mae gweithredu'r adolygiad yn cynrychioli rhaglen sylweddol o waith. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod newidiadau mewn cymwysterau yn gweithio mewn synergedd gyda newidiadau o ganlyniad i'n hadolygiadau o gyflenwi, cyllid a'r cwricwlwm. Bydd gwyro oddi wrth y trefniadau tair gwlad a chyflwyno newid yn gofyn am adnoddau sylweddol, bydd y manylion yn cael eu datblygu erbyn diwedd y gwanwyn. Rhaid i ni fod yn barod i wneud buddsoddiad, o ran adnoddau, ymrwymiad a chred, trwy gael cymwysterau yn iawn. Bydd hyn yn dod â manteision sylweddol hirdymor i'n heconomi a'n pobl ifanc.

16:27

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for your statement, Deputy Minister. I am grateful to have had early sight of it, because it is a very comprehensive statement, which contains a great many useful details. I join you in thanking Huw Evans and his team for the work that they have done on the 14-19 review. It is a very good starting point, but it is only a beginning. Given the journey ahead and the scrutiny that we will be under from many educationists, awarding bodies, universities and other countries, I want to take this opportunity to reiterate my absolute belief that we should have a regulator that is separate from the awarding body. I take the point about the qualifications body, which we talked about last week or the week before. However, we have to be much stronger and go the whole hog in having a completely separate regulator, to ensure that the actions over the next few years are subject to thorough scrutiny.

Diolch yn fawr iawn am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Rwy'n ddiolchgar i fod wedi cael golwg gynnar arno, oherwydd ei fod yn ddatganiad cynhwysfawr iawn, sy'n cynnwys llawer iawn o fanylion defnyddiol. Ymunaf â chi yn diolch i Huw Evans a'i dîm am y gwaith y maent wedi'i wneud ar yr adolygiad 14-19 oed. Mae'n fan cychwyn da iawn, ond dim ond dechrau ydyw. O ystyried y daith o'n blaenau a'r craffu a fydd arnom gan lawer o addysgwyr, cyrrff dyfarnu, prifysgolion a gwledydd eraill, hoffwn gymryd y cyfle hwn i ailadrodd fy nghred absoliwt y dylai fod gennym reoleiddiwr sydd ar wahân i'r corff dyfarnu. Rwy'n derbyn y pwynt am y corff cymwysterau, y siaradom ni amdano'r wythnos diwethaf neu'r wythnos cynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni fod yn llawer cryfach a mynd i'r eithaf mewn cael rheoleiddiwr hollol ar wahân, er mwyn sicrhau bod y gweithredoedd yn ystod y blynyddoedd nesaf yn destun craffu trylwyr.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I know that the programme of change will take time and resources. I would be very interested in any more detail you have with regard to how much this may cost and its length. One of the concerns that I have is about current students. We already have students who are going through a system with regard to which the Welsh Government has acknowledged that it does not expect or wish to target improvements to the 2012 Programme for International Student Assessment results. We are now going to have students entering into a system that we are all talking about, saying that it is criticised and is not working very well. What can you do to ensure that the qualifications that students will leave with over the next couple of years are of value and will be recognised by people, particularly as the revised baccalaureate is not going to kick in until 2015? That is very important.

I was also very pleased to hear, with regard to the revised baccalaureate, that you are going to look to remove some duplication. I am really looking forward to having more detail on that, because it seems incorrect to ask somebody who might be taking a GCSE in mathematics to take some basic mathematics that they would have covered some years before. Today's Estyn report, which spoke about 20% of our more able and talented pupils, and how they will be cherished through the GCSE system, the A-level system and the Welsh baccalaureate, whereas, in fact, 20% of the more able and talented students is a significantly high number, and we need to ensure that they have space within this new framework.

I note the political commentary on England, Minister. I am disappointed by the constant looking over the border, and all that I would say is that devolution has a purpose, and its best purpose is surely to be Welsh-specific and to cater for Welsh needs. This is an opportunity to develop what is really needed here. We are a smaller country, so the important thing is to make sure that the system that comes forward is internationally recognised, and carries that weight wherever the pupil goes. We need to have the confidence internationally, not just in the UK in relation to UK universities; what if our students want to go to America, Asia or other parts of Europe? It must be internationally recognised.

I would be interested to know, Minister, how you intend to bring the teachers on board, and get the schools ready. You talked about wanting to reassure them, and there is a real fall-out over the literacy and numeracy framework. We have the National Union of Teachers talking about striking —

Rwy'n gwybod y bydd y rhaglen o newid yn cymryd amser ac adnoddau. Byddai gennyf ddiddordeb mawr mewn unrhyw fanylder sydd gennych o ran faint y gall hyn gostio a'i hyd. Mae un o'r pryderon sydd gennyf yn ymwneud â myfyrwyr presennol. Mae gennym eisoes fyfyrwyr sy'n mynd drwy system lle mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad yw'n disgwyl neu'n dymuno targedu gwelliannau i'r Rhaglen 2012 ar gyfer canlyniadau Asesu Myfyrwyr Rhyngwladol. Rydym yn awr yn mynd i gael myfyrwyr yn mynd i mewn i system yr ydym i gyd yn sôn amdani, yn dweud ei bod yn cael ei beirniadu ac nad yw'n gweithio'n dda iawn. Beth allwch chi ei wneud i sicrhau bod y cymwysterau y bydd myfyrwyr yn gadael gyda nhw dros yr ychydig flynyddoedd nesaf o werth ac y byddant yn cael eu cydnabod gan bobl, yn enwedig gan nad yw'r fagloraeth ddiwygiedig yn mynd i ddechrau tan 2015? Mae hynny'n bwysig iawn.

Roeddwn hefyd yn falch iawn o glywed, o ran y fagloraeth ddiwygiedig, eich bod yn mynd i edrych i gael gwared ar rywfaint o ddyblygu. Rwy'n edrych ymlaen at gael mwy o fanylion am hynny, oherwydd mae'n ymddangos i fod yn anghywir i ofyn i rywun a allai fod yn cymryd TGAU mewn mathemateg i gymryd rhywfaint o fathemateg sylfaenol y byddent wedi ymdrin â hi rai blynyddoedd ynghynt. Roedd adroddiad Estyn heddiw, yn sôn am 20% o'n disgyblion mwy galluog a thalentog, a sut y byddant yn cael eu trysori drwy'r system TGAU, y system Safon Uwch a bagloraeth Cymru, tra, mewn gwirionedd, mae 20% o'r myfyrwyr mwy galluog a thalentog yn nifer sylweddol uchel, ac mae angen i ni sicrhau bod ganddynt le o fewn y fframwaith newydd.

Nodaf y sylwebaeth wleidyddol ar Loegr, Weinidog. Rwy'n siomedig â'r edrych cyson dros y ffin, a'r cyfan y byddwn yn ei ddweud yw bod gan ddatganoli bwrpas, a'i ddiben gorau siawns yw bod yn benodol i Gymru a darparu ar gyfer anghenion Cymru. Mae hwn yn gyfle i ddatblygu'r hyn sydd ei angen yma mewn gwirionedd. Rydym yn wlad lai, felly'r peth pwysig yw gwneud yn siŵr bod y system sy'n cael ei chyflwyno yn cael ei chydabod yn rhyngwladol, a'i bod yr un mor ddylanwadol ble bynnag y mae'r disgybl yn mynd. Mae angen i ni gael yr hyder yn rhyngwladol, nid yn unig yn y DU mewn perthynas â phrifysgolion y DU; beth os yw ein myfyrwyr eisiau mynd i America, Asia neu rannau eraill o Ewrop? Rhaid iddi gael ei chydabod yn rhyngwladol.

Byddai gennyf ddiddordeb gwybod, Weinidog, sut ydych chi'n bwriadu cael yr athrawon yn gefnogol, a chael yr ysgolion yn barod. Soniasoch am fod eisiau eu sicrhau, ac mae dadlau gwirioneddol dros y fframwaith llythrennedd a rhifedd. Mae gennym Undeb Cenedlaethol yr Athrawon yn siarad am streicio—

16:31

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. The Minister is not on the bill this afternoon, and I do not want him to take the limelight from the Deputy Minister. Nor should he interrupt the principal opposition spokesperson.

Trefn. Nid yw'r Gweinidog ar y rhaglen y prynhawn yma, a dydw i ddim am iddo dynnu'r sylw oddi ar y Dirprwy Weinidog. Ac ni ddylai ef dorri ar draws prif lefarydd yr wrthblaid.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:31

Angela Burns [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I am keen to ensure, Deputy Minister, that you are learning the lessons from what has been happening with the implementation of the literacy and numeracy framework.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n awyddus i sicrhau, Ddirprwy Weinidog, eich bod yn dysgu gwersi o'r hyn sydd wedi bod yn digwydd gyda gweithrediad y fframwaith llythrennedd a rhifedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would like to end on two quick points. You talk about simplifying the number of qualifications available, which is a strong way forward, and you talk about quality, rigour, relevance and value. I would like to understand what you might be doing in terms of talking to the qualification-awarding bodies that are not situated in Wales. There will be many people studying for City and Guilds and similar qualifications; how will you bring those organisations into that mix?

Finally, and crucially, what steps will you be taking to ensure that the education sector does not spend the next few years, because of this massive change that will happen—and there will be upheaval in many quarters—looking in on these reforms, and losing sight of the current crop of students? It is for those students, who are going through all of this at the moment, that I feel the most.

16:32 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the opposition spokesperson for her comments, and certainly for the welcome that I believe she has given to the outcome of the review. I am very grateful for that.

In terms of some of the particular points that you make, we have already announced the development of Qualifications Wales—that was recommendation 5—and that work is ongoing, so I will not spend time on that matter. However, you mentioned the importance of literacy and numeracy, and they are very much at the heart of the review's findings. We know from comments made to us by employers that functional literacy and numeracy are nowhere near as good as they should be. We believe that the proposals that have come forward in terms of strengthening GCSEs will only aid in that process, and we are excited about those developments.

In terms of the cost of changes, yes, there will be costs. That is part of the implementation plan that will be coming to me in late spring. I have asked to ensure that we keep them within reason. However, there will be costs to change, and I will have a better idea of what those are as we move towards the implementation phase.

I said that there would be no immediate changes for learners other than those sitting the advanced level baccalaureate from September of this year, who will find that the core of the baccalaureate is to be graded. However, those decisions were taken a little while ago.

In terms of current learners and those about to launch into their GCSEs and A-levels, they have an enormous advantage in Wales as opposed to those in England, because here the Minister for Education and Skills has not sought to undermine the very basis of GCSEs and A-levels, but has regarded them as not broken, as the review found out. Therefore we intend to retain them, and strengthen them where necessary. I do not make any apologies for contrasting our approach in Wales with the approach across the border. What we have done is consider the issues in depth. We then consulted and came to conclusions, as opposed to what Michael Gove did, which was the other way around.

Hoffwn i orffen ar ddau bwynt cyflym. Rydych yn siarad am symleiddio nifer y cymwysterau sydd ar gael, sy'n ffordd gadarn ymlaen, ac rydych yn siarad am ansawdd, cywirdeb, perthnasedd a gwerth. Hoffwn i ddeall beth y gallech fod yn ei wneud o ran siarad â'r cyrff dyfarnu cymwysterau nad ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru. Bydd llawer o bobl yn astudio ar gyfer y Ddinas a'r Urddau a chymwysterau tebyg; sut fyddwch chi'n dod â'r sefydliadau hynny i mewn i'r gymysgedd?

Yn olaf, ac yn hollbwysig, pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i sicrhau nad yw'r sector addysg yn treulio'r ychydig flynyddoedd nesaf, oherwydd y newid enfawr hwn a fydd yn digwydd—a bydd cynnwrf mewn sawl cyfeiriad—yn edrych i mewn ar y diwygiadau hyn, ac yn colli golwg ar y cnwd presennol o fyfyrwyr? Dros y myfyrwyr hynny, sy'n mynd drwy hyn i gyd ar hyn o bryd, yr wyf yn teimlo fwyaf.

Hoffwn ddiolch i lefarydd yr wrthblaid am ei sylwadau, ac yn sicr am y croeso yr wyf yn credu y mae hi wedi'i roi i ganlyniad yr adolygiad. Rwy'n ddiolchgar iawn am hynny.

O ran rhai o'r pwyntiau penodol yr ydych yn eu gwneud, rydym eisoes wedi cyhoeddi datblygiad Cymwysterau Cymru—argymhelliad 5 oedd hynny—a bod gwaith yn mynd rhagddo, felly ni fyddaf yn treulio amser ar y mater hwnnw. Fodd bynnag, soniasoch am bwysigrwydd llythrennedd a rhifedd, ac maent wrth wraidd canfyddiadau'r adolygiad i raddau helaeth iawn. Rydym yn gwybod o sylwadau a wnaed i ni gan gyflogwyr nad yw llythrennedd a rhifedd gweithredol yn agos at fod cystal ag y dylent fod. Rydym yn credu mai dim ond cynorthwyo yn y broses honno fydd y cynigion sydd wedi dod ymlaen o ran cryfhau TGAU, ac rydym yn gyffrous am y datblygiadau hynny.

O ran cost newidiadau, bydd, fe fydd costau. Mae hynny'n rhan o'r cynllun gweithredu a fydd yn dod i mi ar ddiwedd y gwanwyn. Rwyf wedi gofyn am i ni sicrhau ein bod yn eu cadw o fewn rheswm. Fodd bynnag, bydd costau ynglŷn â newid, a bydd gen i syniad gwell o beth yw'r rheini wrth i ni symud tuag at y cyfnod gweithredu.

Dywedais na fyddai unrhyw newidiadau ar unwaith ar gyfer dysgwyr ac eithrio'r rhai sy'n sefyll y fagloriaeth lefel uwch o fis Medi eleni, a fydd yn canfod bod craidd y fagloriaeth yn cael ei graddio. Fodd bynnag, gwnaed y penderfyniadau hynny ychydig yn ôl.

O ran dysgwyr presennol a'r rhai sydd ar fin dechrau ar eu TGAU a Safon Uwch, mae ganddynt fantais enfawr yng Nghymru o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr, oherwydd yma nid yw'r Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi ceisio tansellio holl sail TGAU a Safon Uwch, ond mae wedi ystyried nad ydynt wedi torri, fel y canfu'r adolygiad. Felly rydym yn bwriadu eu cadw, a chryfhau lle bo angen. Nid wyf yn ymddiheuro dim am gyferbynnu'n hymagwedd yng Nghymru â'r ymagwedd ar draws y ffin. Yr hyn yr ydym wedi'i wneud yw ystyried y materion yn fanwl. Yna gwnaethom ymgynghori a dod i gasgliadau, yn hytrach na'r hyn a wnaeth Michael Gove, sef gwneud hyn o chwith.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We will certainly be looking to improve the baccalaureate. We believe it to be a very worthwhile qualification, but there have been comments about assessment and different methods of implementation. We want to make sure that there is a common approach.

I have read the Estyn report, as you would expect, and there is nothing in it that fundamentally disagrees with the outcome of the review. Indeed, the chief inspector was a member of the review team. Therefore, she commented on occasion on the deliberations of the review group's work.

We will make sure that the system in Wales will be understood internationally. That is crucial. Clearly, admission officers for higher education establishments in England are used to dealing with international qualifications. Therefore, I do not imagine that it will be too difficult for them to understand what we are offering in Wales. However, we must make sure that employers understand what we are doing, because, unfortunately, the Welsh media is weak in comparison with the UK media. We will have to work hard to get the message across.

The teaching profession is on board. It has contributed significantly to the consultation, and there is broad support for the measures that we are bringing in. There is a recognition that changes will be needed, which will be reflected through in-service training and continuous professional development, where necessary. However, I have no doubt that the work that we will do over the next few years will have the support of those involved in education.

Byddwn yn bendant yn edrych i wella'r fagloriaeth. Rydym yn credu ei bod yn gymhwyster gwerth chweil, ond cafwyd sylwadau am asesu a dulliau gwahanol o weithredu. Rydym eisiau gwneud yn siŵr bod dull cyffredin.

Rwyf wedi darllen adroddiad Estyn, fel y byddech yn disgwyl, ac nid oes dim ynddo sy'n sylfaenol yn anghytuno â chanlyniad yr adolygiad. Yn wir, mae'r prif arolygydd yn aelod o'r tîm adolygu. Felly, mae'n sôn ar adegau am drafodaethau gwaith y grŵp adolygu.

Byddwn yn gwneud yn siŵr y bydd y system yng Nghymru yn cael ei deall yn rhyngwladol. Mae hynny'n hanfodol. Yn amlwg, mae swyddogion derbyn ar gyfer sefydliadau addysg uwch yn Lloegr wedi arfer delio â chymwysterau rhyngwladol. Felly, nid wyf yn dychmygu y bydd yn rhy anodd iddynt ddeall yr hyn yr ydym yn ei gynnig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod cyflogwyr yn deall yr hyn yr ydym yn ei wneud, oherwydd, yn anffodus, mae cyfryngau Cymru yn wan o'u cymharu â chyfryngau'r DU. Bydd yn rhaid i ni weithio'n galed i gyfleu'r neges.

Mae'r proffesiwn addysgu yn gefnogol. Mae wedi cyfrannu'n sylweddol at yr ymgynghoriad, ac mae cefnogaeth eang ar gyfer y mesurau yr ydym yn eu dwyn i mewn. Mae cydnabyddiaeth y bydd angen newidiadau, a fydd yn cael ei adlewyrchu drwy hyfforddiant mewn swydd a datblygiad proffesiynol parhaus, lle bo angen. Fodd bynnag, nid oes gennyf amheuaeth y bydd gwaith y byddwn yn ei wneud dros yr ychydig flynyddoedd nesaf yn cael cefnogaeth y rhai sy'n ymwneud ag addysg.

16:36

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n croesawu'r hyn sydd gan y Dirprwy Weinidog i'w ddweud heddiw. Yn dilyn yr hyn a glywsom yng nghwestiynau'r Prif Weinidog a'r hyn rydym wedi'i weld yn adroddiad Estyn heddiw, mae Plaid Cymru yn awyddus iawn i weld gwelliant pendant yng nghyrraeddian ein plant a'n pobl ifanc. Rydym yn teimlo y bydd system gymwysterau sy'n llawer mwy syml, lle mae llawer llai o gystadlu a llawer mwy o gydweithredu rhwng y gwahanol elfennau, yn fuddiol i blant a phobl ifanc Cymru. Yn y cyd-destun hwnnw rydym eisoes wedi croesawu adolygiad Huw Evans yn fras, fel gwnaeth y Llywodraeth. Rwy'n credu ei fod yn adolygiad derbyniol a chlodwiw iawn.

Mae gennyf ychydig o gwestiynau penodol i'r Dirprwy Weinidog ynghylch sut y bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Yn gyntaf oll, rwy'n cydnabod ei fod yn gweld bod angen strategaeth gyfathrebu. Nid wyf yn credu bod modd tanbriso pwysigrwydd hynny gan fod nifer o rieni, sydd â'r dylanwad mwyaf o hyd ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ddewis cymwysterau, ac sy'n cael eu newyddion o Loegr, yn dueddol o feddwl bod y newidiadau yn Lloegr yn digwydd yng Nghymru hefyd. Felly, mae'n bwysig ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol. Yn rhinwedd y cyfathrebu hynny, mae'n bwysig inni danlinellu mai Lloegr sy'n gwyrto oddi ar yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn y tair gwlad, Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, yn hytrach na bod Cymru'n gwyrto oddi wrth Loegr, yn enwedig yng nghyd-destun TGAU a lefel A.

I welcome what the Deputy Minister has to say today. Given what we heard during questions to the First Minister and what we have seen in the Estyn report today, Plaid Cymru is eager to see an improvement in the achievements of our children and young people. We feel that a qualifications system that is far simpler, where there is far less competition and far more collaboration between the different elements, will be beneficial to the children and young people of Wales. In that context we have already, broadly speaking, as has the Government, welcomed the Huw Evans review. I think that it is a praiseworthy review.

I have some specific questions to the Deputy Minister on how he will proceed with this work. First of all, I recognise that he accepts that there is a need for a communications strategy. I do not think that we can undervalue the importance of that given that parents, who still have the greatest influence on our children and young people when deciding on qualifications, and who get their news from England, tend to think that the changes implemented in England are also happening in Wales. Therefore, it is important that we communicate effectively. Given that communication, it is important that we underline the fact that it is England that is diverging from what has happened in the past in the three countries, England, Wales and Northern Ireland, rather than Wales diverging from England, which is particularly important in the context of GCSEs and A-levels.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n croesawu'r hyn sydd ganddo i'w ddweud ynglŷn â'r fagloriaeth. Mae'n rhaid i mi ddweud wrtho nad oedd geiriau grwpiau o bobl ifanc y bŵm yn trafod â hwy yn ddiweddar, sydd wedi dilyn y fagloriaeth ac wedi mynd ymlaen i astudio mewn prifysgol, yn garedig am y fagloriaeth. Mae llawer o'n pobl ifanc yn teimlo bod y fagloriaeth yn wastraff o'u hamser, yn enwedig y rhai nad ydynt yn cael eu herio yn ddigonol ganddi, fel y cydnabuwyd yn adroddiad Estyn ar y fagloriaeth yn ystod yr haf y llynedd. Felly, rwy'n gobeithio y bydd graddio yn helpu yn y broses honno, ond rwyf wir yn gobeithio y bydd y fagloriaeth yn ffocysu ychydig mwy ar yr hyn yr ychwanegir ganddi at ddysgu'r disgybl, yn hytrach nag ailadrodd y dysgu a wneir mewn manau eraill.

Mae'n siŵr y bydd canu dychau a dathlu ar iardiau ysgol ar hyd a lled y wlad o glywed y bydd dau TGAU mathemateg o hyn ymlaen. Rwy'n siŵr y bydd pobl ifanc yn croesawu hynny'n fawr iawn. Fodd bynnag, yn fwy penodol, rwy'n cydnabod bod angen ffocysu ar y mater hwn. Felly, gofynnaf yn benodol i'r Dirprwy Weinidog, beth y mae'r Llywodraeth yn tybio sydd eisiau ei wneud gyda'r disgyblion hynny sy'n aros mewn hyfforddiant neu addysg ôl-16 ond nad ydynt wedi cyrraedd y lefel dderbyniol o rifedd neu lythrennedd erbyn 16 oed? Mae adroddiad Huw Evans yn dweud bod angen parhau i ddysgu'r sgiliau hyn i'r bobl ifanc hynny. Ai dyna yw bwriad y Llywodraeth? Sut fydd y Llywodraeth yn gwneud hynny?

Hoffwn droi yn fwy penodol at addysg alwedigaethol, a hoffwn ofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â chynlluniau'r Llywodraeth yn y maes hwn. Roedd adroddiad Huw Evans yn eithaf clir bod angen edrych ar batrwm Ewropeaidd o wahaniaethu rhwng hyfforddiant ac addysg alwedigaethol cyn 16—hyfforddiant rhagflaenol—a'r hyfforddiant parhaus sy'n digwydd ar ôl 16, sef y gwahaniaeth rhwng yr IVET, sef hyfforddiant ac addysg alwedigaethol cychwynnol, a'r CVET, sef hyfforddiant ac addysg alwedigaethol parhaus. Ai bwriad y Llywodraeth yw mabwysiadu'r math hwnnw o batrwm? Yn benodol, cyn eu bod yn 16, a yw'r Dirprwy Weinidog yn dal i gredu, fel y dywed adroddiad Huw Evans, na ddylai disgyblion ddysgu mwy na 40% o'u cyrsiau yn alwedigaethol er mwyn cael y cydbwysedd yn iawn rhwng yr elfen alwedigaethol a'r elfen fwy academiaidd?

Yn y cyd-destun hwnnw hefyd, hoffwn ofyn i'r Dirprwy Weinidog barhau i sicrhau bod twf yn yr addysg alwedigaethol sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Dim ond 6% o gyrsiau mewn colegau sy'n cael eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Mae hynny'n welliant, ond nid yw'n ddigonol i ddarparu gwir ddewis o ran y Gymraeg a'r Saesneg yn y maes hwn.

I welcome what he had to say about the baccalaureate. I have to tell him that, in recent discussions that I have had, the words of groups of young people who have been through the baccalaureate process and have gone on to study at university were not particularly kind about the baccalaureate. Many of our young people feel that the baccalaureate is a waste of their time, particularly those who are not sufficiently challenged by it, as was recognised in the Estyn report on the baccalaureate in the summer of last year. Therefore, I hope that grading will assist in that regard, but I hope that the baccalaureate can focus more on what it can add to pupil learning, rather than duplicating the learning that is already happening elsewhere.

I am sure that there will be celebrations in playgrounds across the country in hearing that there are now to be two GCSE mathematics. I am sure that young people will warmly welcome that development. However, more specifically, I recognise that we need to focus on this issue. Therefore, may I ask the Deputy Minister what the Government believes needs to be done with those pupils who stay in education or training post-16 but have not reached an acceptable level of numeracy or literacy by the age of 16? The Huw Evans report states that we need to continue to teach those skills to those young people. Is that the Government's intention? How will the Government achieve that?

I would like to turn more specifically to vocational education, and I would like to ask for a little more information on the Government plans in this area. The Huw Evans report was quite clear that we need to look at the European pattern of differentiating between vocational training and education pre-16—the preparatory training—and the continuing training that happens post-16, which is the difference between the IVET, which is the initial vocational education and training, and the CVET, which is the continuing vocational education and training. Is it the Government's intention to adopt that sort of model? Specifically, in the pre-16 phase, does the Deputy Minister continue to believe, as the Huw Evans reports states, that pupils should not learn more than 40% of the course in a vocational sense in order to get that proper balance between the vocational and the more academic sides of things?

In that context, I would like to ask the Deputy Minister to continue to ensure that there is a growth in available Welsh-medium vocational courses. Only 6% of college courses are taught through the medium of Welsh at present. That is an improvement, but it is not sufficient in providing real choice in terms of the Welsh and English languages in this area.

Hoffwn orffen drwy sôn am sefydlu'r corff newydd, Cymwysterau Cymru. Credaf fod y llanast a welsom yr haf diwethaf o ran TGAU Saesneg yn dangos yn glir bod angen rheolaeth sydd ar wahân i'r Llywodraeth. Croesawaf gydnabyddiaeth y Llywodraeth erbyn hyn o'r angen hwnnw. Wrth drafod gyda Huw Evans pan ddaeth o flaen y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, roedd yn amlwg ei fod yn eithaf clir bod modd sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddio erbyn 2015, ond awgrymodd y byddai angen mwy o amser i drosglwyddo'r ffwythiannau eraill, megis ffwythiannau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru, i'r corff newydd. A wnaiff y Dirprwy Weinidog, wrth gloi, gadarnhau ei fod yn fwriad gan y Llywodraeth i sefydlu Cymwysterau Cymru fel y corff rheoleiddio, o leiaf, erbyn 2015?

I would like to finish with the establishment of the new body, Qualifications Wales. I believe that the mess that we saw over the summer with GCSE English language shows that there needs to be a separate regulator that is separate from Government. I welcome that the Government has recognised that need. In discussing with Huw Evans, when he appeared before the Children and Young People Committee, he was quite clear that he believed that Qualifications Wales could be established as the regulator by 2015, but he also suggested that it would take more time to transfer the other functions, such as the Welsh Joint Education Committee functions, to the new body. Will the Deputy Minister, in concluding, confirm that it is the Government's intention to establish Qualifications Wales as a regulator, at least, by 2015?

16:42

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Simon Thomas very much for those points and, once again, welcome his broad support for the outcomes of the review. As I said to Angela Burns, the issue of Qualifications Wales has been dealt with separately. I do not want to go into great depth on it, but it will be part of the further development work and announcements will be made on that. However, it is certainly our intention to move towards a situation, at the earliest opportunity, where it becomes a regulatory body, but there will be more announcements on that.

I turn to some of the specific points that you made. You welcomed the simpler system that is being proposed and the greater collaboration, and I endorse that. The whole thrust of the review, of course, is to provide an improved qualification system for learners aged 14 to 19 in Wales, which also tallies with the opportunities that will be available for them in terms of the Welsh economy.

On the communications strategy, let me make it absolutely clear that that is a fundamental part of this. We will do all we possibly can to ensure that changes that we make that are fundamentally different from other parts of the UK, and particularly England, are well understood. However, what will motivate us is not divergence itself, not for the sake of it, but doing the best for our learners. You are right to say that, in reality, it is England that is diverging, although, of course, the size of England really skews the whole system. You are right to point out the role of the press. Huw Evans told me on one occasion that he even found members of the teaching profession in Wales who thought that Michael Gove's announcements affected them, such was the weight of the UK media. He, of course, corrected those points.

On the baccalaureate, I made the point that we are not saying that everything is perfect with regard to the baccalaureate—far from it. I met young people at the Big Conversation events who expressed concerns about the baccalaureate, but, interestingly, at the event that I attended in Newport, they gave the baccalaureate the highest ranking when it came to qualifications that they felt would help them into a job. Therefore, it is a mixed picture, but there is no doubt that we can improve the situation, and that will be part of the development work. In terms of the advanced level baccalaureate, the announcements that we have already made on grading will assist entrants into higher education.

Diolch yn fawr iawn i Simon Thomas am y pwyntiau hynny, ac, unwaith eto, rwy'n croesawu ei gefnogaeth eang i ganlyniadau'r adolygiad. Fel y dywedais wrth Angela Burns, mae mater Cymwysterau Cymru wedi cael ei drin ar wahân. Dydw i ddim eisiau mynd i fanylder mawr arno, ond bydd yn rhan o'r gwaith datblygu pellach, a gwneir cyhoeddiadau ar hynny. Fodd bynnag, ein bwriad yn sicr yw symud tuag at sefyllfa, ar y cyfle cyntaf, lle mae'n dod yn gorff rheoleiddio, ond bydd mwy o gyhoeddiadau ar hynny.

Trof at rai o'r pwyntiau penodol a wnaethoch. Roeddech yn croesawu'r system symlach sy'n cael ei chynnig a mwy o gydweithio, ac rwy'n ategu hynny. Holl bwyslais yr adolygiad, wrth gwrs, yw darparu system gymwysterau gwell ar gyfer dysgwyr 14 i 19 oed yng Nghymru, sydd hefyd yn gyson â'r cyfleoedd a fydd ar gael iddynt o ran economi Cymru.

O ran y strategaeth gyfathrebu, gadewch i mi ei gwneud yn gwbl glir bod hynny'n rhan hanfodol o hyn. Byddwn yn gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod newidiadau a wnawn sy'n sylfaenol wahanol i rannau eraill o'r DU, a Lloegr yn enwedig, yn cael eu deall yn dda. Fodd bynnag, nid yr ymwahanu ei hun fydd yn ein hysgogi ni, nid er ei fwyn ei hun, ond gwneud y gorau ar gyfer ein dysgwyr. Rydych yn gywir i ddweud, mewn gwirionedd, mai Lloegr sy'n ymwahanu, er, wrth gwrs, mae maint Lloegr mewn gwirionedd yn gwyo'r system gyfan. Rydych yn gywir i dynnu sylw at rôl y wasg. Dywedodd Huw Evans wrthyf ar un achlysur ei fod hyd yn oed wedi dod o hyd i aelodau o'r proffesiwn addysgu yng Nghymru a oedd o'r farn bod cyhoeddiadau Michael Gove yn effeithio arnynt, cymaint oedd dylanwad cyfryngau'r DU. Cywirodd ef y pwyntiau hynny, wrth gwrs.

Ar y fagloriaeth, rwy'n gwneud y pwynt nad ydym yn dweud bod popeth yn berffaith o ran y fagloriaeth—o bell ffordd. Cyfarfûm â phobl ifanc yn y digwyddiadau Sgwrs Fawr a fynegodd bryderon am y fagloriaeth, ond, yn ddi-ddorol, yn y digwyddiad yr oeddwn yn bresennol ynddo yng Nghasnewydd, roeddent yn rhoi'r radd uchaf i'r fagloriaeth pan ddaeth at gymwysterau yr oeddent yn teimlo fyddai'n eu helpu i gael swydd. Felly, mae'n ddarlun cymysg, ond nid oes amheuaeth y gallwn wella'r sefyllfa, a bydd hynny'n rhan o'r gwaith datblygu. O ran y fagloriaeth lefel uwch, bydd y cyhoeddiadau yr ydym wedi'u gwneud yn barod ar raddio yn helpu ymgeiswyr i addysg uwch.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I take your point on the two maths GCSEs; that was my favourite subject in school, so I would not have minded, but there we go. There will be one maths GCSE whose working titles are 'mathematics techniques', 'the theory of mathematics' and 'mathematics numeracy'. It will be very much about how the theory of mathematics applies in everyday events. Politically and professionally, I will be keenly watching how the ultimate specifications of those new GCSEs are developed.

In terms of the post-16 stage and young people who still have numeracy and literacy problems, we trust that the measures that we will put in place will reduce the impact of those problems. However, where it happens, schemes such as traineeships in which numeracy and literacy already play a key part, but in a different environment, may be beneficial for those young people. That is part of our implementation plan, and we willingly admit, as we say in our statement, that there are a number of areas that we accept or accept in principle that will require further work. However, our sense of direction is absolutely clear.

Likewise, we endorse the approach of having the very best European standards in terms of vocational education. We want our vocational qualifications to stand up to anything else that exists internationally. That is the case as far as the European Union is concerned.

Finally, we make a very clear pledge that we want to see all the major key courses, including vocational courses, available through the medium of Welsh where that is wanted.

Rwy'n derbyn eich pwynt ar y ddwy TGAU mathemateg; dyna oedd fy hoff bwnc yn yr ysgol, felly ni fyddai wedi fy mhoeni i, ond dyna ni. Bydd un TGAU mathemateg gyda'r teitlau dros dro 'technegau mathemateg', 'theori mathemateg' a 'rhifedd mathemateg'. Bydd yn ymwneud yn fawr iawn â sut y mae theori mathemateg yn berthnasol mewn digwyddiadau bob dydd. Yn wleidyddol ac yn broffesiynol, byddaf yn gwyllo'n eiddgar sut y caiff manylebau terfynol y TGAU newydd hynny eu datblygu.

O ran y cyfnod ôl-16 a phobl ifanc sydd yn dal i gael problemau rhifedd a llythrennedd, hyderwn y bydd y mesurau y byddwn yn eu rhoi ar waith yn lleihau effaith y problemau hynny. Fodd bynnag, lle mae'n digwydd, gall cynlluniau fel cynlluniau hyfforddi lle mae rhifedd a llythrennedd eisoes yn chwarae rhan allweddol, ond mewn amgylchedd gwahanol, fod o fudd i'r bobl ifanc hynny. Mae hynny'n rhan o'n cynllun gweithredu, ac rydym yn barod i gyfaddef, fel y dywedwn yn ein datganiad, bod nifer o feysydd lle'r ydym yn derbyn neu'n derbyn mewn egwyddor y bydd angen gwaith pellach. Fodd bynnag, mae ein synnwyr o gyfeiriad yn gwbl glir.

Yn yr un modd, rydym yn cefnogi'r dull o gael y safonau gorau Ewropeaidd o ran addysg alwedigaethol. Rydym am i'n cymwysterau galwedigaethol sefyll i fyny i unrhyw beth arall sy'n bodoli yn rhyngwladol. Dyna fel y mae hi cyn belled ag y mae'r Undeb Ewropeaidd yn y cwestiwn.

Yn olaf, rydym yn gwneud addewid glir iawn ein bod am weld yr holl brif gyrsiau allweddol, gan gynnwys cyrsiau galwedigaethol, ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg lle mae eisiau hynny.

16:46

Keith Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel pawb arall, rwy'n credu bod yr adolygiad o gymwysterau 14-19 gan dîm Huw Evans yn werthfawr iawn. Rwy'n diolch iddo ef a'i dîm am eu gwaith da.

Ddirprwy Weinidog, diolch am eich ymateb rhagweithiol a mesuredig i'r adolygiad arbennig hwn, yn enwedig y newidiadau i'r fagloriaeth Gymreig a sgiliau hanfodol. Mae'r ddau faes wedi achosi ychydig o broblem i ambell ysgol ac ambell fyfyrwr, ond rwyf yn falch o weld eich bod wedi derbyn y newidiadau. Rwy'n credu y bydd hynny'n werthfawr.

I, like everyone else, believe that the review of 14-19 qualifications by Huw Evans's team has been extremely valuable. I thank him and his team for their good work.

Deputy Minister, thank you for your proactive and measured response to this review, particularly the changes to the Welsh baccalaureate and key skills. Both areas have been fairly problematic for some schools and some students, but I am pleased to see that you have accepted the changes. I think that that will be valuable.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mae eich datganiad yn dangos yn eglur y gwahaniaeth rhyngom ni yng Nghymru a Lloegr. Mae cynlluniau Michael Gove i newid y system Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol wedi cwrdd â beirniadaeth gan undebau, prifysgolion a busnesau. Ar y llaw arall, rydym wedi gwrandao ar ein pobl ifanc a'n prifysgolion. Er enghraifft, dywedodd tiwtor o Brifysgol Caergrawnt yr wythnos diwethaf bod graddau Uwch Gyfrannol yn ddangosydd pwysig er mwyn gallu dewis eu myfyrwyr am y flwyddyn sydd i ddod. Mae myfyrwyr eu hunain hefyd yn hoffi'r system gyfredol, gyda'r mwyafrif yn cymryd pedwar pwnc Uwch Gyfrannol ym mlwyddyn 12 a'u tri pwnc gorau fel pynciau Safon Uwch ym mlwyddyn 13. Mae pawb yn hapus â'r hyn sydd gennym yn barod, ac rwy'n siarad o brofiad o gael plant sydd wedi mynd drwy'r system a chael eu derbyn mewn prifysgolion yn Lloegr, fel Imperial College, ar sail y graddau a gawsant yng Nghymru. Nid oes unrhyw reswm i newid yr hyn rydym yn ei gynnig yn awr. A allwch chi gadarnhau y bydd ymgynghori â'r proffesiwn ac undebau yng Nghymru drwy gydol y broses weithredu?

Your statement reflects clearly the differences between Wales and England. Michael Gove's plans to change A and AS-levels have been met with criticism from unions, universities and businesses. On the other hand, we have listened to our young people and universities. For example, a tutor at the University of Cambridge last week said that AS-level grades are an important indicator in the process of offering places to students the following year. Students themselves also approve of the current system, with the majority taking four AS-levels in year 12 before going on to take their three best subjects at A-level in year 13. Everyone is happy with what we have already, and I speak from experience of seeing my children go through the system and be accepted in English universities, such as Imperial College, on the basis of grades achieved in Wales. There is no reason to change what is on offer to students at present. Can you confirm that the profession and the unions in Wales will be consulted throughout the implementation process?

16:49 **Jeff Cuthbert** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Keith Davies for those comments and I am grateful for his support for the Welsh baccalaureate and the principle of essential skills. In terms of young people aged 14 to 16, essential skills will be removed once the new literacy and numeracy GCSEs are available, because not to do so would be duplication. We trust that those new GCSEs will more than cover the issues. Essential skills will be refined on the basis of our findings and the comments that have been made. In terms of content and assessment, a reformed and more rigorous system of essential skills will be available post 16.

I am aware of the comments of the Cambridge University lecturer—meaning, 'If it ain't bust, don't fix it'—and that is something that will motivate and guide us. However, as I said in the statement, we will be making further announcements on A and AS-levels. We do not ignore what is being announced in England and we need to see what implications it may have for us. But I trust that our direction is clear.

Diolch i Keith Davies am y sylwadau hynny ac rwy'n ddiolchgar am ei gefnogaeth i fagloriaeth Cymru a'r egwyddor o sgiliau hanfodol. O ran pobl ifanc 14 i 16 oed, bydd sgiliau hanfodol yn cael eu tynnu unwaith y bydd y TGAU llythrennedd a rhifedd newydd ar gael, oherwydd byddai peidio â gwneud hynny yn ddyblygu. Hyderwn y bydd y TGAU newydd yn ymdrin yn llawn â'r materion hyn. Bydd sgiliau hanfodol yn cael eu mireinio ar sail ein canfyddiadau a'r sylwadau a wnaed. O ran cynnwys ac asesu, bydd system ddiwygiedig a mwy trylwyr o sgiliau hanfodol ar gael ôl-16.

Rwy'n ymwybodol o sylwadau'r darlithydd o Brifysgol Caergrawnt—sy'n golygu 'Os nad yw wedi torri, peidiwch â'i drwsio'—ac mae hynny'n rhywbeth a fydd yn ein hysgogi a'n harwain. Fodd bynnag, fel y dywedais yn y datganiad, byddwn yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar y Safon Uwch a Safon UG. Nid ydym yn anwybyddu beth sy'n cael ei gyhoeddi yn Lloegr ac mae angen i ni weld pa oblygiadau a all fod gan hynny i ni. Ond rwy'n hyderus bod ein cyfeiriad yn glir.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:50 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, I welcome the statement. The position that the three opposition parties have taken is very much in line with our reaction to the Minister's statement in December, when he dealt with the particular recommendation in respect of Qualifications Wales. I would like to make it clear at the outset that mathematics certainly was not my favourite subject at school, but there we are.

I have a question with regard to the opportunity to debate the direction of travel. We on this bench, for certain, are very much in line with the direction that you are taking with regard to the retention of GCSEs and A-levels. However, apart from when the review was commissioned in 2011, we have only had the opportunity to debate this in response to two statements. I would hope, therefore, that you will consider, when the implementation plan has been prepared in the spring, providing the opportunity to debate in full the way in which the Government is moving forward.

Ddirprwy Weinidog, rwy'n croesawu'r datganiad. Mae'r safbwynt y mae'r tair gwrthblaid wedi ei chymryd yn unol i raddau helaeth â'n hymateb i ddatganiad y Gweinidog ym mis Rhagfyr, pan oedd yn ymdrin â'r argymhelliad penodol mewn perthynas â Chymwysterau Cymru. Hoffwn ei gwneud yn glir ar y cychwyn nad mathemateg yn sicr, oedd fy hoff bwnc yn yr ysgol, ond dyna ni.

Mae gen i gwestiwn ynghylch y cyfle i drafod y cyfeiriad teithio. Rydym ni ar y fainc hon, yn sicr, yn unol iawn â'r cyfeiriad yr ydych yn ei gymryd mewn perthynas â chadw TGAU a Safon Uwch. Fodd bynnag, ar wahân i pan gafodd yr adolygiad ei gomisiynu yn 2011, dim ond mewn ymateb i ddau ddatganiad yr ydym wedi cael y cyfle i drafod hyn. Byddwn yn gobeithio, felly, y byddwch yn ystyried, pan fydd y cynllun gweithredu wedi ei baratoi yn y gwanwyn, darparu'r cyfle i drafod yn llawn y modd y mae'r Llywodraeth yn symud ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I recognise that the statement makes it clear that you are anxious to continue with a collaborative approach in moving forward, and I acknowledge the work that Huw Evans and his team did in starting off with that approach. Have you decided on the structures that you will adopt as a Government to ensure that the profession is kept in touch with the discussions?

Moving swiftly on, has any preliminary advice been given with regard to any legislative issues that are associated with changing from the current models, as outlined in the statement? Also, have you started on the due diligence work? The statement in December made it clear that due diligence work needed to take place. You have outlined today that there are certainly financial obligations with regard to the way that matters are proceeding. I think that an indication was given that that due diligence work would also be completed by the spring. It was clear, in his evidence to the Children and Young People Committee, that Huw Evans saw one of the major challenges as the communications strategy. You have outlined that there are professionals who perhaps do not yet understand, 13 years on, that the Welsh Government has responsibility for education. Living in a border area, that is even more of a difficulty.

Finally, there is reference, with regard to a four or five-year programme, to the point that general qualifications may be easier to set up than vocational qualifications. Huw Evans's evidence to the committee was that bodies would not be accredited with a new qualification unless they were able, at the outset, to provide those qualifications in English and Welsh. He saw that as a reason why the introduction of vocational qualifications anew might be a longer term aspiration than might have been the case in the original response to the inquiry.

So, we are generally happy with the direction of travel, but, as acknowledged in the statement, there is a lot of work that needs to be done.

16:54

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Aled Roberts for those comments and for his welcome, in general terms, for the work of the review.

You also raised issues around Qualifications Wales. There will need to be legislation in order to set up Qualifications Wales properly and due diligence work is under way in that regard. These are matters that have already been reported on separately.

Rwy'n cydnabod bod y datganiad yn ei gwneud yn glir eich bod yn awyddus i barhau gyda dull cydweithredol o ran symud ymlaen, ac rwy'n cydnabod y gwaith a wnaeth Huw Evans a'i dîm mewn dechrau gyda'r dull hwnnw. Ydych chi wedi penderfynu ar y strwythurau y byddwch yn eu mabwysiadu fel Llywodraeth i sicrhau bod y proffesiwn yn cael ei gadw mewn cysylltiad â'r trafodaethau?

Gan symud ymlaen yn gyflym, a oes unrhyw gyngor rhagarweiniol wedi ei roi mewn perthynas ag unrhyw faterion deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â newid o'r modelau presennol, fel yr amlinellir yn y datganiad? Hefyd, a ydych chi wedi dechrau ar y gwaith diwydrwydd dyladwy? Roedd y datganiad ym mis Rhagfyr yn ei gwneud yn glir y gwaith diwydrwydd dyladwy oedd angen digwydd. Rydych chi wedi amlinellu heddiw bod rhwymedigaethau ariannol yn sicr o ran y ffordd y mae materion yn mynd rhagddynt. Credaf y rhoddwyd arwydd y byddai'r gwaith diwydrwydd dyladwy hwnnw hefyd yn cael ei gwblhau erbyn y gwanwyn. Roedd yn glir, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, bod Huw Evans wedi ystyried mai un o'r heriau mawr oedd y strategaeth gyfathrebu. Rydych chi wedi amlinellu bod gweithwyr proffesiynol nad ydynt efallai yn deall eto, 13 mlynedd yn ddiweddarach, bod Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am addysg. Wrth fyw mewn ardal ar y ffin, mae hynny hyd yn oed yn fwy o anhawster.

Yn olaf, mae cyfeiriad, o ran rhaglen bedair neu bum mlynedd, at y pwynt y gallai cymwysterau cyffredinol fod yn haws eu sefydlu na chymwysterau galwedigaethol. Tystiolaeth Huw Evans i'r pwyllgor oedd na fyddai cyrff yn cael eu hachredu gyda chymhwyster newydd oni bai eu bod yn gallu, ar y cychwyn, darparu'r cymwysterau yn Gymraeg a Saesneg. Gwelodd hynny fel rheswm pam y gallai cyflwyno cymwysterau galwedigaethol o'r newydd fod yn ddyhead tymor hirach nag oedd yn wir efallai yn yr ymateb gwreiddiol i'r ymchwiliad.

Felly, rydym yn hapus gyda chyfeiriad y teithio, ond, fel y cydnabyddir yn y datganiad, mae llawer o waith y mae angen ei wneud.

Diolch i Aled Roberts am y sylwadau hynny ac am ei groeso, yn gyffredinol, i waith yr adolygiad.

Gwnaethoch hefyd godi materion yn ymwneud â Chymwysterau Cymru. Bydd angen cael deddfwriaeth er mwyn sefydlu Cymwysterau Cymru yn briodol ac mae gwaith diwydrwydd dyladwy yn cael ei wneud yn hynny o beth. Mae'r rhain yn faterion yr adroddwyd arnynt eisoes ar wahân.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the qualifications review, you said, if I heard you correctly, that there had been two statements. There was also a full debate in the earlier part of last year on the qualifications review, and that set the scene for the work of Huw Evans and his team. As the work on developing the implementation and the methodologies associated with that get firmly under way, and we manage to get clarity on some of the further work that is required, then I am happy to provide further reports to the Assembly and to discuss those issues with you, as I am sure I will to the committees.

We will consult on the way forward; we will need to work with a wide range of partners on the new specifications and assessment systems that will be brought in. We will be looking at the issue of linear and modular assessments and making sure that whatever regimes we have are fair to the learner in being able to assess what knowledge they hold: a summative and formative assessment of key roles to play. We want to ensure that good practice is there. We will not necessarily follow the route that has been set in England in terms of abolishing modular assessments and concentrating on linear assessments for A-levels. That implementation report will be with me by late spring and we will have greater clarity then.

You used the phrase, 'general qualifications may be easier to set up than vocational qualifications'. I understand that. Vocational qualifications by their very nature are qualifications to do with work, and they need to have currency without any doubt across the UK. The border between Wales and England is long and porous and we need to ensure that what we offer in Wales are appropriate and relevant to what might be found in England in terms of vocational qualifications, particularly those that are competency based. I agree that for 14 to 16-year olds, I do not think that competency-based qualifications should apply, but in terms of attainment, we need to ensure that there is a good balance and the right balance between vocational experiences and general qualifications. That will be part of the implementation work.

In terms of offering qualifications through the medium of Welsh, I made the point earlier that that is our firm view. We intend to obtain that at the earliest opportunity. We do not underestimate the practical difficulties, particularly in some of those vocational qualifications, in getting the qualifications and the associated assessment materials available in Welsh. However, we are very serious about that matter. In terms of awarding bodies in England awarding qualifications in Wales, they will have to meet the requirements that Qualifications Wales will ultimately lay down and it could be the case, within a reasonable period of time, that we will want those qualifications to be available in Welsh.

O ran yr adolygiad cymwysterau, dywedaso, os oeddwn yn eich clywed yn iawn, y bu dau ddatganiad. Hefyd, roedd dadl lawn ar ddechrau'r llynedd ar yr adolygiad cymwysterau, ac roedd hynny'n disgrifio'r olygfa ar gyfer gwaith Huw Evans a'i dîm. Wrth i'r gwaith ar ddatblygu'r gweithrediad a'r fethodoleg sy'n gysylltiedig â hynny ddechrau'n gadarn, ac yr ydym yn llwyddo i gael eglurder ar beth o'r gwaith pellach sydd ei angen, yna rwy'n hapus i ddarparu adroddiadau pellach i'r Cynulliad ac i drafod y materion hynny gyda chi, ac rwy'n siŵr y gwnaf hynny i'r pwyllgorau.

Byddwn yn ymgynghori ar y ffordd ymlaen; bydd angen i ni weithio gydag ystod eang o bartneriaid ar y manylebau a'r systemau asesu newydd a fydd yn cael eu dwyn i mewn. Byddwn yn edrych ar y mater o asesiadau llinelllog a modiwlaidd a gwneud yn siŵr bod pa bynnag gyfundrefnau sydd gennym yn deg i'r dysgwyr mewn gallu asesu pa wybodaeth sydd ganddynt: asesiad crynodol a ffurfiannol o rolau allweddol i'w chwarae. Rydym am sicrhau bod arfer da yno. Ni fyddwn o reidrwydd yn dilyn y llwybr sydd wedi ei osod yn Lloegr o ran dileu asesiadau modiwlaidd a chanolbwyntio ar asesiadau llinellol ar gyfer Safon Uwch. Bydd yr adroddiad gweithredu hwnnw gyda mi erbyn diwedd y gwanwyn a bydd gennym fwy o eglurder bryd hynny.

Roeddech yn defnyddio'r ymadrodd, 'gall cymwysterau cyffredinol fod yn haws i'w sefydlu na chymwysterau galwedigaethol'. Rwy'n deall hynny. Mae cymwysterau galwedigaethol yn ôl eu natur yn gymwysterau sy'n ymwneud â gwaith, ac mae angen iddynt fod yn gyfredol heb unrhyw amheuaeth ar draws y DU. Mae'r ffin rhwng Cymru a Lloegr yn hir a mandyllog ac mae angen inni sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig yng Nghymru yn briodol ac yn berthnasol i'r hyn y gellid ei gael yn Lloegr o ran cymwysterau galwedigaethol, yn enwedig y rhai sy'n seiliedig ar gymhwysedd. Rwy'n cytuno, ar gyfer y rhai 14 i 16 oed, nid wyf yn credu y dylai cymhwysedd yn seiliedig ar gymwysterau fod yn berthnasol, ond o ran cyrhaeddiad, mae angen i ni sicrhau bod cydbwysedd da a chydbwysedd cywir rhwng profiadau galwedigaethol a chymwysterau cyffredinol. Bydd hynny'n rhan o'r gwaith gweithredu.

O ran cynnig cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg, rwyf wedi gwneud y pwynt yn gynharach mai dyna yw ein barn gadarn. Rydym yn bwriadu cael hynny ar y cyfle cyntaf. Nid ydym yn bychanu'r anawsterau ymarferol, yn enwedig mewn rhai o'r cymwysterau galwedigaethol, mewn sicrhau bod y cymwysterau a'r deunyddiau asesu cysylltiedig ar gael yn Gymraeg. Fodd bynnag, rydym yn ddirifol iawn ynghylch y mater hwnnw. O ran cyrff dyfarnu yn Lloegr yn dyfarnu cymwysterau yng Nghymru, bydd yn rhaid iddynt fodloni'r gofynion y bydd Cymwysterau Cymru yn y pen draw yn eu gosod a gallai fod yn wir, o fewn cyfnod rhesymol o amser, y byddwn am i'r cymwysterau fod ar gael yn y Gymraeg.

Diolch i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw. Byddai'n deg dweud bod adolygiad Huw Evans wedi derbyn croeso cynnes gan y sector, ac mae'n dda gweld sut y gall y Llywodraeth symud ymlaen ar hyn.

16:58

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Deputy Minister for his statement today. It would be fair to say that Huw Evans's review has received a warm welcome from the sector and it is good to see how the Government can move forward on this.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Some of my questions have already been covered by other Members. However, I have two specific questions. In your statement, Minister, you commit to launching a major, long-term, UK-wide communication strategy at the end of this year to raise the profile of qualifications in Wales, particularly with universities and employers in England. I want to remind everyone here that over 98% of businesses in Wales are classed as small or microbusinesses. It is important that the changes are communicated to them effectively. Will you outline what mechanisms you will put in place to do that and how will you know when you have achieved that? I know that other Members have mentioned that sometimes employers get somewhat confused about qualifications, particularly as there have been changes.

In his report, Huw Evans says that it is essential that there are clear progression pathways for learners wishing to follow a vocational route. I think that the review offers us the chance to tackle some of the inherent gender stereotyping about subjects. For example, I am concerned that we are still in a situation where more boys than girls are taking up STEM subjects. This is a good opportunity for us to be more creative in breaking down these barriers. It is about the perception that learners have about certain subjects and qualifications. As far as the STEM subjects are concerned, this was a key challenge in the Welsh Government's science strategy. Therefore, how does this timely review contribute to achieving this?

Mae rhai o fy nghwestiynau eisoes wedi cael eu codi gan Aelodau eraill. Fodd bynnag, mae gennyf ddau gwestiwn penodol. Yn eich datganiad Weinidog, rydych yn ymrwng i lansio strategaeth gyfathrebu fawr, hirdymor, ar draws y DU ar ddiwedd y flwyddyn i godi proffil cymwysterau yng Nghymru, yn enwedig gyda phrifysgolion a chyflogwyr yn Lloegr. Rwyf am atgoffa pawb yma fod dros 98% o fusnesau yng Nghymru yn cael eu dosbarthu fel rhai bach neu microfusnesau. Mae'n bwysig bod y newidiadau yn cael eu cyfleu yn effeithiol iddynt. A wnewch chi amlinellu pa fecanweithiau y byddwch yn eu rhoi ar waith i wneud hynny a sut y byddwch yn gwybod pan fyddwch wedi cyflawni hynny? Gwn fod Aelodau eraill wedi crybwyll bod cyflogwyr weithiau yn drysu braidd ynghylch cymwysterau, yn enwedig gan y bu newidiadau.

Yn ei adroddiad, mae Huw Evans yn dweud ei bod yn hanfodol bod llwybrau dilyniant clir ar gyfer dysgwyr sy'n dymuno dilyn llwybr galwedigaethol. Credaf fod yr adolygiad yn cynnig cyfle i ni fynd i'r afael â rhywfaint o'r stereoteipio cynhenid ar sail rhyw am bynciau. Er enghraifft, rwy'n bryderus ein bod yn dal mewn sefyllfa lle mae mwy o fechgyn na merched yn manteisio ar y pynciau STEM. Mae hwn yn gyfle da i ni fod yn fwy creadigol mewn chwalu'r rhwystrau hyn. Mae'n ymwneud â'r canfyddiad sydd gan ddisgwyr am bynciau a chymwysterau penodol. Cyn belled ag y mae'r pynciau STEM yn y cwestiwn, roedd hon yn her allweddol yn strategaeth gwyddoniaeth Llywodraeth Cymru. Felly, sut y mae'r adolygiad amserol hwn yn cyfrannu at gyflawni hyn?

17:00

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Chris Chapman for those comments and, again, for her warm welcome of the review and our response to it. She is quite right to stress the importance of the UK-wide communication strategy. I recognise that, in Wales, the economy is characterised by a vast number of SMEs and some of them are very small indeed. We do not minimise the work that will have to be done to make sure that they understand the purpose of the qualifications review and how they can engage with it, but that is what we will do. The Federation of Small Businesses has been involved with the review, for example. It has commented on it and provided valuable material information for us to build in. We will continue with that, and not just on the qualifications review. Although the qualifications review did not look at the issue of apprenticeships, as such—it looked at some of the constituent parts; it was done separately—we recognise that there is a lack of understanding out there in a number of small firms in Wales of the benefits of vocational training and what it has to offer. Undoubtedly, further work will be done across the board to make sure that they understand the value of the qualifications review and how they can engage with it, together with other schemes like apprenticeships, and how tackling gender stereotypes is to their advantage.

Diolch i Chris Chapman am y sylwadau hynny ac, unwaith eto, am ei chroeso cynnes i'r adolygiad a'n hymateb iddo. Mae hi yn llygad ei lle i bwysleisio pwysigrwydd y strategaeth gyfathrebu ar draws y DU. Rwy'n cydnabod, yng Nghymru, bod yr economi yn cael ei nodweddu gan nifer helaeth o fusnesau bach a chanolig ac mae rhai ohonynt yn fach iawn yn wir. Nid ydym yn lleihau'r gwaith a fydd yn cael ei wneud i wneud yn siŵr eu bod yn deall pwrpas yr adolygiad cymwysterau a sut y gallant ymgysylltu â hi, ond dyna beth fyddwn ni'n ei wneud. Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi bod yn gysylltiedig â'r adolygiad, er enghraifft. Mae wedi gwneud sylwadau arno ac mae wedi darparu deunydd gwybodaeth gwerthfawr i ni i'w chynnwys. Byddwn yn parhau â hynny, ac nid yn unig ar yr adolygiad cymwysterau. Er nad oedd yr adolygiad cymwysterau yn edrych ar fater prentisiaethau, fel y cyfryw—roedd yn edrych ar rai o'r rhannau cyfansoddol; cafodd ei wneud ar wahân—rydym yn cydnabod bod diffyg dealltwriaeth mewn nifer o gwmnïau bach yng Nghymru o fanteision hyfforddiant galwedigaethol a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig. Heb os, bydd gwaith pellach yn cael ei wneud ym mhobman i wneud yn siŵr eu bod yn deall gwerth yr adolygiad cymwysterau a sut y gallant ymgysylltu ag o, ynghyd â chynlluniau eraill fel prentisiaethau, a sut y mae mynd i'r afael â stereoteipiau rhyw o fudd iddynt.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

You were right to mention the value of the STEM subjects. That is why I said that an example of an additional subject in the Welsh baccalaureate could be science; there could be others. However, we are serious about promoting the STEM subjects and we will do that. All the evidence suggests that girls, particularly if they proceed with STEM subjects and make them part of a career, benefit enormously. I recently was at an apprenticeship awards and more than half of those receiving apprenticeships were girls.

Roeddech yn iawn i sôn am werth y pynciau STEM. Dyna pam y dywedais y gallai enghraifft o bwnc ychwanegol ym magloriaeth Cymru fod yn wyddoniaeth; gallai fod eraill. Fodd bynnag, rydym o ddifrif ynghylch hyrwyddo pynciau STEM, a byddwn yn gwneud hynny. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod merched, yn enwedig os ydynt yn symud ymlaen â phynciau STEM a'u gwneud yn rhan o yrfa, yn elwa yn fawr. Yn ddiweddar, roeddwn mewn cyfarfod gwobrau prentisiaeth ac roedd mwy na hanner y rhai a dderbyniodd brentisiaethau yn ferched.

17:02

Datganiad: Y Camau Nesaf yn y Gwaith o Ddiwygio'r Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

Upon my appointment, I gave Members a commitment to keep them informed of key developments in the reform of the common agricultural policy. Since then, I have made statements to update Members on the progress of negotiations and to outline the position that the Welsh Government is taking. I now wish to update Members on the latest developments as we move into a critical period in the negotiations and also about the consultation that I will be launching prior to taking decisions on how the new CAP framework will operate in Wales.

I have also given Members and the farming community a clear undertaking that I would stand up for Wales and that I would ensure that Welsh interests are fully represented throughout this process. Yesterday, I was in Brussels at the Agriculture and Fisheries Council, and I have attended every agriculture council as a part of the UK ministerial team since my last statement here. I welcome the new Irish presidency's commitment to complete the CAP and fisheries reform process before the summer. I expect to regularly follow up conversations that we held more formally with the Irish Government in Dublin last autumn. We will continue to support its energetic and positive approach to reaching agreement on all these matters.

This round of reforms is more complicated than previous reforms, in terms of both process and content. The European Parliament has co-decision powers for the first time, and I have been working closely with MEPs to help them to understand the Welsh position and Welsh needs on different issues. We have been working with Welsh and other UK MEPs, but have also been meeting with parliamentary committee leaders and rapporteurs. I am very grateful to our officials who have been working with the Commission and others. I know that our positive and constructive approach is valued across the different EU institutions.

Statement: Next Steps in the Reform of Common Agricultural Policy

Ar ôl fy mhenodi, rhoddais ymrwymiad i Aelodau i'w hysbysu o ddatblygiadau allweddol yn y gwaith o ddiwygio'r polisi amaethyddol cyffredin. Ers hynny, rwyf wedi gwneud datganiadau i ddiweddarau'r Aelodau am gynnydd y trafodaethau ac amlinellu safbwynt Llywodraeth Cymru. Nawr, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y datblygiadau diweddaraf wrth inni gyrraedd cyfnod allweddol yn y trafodaethau a hefyd am yr ymgynghoriad y byddaf yn ei lansio cyn gwneud penderfyniadau am sut y bydd y fframwaith PAC newydd yn gweithredu yng Nghymru.

Rwyf hefyd wedi rhoi ymrwymiad clir i Aelodau a'r gymuned ffermio y byddwn yn sefyll dros Gymru ac y byddwn yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn drwy gydol y broses. Ddoe, roeddwn ym Mrwsel yn y Cyngor Amaethyddiaeth a Physgodfeydd, ac rwyf wedi bod yn bresennol ym mhob cyngor amaethyddiaeth fel rhan o dîm gweinidogol y DU ers fy natganiad diwethaf yma. Rwyf yn croesawu ymrwymiad llywyddiaeth newydd Iwerddon i gwblhau proses ddiwygio'r PAC a physgodfeydd cyn yr haf. Rwyf yn disgwyl sgyrsiau dilynol rheolaidd ar ôl y sgyrsiau ffurfiol a gawsom â Llywodraeth Iwerddon yn Nulyn yr hydref diwethaf. Byddwn yn parhau i gefnogi eu dull egniol a chadarnhaol o gytuno ar y materion hyn i gyd.

Mae'r rownd hon o ddiwygiadau'n fwy cymhleth na diwygiadau blaenorol, o ran y broses a'r cynnwys. Mae gan Senedd Ewrop bwerau cydbenderfynu am y tro cyntaf, ac rwyf wedi bod yn cydweithio'n agos ag ASEau i'w helpu i ddeall y sefyllfa yng Nghymru ac anghenion Cymru ar wahanol faterion. Rydym wedi bod yn gweithio gydag ASEau Cymru a rhai eraill o'r DU, ond rydym hefyd wedi bod yn cyfarfod ag arweinwyr y pwyllgor seneddol a rapporteurs. Rwyf yn ddiolchgar iawn i'n swyddogion sydd wedi bod yn cydweithio â'r Comisiwn ac eraill. Gwn fod ein hymagwedd gadarnhaol ac adeiladol yn cael ei gwerthfawrogi ar draws gwahanol sefydliadau'r UE.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A key presidency priority is to achieve agreement on the EU multi-annual financial framework. The Council President Herman van Rompuy is leading this process and hopes to achieve agreement at the special European Council in February. I have already made clear the position of the Welsh Government on this matter, in that we would like to see spending maintained at current levels to enable us to invest in jobs and growth. Agreement on the MFF is an essential prerequisite to full agreement between the Council, Parliament and Commission on the CAP legislation. It will also signal the start of negotiations within the United Kingdom on the relative share of the CAP that will go to each UK administration.

The purpose of the consultation process that I am about to launch is to begin an informed and detailed discussion on how we will structure the new CAP in Wales. I am aware that the negotiations are not yet complete and that there continue to be some areas of uncertainty, but we do now understand the broad parameters and structure of the new CAP, and the main elements of the direct payments system are also clear. We will see a shift in payments away from historic entitlements to an area basis, although the speed and pattern of that transition remain to be decided. Ultimately, I believe that this will introduce a fairer, more transparent subsidy system into the sector. I want to achieve more than this for the industry. I want to see a strong and sustainable, market-orientated farming industry that is more efficient and profitable and much less reliant on public subsidy.

At the same time, the concept of greening—that is, delivering certain environmental benefits from core subsidies—is becoming a generally accepted element of direct payments. The main elements of greening now look more realistic and workable than in earlier proposals. In particular, I am pleased that the European Commission has accepted the proposal that membership of an accepted agri-environment scheme, such as Glastir, should help to meet this requirement. This new approach to direct payments, together with the focus on agri-environment schemes in the rural development plan, is an acknowledgement of the expectation to see delivery of public goods from public money.

In the RDP, I hope to see a strong focus on assisting the competitiveness of agricultural and rural businesses, investing in jobs and growth, and helping to tackle poverty. We have an excellent Farming Connect programme, and I hope that this is a service that we can develop in the future. I am also anxious to build upon our strengths in knowledge transfer and innovation support services, including the LEADER approach at a local level, to maximise the benefits of this investment for communities throughout rural Wales.

Un o flaenoriaethau allweddol y llywyddiaeth yw cael cytundeb ar fframwaith ariannol amflwydd yr UE. Llywydd y Cyngor, Herman van Rompuy, sy'n arwain y broses hon ac mae'n gobeithio cael cytundeb yn y Cyngor Ewropeaidd arbennig ym mis Chwefror. Rwyf eisoes wedi egluro safbwynt Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, sef yr hoffem weld cynnal gwariant ar y lefelau presennol er mwyn ein galluogi i fuddsoddi mewn swyddi a thwf. Mae Cytundeb ar y MFF yn rhagofyniad hanfodol i gytundeb llawn rhwng y Cyngor, y Senedd a'r Comisiwn ar y ddeddfwriaeth PAC. Bydd hefyd yn nodi dechrau trafodaethau o fewn y Deyrnas Unedig ar y gyfran gymharol o'r PAC a aiff i bob gweinyddiaeth yn y DU.

Pwrpas y broses ymgynghori yr wyf ar fin ei lansio yw dechrau trafodaeth ddoeth a manwl am sut y byddwn yn strwythuro'r CAP newydd yng Nghymru. Rwyf yn ymwybodol nad yw'r trafodaethau wedi'u cwblhau eto a bod rhai meysydd yn dal i fod yn ansicr, ond rydym nawr yn deall y paramedrau a strwythur bras y PAC newydd, ac mae prif elfennau'r system taliadau uniongyrchol hefyd yn glir. Gwelwn newid mewn taliadau oddi wrth hawliau hanesyddol i fod yn seiliedig ar ardaloedd, er nad yw cyflymder a phatrwm y cyfnod pontio hwnnw wedi'i benderfynu eto. Yn y pen draw, credaf y bydd hyn yn cyflwyno system decach, fwy tryloyw ar gyfer cymorthdaliadau i'r sector. Hoffwn gyflawni mwy na hyn ar gyfer y diwydiant. Hoffwn weld diwydiant ffermio cryf a chynaliadwy, sy'n ymateb i ofynion y farchnad ac sy'n fwy effeithlon a phroffidiol ac yn llawer llai dibynnol ar gymorthdaliadau cyhoeddus.

Ar yr un pryd, mae'r cysyniad gwyrdd—hynny yw, sicrhau manteision amgylcheddol penodol o gymorthdaliadau craidd—yn dod yn elfen a dderbynnir yn gyffredinol o ran taliadau uniongyrchol. Mae'r prif elfennau gwyrdd bellach yn edrych yn fwy realistig ac ymarferol nag mewn cynigion cynharach. Yn benodol, rwyf yn falch bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi derbyn y cynnig y dylai aelodaeth o gynllun amaeth-amgylchedd derbyniol, megis Glastir, helpu i fodloni'r gofyniad hwn. Mae'r agwedd newydd hon at daliadau uniongyrchol, ynghyd â'r ffocws ar gynlluniau amaeth-amgylchedd yn y cynllun datblygu gwledig, yn cydnabod y disgwyliad i weld cyflenwi nwyddau cyhoeddus o arian cyhoeddus.

Yn y Cynllun Datblygu Gwledig, gobeithiaf weld ffocws cryf ar gynorthwyo cystadleurwydd busnesau amaethyddol a gwledig, buddsoddi mewn swyddi a thwf, a helpu i fynd i'r afael â thlodi. Mae gennym raglen Cyswllt Ffermio ardderchog, a gobeithiaf y gallwn ddatblygu'r gwasanaeth hwn yn y dyfodol. Rwyf hefyd yn awyddus i adeiladu ar ein cryfderau ym maes trosglwyddo gwybodaeth a gwasanaethau cymorth i arloesi, gan gynnwys y dull LEADER ar lefel leol, er mwyn manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad hwn i gymunedau ledled y Gymru gwledig.

Under the common strategic framework, we are looking beyond the boundaries of individual investment funds and planning the RDP, the structural funds and the maritime and fisheries fund to work together. I want to streamline and simplify the functioning of all these funding streams, and I expect the report of Dr Graham Guilford to help inform this process when his report is published in March. I also want the RDP to play a complementary role to direct payments in helping to shape the future of Welsh farming.

In launching the consultation, I want to be clear: the Welsh Government will lead and inform this process, but we are not making direct proposals, nor are we taking a preferred approach. I want to listen and I want to talk to the farming community, and I want to listen to the different voices from communities throughout rural Wales. I am already aware that there are many different views on many of these matters. This is a conversation and a dialogue where the Government wants to play a positive role as a participant, as well as a leader. When this consultation is complete, I will take decisions that are based upon what has been said throughout the consultation, and based upon our shared vision for the future of rural communities and the future of the agricultural community.

In the work done so far, I am very grateful for the support, commitment and expertise of stakeholders. Peter Davies, our Commissioner for Sustainable Futures, has led an advisory group for me to help develop ideas for the RDP, and others have assisted us in examining the effects of potential changes in direct payments. I am also grateful to Welsh Government officials for the work that they have done in developing these proposals. We have a real opportunity in these reforms to invest in the economy, the environment and the community. We have an opportunity to bring all of these programmes together. I hope that this will be a positive and constructive process where, together, we can decide how best to use these funds and this opportunity.

Dan y fframwaith strategol cyffredin, rydym yn edrych y tu hwnt i ffiniau cronfeydd buddsoddi unigol ac yn cynllunio'r Cynllun Datblygu Gwledig, y cronfeydd strwythurol a'r gronfa morol a physgodfeydd i weithio gyda'i gilydd. Hoffwn symleiddio gweithrediad yr holl ffrydiau ariannu hyn, ac rwyf yn disgwyl y bydd adroddiad Dr Graham Guilford yn helpu i lywio'r broses hon pan gyhoeddir ei adroddiad ym mis Mawrth. Hoffwn hefyd i'r Cynllun Datblygu Gwledig gymryd swyddogaeth gyflenwol o ran taliadau uniongyrchol i helpu i lunio dyfodol ffermio yng Nghymru.

Wrth lansio'r ymgynghoriad, rwyf am fod yn glir: Llywodraeth Cymru fydd yn arwain a llywio'r broses hon, ond nid ydym yn gwneud cynigion uniongyrchol, ac nid ydym yn cymryd ymagwedd ddewisol. Rwyf i am wrando ac rwyf am siarad â'r gymuned ffermio, ac rwyf am wrando ar y lleisiau gwahanol o gymunedau ledled y Gymru wledig. Rwyf eisoes yn ymwybodol bod yna lawer o wahanol safbwyntiau ar lawer o'r materion hyn. Mae hon yn sgwrs a deialog lle mae'r Llywodraeth eisiau chwarae rôl gadarnhaol fel cyfranogwr, yn ogystal ag fel arweinydd. Pan fydd yr ymgynghoriad hwn wedi ei gwblhau, byddaf yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar yr hyn a ddywedwyd drwy gydol yr ymgynghoriad, ac yn seiliedig ar ein gwledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol cymunedau gwledig a dyfodol y gymuned amaethyddol.

O ran y gwaith a wnaed hyd yn hyn, rwyf yn ddiolchgar am gefnogaeth, ymrwymiad ac arbenigedd rhanddeiliaid. Mae Peter Davies, ein Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, wedi arwain grŵp ymgynghorol ar fy rhan i helpu i ddatblygu syniadau ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig, ac mae eraill wedi ein cynorthwyo i archwilio effeithiau newidiadau posibl i daliadau uniongyrchol. Rwyf hefyd yn ddiolchgar i swyddogion Llywodraeth Cymru am y gwaith y maent wedi'i wneud wrth ddatblygu'r cynigion hyn. Mae gennym gyfle gwirioneddol yn y diwygiadau hyn i fuddsoddi yn yr economi, yr amgylchedd a'r gymuned. Mae gennym gyfle i ddod â'r holl raglenni hyn ynghyd. Gobeithiaf y bydd hyn yn broses gadarnhaol ac adeiladol lle y gallwn, gyda'n gilydd, benderfynu ar y ffordd orau i ddefnyddio'r arian a'r cyfle hwn.

17:09

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Deputy Minister, for your statement. Thank you also for taking the time earlier today to meet with me and other colleagues to speak to us about your statement.

It is clear from your statement, and it is well-known from others, that there is a great deal of uncertainty at the moment because the multi-annual financial framework has not been agreed. Until that is agreed, it is not clear how the final policy will pan out. There are certainly things to welcome in the new draft negotiating mandate, which will inform the new consultation. I know that there has been a series of votes this week in Europe.

Diolch, Ddirprwy Weinidog, am eich datganiad. Diolch hefyd am roi o'ch amser yn gynharach heddiw i gyfarfod â mi a chydweithwyr eraill i siarad â ni am eich datganiad.

Mae'n amlwg o'ch datganiad, ac mae'n hysbys gan eraill, y ceir llawer iawn o ansicrwydd ar hyn o bryd gan nad oes cytundeb am y fframwaith ariannol amlflwydd. Hyd nes y cytunir arno, nid yw'n glir sut bolisi terfynol a gawn. Mae'r mandad trafod drafft newydd yn sicr yn cynnwys pethau i'w croesawu, a fydd yn rhoi sail i'r ymgynghoriad newydd. Gwn y bu cyfres o bleidleisiau yr wythnos hon yn Ewrop.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Could you indicate how you plan to approach the optional greening, which seems to be emerging at the moment through the decision to apply penalties only to the greening payment rather than the entire single farm payment, and what your approach to that will be? I am sure that you will join me in welcoming the fact that young farmer support is now mandatory under pillar 1, which will be a great boost for new entrants into the agriculture industry. Could you expand on some of your ideas about forestry, which is one of the new sectors recognised under the RDP, or potentially will be recognised under the RDP, and what your planned approach may or may not be? I know that you are having a consultation, but that, effectively, is a new area.

I am sure that you will join me in welcoming the fact that the sheep electronic identification has been deleted from cross compliance, particularly given problems with the technology in that respect. I certainly welcome the more risk-based approach to checks and penalties that will reward good practice and introduce more proportionate fines for minor breaches, which has long been needed.

It is clear that the UK suffers considerably from a poor settlement in pillar 2. When Tony Blair gave up the £9.3 billion rebate that Britain had without achieving substantial increases in payment in pillar 2, that has—

A allech chi nodi sut yr ydych yn bwriadu ymdrin â'r gwyrddni dewisol, y mae'n ymddangos sy'n dod i'r amlwg ar hyn o bryd drwy'r penderfyniad i roi cosbau ar y taliad gwyrdd yn unig yn hytrach na'r taliad fferm sengl cyfan, a beth fydd eich agwedd at hynny? Rwyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i groesawu'r ffaith bod cymorth i ffermwyr ifanc bellach yn orfodol dan golofn 1, a fydd yn hwb mawr i newydd-ddyfodiaid i'r diwydiant amaeth. A allech chi ymhelaethu ar rai o'ch syniadau am goedwigaeth, sy'n un o'r sectorau newydd a gydnabyddir dan y Cynllun Datblygu Gwledig, neu a fydd o bosibl yn cael ei gydnabod dan y Cynllun Datblygu Gwledig, a beth yn union yw eich dull arfaethedig? Gwn eich bod yn cael ymgynghoriad, ond mae hwnnw, i bob pwrpas, yn faes newydd.

Rwyf yn siŵr yr ymunwch â mi i groesawu'r ffaith bod adnabod defaid yn electronig wedi cael ei ddileu o drawsgydymffurfio, yn enwedig o ystyried y problemau gyda'r dechnoleg yn hynny o beth. Yn sicr, croesawaf yr ymagwedd fwy seiliedig ar risg at wiriadau a chosbau a fydd yn gwobrwyo ymarfer da ac yn cyflwyno dirwyon mwy cymesur am fân droseddau; bu angen hynny ers amser maith.

Mae'n amlwg bod y DU yn dioddef yn sylweddol oherwydd setliad gwael yng ngholofn 2. Pan wrthododd Tony Blair yr ad-daliad £9.3 biliwn a gafodd Prydain heb gyflawni cynnydd sylweddol yn nhaliadau colofn 2, mae hynny—

17:11 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
It was Mrs Thatcher.

Mrs Thatcher wnaeth hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:11 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
In 2007. I am talking about the rebate.

Yn 2007. Rwyf yn sôn am yr ad-daliad.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:11 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
She does not understand her briefing.

Dydy hi ddim yn deall ei briff.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:11 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Clearly, those issues will be decided once the budget has been decided. That is all part of the negotiating process.

Yn amlwg, penderfynir ar y materion hynny ar ôl penderfynu ar y gyllideb. Mae hynny i gyd yn rhan o'r broses drafod.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Rhodri Glyn Thomas a gododd—

Rhodri Glyn Thomas rose—

17:12 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Order. You cannot intervene.

Trefn. Ni chewch ymyrryd.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

17:12 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Minister, can you provide details about how your officials will approach Glastir and ideas of double payments? There has been an indication floated that double payments will be accepted by the EU at this point. Can you confirm the line that you are taking on that?

Weinidog, a allwch chi roi manylion am sut y bydd eich swyddogion yn ymdrin â Glastir a syniadau am daliadau dwbl? Mae'r syniad wedi'i gyflwyno y bydd yr UE yn derbyn taliadau dwbl ar hyn o bryd. A allwch chi gadarnhau eich safbwynt yn hynny o beth?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Given that the average single farm payment to Welsh farmers is significantly below the EU average, will you confirm whether or not you are prepared to make use of the flexibility allowing the transfer of funds from pillar 2 to pillar 1 of CAP?

Finally, given that rural development funding beyond 2013, unlike pillar 1 payments, is totally dependent on agreement being reached between the Council of Ministers and the European Parliament, can you confirm what contingency measures are being prepared if agreement is not reached in sufficient time this year?

17:13

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that general welcome for the statement, Antoinette. I am afraid that I will repay your generosity by disappointing you on many of the points that you raised. We will see how we go.

In terms of your final point, which is, perhaps, the easiest to answer straightforwardly, regarding transition, the presidency, yesterday at council, made a request to the Commission to bring forward transitional proposals in terms of what will happen post 2013 and into 2014 and 2015. The Commission will be bringing forward those proposals following agreement on the MFF. Therefore, we are looking towards having agreement on that next weekend, on 7 and 8 February. On the basis of that agreement, the Commission will bring forward its proposals on transitional arrangements and we will certainly be reacting to that.

In the general introduction to your remarks, you were certainly right that there remains a great deal of uncertainty, but that uncertainty now exists within particular parameters. You will be aware that the pillar 2 regulations are quite far advanced. It is seen as an evolution of policy rather than substantial change. Therefore, the rural development regulations that we have are quite well advanced and in a position whereby they can be taken forward in a relatively short period of time. I was pleased to hear yesterday, at council, Simon Coveney, the Irish Minister, outlining a very ambitious work plan for both fisheries and CAP reform. He was very clear that he wanted agreement in council by the end of March, with inter-institutional agreement then following by the end of June. They are very ambitious programmes, but I believe that they are achievable, and we certainly will be approaching these discussions and negotiations in a very positive and constructive way.

In terms of the number of points of detail on which you asked for clarity, I did say in my statement—and we have had this conversation at various times—that we as a Government are not entering into this consultation with our proposals; we are entering into this consultation in order to have, I hope, a very positive and constructive dialogue and conversation with the rural communities of Wales, the agricultural industry and the wider agricultural community. I therefore do not want to start that conversation by saying, 'This is what we think, and this is where we want this conversation to go'. I want to listen to what people have to say, and I want to have that very strong dialogue with people.

Ac ystyried bod y taliad fferm sengl i ffermwyr Cymru ar gyfartaledd yn sylweddol is na chyfartaledd yr UE, a gadarnhewch a ydych yn barod i ddefnyddio'r hyblygrwydd sy'n caniatáu trosglwyddo arian o golofn 2 i golofn 1 y PAC?

Yn olaf, a chofio bod cyllid datblygu gwledig y tu hwnt i 2013, yn wahanol i daliadau colofn 1, yn llwyr ddbynol ar gytundeb rhwng Cyngor y Gweinidogion a Senedd Ewrop, a allwch chi gadarnhau pa fesurau wrth gefn sy'n cael eu paratoi os na cheir cytundeb yn ddigon cynnar eleni?

Diolch am y croeso cyffredinol i'r datganiad, Antoinette. Mae arnaf ofn y byddaf yn ad-dalu eich haelioni drwy eich siomi ar nifer o'r pwyntiau a godwyd gennych. Fe welwn sut yr aiff pethau.

O ran eich pwynt olaf, sef, efallai, yr hawddaf i'w ateb yn syml, o ran pontio, ddoe, yn y cyngor, gwnaeth y llywyddiaeth gais i'r Comisiwn i gyflwyno cynigion trosiannol o ran beth fydd yn digwydd ar ôl 2013 ac i mewn i 2014 a 2015. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno'r cynigion hynny ar ôl cael cytundeb ar y MFF. Felly, rydym yn gobeithio cael cytundeb am hynny y penwythnos nesaf, sef 7 ac 8 Chwefror. Ar sail y cytundeb hwnnw, bydd y Comisiwn yn cyflwyno eu cynigion ar drefniadau pontio a byddwn yn sicr yn ymateb i hynny.

Yn y cyflwyniad cyffredinol i'ch sylwadau, roeddech yn sicr yn llygad eich lle fod cryn dipyn o ansicrwydd yn parhau, ond bod yr ansicrwydd hwnnw'n bodoli bellach o fewn paramedrau penodol. Byddwch yn ymwybodol bod rheoliadau colofn 2 yn eithaf datblygedig. Caiff ei ystyried yn esblygiad polisi yn hytrach na newid sylweddol. Felly, mae'r rheoliadau datblygu gwledig sydd gennym yn eithaf datblygedig ac mewn sefyllfa lle gallant symud ymlaen mewn cyfnod cymharol fyr. Roeddwn yn falch o glywed ddoe, yn y cyngor, Simon Coveney, Gweinidog Iwerddon, yn amlinellu cynllun gwaith uchelgeisiol iawn ar gyfer pysgodfeydd a diwygio'r PAC. Roedd yn glir iawn ei fod eisiau cytundeb yn y cyngor erbyn diwedd mis Mawrth, gyda chytundeb rhyng-asiantaethol yn dilyn wedyn erbyn diwedd mis Mehefin. Maent yn rhaglenni uchelgeisiol iawn, ond credaf eu bod yn gyraeddadwy, ac yn sicr byddwn yn ymdrin â'r trafodaethau a'r negodiadau hyn mewn modd cadarnhaol ac adeiladol iawn.

O ran y nifer o fanylion y gofynasoch am eglurder arnynt, dywedais yn fy natganiad—ac rydym wedi cael y sgwrs hon ar wahanol adegau—nad ydym fel Llywodraeth yn mynd i mewn i'r ymgynghoriad hwn â'n cynigion; rydym yn mynd i mewn i'r ymgynghoriad hwn er mwyn cael, gobeithiaf, deialog a sgwrs gadarnhaol ac adeiladol iawn gyda chymunedau gwledig Cymru, y diwydiant amaethyddol a'r gymuned amaethyddol ehangach. Felly ni hoffwn ddechrau'r sgwrs honno drwy ddweud, 'Dyma beth yr ydym yn ei feddwl, a dyma ble'r hoffem i'r sgwrs hon fynd'. Hoffwn wrando ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud, a hoffwn gael y ddeialog gref iawn honno gyda phobl.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

There is certainly a place for forestry in the RDP; I think that that is very clear. How we develop that will, of course, depend on how we structure the RDP. I spoke last May—I think I made a statement here towards the end of May last year—about how we intend to take some of those issues forward when I outlined the priorities of this Government for the new RDP. For me, the priorities are certainly to make the RDP work harder in terms of integration with other funds, but also to ensure that it plays a complementary role to the direct payments. One of the points that I have tried to make is that as a Welsh Government we do not seek to defend the current levels of payments in the CAP simply in order to stand still for seven years. We want to see current payments maintained at current levels in order to invest in shaping and changing the industry, and to enable the industry to change while having the financial certainty of predictable levels of public support over that time. That will enable that change to take place. So, we want to do that in a very positive way; we do not simply want things to stay still.

With regard to some of the other points you made, you mentioned young farmers and supporting new entrants. All too often, those are seen as two very different things. I hope that we will be able to promote a new entrants scheme. We have a very good new entrants scheme in Wales, and I hope that there will be a significant place for that in the new CAP.

I will finish by saying that there were a number of votes last week in the European Parliament. You referred to double payments and Glastir as part of that. Those votes took place in the agriculture committee, and the matters will go forward now to the European Parliament to be voted on next month. Clearly, that establishes a negotiating position, but it does not establish a final position. The Council takes a different view on that, and that will form part of the debate within the trialogues between the Council, the Parliament and the Commission over the next few months. However, certainly yesterday in council, there was not the same—how shall I say it?—appetite for the same sort of system as was voted through the committee of the European Parliament last week.

I would say to the Member, in, I hope, a positive way, that it is a very difficult for the United Kingdom to argue for a better settlement in terms of pillar 2 when the United Kingdom Government is saying that it wants to see significant cuts to the CAP and is arguing for significant cuts in the CAP. It is very difficult for us.

Yn sicr, mae lle i goedwigaeth yn y Cynllun Datblygu Gwledig; credaf fod hynny'n glir iawn. Bydd sut yr ydym yn datblygu hynny, wrth gwrs, yn dibynnu ar sut y byddwn yn strwythuro'r Cynllun Datblygu Gwledig. Siaradais fis Mai diwethaf—credaf imi wneud datganiad yma tua diwedd mis Mai y llynedd—am sut yr ydym yn bwriadu symud ymlaen â rhai o'r materion hynny, ac amlinellais flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig newydd. I mi, y blaenoriaethau yn sicr yw sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig yn gweithio'n galetach o ran integreiddio â chronfeydd eraill, ond hefyd sicrhau ei fod yn chwarae rhan gyflenwol i ran y taliadau uniongyrchol. Un o'r pwyntiau yr wyf wedi ceisio eu gwneud yw nad ydym, fel Llywodraeth Cymru, yn ceisio amddiffyn lefel bresennol taliadau'r PAC dim ond er mwyn aros yn llonydd am saith mlynedd. Hoffem weld y taliadau presennol yn aros ar y lefelau presennol er mwyn buddsoddi mewn siapiro a newid y diwydiant, ac i alluogi'r diwydiant i newid gan gadw sicrwydd ariannol lefelau rhagweladwy o gefnogaeth gyhoeddus dros y cyfnod hwnnw. Bydd hynny'n galluogi'r newid hwnnw i ddigwydd. Felly, rydym yn awyddus i wneud hynny mewn ffordd gadarnhaol iawn; nid ydym yn syml am i bethau aros yn llonydd.

O ran rhai o'r pwyntiau eraill a wnaethoch, soniasoch am ffermwyr ifanc a chefnogi newydd-ddyfodiaid. Yn rhy aml, ystyrir bod y rhain yn ddau beth gwahanol iawn. Gobeithiaf y gallwn hyrwyddo cynllun newydd-ddyfodiaid. Mae gennym gynllun newydd-ddyfodiaid da iawn yng Nghymru, a gobeithiaf y bydd digon o le i hynny yn y PAC newydd.

Gorffennaf drwy ddweud y cafwyd nifer o bleidleisiau yr wythnos diwethaf yn Senedd Ewrop. Cyfeiriasoch at daliadau dwbl a Glastir fel rhan o hynny. Cynhaliwyd y pleidleisiau hynny yn y pwyllgor amaethyddiaeth, ac aiff y materion ymlaen yn awr at bleidlais yn Senedd Ewrop y mis nesaf. Yn amlwg, mae hynny'n sefydlu safbwynt negodi, ond nid yw'n sefydlu safbwynt terfynol. Mae gan y Cyngor farn wahanol am hynny, a bydd hynny'n ffurfio rhan o'r drafodaeth o fewn y trialogau rhwng y Cyngor, y Senedd a'r Comisiwn dros y misoedd nesaf. Fodd bynnag, yn sicr ddoe yn y cyngor, nid oedd yr un—sut y gallaf ddweud hyn?—awydd am yr un math o system ag a bleidleisiwyd drwy bwyllgor Senedd Ewrop yr wythnos diwethaf.

Byddwn yn dweud wrth yr Aelod, mewn ffordd gadarnhaol gobeithio, ei bod yn anodd iawn i'r Deyrnas Unedig ddadlau o blaid setliad gwell o ran colofn 2 pan mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud ei bod am weld toriadau sylweddol i'r PAC ac yn dadlau o blaid toriadau sylweddol yn y PAC. Mae'n anodd iawn i ni.

17:18

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

What did your party argue for?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Dros beth yr oedd eich plaid yn dadlau?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I simply state a truism, I am afraid, Andrew. The United Kingdom Ministers go into discussions saying that they want to see less money everywhere except in the UK budget lines, and that is not a credible negotiating position. It is not a realistic negotiating position. If she wishes to support us as a Welsh Government we would be very grateful for her support.

Dim ond datgan gwireb ydwyf, mae arnaf ofn, Andrew. Mae Gweinidogion y Deyrnas Unedig yn mynd i drafodaethau gan ddweud yr hoffent weld llai o arian ym mhobman heblaw yn llinellau cyllideb y DU, ac nid yw hwnnw'n safbwynt negodi credadwy. Nid yw'n safbwynt negodi realistig. Os yw hi'n dymuno ein cefnogi fel Llywodraeth Cymru, byddem yn ddiolchgar iawn am ei chefnogaeth.

Yr Arglwydd / Lord Elis-Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad pellach. Rydym wedi bod yn canlyn y broses hon fel pwyllgor yn y Cynulliad, ac rwyf yn ddiolchgar i'm cyd-aelodau o'r pwyllgor am eu gwaith cyson, ac yn arbennig i Vaughan Gething, a gadeiriodd grŵp arbennig a fu'n astudio'r polisi amaethyddol cyffredin.

I thank the Deputy Minister for his further statement. We have been following this process as a committee in the Assembly, and I am grateful to my fellow committee members for their consistent work, and particularly to Vaughan Gething, who chaired a special group that studied the common agricultural policy.

Mae'n rhaid i ni dderbyn, Ddirprwy Weinidog—ac rwy'n gobeithio eich bod yn cytuno—ein bod yn gweithio mewn fframwaith tyn iawn cyn belled ag y mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn y cwestiwn. Ar y naill law, rydym yn ceisio bod yn llwyfan i gynrychioli barn pobl Cymru a sicrhau'r fargen orau i Gymru, ond, ar y llaw arall, rydym yn gyfan gwbl ddibynnol ar y prosesau trafod sy'n digwydd o fewn yr Undeb Ewropeaidd, er ein bod ar yr un pryd yn ceisio dylanwadu arnynt.

We must accept, Deputy Minister—and I hope that you agree—that we are working within a very narrow framework as far as the Assembly and the Welsh Government are concerned. On the one hand, we are endeavouring to provide a platform to represent the views of the people of Wales and secure the best deal for Wales, but, on the other hand, we are entirely dependent on the negotiation processes that are happening within the European Union, although we are endeavouring at the same time to influence them.

Mae dau beth y carwn ddweud am hynny. Mae gennyf bob ffydd yn llywyddiaeth Gweriniaeth Iwerddon dros yr Undeb Ewropeaidd. Rwy'n eu cofio dweud wrthyf yn 1975 mor ddwl yr oeddwn yn meddwl pleidleisio fel y gwneuthum, er cywilydd i mi, yn erbyn aelodaeth gyflawn i'r Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd—rwyf wedi edifarhau ers hynny ac yn parhau i wneud—oherwydd eu bod yn gweld eu cyfle. Dirprwy Weinidog, a fydddech yn cytuno felly ein bod yn gallu dibynnu ar arweiniad Iwerddon, ac arweiniad Simon Coveney yn arbennig, ond bod perygl i'w amserlen oherwydd ei fod yn ddibynnol ar gyfeillion sy'n aelodau o bleidiau eraill sy'n rhan o glymblaid Llywodraeth y Deyrnas Unedig? Felly, pa mor hyderus ydych chi y bydd cytundeb ar y fframwaith ariannol amflwydd ar 7 a 8 Chwefror? Os na fydd hynny'n digwydd, onid yw hyn yn mynd i'n tafu ymlaen i gyfnod hyd yn oed ar ôl etholiadau yn yr Almaen, pan fydd rhyw fath o ffenestr wleidyddol arall? Beth fydd hynny'n gwneud i'n bwriadau o geisio gweithredu o fewn y ddwy flynedd nesaf?

There are two things that I would like to say about that. I have every confidence in the Irish presidency over the European Union. I recall them telling me in 1975 how stupid I was in thinking of voting as I did, much to my shame, against full membership for the UK in the European Union—I have repented since and continue to do—because they saw their opportunity. Deputy Minister, would you therefore agree that we can depend on the leadership of Ireland, and of Simon Coveney in particular, but there is a risk in terms of the timetable, because it is dependent on the colleagues who are members of other parties that are part of the UK Government coalition? Therefore, how confident are you that there will be agreement on the MMF on 7 and 8 February? If that does not happen, is it not going to take us into a period even after the German elections, when there will be another political window? What does that do to our intention of trying to get things done within the next two years?

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am bwysleisio unwaith eto ei fod yn mynd i mewn i drafodaeth—ni waeth beth fo'r cyd-destun cyllidol yng Nghymru—ynglŷn â blaenoriaethau ac y bydd yn gwrandao ar ei gynulleidfa a'r rhanddeiliaid, sy'n rhywbeth yr ydym ni wedi ceisio ei wneud fel pwyllgor hefyd. Carwn hefyd ddiolch iddo am ei bwyslais ar ystyried drwy'r fframwaith strategol cyffredin fod yn rhaid inni drin y cronfeydd buddsoddi—y cronfeydd strwythurol, y cronfeydd datblygu gwledig, cronfeydd pysgodfeydd a'r cronfeydd morol—fel un ffynhonnell i'w defnyddio a'i chydgyllunio. Yn yr ysbryd hwnnw, rwy'n siŵr y bydd yn derbyn fy nghefnogaeth i'r sylwadau a wnaed ganddo yn Fforwm yr Iwerydd yn y gynhadledd bwysig a gynhaliwyd yn stadiwm SWALEC yr wythnos diwethaf. Roedd yn amlwg bod brwdfrydedd ymhlith ein partneriaid ar hyd yr Iwerydd o blaid agwedd Llywodraeth Cymru.

Hoffwn ofyn un peth arall: i ble yr ydym yn mynd i allu symud os na chawn ni lwyddiant ar y cytundeb ar y fframwaith cyllidol o fewn yr wythnos neu ddwy nesaf? Mae hwnnw'n gyfrifoldeb ar bob un ohonom. Nid wyf yn sicr a yw rhai Aelodau o bleidiau eraill yn y Cynulliad yn sylweddoli difrifoldeb ac anghysondeb y sefyllfa y maent ynddi wrth sefyll i fyny fan hyn i gefnogi amaethwyr a physgotwyr Cymru ac, ar y llaw arall, yn cefnogi'r Llywodraeth yn San Steffan a fyddai'n eu taflu i'r cŵn.

Daeth y Llywydd i'r Gadair am 5.20 p.m.

17:23

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am always tempted into enormous indiscretions by Dafydd Elis-Thomas.

Hoffwn ddiolch i ti, Dafydd, am dy eiriau a dy arweinyddiaeth o'r pwyllgor. Mae'r pwyllgor wedi cyfrannu'n helaeth at waith y Cynulliad hwn o ran y ffordd yr ydych wedi craffu ar bolisi Llywodraeth Cymru ac ar effaith y newidiadau yn y polisi amaethyddol cyffredin ar Gymru. Rwy'n gwybod bod y diwydiant, yn ogystal â mi, fel Gweinidog, yn gwerthfawrogi'r gwaith yr ydych yn ei wneud.

I am grateful to the Minister for emphasising once again that he is going to enter into discussions whatever the financial context in Wales with regard to priorities and that he will listen to his audience and the stakeholders, which is something that we as a committee have also tried to do. I would also like to thank him for his emphasis on considering through the common strategic framework that we must treat the investment funds—the structural funds, the rural development funds, the fisheries funds and maritime funds—as a single source to be used and jointly planned. In that spirit, I am sure that he will accept my support for the comments he made in the Atlantic Forum in the important conference that was held in the SWALEC stadium last week. It was clear that there was enthusiasm among our partners in the Atlantic region for the Welsh Government's approach.

I would like to ask one further question: where are we going to be able to move to if we are unsuccessful in reaching an agreement on the financial framework during the next few weeks? That is a responsibility for us all. I am not sure whether some Members of other parties in the Assembly realise the gravity and the inconsistency of the situation that they are in when they stand up here to support the farmers and fishermen of Wales and, on the other hand, support the Government in Westminster that would throw them to the dogs.

The Presiding Officer took the Chair at 5.20 p.m.

Mae Dafydd Elis-Thomas yn tueddu i fy nhemtio ar gyfeiliorn yn llwyr.

I would like to thank you, Dafydd, for your contribution today and for your leadership of the committee. The committee has contributed greatly to the Assembly's work in scrutinising Welsh Government policy and the effects on Wales of the reforms to the common agricultural policy. I know that the industry appreciates your work, as do I, as Minister.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hefyd, mae'r hyn a ddywedsoch i rybuddio ein cyd-Aelodau yn y lle hwn yn wir. Rwy'n tueddu i feddwl bod pethau yn fwy peryglus nag yr ydych yn ei awgrymu. Os na fydd cytundeb ar y gyllideb ym mis Chwefror, byddwn yn wynebu sefyllfa anodd iawn. Mae etholiadau yn digwydd mewn gwahanol rannau o Ewrop yn ystod y flwyddyn hon, a bydd etholiadau i Senedd Ewrop y flwyddyn nesaf. Bydd yn anodd iawn cyrraedd cytundeb gyda'r Senedd os na fyddwn yn cyrraedd cytundeb yn ystod y flwyddyn hon. Wedyn, bydd yr holl broses o drafod a negodi yn dod i ben tan ar ôl etholiadau Senedd Ewrop y flwyddyn nesaf. Bydd hynny'n anodd iawn iawn. Fel yr ydych chi wedi'i wneud y prynhawn yma, byddwn yn erfyn ar bob un Aelod i wneud yn siŵr bod cyd-aelodau eu pleidiau hwy yn San Steffan yn sicrhau bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn chwarae rôl bositif yn y trafodaethau ym Mrwsel yr wythnos nesaf, ac yn fodlon dod i gytundeb ar y gyllideb. Fel chithau, Dafydd, rwyf i hefyd yn canmol yr arweinyddiaeth yr ydym wedi ei gweld gan ein ffrindiau yn Iwerddon. Siaradodd Simon Coveney yn gryf iawn wrth drafod pysgodfeydd fore ddoe, ac wrth drafod polisi amaethyddol yn y prynhawn. Siaradodd yn gryf iawn am ei uchelgais a'i obeithion a sut y byddai eisiau gweld y broses yn datblygu dros y misoedd nesaf.

Fodd bynnag, mae hyn i gyd yn seiliedig ar gytundeb ar y gyllideb, ac mae hynny'n hynod o bwysig i bob un o honom.

17:25

Kenneth Skates [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also thank you for your statement, Deputy Minister. How nice it is to see a politician engaging constructively with Europe. We all appreciate the passion and commitment you have brought to this agenda. In the important negotiations coming up within the next few months, will you ensure that we concentrate fully on the important end-goal benefits, both social and economic, that Wales could gain from effective reform of its agricultural sector. I say that because farms such as those in my constituency are first and foremost businesses, which, like other businesses, need to be profitable and sustainable. In this vein, I particularly applaud the work done in the recent report, 'Unlocking the Potential of the Uplands'.

I know that you are Wales's best salesman for Welsh agriculture, so will you continue to make the case for Welsh farming, food production and our environment in these CAP negotiations, seek to stress the benefits of sustainable CAP reform to Wales, and place a strong emphasis on the positive future that lies ahead for the sector?

17:27

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to my friend for his kind words. The positive engagement that he mentioned in opening his remarks is absolutely crucial. We spoke yesterday as a UK ministerial delegation about the need to take a positive tone and use positive language in negotiations. It is all too often all too easy to simply repeat tired old cliches, but it is important, if we are to be a positive participant in these negotiations, that we use positive language and a positive tone in our engagement with our friends on the European mainland.

Furthermore, what you have said in warning Members in this place is true. I tend to think that things are more perilous than you would suggest. Should agreement not be reached on the budget in February, we will be facing a very difficult situation. Elections in various parts of Europe are to be held this year, and we will have elections to the European Parliament next year. It will be very difficult to reach an agreement with the Parliament if we do not reach an agreement this year. All negotiations and discussions will then come to an end until after the European Parliament elections next year. That will be very difficult. Just as you have done this afternoon, I would urge all Members to ensure that their party colleagues in Westminster do all that they can to ensure that the United Kingdom Government plays a positive role in the discussions to be held in Brussels next week and is prepared to come to an agreement on the budget. I, like you, Dafydd, commend the leadership we have seen from our friends in Ireland. Simon Coveney made a robust contribution in the discussion on fisheries yesterday morning, and during the discussion on agricultural policy in the afternoon. He spoke strongly about his ambition and aspirations, and about how he wants to see the process developing over the coming months.

However, this is all dependent on an agreement on the budget, and that is important to each and every one of us.

Rwyf hefyd yn diolch i chi am eich datganiad, Ddirprwy Weinidog. Mae mor braf gweld gwleidydd yn ymwneud yn adeiladol ag Ewrop. Rydym i gyd yn gwerthfawrogi'r brwdfrydedd a'r ymrwymiad yr ydych wedi'u cyflwyno i'r agenda hon. Yn y trafodaethau pwysig a geir o fewn y misoedd nesaf, a wnewch sicrhau ein bod yn canolbwyntio'n llawn ar y buddion terfynol pwysig, yn gymdeithasol ac yn economaidd, y gallai Cymru eu cael o ddiwygio'i sector amaethyddol yn effeithiol. Dywedaf hynny oherwydd mae ffermydd fel y rhai yn fy etholaeth yn fusnesau'n gyntaf ac yn bennaf, sydd, fel busnesau eraill, yn gorffod bod yn broffidiol ac yn gynaliadwy. Yn y modd hwn, cymeradwyaf yn arbennig y gwaith a wnaed yn yr adroddiad diweddar, 'Datgloi Potensial yr Ucheldiroedd'.

Gwn mai chi yw'r gorau yng Nghymru am werthu amaethyddiaeth Cymru, felly a wnewch barhau i gyflwyno'r achos dros ffermio yng Nghymru, cynhyrchu bwyd a'n hamgylchedd yn y trafodaethau PAC hyn, ceisio pwysleisio manteision diwygiad PAC cynaliadwy i Gymru, a rhoi pwyslais cryf ar y dyfodol cadarnhaol sydd o flaen y sector?

Rwyf yn ddiolchgar i fy nghyfaill am ei eiriau caredig. Mae'r ymgysylltiad cadarnhaol y soniodd amdano ar ddechrau ei sylwadau yn gwbl hanfodol. Siaradasom ddoe fel dirprwyaeth weinidogol yn y DU am yr angen i gymryd naws gadarnhaol a defnyddio iaith gadarnhaol mewn trafodaethau. Mae'n aml yn llawer rhy hawdd gwneud dim ond ailadrodd hen ystrydebau blinedig, ond mae'n bwysig, er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at y trafodaethau hyn, ein bod yn defnyddio iaith gadarnhaol a naws gadarnhaol wrth ymgysylltu â'n ffrindiau ar dir mawr Ewrop.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of the wider points that my friend Ken Skates makes about the need to invest in efficiency and profitability in Welsh agriculture, those points are well made. I have repeatedly said to this Chamber that it is my view that, as regards our ambitions—our shared ambitions, I think—for the future of Welsh agriculture, that is, that it can be profitable, produce excellent produce and protect the environment, as those things are not mutually exclusive, the funding that is received by Welsh agriculture is very generous in terms of what it is able to achieve, certainly in comparison with other economic sectors. I hope and believe that the farming community as a whole in Wales wants to achieve these things itself, and so I hope that we will be able to work together in partnership with Welsh agriculture in order to achieve the ambitions that I hope that we all share.

O ran y pwyntiau ehangach y mae fy ffrind Ken Skates yn eu gwneud am yr angen i fuddsoddi yn effeithlonrwydd a phroffidioldeb amaethyddiaeth yng Nghymru, cafodd y pwyntiau hynny eu gwneud yn dda. Rwyf wedi dweud dro ar ôl tro wrth y Siambr hon mai fy marn i, o ran ein huchelgeisiau—ein huchelgeisiau a rennir, credaf—ar gyfer dyfodol amaethyddiaeth Cymru, hynny yw, yw y gall fod yn broffidiol, cynhyrchu cynnyrch rhagorol a gwarchod yr amgylchedd, gan nad yw'r pethau hyn yn cau ei gilydd allan. Mae'r cyllid y mae amaethyddiaeth Cymru yn ei dderbyn yn hael iawn o ran yr hyn y gall ei gyflawni, yn sicr o'i gymharu â sectorau economaidd eraill. Gobeithiaf a chredaf fod y gymuned ffermio yn gyffredinol yng Nghymru'n dymuno cyflawni'r pethau hyn ei hun, ac felly gobeithiaf y gallwn gydweithio mewn partneriaeth ag amaethyddiaeth Cymru i gyflawni'r uchelgeisiau y gobeithiaf ein bod i gyd yn eu rhannu.

17:28

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also thank the Deputy Minister for his statement today, and indeed for his wider work in ensuring that Wales's voice is heard at the table of CAP reform. I also join Antoinette Sandbach in thanking you for the briefing earlier today, Deputy Minister.

The fact that thousands of amendments were consolidated in the European Parliament down to over 100 compromise amendments in this area of policy shows just how complex the CAP and its reform is. It also shows how essential it is that we are present at the table, both at Council meetings and at the Committee of the Regions, where I know that our colleague, Rhodri Glyn Thomas, is so active currently.

Turning to the specific questions that arise, Deputy Minister, what assessment have you made of the decision, warmly welcomed on these benches, in terms of the deletion of many of the overly burdensome regulations around sheep electronic identification? That was a matter of great concern to our farming communities and we appear to have got a decent outcome in that regard.

Turning to greening, although somewhat diluted, last week's votes show that greening measures are very much here to stay. That is a point that is welcomed by many stakeholders. However, given that, are you broadly satisfied with the move from an outright 7% to 3%, rising back up to 7% in 2019, in terms of the area-set-aside figure from the original proposals? Also, do you feel that these percentages are sufficient to guarantee the level of environmental stewardship that is required to sustain our habitats, in light of current climate change projections?

Turning to the issue of capping the CAP and to the potential of capping CAP payments to around a projected £250,000 per farm, what assessment have you made of the effect that such a change would have within Welsh agriculture? Do you foresee, if it was taken forward, that it has the potential to split larger businesses, or rather to cause larger businesses to present themselves in smaller units in order to fall under the limit?

Diolchaf hefyd i'r Dirprwy Weinidog am ei ddatganiad heddiw, ac yn wir am ei waith ehangach i sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed wrth fwrdd diwygio'r PAC. Ymunaf hefyd ag Antoinette Sandbach i ddiolch i chi am y briff yn gynharach heddiw, Ddirprwy Weinidog.

Mae'r ffaith bod miloedd o ddiwygiadau wedi'u cyfuno yn Senedd Ewrop i lawr i dros 100 o ddiwygiadau cyfaddawd yn y maes polisi hwn yn dangos pa mor gymhleth yw'r PAC a'i diwygio. Mae hefyd yn dangos pa mor hanfodol ydyw ein bod yn bresennol wrth y bwrdd, a hynny yng nghyfarfodydd y Cyngor ac ym Mhwyllgor y Rhanbarthau, lle y gwn fod ein cydweithiwr, Rhodri Glyn Thomas, mor weithgar ar hyn o bryd.

I droi at y cwestiynau penodol sy'n codi, Ddirprwy Weinidog, pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r penderfyniad, a gafodd groeso cynnes ar y meinciau hyn, i ddileu llawer o'r rheoliadau beichus o gwmpas adnabod defaid yn electronig? Roedd hwnnw'n fater o bryder mawr i'n cymunedau ffermio ac mae'n ymddangos ein bod wedi cael canlyniad da yn hynny o beth.

Gan droi at y mesurau gwyrdd, er eu bod wedi'u gwanhau braidd, mae pleidleisiau'r wythnos diwethaf yn dangos bod mesurau gwyrdd yn bendant yma i aros. Mae hynny'n bwynt sy'n cael ei groesawu gan lawer o randdeiliaid. Fodd bynnag, gan hynny, a ydych yn fodlon yn gyffredinol â'r symud o 7% llwyr i 3%, yn codi yn ôl i fyny at 7% yn 2019, o ran y ffigwr i'w neilltuo i bob ardal yn y cynigion gwreiddiol? Hefyd, a ydych yn teimlo bod y canrannau hyn yn ddigonol i warantu lefel y stiwardiaeth amgylcheddol sydd ei hangen i gynnal ein cynefinoedd, ac ystyried y rhagolygon presennol ar gyfer newid yn yr hinsawdd?

Gan droi at y mater o gapio'r PAC ac at y posibilrwydd o gapio taliadau CAP i tua £250,000 y fferm, pa asesiad yr ydych wedi'i wneud o'r effaith y byddai newid o'r fath yn ei gael o fewn amaethyddiaeth yng Nghymru? A ydych yn rhagweld, pe bai hynny'n digwydd, y gallai hollti busnesau mawr, neu yn hytrach achosi i fusnesau mawr gyflwyno eu hunain mewn unedau llai er mwyn dod o dan y terfyn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Finally, regarding the less favoured area, last week in this Chamber Kirsty Williams rightly raised the issue of having a level playing field. In your response to the issue of global positioning systems on fishing vessels, you said that a level playing field was very important. In the area of LFA support, as you are fully aware, 80% of our farm land is less favoured. Surely, there is a case for our farmers to have justice in that area, in the same way as our fishermen.

Yn olaf, o ran yr ardal lai ffafriol, yr wythnos diwethaf yn y Siambr hon roedd Kirsty Williams yn llygad ei lle wrth godi'r mater o sicrhau chwarae teg i bawb. Yn eich ymateb i'r mater o systemau lleoli byd-eang ar longau pysgota, dywedasoch fod maes chwarae gwastad yn bwysig iawn. Ym maes cefnogaeth LFA, fel yr ydych yn hollol ymwybodol, mae 80% o'n tir fferm yn llai ffafriol. Nid oes bosibl nad oes achos i'n ffermwyr gael cyfiawnder yn y maes hwnnw, yn yr un modd â'n pysgotwyr.

17:31

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am not sure whether your comparison between farmers and fishermen works in that sense. However, Bill, the points that you made in your preamble about the increasing complexity of decision making in this field are well made. There are 27 members in the European Union now, and there will be 28 when Croatia formally accedes. We have the co-decision procedure with the European Parliament, and that leads to a number of different additional complexities in terms of how we take decisions. However, the trialogue process of debates, discussions and negotiations between the Parliament, Commission and presidency, which have already begun in some cases, but will certainly begin in March and April, will be a process in which a number of these difficult issues will hopefully be determined, and we will be able to be satisfied with the outcome.

Nid wyf yn siŵr a yw eich cymhariaeth rhwng ffermwyr a physgotwyr yn gweithio yn yr ystyr hwnnw. Fodd bynnag, Bill, mae'r pwyntiau a wnaethoch yn eich rhagymadrodd am gymhlethdod cynyddol gwneud penderfyniadau yn y maes hwn yn rhai da. Mae 27 o aelodau yn yr Undeb Ewropeaidd nawr, a bydd 28 wedi i Croatia ymuno'n ffurfiol. Mae gennym y weithdrefn cydbenderfynu gyda Senedd Ewrop, ac mae hynny'n arwain at nifer o gymhlethdodau ychwanegol gwahanol o ran sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau. Fodd bynnag, bydd y broses trialog o ddadleuon, trafodaethau a negodiadau rhwng y Senedd, y Comisiwn a'r llywyddiaeth, sydd eisoes wedi dechrau mewn rhai achosion, ond a fydd yn sicr yn dechrau ym mis Mawrth a mis Ebrill, yn broses lle gwneir penderfyniadau am nifer o'r materion anodd hyn, gobeithio, a gallwn fod yn fodlon â'r canlyniad.

You asked some specific questions. I disappointed Antoinette earlier and I may well disappoint you now, in the sense that I do not want to take a fixed position on a lot of these matters at the beginning of a process of consultation. I hope that you will appreciate that. On greening, the debate has changed fundamentally in the past few months and, certainly, within the past 18 months. You mention the different percentages available now in terms of the ecological focus areas, but, of course, many Welsh farms will be considered green by definition anyway, because of the 75% pasture draft regulations. Therefore, in many ways, taking the issues of pasture and Glastir into consideration, many Welsh farmers will already qualify under some of the greening regulations.

Gofynasoch rai cwestiynau penodol. Siomais Antoinette yn gynharach ac efallai y byddaf yn eich siomi chi nawr, yn yr ystyr nad wyf yn dymuno cymryd safbwynt sefydlog ar lawer o'r materion hyn ar ddechrau proses ymgynghori. Gobeithio y byddwch yn gwerthfawrogi hynny. O ran mesurau gwyrdd, mae'r ddadl wedi newid yn sylfaenol yn ystod y misoedd diwethaf ac, yn sicr, o fewn y 18 mis diwethaf. Soniwch am y canrannau gwahanol sydd ar gael nawr o ran y meysydd ffocws ecolegol, ond, wrth gwrs, caiff llawer o ffermydd Cymru eu hystyried yn rhai gwyrdd drwy ddiffiniad beth bynnag, oherwydd y rheoliadau drafft pori 75%. Felly, mewn sawl ffordd, gan ystyried materion pori a Glastir, bydd llawer o ffermwyr Cymru eisoes yn gymwys dan rai o'r rheoliadau gwyrdd.

I hope that we can increase our level of ambition. You mentioned a few of the challenges facing us. I hope that when we debate and discuss the RDP, we can take forward some of those ambitions in terms of what we want to achieve through environmental custodianship. On capping, we have done the modelling on some of these issues. There are 18 farms in Wales that would be affected by the current proposals, which is 0.1% of the total. Therefore, it is clearly not an issue for us. I have to say that, as a point of principle, I find it difficult to justify giving public money to what might be a profitable business, for no reason except the economic sector in which it operates. From an almost moral position, I think that it would be very difficult to justify some of those very high and significant payments. However, again, that is a matter for the consultation.

Gobeithiaf y gallwn gynyddu lefel ein huchelgais. Soniasoch am rai o'r heriau sy'n ein hwynebu. Gobeithiaf, pan fyddwn yn dadlau ac yn trafod y Cynllun Datblygu Gwledig, y gallwn fynd ymlaen â rhai o'r uchelgeisiau hynny o ran yr hyn yr ydym am ei gyflawni drwy warcheidwadaeth amgylcheddol. O ran capio, rydym wedi modelu rhai o'r materion hyn. Mae 18 ffermydd yng Nghymru y byddai'r cynigion presennol yn effeithio arnynt, sef 0.1% o'r cyfanswm. Felly, mae'n amlwg nad yw'n broblem inni. Rhaid imi ddweud, fel pwynt o egwyddor, fy mod yn ei chael yn anodd cyfiawnhau rhoi arian cyhoeddus i'r hyn a allai fod yn fusnes proffidiol, am ddim rheswm heblaw am y sector economaidd y mae'n gweithredu ynddi. O safbwynt moesol bron, credaf y byddai'n anodd iawn cyfiawnhau rhai o'r taliadau uchel a sylweddol iawn hynny. Fodd bynnag, eto, mater i'r ymgynghoriad yw hynny.

On the issue of LFA payments, which was also raised by the Liberal Democrat leader last week, we are starting a consultation on different payment rates across Wales, which might change quite fundamentally the way in which we make payments. We do not yet know what those payment rates will be. At the moment, one of the great dangers in terms of the modelling is that there will be redistribution from the lowlands into uplands. The sectors that will be most badly affected by this will be those very intensive beef and dairy units that produce a great deal of our agricultural output. Therefore, beginning the process by saying 'We want this particular outcome' is not the way that I would seek to begin this process of consultation and debate. We need to look at how we develop a payment rate structure in Wales that is fair—fair to businesses in the uplands and fair to businesses that are outside the LFA, or areas with natural constraints, as they will be known. We then need to ensure that all of those businesses have a predictable level of public support over the next seven years that will enable them to plan their businesses and shape their businesses in the coming years.

17:35

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Minister, thank you for your statement this afternoon. Evidently, there is much work still to do. Obviously, the budget is the key level of agreement that has to be found. Will you enlighten the Chamber this afternoon regarding the level of confidence you have in the Irish presidency? I have a great deal of confidence, but, in fairness, many issues are outside their control and are in the hands of heads of state. The key thing is to arrive at an agreement on the budget and then the presidency can really get to its work of pushing these reforms through. What is your feel for the timetable? Is it a realistic ambition to have the budget settled by the end of February, with clear agreement on other issues by the end of the Irish presidency, or can you, from your discussions—and you made the point in your statement that you have attended, I think, every EU council meeting of Ministers—get a sense of whether we will be looking at the back end of this year? That would have dramatic implications for the rural development plan and the 12-month delay that has been identified regarding the single farm payment scheme, which will now roll over into 2014.

Secondly, you highlight the use of the rural development plan to increase prosperity. Is it your understanding that that RDP money could be used to increase the processing sector in Wales, which has diminished greatly over the last couple of years, whether in the red meat sector or the dairy sector? Do you envisage, under the new plan, that the Government will have a greater ability to use such funding to attract processing to Wales, which would add value and provide a greater return to the primary producer?

I have to take you to task on one issue, namely your saying that the Welsh Government's position is to maintain current spending limits. Other Members around the Chamber have talked about Westminster, but it is a fact, Deputy Minister, that your own party in Westminster has voted for greater cuts to the European budget than the current coalition Government has proposed. Therefore, we need consistency and your statement today obviously contradicts what your colleagues in Westminster are saying.

O ran taliadau ALFf, a godwyd hefyd gan arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yr wythnos diwethaf, rydym yn dechrau ymgynghoriad ar gyfraddau talu gwahanol ar draws Cymru, a allai newid yn eithaf sylfaenol y ffordd yr ydym yn gwneud taliadau. Nid ydym yn gwybod eto beth fydd y cyfraddau talu hynny. Ar hyn o bryd, un o'r peryglon mawr o ran y modelu yw y ceir aiddosbarthu o dir isel i ucheldiroedd. Y sectorau y bydd hyn yn effeithio waethaf arnynt fydd yr unedau cig eidion a llaeth dwys iawn sy'n cynhyrchu llawer iawn o'n cynnyrch amaethyddol. Felly, ni hoffwn ddechrau'r broses hon o ymgynghori a thrafod drwy ddweud 'Hoffem weld y canlyniad penodol hwn'. Mae angen inni edrych ar sut yr ydym yn datblygu strwythur cyfradd taliadau yng Nghymru sy'n deg—yn deg i fusnesau yn yr ucheldiroedd ac yn deg i fusnesau sydd y tu allan i'r Ardaloedd Llai Ffafirol, neu'r ardaloedd â chyfyngiadau naturiol, fel y'u gelwir. Yna, mae angen inni sicrhau bod yr holl fusnesau hynny'n cael lefel ragwladwry o gymorth cyhoeddus dros y saith mlynedd nesaf i'w galluogi i gynllunio eu busnesau a siapio eu busnesau yn y blynyddoedd i ddod.

Ddirprwy Weinidog, diolch am eich datganiad y prynhawn yma. Yn amlwg, mae llawer o waith i'w wneud eto. Yn amlwg, y gyllideb yw'r mater allweddol lle mae angen cytundeb. A oleuwch y Siambr y prynhawn yma ynghylch lefel yr hyder sydd gennych yn llywyddiaeth Iwerddon? Mae gennyf lawer iawn o hyder, ond, er tegwch, mae llawer o faterion y tu hwnt i'w rheolaeth, ac yn nwylo penaethiaid gwladwriaethau. Y peth allweddol yw cyrraedd cytundeb ar y gyllideb ac yna gall y llywyddiaeth wir ddechrau ar ei gwaith o gyflwyno'r diwygiadau hyn. Sut y mae'r amserlen yn edrych i chi? A yw'n uchelgais realistig i setlo'r gyllideb erbyn diwedd mis Chwefror, gyda chytundeb clir am faterion eraill erbyn diwedd llywyddiaeth Iwerddon, neu a allwch, o'ch trafodaethau—a gwnaethoch y pwynt yn eich datganiad eich bod wedi mynychu, credaf, pob un o gyfarfodydd cyngor Gweinidogion yr UE—gael ymdeimlad p'un a fyddwn yn edrych ar ddiwedd eleni? Byddai hynny'n creu goblygiadau dramatig i'r cynllun datblygu gwledig ac i'r oedi 12 mis sydd wedi ei nodi am y cynllun taliad sengl i ffermydd, a fydd bellach yn rhedeg i 2014.

Yn ail, rydych yn tynnu sylw at ddefnyddio'r cynllun datblygu gwledig i gynyddu ffyniant. A ydych ar ddeall y gellid defnyddio arian y Cynllun Datblygu Gwledig i gynyddu'r sector prosesu yng Nghymru, sydd wedi gostwng yn fawr dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, boed yn y sector cig coch neu yn y sector llaeth? A ydych yn rhagweld, dan y cynllun newydd, y bydd gan y Llywodraeth fwy o allu i ddefnyddio cyllid o'r fath i ddenu prosesu i Gymru, a fyddai'n ychwanegu gwerth ac yn darparu mwy o elw i'r cynhyrchydd sylfaenol?

Rhaid imi eich galw i gyfrif ar un mater, sef eich bod wedi dweud mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw cynnal y terfynau gwario cyfredol. Mae aelodau eraill o gwmpas y Siambr wedi sôn am San Steffan, ond mae'n ffaith, Ddirprwy Weinidog, fod eich plaid eich hun yn San Steffan wedi pleidleisio o blaid mwy o doriadau i'r gyllideb Ewropeaidd nag y mae'r Llywodraeth glymblaid bresennol wedi'u cynnig. Felly, mae angen cysondeb ac mae eich datganiad heddiw'n amlwg yn groes i'r hyn y mae eich cydweithwyr yn San Steffan yn ei ddweud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad Biography](#)

I think, Andrew, that you need to check the statements that have been made by Ministers here, not just this afternoon but over the last few months, and we debated these matters before Christmas, of course. We have been very consistent in what we have said here.

You made several very good points—and I did not mean to sound surprised—in terms of your comments on the processing sector and how we will invest in added value to the wider rural economy. In this statement, I have tried to balance what we are saying through the RDP pillar 2 and through the work that is being done on direct payments in pillar 1. We want to see investment in a vibrant economy that will underpin rural communities now and in future. That means certainly investment in individual agricultural businesses under pillar 1, but also investment in the wider rural economy under pillar 2, and, yes, those are exactly the sort of sectors in which I foresee investment being made.

In terms of transition, the point that I made in answer to Antoinette Sandbach was very much along those lines. We understand where we are today, but we do not know where we will be in two weeks. The Commission will be bringing forward proposals, following next week's European Council and, upon there being agreement at council, we will see proposals coming forward on transition. I will certainly make a statement to Members on that and on the way in which the Welsh Government seeks to respond to that. I am more than happy to do that, because I recognise the importance of doing so.

With regard to the overall budget issues, I doubt that there will be much agreement across the different sides of the Chamber this afternoon. However, we speak as a UK ministerial team and I have always sought to work positively and constructively with my colleagues in the United Kingdom Government, whatever different parties are represented there. It is important for all of us to use the influence that we may have to ensure that Ministers in the United Kingdom Government recognise the impact on Wales of decisions that they take. I am writing this week to the Department for Business, Innovation and Skills to make it aware of the impact of its decisions on structural funds on some of our most vulnerable communities.

I hope that the Conservatives and the Liberal Democrats will also use the influence that they have to demonstrate to parties in Westminster that the significant cuts that the Westminster Government is seeking to pillar 1 payments to farmers will have an enormous impact on rural Wales, which will serve to undermine the agricultural industry, food production and environmental protection across rural Wales. I hope that the parties here who are represented in the UK coalition Government will take the opportunity to speak to their colleagues about the impact that decisions taken next week could have on Wales.

Credaf, Andrew, fod angen ichi wirio'r datganiadau a wnaed gan Weinidogion yma, nid yn unig y prynhawn yma ond dros y misoedd diwethaf, a buom yn dadlau am y materion hyn cyn y Nadolig, wrth gwrs. Rydym wedi bod yn gyson iawn yn yr hyn yr ydym wedi'i ddweud yma.

Gwnaethoch lawer o bwytiau da iawn—nid oeddwn yn bwriadu swnio fel fy mod wedi fy synnu—o ran eich sylwadau am y sector prosesu a sut y byddwn yn buddsoddi mewn gwerth ychwanegol i'r economi wledig ehangach. Yn y datganiad hwn, rwyf wedi ceisio cydbwysu'r hyn yr ydym yn ei ddweud drwy golofn 2 y Cynllun Datblygu Gwledig a drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud ar daliadau uniongyrchol yng ngholofn 1. Hoffem weld buddsoddiad mewn economi fywiog a fydd yn sail i gymunedau gwledig nawr ac yn y dyfodol. Mae hynny'n sicr yn golygu buddsoddi mewn busnesau amaethyddol unigol dan golofn 1, ond hefyd buddsoddi yn yr economi wledig ehangach dan golofn 2, ac, ie, dyna'n union y math o sectorau lle'r wyf yn rhagweld gwneud buddsoddiadau.

O ran pontio, roedd y pwynt a wneuthum wrth ateb Antoinette Sandbach yn bendant yn ymwneud â hynny. Rydym yn deall ble'r ydym heddiw, ond nid ydym yn gwybod ble y byddwn mewn pythefnos. Bydd y Comisiwn yn cyflwyno cynigion, i ddilyn y Cyngor Ewropeaidd yr wythnos nesaf ac, os ceir cytundeb yn y cyngor, byddwn yn gweld cynigion yn dod gerbron ar bontio. Byddaf yn sicr yn gwneud datganiad i Aelodau am hynny ac am sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio ymateb i hynny. Rwyf yn fwy na pharod i wneud hynny, oherwydd rwyf yn cydnabod pwysigrwydd gwneud hynny.

O ran y materion cyllideb cyffredinol, rwyf yn amau y ceir llawer o gytundeb ar draws ochrau gwahanol y Siambr y prynhawn yma. Fodd bynnag, rydym yn siarad fel tîm gweinidogol yn y DU ac rwyf bob amser wedi ceisio cydweithio'n gadarnhaol ac yn adeiladol â'm cydweithwyr yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig, pa bynnag wahanol bleidiau sydd wedi'u cynrychioli yno. Mae'n bwysig ein bod i gyd yn defnyddio'r dylanwad sydd gennym i sicrhau bod Gweinidogion yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cydnabod effaith y penderfyniadau a wneir ganddynt ar Gymru. Rwyf yn ysgrifennu yr wythnos hon at yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau i sicrhau eu bod yn ymwybodol o effaith eu penderfyniadau am gronfeydd strwythurol ar rai o'n cymunedau mwyaf agored i niwed.

Gobeithiaf y bydd y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol hefyd yn defnyddio'r dylanwad sydd ganddynt i ddangos i bleidiau yn San Steffan y bydd y toriadau sylweddol y mae Llywodraeth San Steffan yn eu ceisio i golofn 1 taliadau i ffermwyr yn cael effaith enfawr ar Gymru wledig, a fydd yn tansellio'r diwydiant amaethyddol, cynhyrchu bwyd a gwarchod yr amgylchedd ar draws cefn gwlad Cymru. Gobeithiaf y bydd y pleidiau yma sydd wedi'u cynrychioli yn Llywodraeth glymblaid y DU yn cymryd y cyfle i siarad â'u cydweithwyr am yr effaith y gallai penderfyniadau'r wythnos nesaf ei chael ar Gymru.

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol—Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio—Darpariaethau i'w Gwneud yn Ofynnol i Gyflenwyr Nwyddau a Gwasanaethau Ddarparu Data Electronig i Gwsmeriaid

Supplementary Legislative Consent Motion—Enterprise and Regulatory Reform Bill—Provisions to Require Suppliers of Goods and Services to Provide Electronic Data to Customers

Cynnig NDM5139 Edwina Hart
Motion NDM5139 Edwina Hart

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio ynghylch y gofyniad bod cyflenwyr nwyddau a gwasanaethau yn darparu data cwsmeriaid i'r graddau y mae hyn yn rhan o gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Enterprise and Regulatory Reform Bill relating to the requirement on the supplier of goods and services to provide customer data in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:41

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth / The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science
I move the motion.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am pleased to put forward this legislative consent motion today. The Department for Business, Innovation and Skills is responsible for taking the Bill forward. The Bill is there to create the right conditions for economic recovery by strengthening the business environment, reducing regulatory burdens and improving consumer confidence.

Rwyf yn falch o gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw. Yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau sy'n gyfrifol am fynd â'r Bil yn ei flaen. Mae'r Bil yno i greu'r amodau cywir ar gyfer adferiad economaidd drwy gryfhau'r amgylchedd busnes, lleihau beichiau rheoleiddio a gwella hyder defnyddwyr.

The LCM is required in respect of the right of microbusiness to request electronic data from their suppliers. Everything was laid on 11 January in terms of the explanatory legal memorandum, and there are no anticipated financial implications for the Welsh Government.

Mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ofynnol o ran hawl microfusnesau i ofyn am ddata electronig gan eu cyflenwyr. Cafodd popeth ei osod ar 11 Ionawr o ran y memorandwm esboniadol cyfreithiol, ac ni ragwelir dim goblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

17:41

Eluned Parrott [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for tabling this LCM today, and I am very happy to give my party's support to it. However, I am concerned about the short timescale that has prevented this from being scrutinised by our committee structure. I understand that the amendment was tabled in mid-October and could have been discussed earlier. Perhaps you can comment on that for us.

Diolchaf i'r Gweinidog am gyflwyno'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw, ac rwyf yn hapus i roi cefnogaeth fy mhlaid iddo. Fodd bynnag, rwyf yn pryderu am yr amserlen fer sydd wedi rhwystro ein strwythur pwyllgor rhag craffu arno. Deallaf fod y gwelliant wedi'i gyflwyno yng nghanol mis Hydref ac y gellid bod wedi'i drafod yn gynharach. Efallai y gallwch roi sylwadau am hynny inni.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In principle, we would all agree that individuals should have the right to see data that large companies providing vital services hold on them. There are obvious philosophical reasons to support this, even before the advent of the complex databases that are being used today. There has been a tension in the public consciousness between the need for public services and businesses to manage information on services professionally, and a fear that that information could somehow be used against that individual.

Mewn egwyddor, byddem oll yn cytuno y dylai unigolion gael yr hawl i weld data y mae cwmnïau mawr sy'n darparu gwasanaethau hanfodol yn ei gadw amdanynt. Mae rhesymau athronyddol amlwg o blaid hyn, hyd yn oed cyn dyfodiad y cronfeydd data cymhleth sy'n cael eu defnyddio heddiw. Bu tensiwn yn ymwybyddiaeth y cyhoedd rhwng yr angen i wasanaethau cyhoeddus a busnesau reoli gwybodaeth am wasanaethau mewn modd proffesiynol, a'r ofn y gallai'r wybodaeth honno rywsut gael ei ddefnyddio yn erbyn yr unigolyn hwnnw.

These proposed regulations will give consumers reassurance that the information kept about them by utilities companies, for example, is appropriate and proportionate to the nature of their relationship with that organisation.

There are also practical reasons why we should support this. For example, it would allow a financial adviser, an AM or an MP to access information on charging or tariffs for a specific customer to assist those in fuel poverty, a cause dear to the heart of many of us in this Chamber. If we can throw light on those issues and encourage greater clarity, we can do a lot to help those who have been baffled by the complexity of the tariffing situation, including me, to be perfectly frank.

It is also important that these regulations aim to ensure that large organisations and companies should not profit from charging customers for that information, which is vital if we are to use these regulations to support those individuals.

I thank the Minister for bring this forward, and I hope that everyone in the Chamber will give it their wholehearted support.

Bydd y rheoliadau arfaethedig hyn yn rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr bod y wybodaeth a gedwir amdanynt gan gwmnïau cyfleustodau, er enghraifft, yn briodol ac yn gymesur i natur eu perthynas gyda'r sefydliad hwnnw.

Ceir rhesymau ymarferol hefyd pam y dylem gefnogi hyn. Er enghraifft, byddai'n caniatáu i ymgynghorydd ariannol, AC neu AS gael gwybodaeth am godi tâl neu dariffau ar gyfer cwsmer penodol i gynorthwyo'r rheini sydd mewn tldi tanwydd—achos sy'n agos iawn at galon llawer ohonom yn y Siambr hon. Os gallwn daflu goleuni ar y materion hynny ac annog mwy o eglurder, gallwn wneud llawer i helpu'r rheini sydd wedi cael eu drysu gan gymhlethdod y sefyllfa tariffau, sy'n fy nghynnwys i, i fod yn berffaith onest.

Mae hefyd yn bwysig mai nod y rheoliadau hyn yw sicrhau na ddylai sefydliadau a chwmnïau mawr elwa o godi tâl ar gwsmeriaid am y wybodaeth honno, sy'n hanfodol os ydym am ddefnyddio'r rheoliadau hyn i gefnogi'r unigolion hynny.

Diolchaf i'r Gweinidog am godi hyn, a gobeithiaf y bydd pawb yn y Siambr yn rhoi eu cefnogaeth lwyr i'r mater.

17:43

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth / The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

I very much concur with the comments made by Eluned Parrott. We are bringing forward excellent measures. It is important that the new provision creates Order-making powers to enable Government to require transaction data to be released to individual microbusinesses in electronic machine-readable format. It applies to important sectors, such as energy, mobile phones, current accounts and credit cards, so it is a very practical piece of legislation.

With regard to the timescale, the UK Government did not table this amendment until 10 January, and I made the information available to the Chamber on 11 January. Like you, I would have liked to have adequate time for the scrutiny of this, even if it was only to say what a good piece of legislation it is. I am delighted to move this motion today.

Cytunaf yn gryf â'r sylwadau a wnaeth Eluned Parrott. Rydym yn cyflwyno mesurau rhagorol. Mae'n bwysig bod y ddarpariaeth newydd yn creu pwerau gwneud Gorchmynion i alluogi'r Llywodraeth i'w gwneud yn ofynnol bod data am drafodion yn cael eu rhyddhau i ficrofusnesau unigol ar fformat y gellir ei ddarllen gan beiriannau electronig. Mae'n berthnasol i sectorau pwysig, megis ynni, ffonau symudol, cyfrifon cyfredol a chardiau credyd, felly mae'n ddarn ymarferol iawn o ddeddfwriaeth.

O ran yr amserlen, ni chyflwynodd Llywodraeth y DU y diwygiad hwn tan 10 Ionawr, a rhoddais y wybodaeth i'r Siambr ar 11 Ionawr. Fel chi, hoffwn fod wedi cael digon o amser i graffu ar hyn, hyd yn oed os dim ond i ddweud pa mor dda ydyw fel darn o ddeddfwriaeth. Rwyf yn falch iawn o gynnig y cynnig hwn heddiw.

17:44

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Motion agreed.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol - Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio—Diddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol ar gyfer Cymru a Lloegr

Cynnig NDM5138 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio sy'n ymwneud â diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Supplementary Legislative Consent Motion - Enterprise and Regulatory Reform Bill - Abolition of the Agricultural Wages Board for England and Wales

Motion NDM5138 Alun Davies

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Enterprise and Regulatory Reform Bill which relate to the abolition of the Agricultural Wages Board for England and Wales in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly, should be considered by the UK Parliament.

17:45

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On 19 December, the day that the UK Parliament rose for its Christmas recess, the UK Government tabled an amendment to the Enterprise and Regulatory Reform Bill, to bring forward provisions to abolish the Agricultural Wages Board for England and Wales. This circumvents the statutory requirement for Assembly consent under the Public Bodies Act, as originally proposed. The Welsh Government was not informed of the intended change from the Public Bodies Act to the Enterprise and Regulatory Reform Bill as the legislative vehicle for abolishing the AWB and we did not agree to this amendment. The amendment under the Enterprise and Regulatory Reform Bill will make changes to the National Minimum Wage Act 1998 to give cover to agricultural workers from October 2014. Amendment to the Working Time Regulations 1998 will also be made to bring agricultural workers within the scope of the national minimum wage regime and legislation. Under the Assembly's Standing Orders, the Welsh Government is required to lay a legislative consent motion and memorandum in respect of any amendments to a UK parliamentary Bill that makes provision for any purpose within the legislative competence of the Assembly. Our position remains that the functions of the AWB fall within the legislative competence of the Assembly, as they relate to agriculture, which is included in Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. On 11 January, a legislative consent motion and accompanying memorandum were laid in respect of the provisions for the abolition of the AWB in the Enterprise and Regulatory Reform Bill.

Ar 19 Rhagfyr, y diwrnod y cododd Senedd y DU am doriad y Nadolig, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliant i'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, i gyflwyno darpariaethau i diddymu Bwrdd Cyflogau Amaethyddol Cymru a Lloegr. Mae hyn yn groes i'r gofyniad statudol am ganiatâd y Cynulliad dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus, fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol. Ni chafodd Llywodraeth Cymru wybod am y newid a fwriedir o'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus i'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio fel y cyfrwng deddfwriaethol i diddymu'r AWB ac ni wnaethom gytuno â'r gwelliant hwn. Bydd y diwygiad dan y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio'n newid Deddf Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 i gynnwys gweithwyr amaethyddol o fis Hydref 2014 ymlaen. Caiff Rheoliadau Amser Gwaith 1998 hefyd eu diwygio i ddod â gweithwyr amaethyddol o fewn cwrmpas trefn a deddfwriaeth yr isafswm cyflog cenedlaethol. Dan Reolau Sefydlog y Cynulliad, mae'n ofynnol bod Llywodraeth Cymru yn gosod cynnig cydsyniad deddfwriaethol a memorandwm mewn perthynas ag unrhyw ddiwygiadau i un o Filiau seneddol y DU sy'n darparu ar gyfer unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad. Ein safbwynt o hyd yw bod swyddogaethau'r AWB o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad, fel y mae'n ymwneud ag amaethyddiaeth, sydd wedi'i gynnwys yn Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Ar 11 Ionawr, gosodwyd cynnig cydsyniad deddfwriaethol a memorandwm ategol ynglŷn â'r darpariaethau ar gyfer dileu'r AWB yn y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio.

The abolition of the AWB by this Bill sets a dangerous precedent and raises serious constitutional and intergovernmental concerns. I thank Dafydd Elis-Thomas for circulating the Hansard record of the debate that took place on this recently in the House of Lords. Having read that debate, we see the concern raised by members of that house at the way in which the UK Government is seeking to address this matter. By seeking to abolish the AWB through the Enterprise and Regulatory Reform Bill, the UK Government is circumventing the Public Bodies Act provisions agreed between the UK and Welsh Governments as the mechanism for dealing with the UK Government's proposals for abolishing public bodies for England and Wales. The UK Government's actions are contrary to the agreed devolution protocols and undermine the respect agenda that the UK Government has stated that it wishes to follow. During previous negotiations with the UK Government, I have made a request to have the functions of the AWB transferred to Welsh Ministers by Order under the Public Bodies Act. However, my request has been refused on more than one occasion by the UK Government.

My view is that the AWB fulfils an important role and provides comprehensive protection to agricultural workers. Apart from setting the agricultural minimum pay rates, which are differentiated according to six grades and are all above the current national minimum wage, the AWB also covers other working conditions, including flexible working, overtime pay, holiday and sick pay, training costs, special allowances and birth and adoption grants. The statutory protection under that national minimum wage regime and related employment legislation would only partly guarantee the protection currently offered to the agricultural sector under the agricultural minimum wage regime.

One of the most important aspects that the AWB safeguards is career progression in the agricultural sector. Under the national minimum wage regime, there is no statutory protection linking qualifications and experience to rates of pay. In addition, the legislative framework of the national minimum wage does not include provisions for rights for training—a matter we consider to be vitally important in terms of our overall 'Working Smarter' agenda, as it delivers up well-trained workers and professionally run, profitable farm businesses in Wales—standby duty and night allowance, overtime, bereavement leave, adoption and birth grants, or even dog allowances. Holiday entitlement and the level of sick pay will also be reduced considerably under this regime.

Pan ddi-ddymwyd yr AWB gan y Bil hwn, gosodwyd cysail peryglus sy'n codi pryderon cyfansoddiadol a rhynglywodraethol difrifol. Diolchaf i Dafydd Elis-Thomas am ddsbarthu cofnod Hansard o'r ddadl a gynhaliwyd am hyn yn ddiweddar yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ar ôl darllen y ddadl honno, gwelwn y pryder a gododd aelodau'r tŷ hwnnw am sut y mae Llywodraeth y DU yn ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn. Drwy geisio diddymu'r AWB drwy'r Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, mae Llywodraeth y DU yn osgoi darpariaethau'r Ddeddf Cyrff Cyhoeddus a gytunwyd rhwng y DU a Llywodraeth Cymru fel y mecanwaith ar gyfer ymdrin â chynigion Llywodraeth y DU i ddiddymu cyrff cyhoeddus yng Nghymru a Lloegr. Mae camau gweithredu Llywodraeth y DU yn groes i'r protocolau datganoli y cytunwyd arnynt ac yn tansellio'r agenda parch y mae Llywodraeth y DU wedi datgan eu bod yn dymuno'i dilyn. Yn ystod trafodaethau blaenorol gyda Llywodraeth y DU, rwyf wedi gwneud cais am drosglwyddo swyddogaethau'r AWB i Weinidogion Cymru, drwy Orchymyn dan y Ddeddf Cyrff Cyhoeddus. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod fy nghais ar fwy nag un achlysur.

Yn fy marn i, mae'r AWB yn cyflawni rôl bwysig ac yn rhoi diogelwch cynhwysfawr i weithwyr amaethyddol. Ar wahân i bennu cyfraddau isaf cyflog amaethyddol, sy'n cael eu gwahaniaethu yn ôl chwe gradd sydd i gyd yn uwch na'r isafswm cyflog cenedlaethol presennol, mae'r AWB hefyd yn cwmpasu amodau gwaith eraill, gan gynnwys gweithio hyblyg, tâl goramser, tâl gwyliau a salwch, costau hyfforddi, lwfansau arbennig a grantiau genedigaeth a mabwysiadu. Byddai'r warchodaeth statudol dan y drefn isafswm cyflog cenedlaethol a deddfwriaeth cyflogaeth gysylltiedig yn rhoi llai o sicrwydd nag a gynnigir ar hyn o bryd i'r sector amaethyddol dan y drefn isafswm cyflog amaethyddol.

Un o'r agweddau pwysig ar fesurau diogelu'r AWB yw dilyniant gyrfa yn y sector amaethyddol. Dan y drefn isafswm cyflog cenedlaethol, nid oes amddiffyniad statudol i gysylltu cymwysterau a phrofiad â chyfraddau cyflog. Nid yw fframwaith deddfwriaethol yr isafswm cyflog cenedlaethol ychwaith yn cynnwys darpariaethau ar gyfer hawliau i gael hyfforddiant—mater yr ydym yn ystyried ei fod yn hollbwysig o ran ein hagenda gyffredinol 'Hwyluso'r Drefn', gan ei fod yn darparu gweithwyr wedi'u hyfforddi'n dda a busnesau fferm proffidiol wedi'u cynnal yn broffesiynol yng Nghymru—dyletswydd wrth gefn a lwfans nos, goramser, absenoldeb oherwydd profedigaeth, grantiau mabwysiadu a geni, neu hyd yn oed lwfansau ci. Bydd hawl i wyliau a lefel y tâl salwch hefyd yn cael eu gostwng yn sylweddol dan y drefn hon.

It is clear that agricultural workers will be negatively affected by the removal of the AWB. Of the current agricultural minimum wage rates, only grade 1 is comparable with the national minimum wage, currently at £6.19. DEFRA's own impact assessment acknowledged that agricultural workers may lose as much as £35 million over 10 years throughout Wales and England once the AWB is abolished. Overall, around 13,000 agricultural workers in Wales could be affected by this change. I consider the proposed amendment to the ERR Bill to be unreasonable and I ask Members not to support this LCM. If the Assembly does not support the motion this afternoon, I will write immediately to the Secretary of State for Environment, Food and Rural Affairs, informing him that the Assembly has rejected the legislative consent motion, and that, therefore, the provisions relating to the abolition of the AWB in Wales should be removed from this Bill.

Mae'n amlwg y bydd gael gwared ar yr AWB yn effeithio'n anffafriol ar weithwyr amaethyddol. O'r cyfraddau isafswm cyflog amaethyddol presennol, dim ond gradd 1 sy'n debyg i'r isafswm cyflog cenedlaethol; mae'n £6.19 ar hyn o bryd. Cydnabu asesiad effaith DEFRA ei hun y gallai gweithwyr amaethyddol golli cymaint â £35 miliwn dros 10 mlynedd ledled Cymru a Lloegr ar ôl i'r AWB gael ei ddiddymu. Gallai'r newid hwn effeithio ar gyfanswm o tua 13,000 o weithwyr amaethyddol yng Nghymru. Credaf fod y diwygiad arfaethedig i'r Bil Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth yn afresymol, a gofynnaf i Aelodau beidio â chefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Os nad yw'r Cynulliad yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma, ysgrifennaf ar unwaith at yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, i'w hysbysu bod y Cynulliad wedi gwrthod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ac, felly, y dylid dileu'r darpariaethau sy'n ymwneud â diddymu'r AWB yng Nghymru o'r Bil hwn.

17:50 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I thank you for your statement, but I am concerned, once again, about the level of scrutiny that this Assembly, and particularly opposition parties, has been able to undertake in relation to this LCM.

You said in your statement that this raised serious constitutional and legislative issues. However, there has been no consideration of this LCM by the Constitutional and Legislative Affairs Committee; it has not had the opportunity to look at it. As a result, every Member here has received a copy of a legal opinion, which they are supposed to read. Having practised—albeit in a limited respect—in this area of the law, I am not very impressed. I am certain that the staff have done their best to outline some of the legal issues that are clearly causing concern between this Minister and London. In terms of scrutiny, we have not had the benefit of a Constitutional and Legislative Affairs Committee report on this and I am concerned about the quality of the advice that has been given to Assembly Members, which seems to indicate that the only basis for arguing that there is legislative competence is the fact that there is a role to carry on sustainable agricultural development, which is stretching the word 'agriculture' to its limit. It is quite clear that the UK Government takes the line—and it is one that we on this side of the Chamber accept and agree with—that employment law and employment concerns are not devolved. It is a great shame that the Minister has chosen to pick a fight in such a public way. This Assembly was consulted, or at least the previous Minister for rural affairs was consulted, in July 2010. She was asked whether or not she consented to the abolition of the AWB. In October, that was agreed— [Interruption.]

Weinidog, diolch am eich datganiad, ond rwyf yn pryderu, unwaith eto, am lefel y craffu y mae'r Cynulliad hwn, ac yn enwedig gwrthbleidiau, wedi gallu ymgymryd ag ef mewn perthynas â'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Dywedasoch yn eich datganiad fod hyn yn codi materion cyfansoddiadol a deddfwriaethol difrifol. Fodd bynnag, ni fu unrhyw ystyriaeth i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; nid ydynt wedi cael cyfle i edrych arno. O ganlyniad, mae pob Aelod yma wedi cael copi o farn gyfreithiol, y maent i fod i'w darllen. A minnau wedi ymarfer—er mai dim ond yn gyfyngedig—y maes cyfraith hwn, nid wyf yn fodlon iawn. Rwyf yn sicr bod y staff wedi gwneud eu gorau i amlinellu rhai o'r materion cyfreithiol sy'n amlwg yn achosi pryder rhwng y Gweinidog hwn a Llundain. O ran craffu, nid ydym wedi gallu elwa o adroddiad Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am hyn ac rwyf yn pryderu am ansawdd y cyngor a roddwyd i Aelodau'r Cynulliad, sy'n tueddu i ddangos mai'r unig sail i ddadlau y ceir cymhwysedd deddfwriaethol yw'r swyddogaeth i wneud gwaith datblygu amaethyddol cynaliadwy, sy'n ymestyn y gair 'amaethyddiaeth' at ei derfyn. Mae'n ddigon clir bod Llywodraeth y DU o'r farn—barn yr ydym ni ar yr ochr hon i'r Siambr yn ei derbyn ac yn cytuno â hi—nad yw cyfraith cyflogaeth a materion cyflogaeth wedi'u datganoli. Mae'n drueni mawr bod y Gweinidog wedi dewis dechrau ffrae mewn ffordd mor gyhoeddus. Ymgynghorwyd â'r Cynulliad hwn, neu â'r Gweinidog materion gwledig blaenorol o leiaf, ym mis Gorffennaf 2010. Gofynnwyd iddi a oedd yn cydsynio i ddiddymu'r AWB. Ym mis Hydref, cytunwyd ar hynny—[Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I am sorry, but I cannot have this chitchat across the Chamber. Will you allow Antoinette Sandbach to finish her contribution—

Trefn. Mae'n ddrwg gennyf, ond ni allaf gael y cecru hyn ar draws y Siambr. A ganiatewch i Antoinette Sandbach orffen ei chyfraniad—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:53 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The previous—

Roedd y cyn—

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order. I have not finished yet.

Trefn. Nid wyf wedi gorffen eto.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:53	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Sorry.	Mae'n ddrwg gennyf.	Senedd.tv Fideo Video
17:53	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	If anybody else wants to make a contribution, please indicate and perhaps I will call you.	Os hoffai unrhyw un arall gyfrannu, dangoswch hynny ac efallai y galwaf arnoch.	Senedd.tv Fideo Video
17:53	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	The previous Minister was asked by the UK Government in Westminster whether or not she agreed to the abolition, and that consent was given. Just because you have changed your mind, why do you expect—	Gofynnwyd i'r Gweinidog blaenorol gan Lywodraeth y DU yn San Steffan a oedd yn cytuno â'r diddymiad, a rhoddwyd y cydsyniad. Dim ond oherwydd eich bod wedi newid eich meddwl, pam yr ydych yn disgwyl—	Senedd.tv Fideo Video
17:53	Alun Davies Bywgraffiad Biography	We have not changed our minds.	Nid ydym wedi newid ein meddyliau.	Senedd.tv Fideo Video
17:53	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Just because the new Minister takes a different view, why is it so? There has been a process of consultation and I have read the transcript of the debate in the House of Lords. It is quite clear that what was presented on the issue of consultation in the House of Lords was inaccurate and its Members were not properly informed about the consultation process that had been undertaken with Ministers in this place. It was also clear that a number of contributors to the debate in the House of Lords were not aware of how matters have moved on in the farming community, or of the support that exists in relation to looking at the Agricultural Wages Board and the role it plays.	Dim ond oherwydd bod gan y Gweinidog newydd farn wahanol, a pham hynny? Bu proses o ymgynghori ac rwyf wedi darllen trawsgrifiad y ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi. Mae'n ddigon clir bod yr hyn a gyflwynwyd yn ymgynghoriad y mater yn Nhŷ'r Arglwyddi'n anghywir ac na chafodd ei Aelodau eu hysbysu'n briodol am y broses ymgynghori a gynhaliwyd gyda Gweinidogion yn y man hwn. Roedd hefyd yn amlwg nad oedd nifer o gyfranwyr i'r ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi yn ymwybodol o sut y mae materion wedi symud ymlaen yn y gymuned ffermio, neu o'r cymorth sy'n bodoli o ran edrych ar y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol a'i swyddogaeth.	Senedd.tv Fideo Video
		Minister, I find it very interesting that you talk about making things public and dealing with consultations. I asked you on 4 January for information on when these boards had met, going back a number of years. That information would have been very useful for this debate. You refused to provide that information, and we are still waiting for it.	Weinidog, rwyf yn ei chael yn ddiddorol iawn eich bod yn siarad am wneud pethau'n gyhoeddus ac ymdrin ag ymgynghoriadau. Gofynnais ichi ar 4 Ionawr am wybodaeth am pryd y cyfarfu'r byrddau hyn, yn mynd yn ôl nifer o flynyddoedd. Byddai'r wybodaeth honno wedi bod yn ddefnyddiol iawn yn y ddadl hon. Gwrthodasoch ddarparu'r wybodaeth honno, ac rydym yn dal i aros amdani.	
17:55	Alun Davies Bywgraffiad Biography	You asked me for information on the number of different sub-committees, not on the basis of the Agricultural Wages Board. The AWB meets regularly in order to propose the agricultural wages Order, which was made law by DEFRA last October.	Gofynasoch imi am wybodaeth am y nifer o wahanol is-bwyllgorau, nid ar sail y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Mae'r Bwrdd hwnnw'n cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cynnig y Gorchymyn cyflogau amaethyddol, a wnaethpwyd yn gyfraith gan DEFRA fis Hydref diwethaf.	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Order. That was running into a speech, Deputy Minister. Can you wind up soon, please, Antoinette, because your time is up?	Trefn. Roedd hynny'n troi'n araith, Ddirprwy Weinidog. A allwch ddirwyn i ben yn fuan, os gwelwch yn dda, Antoinette? Mae eich amser ar ben.	Senedd.tv Fideo Video

17:55	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography I asked for information on a number of matters, which would have been useful and informative in this debate. No good reason was given as to why that information could not be disclosed. That request was made on 4 January; it is now many weeks later and the information has not been disclosed. Quite frankly, it typifies the approach to this matter.	Gofynnais am wybodaeth am nifer o faterion, a fyddai wedi bod yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol yn y ddadl hon. Ni roddwyd rheswm da ynghylch pam na ellid datgelu'r wybodaeth honno. Gwnaethpwyd y cais hwnnw ar 4 Ionawr, mae nawr yn nifer o wythnosau'n ddiweddarach ac nid yw'r wybodaeth wedi ei datgelu. A dweud y gwir, mae'n nodweddiadol o'r ymagwedd tuag at y mater hwn.	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. Your time is up. I call on Mick Antoniw.	Trefn. Mae eich amser ar ben. Galwaf ar Mick Antoniw.	Senedd.tv Fideo Video
17:55	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography Deputy Minister, I, on this side, welcome the statement that you have made and I join you in opposing the legislative consent motion to abolish the statutory protection that exists for farmworkers. I have heard a certain number of weasel words about the position of the Tory party with regard to agricultural workers, and I noticed that the Member, in her contribution, made no reference to constitutional issues, and merely talked about how this was in the interest of farming in Wales. The position of the Tory party is in favour of abolition, and it exposes it for exactly what it is, namely a supporter of a conspiracy of the big landowners and the corporate agricultural industry to squeeze money out of the pockets of rural workers into their own pockets. The net effect is that it will cost agricultural workers £260 million over the next decade according to its own statistics.	Ddirprwy Weinidog, rwyf i, ar yr ochr hon, yn croesawu'r datganiad yr ydych wedi'i wneud ac rwyf yn ymuno â chi i wrthwynebu'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol i ddiddymu'r amddiffyniad statudol sy'n bodoli ar gyfer gweithwyr fferm. Rwyf wedi clywed nifer penodol o eiriau slec am safbwynt y blaid Doriaidd o ran gweithwyr amaethyddol, a sylwais na wnaeth yr Aelod, yn ei chyfraniad, unrhyw gyfeiriad at faterion cyfansoddiadol, gan siarad yn unig am sut yr oedd hyn er budd i ffermio yng Nghymru. Mae safbwynt y blaid Doriaidd o blaid diddymu, ac mae'n dangos yn union beth ydynt, sef un o gefnogwyr cynllwyn y tiffeddianwyr mawr a'r diwydiant amaethyddol corfforaethol i wasgu arian o bocedi gweithwyr gwledig ac i'w pocedi eu hunain. Yr effaith net yw y bydd yn costio £260 miliwn i weithwyr amaethyddol dros y degawd nesaf yn ôl eu hystadegau eu hun.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Janet Finch-Saunders a gododd—</i>	<i>Janet Finch-Saunders rose—</i>	
17:56	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. Are you taking an intervention from Janet Finch-Saunders?	Trefn. A ydych yn derbyn ymyriad gan Janet Finch-Saunders?	Senedd.tv Fideo Video
17:56	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography Yes, I will take an intervention. [Interruption.]	Gwnaf, fe dderbyniaf ymyriad. [Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
17:56	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography Right, I represent—[Interruption.]	lawn, rwyf yn cynrychioli—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
17:56	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. I cannot hear what Janet Finch-Saunders is saying.	Trefn. Ni allaf glywed yr hyn y mae Janet Finch-Saunders yn ei ddweud.	Senedd.tv Fideo Video
17:56	Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography I represent a rural constituency. I have not received representations from anybody working in the farming community in Aberconwy. If it is such a big issue, why is that the case?	Rwyf yn cynrychioli etholaeth wledig. Nid wyf wedi cael sylwadau gan unrhyw un sy'n gweithio yn y gymuned ffermio yn Aberconwy. Pam hynny, os yw hwn yn fater mor fawr?	Senedd.tv Fideo Video

17:57	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography There have been many representations, and if you had followed the debate, you would have seen those representations: the lobbying, the pickets and the demonstrations. Maybe it is because you are more in contact with the landowners than with the agricultural workers.	Gwnaethpwyd llawer o sylwadau, a phe baech wedi dilyn y ddadl, byddech wedi gweld y sylwadau hynny: y lobiö, y picedi a'r arddangosiadau. Efallai mai'r rheswm yw bod gennych fwy o gysylltiad â'r tîrfeddianwyr nag â'r gweithwyr amaethyddol.	Senedd.tv Fideo Video
17:57	Russell George Bywgraffiad Biography I represent one of the most rural constituencies in Wales and I can tell you that not one of my constituents has contacted me on this issue.	Rwyf yn cynrychioli un o'r etholaethau mwyaf gwledig yng Nghymru a gallaf ddweud wrthyfch nad oes dim un o fy etholwyr wedi cysylltu â mi am y mater hwn.	Senedd.tv Fideo Video
17:57	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography I can tell you that the Farmers Union of Wales and the young farmers have contacted me and said that they are totally opposed to it. Maybe you are also in contact with the landowners and have very little contact with ordinary working people in your constituency, but then maybe that is because you are a Conservative.	Gallaf ddweud wrthyfch fod Undeb Amaethwyr Cymru a'r ffermwyr ifanc wedi cysylltu â mi i ddweud eu bod yn ei wrthwynebu'n llwyr. Efallai eich bod chithau hefyd mewn cysylltiad â'r tîrfeddianwyr ac mai ychydig iawn o gysylltiad yr ydych yn ei gael â phobl gyffredin sy'n gweithio yn eich etholaeth, ond yna efallai mai oherwydd eich bod yn Geidwadwr y mae hynny.	Senedd.tv Fideo Video
	<i>Antoinette Sandbach a gododd—</i>	<i>Antoinette Sandbach rose—</i>	
17:58	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. He is not taking any more interventions, Antoinette Sandbach.	Trefn. Nid yw'n cymryd rhagor o ymyriadau, Antoinette Sandbach.	Senedd.tv Fideo Video
17:58	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography Presiding Officer, it is no wonder—[Interruption.]	Lywydd, nid yw'n syndod—[Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
17:58	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography Order. Mick Antoniw, I have turned your microphone off. Mick Antoniw is not taking any more interventions. Will you please listen to what he is saying? Can we finish this in some kind of order, please? I call on Mick Antoniw.	Trefn. Mick Antoniw, rwyf wedi diffodd eich meicroffon. Nid yw Mick Antoniw yn cymryd rhagor o ymyriadau. A wrandewch ar yr hyn y mae'n ei ddweud? A allwn orffen hyn mewn rhyw fath o drefn, os gwelwch yn dda? Galwaf ar Mick Antoniw.	Senedd.tv Fideo Video
17:58	Mick Antoniw Bywgraffiad Biography Presiding Officer, the Government's own statistics indicate that £260 million will come out of workers' pockets over the next decade. My immediate concern is that if abolition ultimately succeeds, this summer, we will have thousands of casual workers who will, overnight, lose their entitlement to protection by the Agricultural Wages Board, and that is confirmed in the Government's papers. Is there anything that we can do to make this process proceed quickly, so that we can, at some stage, guarantee protection for agricultural workers and the promotion of agriculture in our constituencies?	Lywydd, mae ystadegau'r Llywodraeth ei hun yn dangos bydd £260 miliwn yn dod allan o bocedi gweithwyr dros y degawd nesaf. Fy mhryder cyntaf yw pe byddai y diddymu'n llwyddo yn y pen draw, yr haf hwn, bydd miloedd o'n gweithwyr achlysurol, dros nos, yn colli eu hawl i amddiffyniad gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol; cadarnheir hynny ym mhapurau'r Llywodraeth. A oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i wneud i'r broses hon fynd rhagddi'n gyflym, fel y gallwn, ar ryw adeg, roi sicrwydd y caiff gweithwyr amaethyddol eu hamddiffyn ac y caiff amaethyddiaeth ei hyrwyddo yn ein hetholaethau?	Senedd.tv Fideo Video

Llywydd, byddwch yn falch o glywed nad wyf yn bwriadu cyfrannu i'r drafodaeth hon ar gwestiwn dyfodol y bwrdd amaethyddol, a hynny am y rheswm syml y byddaf yn cadeirio pwyllgor yn yr adeilad hwn ddydd lau—sydd yn debygol o fod yn bwyllgor diddorol os bydd rhywbeth yn debyg i'r hyn sydd wedi digwydd yn ystod y ddau funud diwethaf—Ile byddwn yn derbyn tystiolaeth oddi wrth undeb Unite, Undeb Amaethwyr Cymru, y ffermwyr ifanc, NFU Cymru a chymdeithas y tenantiaid amaethyddol. Fodd bynnag, rwyf am sefyll yma a chefnogi'n llwyr yr hyn y mae'r Dirprwy Weinidog wedi ei ddweud ac annog pob Aelod egwyddorol yn y Cynulliad hwn i bleidleisio yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Yn ffodus iawn, roeddwn mewn pryd—nid yw'n digwydd bob tro, ond diolch i First Great Western y tro hwn—ar gyfer y drafodaeth yn yr ail dŷ ar 16 Ionawr. Felly, rwy wedi cael cyfle i bleidleisio—ac i ddefnyddio fy mandad dwbl, am unwaith, yn yr ail dŷ—yn erbyn y gwelliant a gyflwynwyd gan y Llywodraeth. Felly, y sefyllfa ar hyn o bryd yw nad oes cais i ddiddymu'r bwrdd gerbron Senedd y Deyrnas Unedig. Mater i Lywodraeth y Deyrnas yw penderfynu beth fydd yn gwneud yn y cyfnod adrodd yn y tŷ hwnnw—sef ein Cyfnod 3 yma—ac i benderfynu a yw am ddod â'r cynnig yn ôl. Gan ein bod wedi cael pleidlais, negyddwyd y gwelliant. Felly, nid oes sail gyfansoddiadol bellach inni fynd ymlaen i ddelio â'r mater hwn yn y Cynulliad. Felly, byddaf yn apelio atoch i wrthod y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn.

Fodd bynnag, rwyf am ddweud un peth arall cyfansoddiadol. Dydw i ddim yn meddwl bod y system o gael memorandwm cydsyniad deddfwriaethol rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, a rhwng Senedd y Deyrnas Unedig a'i ddau dŷ a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn gweithredu'n effeithiol nac yn drefnus nac yn gyfansoddiadol o gwbl. Mae'r bai am hynny, yn fy nhyb i, yn syrthio'n eithaf clir ar fethiant swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinidogion y Deyrnas Unedig i sicrhau digon o amser i drafod yn gyflawn ac yn effeithiol sut y dylem gyd-ddeddfu mewn gwirionedd. Rydym yn delio yn y fan hon â chyfundrefn o gyd-ddeddfu. Duw a wŷr, dydw i ddim eisiau mynd yn ôl i'r system o gyd-ddeddfu a oedd gennym yn y Cynulliad diwethaf, sef gorfod mynd gerbron Tŷ'r Cyffredin a'r Pwyllgor Dethol Materion Cymreig a Thŷ'r Arglwyddi a gofyn am ganiatâd i ddeddfu. Erbyn hyn, mae rhywbeth gwaeth yn digwydd. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi defnyddio deddfwriaeth anaddas, sef y Bil Menter a Diwygio Rheoleiddio, er mwyn—fel y dywedodd y Gweinidog—osgoi ceisio cydsyniad y Senedd hon yn briodol. Felly, dewch inni gydnabod beth sydd wedi digwydd. Rwy'n gobeithio bod pobl o egwyddor ymhlith y Rhyddfrydwyr Democraidd a'r Ceidwadwyr sy'n fodlon ymatal ar y cwestiwn hwn, os nad ydynt yn teimlo fel pleidleisio gyda ni, sef yr Aelodau a fydd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn, er mwyn dangos i wleidyddion y Deyrnas Unedig bod datganoli yn broses ddwy ffordd, a'i bod yn cynnwys rhoi cyfle i ni yng Nghymru—ein Gweinidogion a'n Senedd—allu trafod gyda'n gilydd y materion hyn yn briodol. Diolch am eich gwrandawiad.

Presiding Officer, you will be pleased to hear that I do not intend to contribute to this debate on the issue of the future of the agricultural board, and that is for the simple reason that I shall be chairing a committee meeting in this building on Thursday—and it seems that it will be an interesting meeting if it bears any resemblance to the past two minutes—at which we will receive evidence from Unite, the Farmers Union of Wales, the young farmers, NFU Cymru and the Tenant Farmers Association. However, I stand to support fully the Minister's comments and to encourage all principled Members in the Assembly to vote against the legislative consent motion.

I was very fortunate to arrive in time—it does not happen every time but, thanks to First Great Western, it did this time—for the debate in the second chamber on 16 January. Therefore, I have had an opportunity to vote—and to use my double mandate, for once, in the second chamber—against the amendment brought forward by the Government. The situation at present is that there is no proposal to abolish the board before the UK Parliament. It is a matter for the UK Government to decide what it will do in the reporting stage in that house, which would correspond to our Stage 3, and to decide if it is going to bring this proposal back. Due to the fact that we did vote in the House of Lords, the amendment was defeated. Therefore, there is no constitutional basis for us to proceed to deal with this issue in the Assembly. Therefore, I would appeal to you all to reject this legislative consent motion.

However, I want to say one other thing on constitutional matters. I do not think that the system of legislative consent motions between the UK Government and the Welsh Government, and between the UK Parliament and the two houses therein and the National Assembly for Wales, is a system that operates effectively, efficiently or constitutionally in any sense. The fault for that, in my opinion, rests quite clearly with the failure of UK Government officials and UK Government Ministers to ensure adequate time to discuss comprehensively and effectively how we should jointly legislate. Here, we are dealing with a system of joint legislation. God knows that I do not want to return to the system of joint legislation that we had in the previous Assembly of having to take issues before the House of Commons and the Welsh Affairs Select Committee and the House of Lords to request consent to legislate, but now things are worse. The UK Government is using inappropriate legislation, which is the Enterprise and Regulatory Reform Bill, in order—as the Minister said—to avoid seeking the appropriate consent of this Senedd. Let us acknowledge what has happened here. I hope that there are people of principle among the Liberal Democrats and the Conservatives who would be willing to abstain on this issue, if they do not feel that they can vote with us—those Members who will oppose this motion—in order to show UK politicians that devolution is a two-way street, and that it does include giving us in Wales—our Ministers and our Senedd—the ability to discuss these issues appropriately. Thank you for your attention.

18:03

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The future of the Agricultural Wages Board has indeed proven to be a controversial issue in this Chamber—more so here than in my surgeries or my postbag. However, I look forward to Thursday's session when we shall, as a committee, hear the representations of stakeholders from within Welsh agriculture. It is fair to acknowledge that views are split among those stakeholders. Nevertheless, it is important that we acknowledge the role that the AWB has played in protecting employment rights within the agriculture sector since its establishment over 65 years ago. Farming now directly employs around 4.5% of the Welsh working population. The AWB, over the years, has done an excellent job of providing a set of guiding principles when it comes to pay structures and employee benefits. However, the situation for workers is fundamentally different—and thank God that it is—from when those wage councils were first established in 1909. In the absence of the Agricultural Wages Board, agricultural workers in England and Wales will be protected by the national minimum wage, the working-time directive—to which this party, at least, remains firmly committed—and other employment legislation. Workers in all other sectors of the economy are similarly protected.

Mae dyfodol y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn wir wedi profi'n fater dadleuol yn y Siambr hon—yn fwy felly yma nag yn fy nghymorthfeydd na fy sach bost. Fodd bynnag, edrychaf ymlaen at sesiwn dydd lau pan fyddwn, fel pwyllgor, yn clywed sylwadau gan randdeiliaid o fewn amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n deg cydnabod bod safbwyntiau gwahanol i'w cael ymhlith y rhanddeiliaid hynny. Serch hynny, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y rôl y mae'r AWB wedi ei chwarae wrth ddiogelu hawliau cyflogaeth o fewn y sector amaethyddiaeth ers ei sefydlu dros 65 mlynedd yn ôl. Mae ffermio bellach yn cyflogi tua 4.5% o boblogaeth weithio Cymru'n uniongyrchol. Mae'r AWB, dros y blynyddoedd, wedi gwneud gwaith ardderchog o ddarparu set o egwyddorion arweiniol ym maes strwythurau cyflog a buddiannau gweithwyr. Fodd bynnag, mae sefyllfa gweithwyr yn sylfaenol wahanol—a diolch i Dduw am hynny—ers pan sefydlwyd y cynghorau cyflog hynny am y tro cyntaf yn 1909. Yn absenoldeb y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, caiff gweithwyr amaethyddol yng Nghymru a Lloegr eu diogelu gan yr isafswm cyflog cenedlaethol, y gyfarwyddeb amser gwaith—y mae'r blaid hon, o leiaf, yn parhau i fod yn ymrwymedig iawn iddi—a deddfwriaeth cyflogaeth arall. Caiff gweithwyr holl sectorau eraill yr economi eu gwarchod yn yr un modd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:04

Joyce Watson [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for taking the intervention. Are you saying that you are happy to abolish the Agricultural Wages Board and instead offer the protection of the minimum wage that exists, and to say that that will suffice? That seems to be what you are saying, and I would like some clarity on that.

Diolch yn fawr am gymryd yr ymyriad. A ydych yn dweud eich bod yn hapus i ddiddymu'r Bwrdd Cyflogau Amaethyddol a chynnig yn hytrach gwarchod yr isafswm cyflog sy'n bodoli, ac yn dweud y bydd hynny'n ddigon? Mae'n ymddangos mai dyna'r ydych yn ei ddweud, a hoffwn gael rhywfaint o eglurder ar hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:05

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank you very much for that intervention. The minimum wage certainly provides a valuable protection, but I shall explain later why the benefits afforded by the AWB in terms of ongoing contracts will be protected for the time to come. I will address that issue in my further remarks.

Diolch yn fawr iawn am yr ymyriad hwnnw. Mae'r isafswm cyflog yn sicr yn darparu amddiffyniad gwerthfawr, ond esboniaf yn ddiweddarach pam y bydd y manteision a gynigir gan yr AWB o ran contractau parhaus yn cael eu diogelu ar gyfer yr amser i ddod. Rhoddaf sylw i'r mater hwnnw yn fy sylwadau pellach.

The rationale behind the abolition of the AWB is that it will enable the sector to meet the challenges of increasing food production at a time when food security is writ large on all our agendas. It will help to secure the long-term commercial viability of farming, something to which the Deputy Minister is firmly attached.

Y rhesymeg y tu ôl i ddiddymu'r AWB yw y bydd yn galluogi'r sector i ymateb i heriau cynhyrchu mwy o fwyd ar adeg pan fo diogelwch bwyd yn fater amlwg iawn ar ein holl agendâu. Bydd yn helpu i sicrhau hyfywedd masnachol hirdymor ffermio, rhywbeth y mae'r Dirprwy Weinidog yn credu'n gryf ynddo.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:05

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can you explain how reducing agricultural workers' wages improves farm efficiency?

A allwch egluro sut y mae lleihau cyflogau gweithwyr amaethyddol yn gwella effeithlonrwydd ffermydd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:06

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I shall come to that later in my remarks in terms of explaining the importance of having a level playing field. Often, farm businesses will have two or three types of enterprise within the whole, which is an important aspect.

Dof at hynny'n nes ymlaen yn fy sylwadau wrth egluro pa mor bwysig yw cael maes chwarae gwastad. Yn aml, bydd gan fusnesau fferm ddau neu dri math o fenter o fewn y cyfan; mae hon yn agwedd bwysig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Importantly, agricultural workers who have contractual rights reflecting the terms of the agricultural wages Order, at the time of the abolition of the board, will retain those rights, to which I referred earlier in response to Joyce Watson, until such time as the contracts might be varied. That can only be done by mutual agreement between the employer and the worker, or when the contract comes to an end.

Many respondents to the DEFRA consultation in December highlighted that most farm businesses already operate outside the agricultural wages Order for other areas of their business, particularly where there has been a case of diversification. Therefore, the removal of the Order will simplify the system so that farmers no longer need to meet two sets—or, in some cases, more than two—of legislation in terms of their employment. The majority of workers are already paid well above the agricultural minimum wage, and that is the case without the absence of the Agricultural Wages Board. Employers will be able to agree a more flexible employment package, which will suit the character of modern-day farm businesses. That is important; we need to recognise that.

The suggestion that agriculture is the only sector that, without a wages board, would be unable to regulate in a fair and principled way is simply not correct. As well as the protection that would be offered by the national minimum wage and the working time directive, to which I, again, make our long-standing commitment as a party, the Low Pay Commission will be tasked with gathering evidence to take account of conditions for agricultural workers when providing recommendations to Government on this, so as to avoid any examples of abuse.

In summary, for all of these reasons, the Welsh Liberal Democrats will be supporting the LCM today, but we will be seeking to ensure that our colleagues in Westminster will be effective in the way that this is communicated to employers and to workers in the sector. It is absolutely essential that farm workers in the future have a fair playing field as they have had in the past.

Yn bwysig, bydd gweithwyr amaethyddol â hawliau cytundebol sy'n adlewyrchu telerau'r Gorchymyn cyflogau amaethyddol, ar adeg diddymu'r bwrdd, yn cadw'r hawliau hynny, y cyfeiriais atynt yn gynharach mewn ymateb i Joyce Watson, hyd nes y câr contractau eu hamrywio. Dim ond drwy gydgytundeb rhwng y cyflogwr a'r gweithiwr, neu pan ddaw'r contract i ben, y gellir gwneud hynny.

Roedd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad DEFRA ym mis Rhagfyr yn tynnu sylw i'r ffaith bod y rhan fwyaf o fusnesau fferm eisoes yn gweithredu y tu allan i'r Gorchymyn cyflogau amaethyddol ar gyfer meysydd eraill o'u busnes, yn enwedig lle bu achos o arallgyfeirio. Felly, bydd cael gwared ar y Gorchymyn yn symleiddio'r system fel na fydd angen i ffermwyr fodloni dwy set o ddeddfwriaeth—neu, mewn rhai achosion, mwy na dwy—o ran eu cyflogaeth. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr eisoes yn cael eu talu'n llawer uwch na'r isafswm cyflog amaethyddol, ac mae hynny'n digwydd heb absenoldeb y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol. Bydd cyflogwyr yn gallu cytuno ar becyn cyflogaeth mwy hyblyg, a fydd yn gweddu i gymeriad busnesau fferm modern. Mae hynny'n bwysig; mae angen inni gydnabod hynny.

Mae'r awgrym mai amaethyddiaeth yw'r unig sector na allai reoleiddio mewn ffordd deg ac egwyddorol heb fwrdd cyflogau, yn syml, yn anghywir. Yn ogystal â'r diogelwch y byddai'r isafswm cyflog cenedlaethol a'r gyfarwydddeb oriau gwaith yn eu cynnig—hoffwn, unwaith eto, nodi ymrwymiad hirdymor ein plaid i'r rhain—bydd y Comisiwn Cyflogau Isel yn cael y dasg o gasglu tystiolaeth i ystyried amodau gweithwyr amaethyddol wrth roi argymhellion i'r Llywodraeth am hyn, er mwyn osgoi unrhyw enghreifftiau o gam-drin.

I grynhoi, am yr holl resymau hyn, bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol heddiw, ond byddwn yn ceisio sicrhau y bydd ein cydweithwyr yn San Steffan yn cyfleu hyn yn effeithiol i gyflogwyr ac i weithwyr yn y sector. Mae'n gwbl hanfodol bod gweithwyr fferm yn y dyfodol yn cael maes chwarae teg fel y maent wedi'i gael yn y gorffennol.

18:08 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Joyce Watson. [Assembly Members: 'Oh.']

Galwaf ar Joyce Watson. [Aelodau'r Cynulliad: 'O'.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:08 **Joyce Watson** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You might well sigh over there because I am going to say that it makes me angry that a Government of toffs, backed by a few horticultural English barons, are going to take millions out of the pockets of the lowest paid farm workers in this country and hand it back to the bosses—nearly £30 million from Welsh farm workers to employers over the next 10 years.

Efallai y dylech ochneidio draw yn y fan yna oherwydd rwyf yn mynd i ddweud ei bod yn fy ngwylltio bod Llywodraeth o grachach, gyda chefnogaeth gan ychydig o farwniaid garddwriaethol o Loegr, yn mynd i gymryd miliynau allan o bocedi'r gweithwyr fferm â'r tâl isaf yn y wlad hon a'i roi'n ôl i'r penaethiaid—bron i £30 miliwn gan weithwyr fferm yng Nghymru i gyflogwyr dros y 10 mlynedd nesaf.

Antoinette Sandbach a gododd—

Antoinette Sandbach rose—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I do not think that she is taking an intervention.

Nid wyf yn credu ei bod yn cymryd ymyriad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:09	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Not at this stage.</p> <p>That is what scrapping this wages board will mean. I am furious that this outrageous policy can be imposed on Wales by Westminster, while other colleagues in Scotland and Northern Ireland can sensibly disregard such patent injustice.</p> <p>On the one hand, the Tories cry that the board is anarchic, that it is out of time with a modern economy, and that it is an anomaly. Is that what the Tory Government thinks that fair wages are about? If anything, Welsh farm workers need better pay and conditions and a stronger collective voice. We need to attract more people into the industry, not price those people out of it. The Tories and English farm barons claim that most workers are paid above the AWB rate and will not be affected by—</p> <p><i>Andrew R.T. Davies a gododd—</i></p>	<p>Dim ar hyn o bryd.</p> <p>Dyna beth fydd cael gwared ar y bwrdd cyflogau yn ei olygu. Rwyf yn gynddeiriog y gall y polisi gwarthus hwn gael ei orfodi ar Gymru gan San Steffan, tra gall cydweithwyr eraill yn yr Alban a Gogledd Iwerddon fod yn ddigon synhwyrol i ddiystyru anghyfiawnder amlwg o'r fath.</p> <p>Ar y naill law, mae'r Torïaid yn creio bod y bwrdd yn anarchaidd, nad yw'n cyd-fynd ag economi fodern, a'i fod yn anomaledd. Ai dyna beth mae'r Llywodraeth Doriäidd yn ei feddwl am gyflogau teg? Os unrhyw beth, mae ar weithwyr fferm Cymru angen gwell cyflog ac amodau a llais cryfach ar y cyd. Mae angen inni ddenu mwy o bobl i mewn i'r diwydiant, nid eu prisio allan ohono. Mae'r Torïaid a barwniaid ffermydd Lloegr yn honni bod y rhan fwyaf o weithwyr yn cael eu talu yn uwch na chyfradd yr AWB ac na chaiff hyn effaith—</p> <p><i>Andrew R.T. Davies rose—</i></p>
18:10	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order. Are you taking an intervention?</p>	<p>Trefn. A ydych yn cymryd ymyriad?</p>
18:10	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>In which case, why bother abolishing something if it has such little impact? I will take the intervention.</p>	<p>Yn yr achos hwn, pam trafferthu i ddileu rhywbeth os oes ganddo gyn lleied o effaith? Cymeraf yr ymyriad.</p>
18:10	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order. Which one? Andrew R.T. Davies's?</p>	<p>Trefn. Pa un? Andrew RT Davies?</p>
18:10	Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am grateful to the Member—</p>	<p>Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod—</p>
18:10	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>No, I will take the other intervention. [Laughter.]</p>	<p>Na, cymeraf yr ymyriad arall. [Chwerthin.]</p>
18:10	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order. Which one? Antoinette Sandbach?</p>	<p>Trefn. Pa un? Antoinette Sandbach?</p>
18:10	Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I am very grateful to you for taking the intervention. Research shows that farmworkers are, on average, paid 60% above the rate set by the Agricultural Wages Board, but that the structure and rigidity of the criteria applied effectively stop flexibility in a modern and changing workplace.</p>	<p>Rwyf yn ddiolchgar ichi am gymryd yr ymyriad. Mae ymchwil yn dangos bod gweithwyr fferm, ar gyfartaledd, yn cael eu talu 60% yn uwch na'r gyfradd a bennir gan y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol, ond bod strwythur ac anhyblygedd y meini prawf a ddefnyddir, i bob diben, yn atal hyblygrwydd mewn gweithle modern sy'n newid.</p>

18:10	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>My answer to you is simply this: if it is the case that it has such little impact, why is your Government so exercised about abolished it? If it is the case, as we have heard here today, that it has such little impact and that there are such protections—and I say this to Bill Powell and the Tory colleague who represents Mid and West Wales—why is it that representations on the issue of the Agricultural Wages Board have been made to me by the NFU and the young farmers? Why is it that I could meet them here in the Assembly, along with the Unite member workers, and that you absolutely failed to do any of that? Why have you not done that? They came here, to the Assembly, and you were invited to meet them, but it was a no-show. To say that you have not had anything in your mailbag addressing this issue from those people is absolutely outrageous.</p>	<p>Fy ateb ichi yn syml yw hyn: os yw'n wir bod ganddo gyn lleied o effaith, pam mae eich Llywodraeth mor awyddus i'w ddiddymu? Os yw'n wir, fel y clywsom yma heddiw, bod ganddo gyn lleied o effaith ac y ceir amddiffyniadau o'r fath—a dywedaf hyn wrth Bill Powell a'i gydweithiwr Toriaidd sy'n cynrychioli Canolbarth a Gorllewin Cymru—pam yr wyf wedi cael sylwadau am fater y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol gan Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr a'r ffermwyr ifanc? Pam y gallais gwrrdd â hwy yma yn y Cynulliad, ynghyd â'r gweithwyr sy'n aelodau o Unite, ac y methasoch chi'n llwyr â gwneud dim o hynny? Pam nad ydych wedi gwneud hynny? Daethant yma, i'r Cynulliad, ac fe'ch gwahoddwyd i gwrrdd â hwy, ond nid oeddech yn bresennol. Mae'n gwbl gywilyddus eich bod yn dweud nad ydych wedi cael dim byd yn eich bag post ynglŷn â'r mater hwn gan y bobl hynny.</p>
	<i>Rhodri Glyn Thomas a gododd—</i>	<i>Rhodri Glyn Thomas rose—</i>
18:12	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	I am going to carry on.	Rwyf yn mynd i barhau.
18:12	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Order. There are to be no more interventions.	Trefn. Nid oes rhagor o ymyriadau i fod.
18:12	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>This amounts to classic Tory wage deflation policy. It is a race to the bottom. It is ideological economics dressed up as modernisation. Whether it is tax cuts for millionaires or vilifying families on social security, that is what this amounts to time after time. Farming wage deflation will hit every worker, not just the lowest paid—remember that—and it will have a knock-on effect on rural communities and suck money out of the local economy like a leech. This is another decision taken from a position of ignorance. Most farmers want to keep the board, as it reduces bureaucracy for them. That is what they told me here; had you bothered to turn up, that is what they would have told you as well. It actually helps them with their contractual arrangements—</p>	<p>Nid yw hyn yn ddim ond polisi clasurol Toriaidd o ddatchwyddo cyflogau. Ras i'r gwaelod ydyw. Economeg ideolegol dan rith moderneiddio ydyw. P'un a ydynt yn rhoi toriadau treth i filiwnyddion neu'n difrio teuluoedd ar nawdd cymdeithasol, dyna sy'n digwydd dro ar ôl tro. Bydd ddatchwyddo cyflogau ffermio'n taro pob gweithiwr, nid dim ond y rhai â'r cyflogau isaf—cofiwch hynny—a bydd yn cael effaith gynyddol ar gymunedau gwledig ac yn sugno arian allan o'r economi lleol fel gelen. Mae hwn yn benderfyniad arall wedi'i wneud o sefyllfa o anwybodaeth. Mae'r rhan fwyaf o ffermwyr yn awyddus i gadw'r bwrdd, gan ei fod yn lleihau biwrocratiaeth iddynt. Dyna y dywedasant wrthyf yma; pe baech wedi trafferthu i fod yn bresennol, byddent wedi dweud hynny wrthyf chi hefyd. Mae mewn gwirionedd yn eu helpu gyda'u trefniadau cytundebol—</p>
	<i>Rhodri Glyn Thomas a gododd—</i>	<i>Rhodri Glyn Thomas rose—</i>
18:13	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	Order. I do not think that Joyce Watson is taking any interventions.	Trefn. Nid wyf yn credu bod Joyce Watson yn cymryd unrhyw ymyriadau.
18:13	Joyce Watson Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Whether it is employment or housing or anything else that might crop up, the board offers invaluable advice and support on both sides. What a shame that you could not have come to have listened to that.</p>	<p>P'un a yw'n fater cyflogaeth neu dai neu unrhyw beth arall a allai godi, mae'r bwrdd yn cynnig cyngor a chefnogaeth amhrisiadwy ar y naill ochr a'r llall. Dyna drueni na allech fod wedi dod i wrando ar hynny.</p>

18:13

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I want to very briefly remind Members, if I may, that we are not debating the merits or otherwise of the Agricultural Wages Board this afternoon. We are actually debating the merits of allowing Westminster to legislate for something that our legal advisers have told us is within our competence. I accept that legal advice, and if the matter had come before a meeting of the Constitutional and Legal Affairs Committee—on which I sit—that legal advice would have been given to the committee, and I have every reason to believe that the committee would have accepted it.

Hoffwn atgoffa Aelodau'n gryno, os caf, nad ydym yn trafod manteision ac anfantaision y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol y prynhawn yma. Rydym mewn gwirionedd yn trafod rhinweddau caniatáu i San Steffan ddeddfu ar gyfer rhywbeth y mae ein cynghorwyr cyfreithiol wedi dweud wrthym ei fod o fewn ein cymhwysedd. Rwyf yn derbyn y cyngor cyfreithiol hwnnw, a phe bai'r mater wedi dod gerbron cyfarfod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol—yr wyf yn eistedd arno—byddai'r cyngor cyfreithiol hwnnw wedi cael ei roi i'r pwyllgor, ac mae gennyf bob rheswm i gredu y byddai'r pwyllgor wedi ei dderbyn.

This is a question of constitutional principle. The ins and outs of the Agricultural Wages Board can be decided at a different time. I, for one, feel very strongly that this is an attempt to circumvent the constitutional arrangements between this place and Westminster and the different memoranda of understanding that have been put in place. I think that you yield those things with danger. I have to say to the Conservatives opposite: you yield that principle with danger. You want one day to be in Government, and you do not want to be told by a Government in Westminster what you should be doing in Wales. Please, think: this is about how we arrange things constitutionally in Wales. Support the Government on this occasion in order for these decisions to be taken in Wales, and then have your argument about the ins and outs with the Government of the day.

Mae hwn yn fater o egwyddor gyfansoddiadol. Gallwn benderfynu ar fanylion y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol rywbryd arall. Rwyf fi, yn un, yn teimlo'n gryf iawn bod hyn yn ymgais i osgoi'r trefniadau cyfansoddiadol rhwng y lle hwn a San Steffan a'r memoranda dealltwriaeth gwahanol sydd wedi cael eu rhoi ar waith. Credaf ei bod yn berygl ildio'r pethau hynny. Rhaid imi ddweud wrth y Ceidwadwyr gyferbyn: mae'n berygl ildio'r egwyddor honno. Rydych yn dymuno bod yn y Llywodraeth un dydd, ac nid ydych am i Lywodraeth yn San Steffan ddweud wrthyb beth y dylech fod yn ei wneud yng Nghymru. Os gwelwch yn dda, meddyliwch: mae hwn yn fater o sut y byddwn yn trefnu pethau'n gyfansoddiadol yng Nghymru. Cefnogwch y Llywodraeth ar yr achlysur hwn er mwyn i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud yng Nghymru, ac yna cynhaliwch eich dadl am y manylion gyda Llywodraeth y dydd.

18:14

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I call the Deputy Minister to reply to the debate—in three minutes.

Galwaf ar y Dirprwy Weinidog i ateb y ddadl—mewn tri munud.

18:14

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd / The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

I thank everybody who has taken part this afternoon. It would be very difficult and remiss of me to start my remarks without congratulating Bill Powell. He managed to speak for five minutes without any of us in the Chamber knowing whether he was speaking for against the motion. [Laughter.] I have to say to him and his friends in the Welsh Liberal Democrats that we all know that this is not a matter on which you agree with your colleagues in Westminster, and I would hope that the points that were just very well made by Simon Thomas will guide you this afternoon. All five of you in this Chamber have worked hard to sustain this place and to build it. It is important that the settlement is not circumvented at the convenience of Ministers in the UK Government who care nothing for our democracy and democratic structures here. I hope that you will reconsider how you vote.

Diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan y prynhawn yma. Byddai'n anodd iawn ac esgeulus ar fy rhan i ddechrau fy sylwadau heb longyfarch Bill Powell. Llwyddodd i siarad am bum munud heb i neb ohonom yn y Siambur wybod a oedd yn siarad o blaid y cynnig ynteu yn ei erbyn. [Chwerthin.] Rhaid imi ddweud wrtho ef a'i ffrindiau yn Nemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ein bod i gyd yn gwybod nad ydych yn cytuno â'ch cydweithwyr yn San Steffan am y mater hwn, a byddwn yn gobeithio y bydd y pwyntiau a wnaeth Simon Thomas yn dda iawn yn eich arwain y prynhawn yma. Mae pob un o'r pump ohonoch yn y Siambur hon wedi gweithio'n galed i gynnal y lle hwn, ac i'w adeiladu. Mae'n bwysig nad yw'r setliad yn cael ei osgoi er cyfleustra i Weinidogion yn Llywodraeth y DU nad ydynt yn hidio dim am ein democratiaeth a'n strwythurau democrataidd yma. Gobeithiaf y gwnewch ailystyried sut y byddwch yn pleidleisio.

The timing of this is not of my choosing. I was not given any warning that the UK Government was going to lay these amendments in the House of Lords before Christmas. We have laid this motion today to defend the rights of the Assembly. This matter has been scrutinised by the Environment and Sustainability Committee—I gave evidence to that committee last November. Antoinette is shaking her head, but she was in the room. It is important to recognise that this place has sufficiently strong and robust processes to ensure that scrutiny takes place.

Antoinette Sandbach a gododd—

Nid fi a ddewisodd amseriad hyn. Ni chefais ddim rhybudd bod Llywodraeth y DU yn mynd i osod y diwygiadau hyn yn Nhŷ'r Arglwyddi cyn y Nadolig. Rydym wedi gosod y cynnig hwn heddiw i ddiogelu hawliau'r Cynulliad. Mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi craffu ar y mater hwn—rhoddais dystiolaeth i'r pwyllgor hwnnw fis Tachwedd diwethaf. Mae Antoinette yn ysgwyd ei phen, ond roedd hi yn yr ystafell. Mae'n bwysig cydnabod bod gan y lle hwn brosesau digon cryf a chadarn i sicrhau bod craffu yn digwydd.

Antoinette Sandbach rose—

18:16

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am not taking any interventions now.

I meet representatives of the agricultural community week after week, month after month. Not once has a single representative of the community come to me and said that the Agricultural Wages Board is a difficulty for Welsh farming or that it should be abolished. Not once in our monthly meetings has the NFU said that. Not once in our monthly meetings has the FUW said that. Not once in our regular meetings has the YFC said that. Not one person, here or elsewhere, said that this causes a difficulty for Welsh agriculture in contributing to Gareth Williams's work on regulation in the industry in 'Working Smarter' last year.

This is protection for people working in Welsh agriculture—a point that was made in a different context by the leader of the Welsh Liberal Democrats last week. This is about wage levels and income levels for people who work in agriculture. It is about skills, training and building the industry that we were talking about shaping earlier. Let me say this: it is important that we recognise that we have the right to legislate in this field and the ability to work in this field, and that it is correctly a protocol for the National Assembly, and we will protect the integrity of the industry and of this place. I hope that Members will reject this legislative consent motion today. I hope that we will join together and say that we will work hard to support the agricultural industry, we will work hard to make that industry efficient and we will work hard to ensure that we have an agricultural industry that not only provides and creates world-class produce for us in Wales, but, at the same time, underpins a strong economic base for rural communities. That means that we need to ensure that everybody working in that industry is well protected. I propose that we do not support the motion this afternoon.

Nid wyf yn cymryd dim ymyriadau nawr.

Rwyf yn cyfarfod â chynrychiolwyr y gymuned amaethyddol wythnos ar ôl wythnos, fis ar ôl mis. Nid oes un cynrychiolydd o'r gymuned erioed wedi dod ataf a dweud bod y Bwrdd Cyflogau Amaethyddol yn anhawster i ffermio yng Nghymru, nac y dylid ei ddiddymu. Nid yw'r NFU wedi dweud hynny unwaith yn ein cyfarfodydd misol. Nid yw Undeb Amaethwyr Cymru wedi dweud hynny unwaith yn ein cyfarfodydd misol. Nid yw CFFI wedi dweud hynny unwaith yn ein cyfarfodydd misol. Ni ddywedodd neb, yma nac yn unrhyw le arall, fod hyn yn achosi anhawster i amaethyddiaeth Cymru wrth gyfrannu at waith Gareth Williams ar reoleiddio yn y diwydiant yn 'Hwyluso'r Drefn' y llynedd.

Amddiffyniad i bobl sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth yng Nghymru yw hyn—pwynt a wnaed mewn cyd-destun gwahanol gan arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yr wythnos diwethaf. Mae hyn yn fater o lefelau cyflog a lefelau incwm i bobl sy'n gweithio mewn amaethyddiaeth. Mae'n fater o sgiliau, hyfforddiant ac adeiladu'r diwydiant yr oeddem yn sôn am ei lunio'n gynharach. Gadewch imi ddweud hyn: mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod gennym yr hawl i ddeddfu yn y maes hwn a'r gallu i weithio yn y maes hwn, a'i bod yn gywir ei fod yn un o brotocolau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac y byddwn yn diogelu uniondeb y diwydiant a'r lle hwn. Gobeithiaf y bydd Aelodau'n gwrthod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn heddiw. Gobeithiaf y byddwn yn ymuno â'n gilydd i ddweud y byddwn yn gweithio'n galed i gefnogi'r diwydiant amaethyddol, y byddwn yn gweithio'n galed i wneud y diwydiant hwnnw'n effeithlon ac y byddwn yn gweithio'n galed i sicrhau, nid yn unig bod ein diwydiant amaethyddol yn darparu ac yn creu cynnyrch o safon fyd-eang i ni yng Nghymru, ond, ar yr un pryd, ei fod yn tanategu sylfaen economaidd gref i gymunedau gwledig. Mae hynny'n golygu bod angen ini sicrhau bod pawb sy'n gweithio yn y diwydiant hwnnw'n cael ei ddiogelu'n dda. Cynigïaf nad ydym yn cefnogi'r cynnig y prynhawn yma.

18:18

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there is objection. I therefore defer all voting until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Y cwestiwn yw a ddyliid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad. Felly, gohirïaf yr holl bleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol - Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus

Legislative Consent Motion - Public Service Pensions Bill

Cynnig NDM5055 Jane Hutt
Motion NDM5055 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried darpariaethau Bil Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Cyffredin ar 13 Medi 2012 sy'n ymwneud â'r cyfyngiadau sydd i'w cymhwyso i'r cynlluniau pensiwn newydd ar gyfer cyrff cyhoeddus, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions of the Public Service Pensions Bill as introduced into the House of Commons on 13 September 2012 relating to the restrictions to be applied to new pension schemes for public bodies, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

18:18

Jane Hutt [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The UK Government introduced the Public Service Pensions Bill into Parliament in September of last year and is aiming for it to achieve Royal Assent by the end of the current parliamentary term. The Bill provides the legislation required to bring about the UK Government reforms to public sector pensions. The vast majority of public sector pension arrangements in Wales will fall under the changes outlined in the Bill, as these are non-devolved matters. However, the National Assembly for Wales has legislative competence for any new pension arrangements for Assembly Members and local government councillors that could be considered in the future. It is this competence that has triggered the consent motion being discussed today.

Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Senedd ym mis Medi'r llynedd ac mae'n anelu at ei weld yn cyflawni Cydsyniad Brenhinol erbyn diwedd y tymor seneddol presennol. Mae'r Bil yn darparu'r deddfwriaeth sy'n ofynnol i sicrhau diwygiadau Llywodraeth y DU i bensiynau sector cyhoeddus. Bydd y mwyafrif helaeth o drefniadau pensiwn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn dod o dan y newidiadau a amlinellir yn y Bil, gan fod y rhain yn faterion nad ydynt wedi'u datganoli. Fodd bynnag, mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer unrhyw drefniadau pensiwn newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a chynghorwyr llywodraeth leol y gellid eu hystyried yn y dyfodol. Y cymhwysedd hwn sydd wedi ysgogi'r cynnig cydsyniad sy'n cael ei drafod heddiw.

I am grateful to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering the legislative consent motion and producing its report. I have also considered the Assembly Commission's views very carefully. In clarifying points, the existing pension arrangements for Assembly Members are outside the scope of the Bill. The parts of the Bill with which we are concerned will only apply to potential new pension schemes being considered in the future.

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol a chynhyrchu ei adroddiad. Rwyf hefyd wedi ystyried barn Comisiwn y Cynulliad yn ofalus iawn. Mewn egluro pwyntiau, mae'r trefniadau pensiwn presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad y tu allan i gwmpas y Bil. Bydd y rhannau o'r Bil yr ydym yn ymwneud â nhw yn berthnasol yn unig i gynlluniau pensiwn newydd posibl fydd yn cael eu hystyried yn y dyfodol.

The National Assembly for Wales has far less devolved competency related to public service pensions than other devolved administrations. The Scottish Parliament has competence for pension arrangements relating to a substantial number of its public service workforce, including sponsored bodies and some judicial posts. The Northern Ireland Executive has responsibility for pension arrangements for teachers, police, the civil service, firefighters and the health service.

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd datganoledig llawer llai sy'n ymwneud â phensiynau gwasanaeth cyhoeddus na gweinyddiaethau datganoledig eraill. Mae gan Senedd yr Alban gymhwysedd ar gyfer trefniadau pensiwn sy'n ymwneud â nifer sylweddol o'i gweithlu gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cyrff a noddir a rhai swyddi barnwrol. Mae gan Weithrediaeth Gogledd Iwerddon gyfrifoldeb am drefniadau pensiwn ar gyfer athrawon, yr heddlu, y gwasanaeth sifil, diffoddwyr tân a'r gwasanaeth iechyd.

The Bill does not impact on the present pension scheme for Assembly Members, as I said, and HM Treasury has confirmed that the Bill does not constrain any changes being considered by the Assembly Commission remuneration board. I would hope that Members agree that it would be fair and equitable for the Assembly to align with changes impacting across the Welsh public sector workforce as a whole. I commend the motion to Members.

Nid yw'r Bil yn effeithio ar y cynllun pensiwn presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad, fel y dywedais, ac mae Trysorlyf EM wedi cadarnhau nad yw'r Bil yn cyfyngu ar unrhyw newidiadau sy'n cael eu hystyried gan fwrdd tâl Comisiwn y Cynulliad. Byddwn yn gobeithio bod yr Aelodau'n cytuno y byddai'n deg a chyfiawn i'r Cynulliad gyd-fynd â newidiadau sy'n cael effaith ar draws gweithlu sector cyhoeddus Cymru yn ei chyfanrwydd. Cymeradwyaf y cynnig i'r Aelodau.

18:20 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding.

Galwaf ar Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:20 **David Melding** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

This LCM was referred to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for scrutiny on 9 October by the Business Committee. We first considered it on 22 October. As a consequence of our deliberations we subsequently wrote to the Minister seeking clarification about the implications of the proposals for the pension arrangements of members of the Welsh Language Tribunal, Assembly Members and Ministers. In particular, our letter of 24 October noted that the Bill included provisions that may affect the remuneration board's ability to remake the Assembly Members' pension scheme in future. It also highlighted the board's consultation on issues and options prior to a full review of the Assembly's pensions arrangements, and suggested that the Assembly Commission should have the opportunity to take a formal view on the LCM before it was considered in Plenary. In responding, the Minister clarified, to our satisfaction, the issues we raised concerning the pension arrangements of members of the Welsh Language Tribunal and also extended the timescale for consideration of the LCM to allow the Assembly Commission to consider it in relation to the Assembly Members' pension scheme.

Cafodd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn ei gyfeirio at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar gyfer craffu ar 9 Hydref gan y Pwyllgor Busnes. Cafodd ei ystyried gyntaf gennym ar 22 Hydref. O ganlyniad i'n trafodaethau ysgrifennwyd at y Gweinidog yn gofyn am eglurhad ynglŷn â goblygiadau'r cynigion ar gyfer trefniadau pensiwn aelodau o Dribiwnlys y Gymraeg, Aelodau a Gweinidogion y Cynulliad. Yn benodol, roedd ein llythyr ar 24 Hydref yn nodi bod y Bil yn cynnwys darpariaethau a allai effeithio ar allu'r bwrdd taliadau i ail-wneud cynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad yn y dyfodol. Mae hefyd yn tynnu sylw at ymgynghoriad y bwrdd ar faterion ac opsiynau cyn adolygiad llawn o drefniadau pensiynau'r Cynulliad, ac awgrymodd y dylai Comisiwn y Cynulliad gael cyfle i gymryd golwg ffurfiol ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyn iddo gael ei ystyried yn y Cyfarfod Llawn. Wrth ymateb, eglurodd y Gweinidog, er ein boddhad, y materion a godwyd gennym ynghylch trefniadau pensiwn aelodau o Dribiwnlys y Gymraeg a hefyd ymestynnodd yr amserlen ar gyfer ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol i ganiatáu i Gomisiwn y Cynulliad ei ystyried mewn perthynas â chynllun pensiwn Aelodau'r Cynulliad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

On 3 December we considered the Assembly Commission's views on the proposals, as set out in a letter from the Presiding Officer to the Minister dated 29 November. We reported to the Assembly on 3 January. Before I outline our conclusions, it might be helpful if I clarify the extent of the National Assembly's legislative competence in relation to pensions, although the Minister herself has made some reference to this. The provisions to which the LCM refers come within the National Assembly's legislative competence under headings 4, 'Economic Development', and 13, 'National Assembly for Wales', of Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. While there is no subject relevant to pensions under heading 4, certain pension schemes do come within the Assembly's legislative competence by virtue of a carve-out from an exception under heading 4. This carve-out effectively provides the National Assembly with powers to make pension schemes in respect of Assembly Members and Welsh Ministers, as well as local authorities. It was a corresponding power in Schedule 5 to the 2006 Act that was used to make the National Assembly for Wales (Remuneration) Measure 2010.

Ar 3 Rhagfyr gwnaethom ystyried barn Comisiwn y Cynulliad ar y cynigion, fel y'i nodwyd mewn llythyr gan y Llywydd at y Gweinidog dyddiedig 29 Tachwedd. Fe wnaethom adrodd i'r Cynulliad ar 3 Ionawr. Cyn i mi amlinellu ein casgliadau, gallai fod yn ddefnyddiol os byddaf yn egluro hyd a lled cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas â phensiynau, er bod y Gweinidog ei hun wedi gwneud rhai cyfeiriadau at hyn. Mae'r darpariaethau y mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn cyfeirio atynt yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol o dan benawdau 4, 'Datblygu Economaidd', a 13, 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru', o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Er nad oes pwnc sy'n berthnasol i bensiynau o dan bennawd 4, mae rhai cynlluniau pensiwn penodol yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad yn rhinwedd dyraniad o eithriad o dan bennawd 4. Mae'r dyraniad hwn yn rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol bwerau i lunio cynlluniau pensiwn mewn perthynas ag Aelodau'r Cynulliad a Gweinidogion Cymru, yn ogystal ag awdurdodau lleol. Roedd pŵer cyfatebol yn Atodlen 5 i Ddeddf 2006 a ddefnyddiwyd i wneud y Mesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

I now move to the conclusions of our report. We noted the Assembly Commission's view that the Public Service Pensions Bill, as currently drafted, had the potential to undermine Assembly legislation and that the pension scheme for Welsh Ministers and Assembly Members should be excluded from the Bill. We noted that the Bill is likely to require consent from the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly, although we understood at that time that no equivalent legislative consent motions had been tabled in these jurisdictions. Indeed, since then, it has emerged that schemes within the competence of the Scottish Parliament and the Northern Ireland Assembly will be extracted from the Bill at the express request of the Scottish Government and the Northern Ireland Executive.

In conclusion, we said that the Welsh Government should consider very carefully the views of the Assembly Commission and that the Government could benefit from further discussions on this important issue with the UK Government and other devolved administrations. We also said that very careful consideration should be given to postponing the debate on the legislative consent motion until such time as such discussions have been successfully concluded. We note and welcome the postponement of the debate from 8 January to today. In light of our conclusions, it would be helpful if the Minister could clarify whether she has had any discussions with the UK Government and other devolved administrations since we reported and, if so, explain the outcome of those discussions. I am sure that Members, in listening to this debate, will recognise that some of the issues that were raised in the previous debate could impinge on what we may do this afternoon with this LCM.

18:25

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fel y mae Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol newydd ei grybwyll, mae Plaid Cymru yn gweld y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ger ein bron heddiw fel mater o egwyddor—nid ydym yn disgwyl gweld yr un fath o wres o gwmpas y mater hwn, ond ni allwn dderbyn y cynnig fel y mae. Yn fras iawn, gan fod David Melding eisoes wedi gosod allan sut mae hyn o fewn ein cymhwysedd deddfwriaethol presennol, mae Plaid Cymru o'r farn na ddylwn felly roi caniatâd i San Steffan ddeddfu yn y maes hwn y tro hwn nac yn y dyfodol.

Mae'n bwysig tanlinellu, er bod rhan o'r peth yr ydym yn trafod, fel mae'n digwydd, yn ymwneud â phensiynau Aelodau'r Cynulliad, nid ceisio amddiffyn pensiynau Aelodau'r Cynulliad yr ydym yn ei wneud. Mae'r mater hwnnw eisoes wedi ei allanoli i fwrdd annibynnol, sef y bwrdd taliadau. Yr hyn rydym yn ceisio ei wneud fan hyn yw amddiffyn y setliad cyfansoddiadol presennol, sydd wedi caniatáu i'r mater bach arbennig hwn, sy'n cynnwys awdurdodau lleol hefyd, i aros y tu mewn i gwmpawd a chymhwysedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Symudaf yn awr at gasgliadau ein hadroddiad. Rydym yn nodi barn Comisiwn y Cynulliad bod y potensial gan y Bil Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus, fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, i danseilio deddfwriaeth y Cynulliad ac y dylai'r cynllun pensiwn ar gyfer Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Cynulliad gael ei eithrio o'r Bil. Roeddem yn nodi bod y Bil yn debygol o fod angen caniatâd gan Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, er ein bod yn deall ar y prydd nad oes cynnig cydsyniad deddfwriaethol cyfatebol wedi cael eu cyflwyno yn yr awdurdodaethau hyn. Yn wir, ers hynny, mae wedi dod i'r amlwg y bydd cynlluniau o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon yn cael ei dynnu o'r Bil ar gais penodol Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

I gloi, dywedasom y dylai Llywodraeth Cymru ystyried barn Comisiwn y Cynulliad yn ofalus iawn ac y gallai'r Llywodraeth elwa o drafodaethau pellach ar y mater pwysig hwn gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill. Dywedasom hefyd y dylid rhoi ystyriaeth ofalus iawn i ohirio'r ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hyd nes y bydd trafodaethau o'r fath wedi eu cwblhau yn llwyddiannus. Rydym yn nodi ac yn croesawu gohirio'r ddadl o 8 Ionawr tan heddiw. Yng ngoleuni ein casgliadau, byddai'n ddefnyddiol pe gallai'r Gweinidog egluro a yw wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill ers inni adrodd ac, os felly, egluro canlyniad y trafodaethau hynny. Rwy'n siŵr bod Aelodau, wrth wrando ar y ddadl hon, yn cydnabod y gallai rhai o'r materion a godwyd yn y ddadl flaenorol amharu ar yr hyn y gallwn ei wneud y prynhawn yma gyda'r memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn.

As the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee has just mentioned, Plaid Cymru views the legislative consent motion before us today as a matter of principle—we do not expect the same kind of heat about this issue, but we cannot support the motion as it stands. Broadly, as David Melding has already set out how this lies within the context of our current legislative competence, Plaid Cymru is of the view that we should not, therefore, give Westminster permission to legislate in this area this time or in the future.

It is important to emphasise that, although part of what we are discussing, as it happens, relates to Assembly Members' pensions, we are not trying to protect Assembly Members' pensions here. That matter has already been transferred out to an independent board, the remuneration board. What we are trying to do here is to protect the current constitutional settlement, which has allowed this particular small issue, which also covers local authorities, to remain within the remit and competence of the National Assembly for Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Soniodd David Melding am y ddeddfwriaeth y tu ôl i hwn, ac mae'n bwysig tanlinellu bod dau Orchymyn wedi bod yn y gorffennol, yn 2007 a 2010, a, bob tro, roedd yn teimlo ei bod yn briodol bod y cymhwysedd hwn yn aros gyda'r Cynulliad. Rwy'n gyndyn iawn felly i ildio'r egwyddor hon ar sail rhywbeth sy'n gyfleus i'r Trysorlys ar gyfer trefnu pensiynau yn gyffredinol yn y sector cyhoeddus. Ar y pwynt hwnnw, felly, ac ar y pwynt ehangach fod cydsyniad arall wedi ei wneud yng nghyd-destun Gogledd Iwerddon a'r Alban—ac mae'r ddwy wlad hynny wedi eu heithrio o'r ddarpariaeth hon oherwydd trafodaethau rhwng y Llywodraeth yno a Llywodraeth San Steffan—rwy'n gyndyn iawn, ac mae Plaid yn gyndyn iawn, i gydnabod bod angen y cynnig cydsyniad hwn. Rydym am gadw'r cymhwysedd hwn y tu mewn i Gymru.

Yn olaf, er bod hyn efallai yn ffantasiol, rydym yn edrych fan hyn i amddiffyn hawliau y byddwn eu heisiau o bosibl wrth adrefnu llywodraeth leol ac efallai cyfansoddiad Cymru a Phrydain, ac wrth i'r Senedd hon dyfu'n Senedd wahanol efallai, wrth i bethau ddatblygu, i wneud y ddarpariaeth mwyaf priodol ar y pryd. Felly, rwy'n gofyn i'r Cynulliad beidio â chefnogi'r cynnig hwn.

18:27

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I start, I should note that I am a Member of the local government pension scheme as a local government councillor, and I am also a beneficiary of a civil service pension, which was frozen before I took my seat as an Assembly Member. Therefore, I declare those particular interests.

Although the Welsh Government currently has power over councillors' pensions, as I understand it, it does not have the competence to change the local government pension as such. My problem with opposing this—the Welsh Liberal Democrats will be voting for this LCM—is that whereas Scotland has a much wider competence in terms of pension provision, as has Northern Ireland, the Welsh Government and the Assembly's competence is quite narrow. As I understand it, it is confined entirely to Assembly Members and local councillors, and, as such, I would find great difficulty in saying to the UK Government that we want to exempt ourselves from this Bill, which would, effectively, mean putting in an amendment to the Bill saying that Welsh Assembly Members' pensions are exempt from these provisions. I think that that would reflect badly on us and would send the wrong message to the public in terms of how it would be done. For that reason, I am happy to accept that, in this particular instance, we will accede to the UK Government's request to include those particular provisions. However, we have the caveat that, at some stage in the future, we would still have the competence to legislate on those particular issues. Therefore, although we are, effectively, giving a power back to Westminster, we have that competence to come back and legislate in the future.

David Melding mentioned the legislation behind this, and it is important to emphasise that there have been two Orders in the past, in 2007 and 2010, and, on each occasion, it was felt appropriate that this competence should remain with the Assembly. I am very reluctant therefore to yield on this principle on the basis of something that it is convenient for the Treasury in organising pensions in general in the public sector. On that point, therefore, and on the broader point that another consent has been made in relation to Northern Ireland and Scotland—and both of those countries have been exempted from this provision because of discussions between the Governments there and the Westminster Government—I am very reluctant, as is the Party of Wales, to acknowledge that this LCM is required. We want to keep this competence within Wales.

Finally, although this may be wishful thinking, we are looking here to protect the rights that we may want in future in reorganising local government and perhaps the constitution of Wales and Britain, as this Senedd grows into a different parliament perhaps, and as things develop, in order to make the most appropriate provision at the time. Therefore, I ask the Assembly not to support his motion.

Cyn imi ddechrau, dylwn nodi fy mod yn Aelod o'r cynllun pensiwn llywodraeth leol fel cynghorydd llywodraeth leol, ac rwyf hefyd yn fuddiolwr o gynllun pensiwn y gwasanaeth sifil, a gafodd ei rewi cyn i mi gymryd fy sedd fel Aelod Cynulliad. Felly, rwy'n datgan y buddiannau penodol hynny.

Er bod gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd bŵer dros bensiynau cynghorwyr, fel y deallaf, nid oes ganddi'r gallu i newid y pensiwn llywodraeth leol fel y cyfryw. Fy mhroblem i gyda gwrthwynebu hyn—bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn pleidleisio dros y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol hwn—yw tra bod gan yr Alban gymhwysedd llawer ehangach o ran darpariaeth pensiwn, fel y mae gan Gogledd Iwerddon, mae cymhwysedd Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad yn eithaf cul. Yn ôl a ddeallaf, mae'n cael ei gyfyngu'n gyfan gwbl i Aelodau'r Cynulliad a chynghorwyr lleol, ac, fel y cyfryw, byddwn yn cael anhawster mawr mewn dweud wrth Lywodraeth y DU ein bod am eithrio ein hunain o'r Bil hwn, a fyddai, yn effeithiol, yn golygu rhoi gwelliant yn y Bil yn dweud bod pensiynau Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael eu heithrio o'r darpariaethau hyn. Rwy'n credu y byddai hynny'n adlewyrchu'n wael arnom ni ac y byddai'n anfon y neges anghywir i'r cyhoedd o ran sut y byddai'n cael ei wneud. Am y rheswm hwnnw, rwy'n hapus i dderbyn, yn yr achos penodol hwn, y byddwn yn cytuno i gais Llywodraeth y DU i gynnwys y darpariaethau penodol hynny. Fodd bynnag, mae gennym y cafeat, ar ryw adeg yn y dyfodol, y byddai'r cymhwysedd yn dal gennym i ddeddfu ar y materion penodol hynny. Felly, er ein bod, yn effeithiol, yn rhoi pŵer yn ôl i San Steffan, mae gennym y cymhwysedd i ddod yn ôl a deddfu yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

18:29 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to you for giving way on that point, Peter. I just wanted to be clear that, although I accept his point that Scotland, in particular, has more powers in this regard, the same principle has been employed in carving out Scotland and Northern Ireland from the provisions in Westminster. We are asking for the same principle to be employed here. How far the principle goes is another matter.

Rwy'n ddiolchgar ichi am ildio ar y pwynt hwnnw, Peter. Rwyf am fod yn glir, er fy mod yn derbyn ei bwynt bod gan yr Alban, yn arbennig, fwy o bwerau yn hyn o beth, mae'r un egwyddor wedi cael ei defnyddio mewn dyrannu'r Alban a Gogledd Iwerddon oddi wrth y darpariaethau yn San Steffan. Rydym yn gofyn am i'r un egwyddor gael ei defnyddio yma. Mae pa mor bell y mae'r egwyddor yn mynd yn fater arall.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:29 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As I understand it, Scotland did not lay an LCM at all, because it did not have the time to consult. In Northern Ireland, an LCM was laid, but was then voted down. Northern Ireland decided that it wanted to take back that competence. However, once again, Northern Ireland always has wider powers than we do in terms of the wider civil service and other boards for which it is responsible. Therefore, exempting Scotland and Northern Ireland is not just a matter of exempting their particular politicians, but also exempting a much wider cohort of people who would be entitled to those pensions. That would be very different in terms of the National Assembly and the way in which we would apply that.

Fel y deallaf, ni wnaeth yr Alban osod cynnig cydsyniad deddfwriaethol o gwbl, oherwydd nad oedd ganddynt yr amser i ymgynghori. Yng Ngogledd Iwerddon, cafodd cynnig cydsyniad deddfwriaethol ei osod, ond cafodd ei drechu. Penderfynodd Gogledd Iwerddon ei bod yn awyddus i gymryd y cymhwysedd hwnnw yn ôl. Fodd bynnag, unwaith eto, mae Gogledd Iwerddon bob amser wedi cael pwerau ehangach nag sydd gennym ni o ran y gwasanaeth sifil ehangach a byrddau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt. Felly, nid yw eithrio'r Alban a Gogledd Iwerddon yn fater o eithrio eu gwleidyddion arbennig yn unig, ond hefyd eithrio carfan lawer ehangach o bobl a fyddai â hawl i gael y pensiynau hynny. Byddai hynny'n wahanol iawn o ran y Cynulliad Cenedlaethol a'r ffordd y byddem yn defnyddio hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Therefore, my view and that of the Welsh Liberal Democrats is that this LCM is appropriate. It would be very difficult to seek an exemption in this particular case and, clearly, we should support it. However, we have that power at some stage to legislate in our own right if we wish to do so. In that sense, this could be viewed as a temporary measure if such legislation ever came forward.

Felly, fy marn i, a barn Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yw bod y cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn briodol. Byddai'n anodd iawn ceisio eithriad yn yr achos arbennig hwn, ac, yn amlwg, dylem ei gefnogi. Fodd bynnag, mae gennym y pŵer hwnnw ar ryw adeg i ddeddfu yn ein hawl ein hunain os ydym yn dymuno gwneud hynny. Yn yr ystyr hwnnw, gallai hyn gael ei weld fel mesur dros dro pe byddai deddfwriaeth o'r fath yn dod ymlaen byth.

18:31 **Jane Hutt** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ / The Minister for Finance and Leader of the House

I thank the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee, David Melding, not only for his report but for recognising in this debate that I have responded to the issues and questions raised by the committee and for clarifying points in relation to the fire and rescue services and the Welsh language tribunal pension arrangements in particular. I am grateful for the account of his exchange, and recognition that he asked me to consider very carefully the views of the Assembly Commission, which I did. He asked me about discussions with the UK Government on this matter. This matter was subject to discussion at a quadrilateral meeting of Ministers of finance. The LCM was sought by HM Treasury to address the way in which the UK Government's Bill impacts on existing Assembly competence to create new pension schemes in future. It was helpful to have that discussion with colleagues, the Ministers for finance from the other devolved administrations.

Diolch i Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, David Melding, nid yn unig am ei adroddiad ond am gydnabod yn y ddadl hon fy mod wedi ymateb i'r materion a'r cwestiynau a godwyd gan y pwyllgor ac am egluro pwyntiau mewn perthynas â'r gwasanaethau tân ac achub a threfniadau pensiwn tribiwnlysoedd y Gymraeg yn arbennig. Rwy'n ddiolchgar am hanes ei sgysiau, a chydabyddiaeth ei fod wedi gofyn i mi ystyried yn ofalus iawn farn Comisiwn y Cynulliad, a gwneuthum hynny. Gofynnodd i mi ynghylch y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar y mater hwn. Roedd y mater hwn yn destun trafodaeth mewn cyfarfod pedairochrog o Weinidogion cyllid. Ceisiwyd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol gan Drysorlys EM i fynd i'r afael â'r ffordd y mae Bil Llywodraeth y DU yn effeithio ar gymhwysedd presennol y Cynulliad i greu cynlluniau pensiwn newydd yn y dyfodol. Roedd yn ddefnyddiol cael y drafodaeth honno gyda chydweithwyr, a'r Gweinidogion cyllid o'r gweinyddiaethau datganoledig eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, as Peter Black has said—just to clarify once again—there are significantly more powers relating to pension matters in Scotland and Northern Ireland. I repeat once again that in Scotland, these extend to pension arrangements for sponsored bodies and the judiciary and in Northern Ireland, they extend to teachers, police, the civil service, firefighters and health provisions. To clarify their position, the Scottish Government decided not to table an LCM motion as it felt that there was insufficient time for consultation and the Northern Ireland Assembly voted against the LCM, but intends to create legislation similar to the UK Pensions Bill. The Northern Ireland Executive estimates that this decision will cost it £260 million per year until their own Bill is passed.

It is important that we recognise the issues that have been raised by Simon Thomas and that this is a point that we have to consider carefully in terms of the principle of competence. However, as Peter Black has said, it is a very small area of competence relating only to our pension arrangements and those of local government councillors if there was any possibility of a change or a development of new pension arrangements. I know that Members understand, as I have said, that this Bill relates only to the creation of new pension schemes; it does not impact upon existing pension arrangements for Assembly Members or the review that is currently taking place by the Assembly Commission remuneration board.

In conclusion, the Welsh Government's view is that we need to support the LCM. Pension changes will impact on wider public services in Wales and there is no desire to create schemes outside the changes being imposed elsewhere in Wales, nor is there a desire to fund separate arrangements through Welsh budgets. As Peter Black has said, there are serious issues of concern around public interest and the prospect of establishing new schemes for Assembly Members that might be seen as being more beneficial than other public sector schemes. Therefore, it is on that basis that I move the LCM on behalf of the Welsh Government.

Fodd bynnag, fel y mae Peter Black wedi dweud—dim ond i egluro unwaith eto—mae llawer mwy o bwerau yn ymwneud â materion pensiwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Rwy'n ailadrodd unwaith eto, yn yr Alban mae'r rhain yn ymestyn i drefniadau pensiwn ar gyfer cyrff a noddir a'r farnwriaeth ac yng Ngogledd Iwerddon, maent yn ymestyn at athrawon, yr heddlu, y gwasanaeth sifil, diffoddwyr tân a darpariaethau iechyd. Er mwyn egluro eu sefyllfa, penderfynodd Llywodraeth yr Alban beidio â chynnig cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gan ei bod yn teimlo nad oedd digon o amser ar gyfer ymgynghori a phleidleisiodd Cynulliad Gogledd Iwerddon yn erbyn y cynnig cydsyniad deddfwriaethol, ond mae'n bwriadu creu deddfwriaeth debyg i Fil Pensiwnau'r DU. Mae Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn amcangyfrif y bydd y penderfyniad hwn yn costio £260 miliwn y flwyddyn hyd nes y bydd eu Bil ei hun yn cael ei basio.

Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod y materion sydd wedi'u codi gan Simon Thomas, a bod hwn yn bwynt y mae'n rhaid inni ei ystyried yn ofalus o ran yr egwyddor o gymhwysedd. Fodd bynnag, fel y mae Peter Black wedi'i ddweud, mae'n ardal fach iawn o gymhwysedd sy'n ymwneud yn unig â'n trefniadau pensiwn a rhai cynghorwyr llywodraeth leol pe byddai unrhyw bosibilrwydd o newid neu ddatblygu trefniadau pensiwn newydd. Gwn fod Aelodau yn deall, fel y dywedais, bod y Bil hwn yn ymwneud yn unig â chreu cynlluniau pensiwn newydd, nid yw'n effeithio ar y trefniadau pensiwn presennol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad neu'r adolygiad sy'n digwydd ar hyn o bryd gan fwrdd tâl Comisiwn y Cynulliad.

I gloi, barn Llywodraeth Cymru yw bod angen cefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol. Bydd newidiadau pensiwn yn effeithio ar wasanaethau cyhoeddus ehangach yng Nghymru ac nid oes unrhyw awydd i greu cynlluniau y tu allan i'r newidiadau sy'n cael eu gosod mewn mannau eraill yng Nghymru, ac nid oes awydd i ariannu trefniadau ar wahân drwy gyllidebau Cymru. Fel y mae Peter Black wedi'i ddweud, mae materion o bryder difrifol ynghylch budd y cyhoedd a'r posibilrwydd o sefydlu cynlluniau newydd ar gyfer Aelodau'r Cynulliad y gellid eu hystyried yn fwy buddiol na chynlluniau sector cyhoeddus eraill. Felly, ar y sail honno rwy'n cynnig y cynnig cydsyniad deddfwriaethol ar ran Llywodraeth Cymru.

18:34 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Obviously, there are objections, so I will defer voting on this item until voting time.

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013

Cynnig NDM5154 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. Yn amlwg, mae gwrthwynebiad, felly gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2013

Motion NDM5154 Jane Hutt

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 27.5:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2013 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 8 Ionawr 2013.

Approves that the draft The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2013 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 8 January 2013.

18:34

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy / The Minister for Environment and Sustainable Development

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The regulations will amend the Environmental Permitting (England and Wales) Regulations 2010 in order to transpose the industrial emissions directive, which is the successor to the integrated pollution prevention and control directive and, similarly, is about minimising pollution from various industrial sources. It consolidates seven predecessor European directives into one single directive that aims to deliver greater environmental benefits, remove ambiguities, promote cost-effectiveness and encourage technological innovation. Our regulations will retain the best available techniques provision for small waste incinerators and solvent activities in Wales as we consider that necessary for the optimum protection of the environment and health.

Bydd y rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 er mwyn trosi'r gyfarwydddeb allyriadau diwydiannol, sef olynydd y gyfarwydddeb atal a rheoli llygredd integredig ac, yn yr un modd, sy'n ymwneud â lleihau llygredd o ffynonellau diwydiannol amrywiol. Mae'n cydgrynhoi saith o gyfarwydddebau rhagflaenu Ewropeaidd yn un gyfarwydddeb sengl sy'n anelu at ddarparu mwy o fanteision amgylcheddol, cael gwared ar amwysedd, hyrwyddo cost-efeithiolrwydd ac annog arloesedd technolegol. Bydd ein rheoliadau'n cadw'r ddarpariaeth technegau orau sydd ar gael i losgyddion gwastraff bach a gweithgareddau toddyddion yng Nghymru gan ein bod yn ystyried bod hynny'n angenrheidiol ar gyfer amddiffyn gorau posibl ar yr amgylchedd ac iechyd.

18:35

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers for this item, so I presume that you do not wish to reply.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr ar gyfer yr eitem hon, felly cymeraf yn ganiataol nad ydych yn dymuno ymateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:36

John Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will not respond to myself, Llywydd. Diolch yn fawr. [Laughter.]

Ni fyddaf yn ymateb i mi fy hun, Lywydd. Diolch yn fawr. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:36

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are no objections. Therefore, the motion is agreed in accordance with Standing Order No. 12.36.

Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes unrhyw wrthwynebiad. Mae'r cynnig, felly, wedi'i dderbyn, yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 12.36.

Derbyniwyd y cynnig.

Motion agreed.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

18:36

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It has been agreed that voting time will be held at the end of business. I will now move directly to the voting, unless three Members wish the bell to be rung. I see not.

Cytunwyd y bydd y cyfnod pleidleisio yn cael ei gynnal ar ddiwedd busnes. Byddaf yn awr yn symud yn syth i bleidleisio, oni bai bod tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu. Gwelaf nad oes.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cyfnod Pleidleisio

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5138](#)

Gwrthodwyd y cynnig: O blaid 18, Yn erbyn 33, Ymatal 0.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5055](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 42, Yn erbyn 8, Ymatal 0.

Voting Time

[Result of the vote on motion NDM5138](#)

Motion not agreed: For 18, Against 33, Abstain 0.

[Result of the vote on motion NDM5055](#)

Motion agreed: For 42, Against 8, Abstain 0.

18:37

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That brings today's business to a close. Thank you very much.

Daw hynny â chyfarfod heddiw i ben. Diolch yn fawr iawn.